

B B C



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
Grŵp y BBC 2023/24**

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
Grŵp y BBC **2023/24**

(h) Hawlfraint y BBC 2024

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio, lle maent yn ymddangos, yr Arfbais Frenhinol a phob logo adrannol neu asiantaethol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y BBC a nodi teitl y ddogfen. Defnyddir ffotograffau (h) BBC neu cânt eu defnyddio o dan delerau cytundeb PACT, oni nodir fel arall. Mae'n rhaid cael caniatâd deiliaid yr hawlfraint cyn atgynhyrchu unrhyw ffotograffau.

Gallwch lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn o bbc.co.uk/annualreport

Dyluniwyd gan Emperor emperor.works

Cyfieithwyd gan Prysg prysg.cymru

Paratowyd yn unol â Siarter Frenhinol y BBC 2016 (Erth.37)

ISBN 978-1-5286-4881-3

E03125260

YN YR ADRODDIAD HWN

Y BBC

2 BBC i bawb

Adroddiad Strategol

- 4 Rhagair y Cadeirydd
- 6 Adolygiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol
- 10 BBC ar gyfer y dyfodol
- 14 Cyflawni ein cylch gwaith creadigol
 - Newyddion a gwybodaeth ddiuedd
 - Dysgu i bobl o bob oedran
 - Allbwn creadigol, nodedig, o'r ansawdd gorau
 - Adlewyrchu cymunedau amrywiol y DU
 - Cyflwyno'r DU i'r byd
- 44 Ein cynulleidfaoedd
 - Sicrhau gwerth i gynulleidfaoedd
 - Ymgysylltu â chynulleidfaoedd
 - Ymgynghoriadau
- 50 Adroddiad gweithredol
 - Adolygiad y Prif Swyddog Gweithredu
 - Ein sefyllfa ariannol
 - Gwariant Grŵp PSB
 - Ein pobl
 - Hyfforddiant o'r radd flaenaf
 - Amrywiaeth a chynhwysiant yn y gweithlu a'n hadroddiad ar wybodaeth cydraddoldeb
 - Ein tablau data
 - Adroddiad ar Fwlch Cyflog y BBC
 - Cynaliadwyedd amgylcheddol
 - Gwaith elusennol
 - Partneriaethau a mentrau cydweithredol
- 75 Gweithrediadau masnachol
 - Adolygiad y Prif Swyddog Gweithredol
 - Adolygiad strategol
 - Rhagolygon

4 Adroddiad Strategol



83

Adroddiad Llywodraethu



Datganiadau ariannol

169

Adroddiad Llywodraethu

- 84 Cyflwyno ein Bwrdd
- 85 Strwythur llywodraethu
- 86 Adroddiad cydymffurfiaeth gorfforaethol
- 87 Pwyllgor Gweithredol
- 87 Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf
- 88 Adroddiad cydnabyddiaeth
- 96 Datgeliadau cyflogau
- 103 Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu
- 103 Presenoldeb ym Mhwyllgorau'r Bwrdd
- 104 Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg
- 108 Ein prif risgiau
- 121 Datganiad ynghylch hyfywedd
- 122 Adroddiad y Bwrdd Masnachol
- 123 Adroddiad y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol
- 125 Adroddiadau Pwyllgorau'r Gwledydd
- 127 Adroddiad y Pwyllgor Masnachu Teg
- 128 Adroddiad Sicrwydd Annibynnol ar Fasnachu Teg
- 129 Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd
- 130 Perfformiad yn erbyn ymrwymiadau cyhoeddus
- 140 Data perfformiad
- 153 Rhoi ein strategaeth ar waith yn 2023/24

Datganiadau ariannol

- 170 Tystysgrif ac Adroddiad C&AG ar Ddatganiadau Ariannol Grŵp y BBC
- 179 Datganiad incwm cyfunol
- 179 Datganiad cyfunol o wariant cynhwysfawr
- 180 Mantolen gyfunol
- 181 Datganiad cyfunol o newidiadau mewn ecwiti
- 182 Datganiad llif arian parod cyfunol
- 183 Themâu allweddol ar gyfer y BBC
- 184 Nodiadau i'r cyfrifon

Gwybodaeth ychwanegol

- 249 Mynegai
- 250 Credydau delweddau
- 251 Gwybodaeth gyswllt ac adborth

BBC ar gyfer y dyfodol

BBC I BAWB



Wrth wraidd bywyd cenedlaethol y DU

Mae'r BBC wedi bod wrth wraidd bywyd cenedlaethol y DU ers mwy na 100 mlynedd. Ein cenhadaeth o hyd yw hysbysu, addysgu a diddanu pawb. Ond, wrth i ni ddechrau'r oes deallusrwydd artifisial, ac oes newydd o newid technolegol cyflym, rydym am helpu i sicrhau bod y newid hwnnw er budd pawb a sicrhau nad oes neb yn cael eu gadael ar ôl. Rydym am ganolbwyntio fwyaf ar y buddiannau hollbwysig y gallwn eu cynnig i'r cyhoedd a'r DU gyfan, er mwyn helpu i atgyfnerthu democratiaeth, economi greadigol a chymdeithas y DU. Dyna pam y bydd y BBC yn blaenoriaethu tair rôl hanfodol yn y blynyddoedd i ddod: canfod y gwirionedd heb unrhyw agenda; cefnogi'r prosesau adrodd straeon cartref gorau; a dod â phobl ynghyd.

Rhif 1

brand mwyaf poblogaidd y DU ar gyfer y cyfryngau

95%

% yr oedolion yn y DU sy'n defnyddio ein gwasanaethau ar gyfartaledd bob mis (85% yr wythnos)

99%

% ein cynnwys gwreiddiol a gaiff ei wneud yn y DU – ni yw'r buddsoddwr unigol mwyaf mewn rhaglennu gwreiddiol o'r DU

Rhif 1

o ran newyddion – ni yw'r cyfrwng newyddion a ddefnyddir fwyaf ac yr ymddiriedir ynddo fwyaf yn y DU

RYDYM YN CANFOD Y GWIRIONEDD HEB UNRHYW AGENDA



Lucy Williamson, un o ohebwyr y BBC yn gohebu o Gaza

75%

% yr oedolion yn y DU sy'n defnyddio BBC News bob wythnos ar gyfartaledd – ymhell ar y blaen i'r darparwr agosaf nesaf

1.3m

nifer y bobl ifanc 12-15 oed yn y DU sy'n dilyn y newyddion gyda'r BBC – uwch nag unrhyw sefydliad arall

450m

cyflwyno llais, gwerthoedd a dylanwad y DU i gynulleidfa wythnosol o 450 miliwn o bobl ledled y byd

Rhif 1

y darparwr newyddion rhyngwladol yr ymddiriedir ynddo fwyaf ledled y byd

RYDYM YN CEFNOGI'R PROSESAU ADRODD STRAEON CARTREF GORAU



Timothy Spall yn *The Sixth Commandment* a enillodd wobwr BAFTA

£4.9bn

gwnaethom gyfrannu bron i £5 biliwn i economi'r DU y flwyddyn ddiwethaf

50%

mae hanner ein heffaith economaidd y tu allan i Lundain – o gymharu â 20% ar gyfer y diwydiant ehangach

£1=£2.63

am bob £1 o weithgarwch economaidd uniongyrchol y BBC, caiff £2.63 ei greu yn economi'r DU

14 o BAFTAs

nifer y gwobrau teledu a enillwyd yn 2024 – mwy nag unrhyw ddarlledwr neu ffrydiwr arall

RYDYM YN DOD Â PHOBL YNGHYD



King Charles III: The Coronation Year

25.2m

nifer y bobl yn y DU a gyrhaeddwyd gan ddarllediadau'r BBC ar ddiwrnod Coroni EF Y Brenin ac EM Y Frenhines Gydweddog

8.1bn

y nifer uchaf erioed o geisiadau ffrydio ar BBC iPlayer – i fyny 10% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol

7/10

cyfran y teitlau a wylwyd fwyaf yn 2023 ar draws pob darlledwr a ffrydiwr a oedd ar y BBC yn unig

5awr 44m

yr amser a dreulwyd yn gwyllo BBC TV/ iPlayer ar gyfartaledd y pen (4+), bob wythnos – mwy na'r holl brif ffrydiwr SVOD gyda'i gilydd

CANOLBWYNTIO AR Y DYFODOL



“Rwy’n ddiolchgar o fod wedi etifeddu Bwrdd sydd mor ymroddedig i’r BBC, ac sy’n barod i wynebu rhai o’r penderfyniadau anodd sydd o’n blaenau.”

Samir Shah, Cadeirydd

Fore 13 Mai eleni, roeddwn yn paratoi i gadeirio cyfarfod o Fwrdd y BBC pan dorrodd y newyddion bod un o’r arweinyddwr grwpiau troseddol y bu’r heddlu yn chwilio amdano fwyaf ledled Ewrop wedi cael ei arestio o ganlyniad uniongyrchol i bodlediad y BBC, *To Catch a Scorpion*. Ond hyd yn oed yn fwy rhyfeddol, roeddwn wedi gwahodd cyflwynydd a chynhyrchydd y podlediad, Sue Mitchell, i siarad â’r Bwrdd am y gyfres ar yr union ddiwrnod hwnnw.

Sut y daeth y BBC o hyd i smyglwr pobl y bu cryn chwilio amdano pan oedd yr heddlu a’r erlynyddwr wedi methu gwneud hynny? Rhoddodd sgwrs Sue gipolwg difyr i ni ar ansawdd newyddiaduraeth ymchwiliol yn y BBC.

Ers i mi ddechrau yn fy rôl fel Cadeirydd, rwyf wedi ceisio dechrau pob cyfarfod Bwrdd â mewnbwn creadigol. Mewn cyfarfodydd diweddar, rydym wedi clywed gan Monty Don ar y broses o greu ei gyfres *Spanish Gardens*, a gan gynhyrchwyr *Shetland*. Y rheswm pam rwy’n gwneud hyn yw: i atgoffa’r rhai hynny ohonom sydd ar frig y sefydliad ein bod yma, yn anad dim, i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael cynnwys a gwerth gwych gennym ni.

Mae’r ddogfen hon yn nodi’r modd y mae’r BBC wedi cyflawni’r uchelgais hwn dros y flwyddyn ddiwethaf. Am y rhan fwyaf o’r cyfnod hwnnw, y Fonesig Elan Closs Stephens oedd Cadeirydd y BBC, gan iddi gymryd drosodd yn dilyn ymddiswyddiad Richard Sharp ym mis Mehefin. Gwn o’m sgysiau ag Elan pa mor bwysig ydoedd iddi ailgrwpio’r Bwrdd yn gyflym a sicrhau ffocws ei ymdrechion drwy gyfnod critigol yn yr hydref, ar drafod y ffordd orau o ddiwygio ac ariannu’r BBC ar gyfer y dyfodol.

Ym mis Rhagfyr, adferodd y Llywodraeth gysylltiad â chwyddiant ar ffi’r drwydded ar ôl dwy flynedd o beidio â chael cynnydd. Arweiniodd hyn at fwy o sicrwydd ariannol yn sicr, ond roedd y cynnydd yn llai na’r disgwyl. Mae’n ganlyniad sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r BBC wneud rhagor o newidiadau ar ei gyfer ar ben yr arbedion sylweddol rydym eisoes wedi’u sicrhau.

Fel y nododd y Bwrdd ar y pryd, mae hyn wedi effeithio ar gyllidebau cynnwys y BBC, a fydd yn ei dro yn cael effaith sylweddol ar y sector creadigol ehangach ar draws y DU.

Ym mis Ionawr, roedd y Bwrdd yn falch bod Adolygiad Tymor Canol y Llywodraeth o'r Siarter wedi canfod bod systemau llywodraethu a rheoleiddio'r BBC yn gweithio'n dda ar y cyfan. Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n adeiladol â'r Llywodraeth wrth i ni agor trafodaethau ar y Siarter Frenhinol.

Hoffwn dalu teyrnged i bopeth a gyflawnodd y Fonesig Elan yn ystod ei chyfnod fel Cadeirydd, a'r modd yr aeth i'r afael â chyfnod anodd yn ddigyffro a chadarn. Rwy'n ddiolchgar o fod wedi etifeddu Bwrdd sydd mor ymroddedig i'r BBC, ac sy'n barod i wynebu rhai o'r penderfyniadau anodd sydd o'n blaenau.

Yn fuan ar ôl dechrau yn fy swydd ym mis Mawrth, pennodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol gynllun i'r BBC ar gyfer y dyfodol. Cyflwynodd Tim ddadl ddilys bod mwy o angen y BBC nag erioed o'r blaen yn y cyfnod anodd hwn. Cynigiodd ymdeimlad clir o'r hyn y dylai'r BBC ganolbwyntio arno, er mwyn gwahaniaethu ein hunain oddi wrth ddarparwyr cyfryngau eraill er mwyn cynnig rhywbeth unigryw i'n cynulleidfaoedd, ynghyd â'r ffordd orau o ariannu'r hyn rydym yn ei wneud.

Roedd y Bwrdd yn rhan fawr o'r gwaith hwn ac mae'n ei gymeradwyo'n llwyr. Credaf mai'r tair rôl blaenoriaeth a nodir yn y cynllun (gweler yr amlinelliad ar dudalennau 11-12) yw'r union feysydd cywir i'r BBC. Bydd y Bwrdd nawr yn gorchwyllo cynnydd yn erbyn y cynllun hwn.

Yn ddiweddarach, ar ddechrau mis Mai, gwnaethom gyhoeddi ein hail adolygiad thematig annibynnol ar natur ddiuedd ein hallbwn, gan ganolbwyntio ar fudo. Roedd yn ddarn gwyb o waith, a luniwyd gan Dr Madeleine Sumption, Cyfarwyddwr yr Arsyllfa Fudo, a chafodd groeso mawr. Rydym wedi derbyn ei hargymhellion yn llawn a byddwn yn eu cyflwyno dros y flwyddyn nesaf.

Emma a Harry Judd yn cystadlu yn *Celebrity Race Across The World*



Amol Rajan yn stiwdio rhaglen *Today*



Mae ein hymrwymiad i fod yn ddiuedd mor gryf ag erioed ac rydym wedi cyhoeddi y bydd yr adolygiad thematig annibynnol nesaf ar ein hallbwn yn canolbwyntio ar ba mor gywir a dilys rydym yn cyfleu ac yn cynrychioli dosbarthiadau, cymunedau a diwylliannau gwahanol ar draws y DU.

Yn fy marn i, mae bod yn wirioneddol ddiuedd yn mynd y tu hwnt i'n darllediadau newyddion eithriadol. Mae'n ymwneud â'r modd rydym yn adrodd ein straeon, yn archwilio materion ein hoes gyda chwilfrydedd meddwl agored ac yn mynd ati i ddeall a chyfleu'r amrywiaeth barn a geir yn y DU. Rhaid i bawb, pwy bynnag a ble bynnag y bônt, deimlo bod y BBC yn eu deall a'u hadlewyrchu ar yr awyr ac ar y sgrin.

Rwy'n falch o fod yn Gadeirydd y BBC ac o'r cofnod cyrhaeddiad a nodir yn yr Adroddiad Blynyddol hwn. Mae'n dangos bod y sefydliad hwn o bwys mawr i lesiant democrataidd, economaidd a chymdeithasol y DU, ac yn parhau i chwarae rôl bwysig yn y byd ehangach. Ond mae hefyd yn tanlinellu faint o waith y mae'n rhaid i ni ei wneud i warchod holl fuddiannau darlledu cyhoeddus ar gyfer cynulleidfaoedd yn y blynyddoedd i ddod.

Samir Shah

Dr Samir Shah CBE
Cadeirydd
10 Gorffennaf 2024

“Mae bod yn wirioneddol ddiuedd yn ymwneud â deall a chyfleu'r amrywiaeth barn a geir yn y DU. Rhaid i bawb, pwy bynnag a ble bynnag y bônt, deimlo bod y BBC yn eu deall a'u hadlewyrchu ar yr awyr ac ar y sgrin.”

Samir Shah, Cadeirydd

RHAGGORIAETH GREADDIGOL



“Wrth i ni edrych i’r dyfodol, rydym am ganolbwyntio ar y buddiannau hollbwysig y gallwn eu cynnig i’r cyhoedd a’r DU gyfan, a helpu i lunio’r oes newydd o newid technolegol er budd pawb.”

Tim Davie, Cyfarwyddwr Cyffredinol



Andi Osho a Nathan Braniff ar set Cyfres 2 Blue Lights

Mae'r Adroddiad hwn yn adrodd hanes rhagoriaeth greadigol barhaus y BBC, er gwaethaf tirwedd cyfryngau sy'n newid yn gyflym.

Mae'n dangos ein bod yn parhau i bennu'r safon greadigol, gan gynnig cynnwys gwych a chyflawni ar ein strategaeth o sicrhau gwerth ardderchog i bawb.

Er bod hyn yn dangos cynnydd da, mae heriau'r farchnad a'r heriau ariannol yn sylweddol o hyd wrth i ni drawsnewid y sefydliad a sicrhau ei fod dal yn berthnasol i gynulleidfaeoedd yn yr oes ar alw newydd.

Yn ystod 2023/24, denodd y BBC gynulleidfaeoedd enfawr ar gyfer adrodd straeon cartref ym mhob genre, o *Doctor Who* a *Planet Earth III* i *Ghosts* a *The Traitors*. Gwelsom raglenni yr oedd yn rhaid eu gweld o bob cwr o'r DU, fel *Blue Lights*, *Shetland*, *Steeltown Murders* a *Time*.

Gwnaethom adrodd straeon pwysig fel *The Sixth Commandment*, *Once Upon a Time in Northern Ireland* a'r rhaglen anhygoel *Ukraine: Enemy in the Woods*. A gwnaethom greu deunydd gwranddo hanfodol o *Piano Room* ar BBC Radio 2 i *The Today Podcast* i *Things Fell Apart*.

O'r deg teitl a wylwyd fwyaf yn y DU yn 2023, roedd saith gan y BBC yn unig, sy'n dangos ein pwysigrwydd a'n perthnasedd parhaus i gynulleidfaeoedd heddiw. Ac mae'r ffaith bod y deg yn straeon ac yn ddigwyddiadau o'r DU yn dangos, mewn marchnad gynyddol fyd-eang, mai straeon cartref sydd bwysicaf i gynulleidfaeoedd Prydain o hyd.

Mae'r Adroddiad hwn hefyd yn dangos bod y BBC unwaith eto wedi cyflymu ein diwygiad sefydliadol.

Rydym wedi parhau i symleiddio'r BBC i'w wneud yn fwy darbodus ac effeithlon yn y gwasanaeth cyhoeddus, tra'n tyfu ein hincwm masnachol ar yr un pryd mewn amgylchedd marchnad sy'n anoddach nag erioed. Denodd BBC iPlayer a BBC Sounds y cynulleidfaeoedd

mwyaf eto sy'n dangos pa mor benderfynol yr ydym i sicrhau bod ein harlwy ar-lein o'r radd flaenaf gan gynnig ansawdd, ehangder a pherthnasedd heb eu hail i gynulleidfaeoedd y DU.

Rydym wedi cyflawni hyn oll wrth orfod ymdrin â heriau sylweddol y flwyddyn hon, yn arbennig y craffu digynsail ar ein darllediadau o'r gwrthdaro yn y Dwyrain Canol. Hoffwn ddiolch i'n holl dimau am eu gwaith diflino yn cyflawni mor wych i'n cynulleidfaeoedd ar draws ein hallbwn.

Wrth i'r byd newid yn gyflymach nag erioed, mae'r rôl rydym yn ei chwarae ar gyfer y DU yn newid hefyd. Beth yw'r ffordd orau o gyflawni buddiannau ein cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus i bob cynulleidfa yn y blynyddoedd i ddod? Sut beth yw hysbysu, addysgu a diddanu pawb mewn oes newydd a arweinir gan ddeallusrwydd artifisial?

Dyma'r cwestiynau rydym wedi bod yn meddwl amdanynt yn ofalus dros y flwyddyn diwethaf, gyda'r nod o sicrhau ein bod yn canolbwyntio adnoddau prin ar wasanaethu ein cynulleidfaeoedd a'n cymdeithas yn y ffordd orau. Gwyddom fod y don newydd o newid technolegol yn cynnig buddiannau a chyfleoedd enfawr, ond eu bod hefyd yn cyflwyno heriau newydd i bawb.

Dyma'r her i'n democratiaeth. Mae twyllwbyodaeth, propaganda a newyddion rhannol yn gwanhau ein dealltwriaeth a rennir o'r byd. Yn y flwyddyn lle gwelwyd y nifer uchaf erioed o etholiadau ledled y byd, mae'n tansellio ymddiriedaeth yn ein sefydliadau a'n prosesau democrataidd. Mae'n golygu bod llawer ohonom yn ansicr pwy a beth y gallwn gredu ynddo, ac efallai hyd yn oed yn cwestiynu'r cysyniad o 'wirionedd'.

Dyma'r her i'n heconomi greadigol. Mae risg gynyddol y bydd prosesau adrodd straeon cartref yn cael eu diystyru mewn tirwedd cyfryngau byd-eang sy'n eithriadol o gystadleuol. Rydym mewn perygl o alluogi diwydiannau creadigol y DU sydd o'r radd flaenaf i gael eu tansellio, gan leihau ein

hunaniaeth ddiwylliannol unigryw a'i dylanwad a'i gwerth allforio hynod ledled y byd.

Ac mae her i'n cymdeithas. Mae polareiddio a rhaniadau cymdeithasol yn cael eu hategu gan y defnydd darniog o'r cyfryngau ymysg llwyfannau byd-eang. Mae momentau a rennir a phrofiadau diwylliannol cyffredin yn dod yn gynyddol werthfawr.

Mae gan y BBC gyfle unigryw i ymateb i bob un o'r heriau hyn. Dyna pam, wrth i ni edrych i'r dyfodol, rydym am ganolbwyntio fwyaf ar y buddiannau hollbwysig y gallwn eu cynnig i'r cyhoedd a'r DU gyfan, a helpu i lunio'r oes newydd o newid technolegol er budd pawb.

Ym mis Mawrth, gwnaethom nodi cynllun hirdymor er mwyn helpu i atgyfnerthu democratiaeth, economi greadigol a chymdeithas y DU drwy flaenoriaethu'r tair rôl hanfodol hyn (gweler tudalennau 11-12).

Y gyntaf yw canfod y gwirionedd heb unrhyw agenda, drwy ohebu'n ddi-ofn ac yn deg.

Rydym bellach yn byw mewn byd lle mae newyddiaduraeth wedi'i rhwystro'n llwyr neu'n rhannol mewn tua 75% o wledydd. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r BBC wedi gweld gohebwyr yn cael eu gwahardd o wledydd fel Rwsia neu Tsieina, ac yn cael eu herlyn mewn gwledydd eraill fel Iran. Rydym yn gweld gwladwriaethau gelyniaethus yn buddsoddi'n drwm i arfogi technoleg a defnyddio deallusrwydd artifisial fel adnodd ar gyfer twyllwbyodaeth a tharfu. Mae hyn yn arwain at her dyngedfennol i ddemocratiaeth ledled y byd.

Mae'r BBC yn credu yn mewn canfod y gwirionedd mewn ffordd ddi-ofn, wedi'i angori gan y ffeithiau, heb unrhyw agenda wleidyddol. Nodais mai bod yn ddiuedd yw ein prif flaenoriaeth pan ddechreuais yn y swydd hon, a'r flwyddyn hon rydym unwaith eto wedi gwneud cynnydd pwysig o ran gweithredu ein cynllun o sicrhau ein bod yn cynnal y safonau uchaf posibl (gweler tudalennau 17-19).

Roedd lansio BBC Verify yn foment arwyddocaol i BBC News y flwyddyn diwethaf. Mae'n cynnwys tîm sy'n rhan ganolog o'n hystafell newyddion ac sy'n gwasanaethu ein holl allbwn newyddion, gan ddefnyddio cronfa anhygoel o newyddiadurwyr data dawnus, arbenigwyr Deallusrwydd Ffynhonnell Agored, arbenigwyr iaith a mwy.

Mae'r ffocws ar dryloywder: dangos i gynulleidfaeoedd sut rydym yn mynd ati i wirio ffeithiau, dadansoddi data a dilysu deunydd gan ddefnyddio dulliau, technegau a thechnolegau ffrensensig. Gwyddom po fwyaf y byddwn yn rhoi mynediad y tu ôl i'r llen i'n cynulleidfaeoedd i'n dulliau gohebu ac yn dangos sut rydym yn gweithio, y mwyaf y gallwn ennyn eu hymddiriedaeth bob dydd.

Y flwyddyn hon, rydym am hyrwyddo BBC Verify ledled y byd fel arweinydd o ran newyddiaduraeth dryloyw yn y DU, ac mewn gwledydd lle ceir yr angen mwyaf ledled y byd drwy waith hanfodol BBC World Service.

Adolygiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol



Laurence Rickard fel Syr Humphrey Bone yn y gyfres gomedi sefyllfa *Ghosts*

“Mae’r BBC yn cynrychioli cronfa twf ac arloesedd bwerus ar gyfer y DU. Mae 50% o’n heffaith economaidd y tu allan i Lundain, o gymharu â chyfartaledd diwydiant o 20%.”

Tim Davie, Cyfarwyddwr Cyffredinol

Wrth gwrs, un o’r digwyddiadau pwysicaf i gynulleidfaedd BBC News dros y misoedd diwethaf oedd Etholiad Cyffredinol y DU. Hoffwn ddiolch i’n timau am eu gwaith eithriadol yn adrodd ar yr ymgyrch a’i chanlyniad. Rwy’n credu eu bod wedi chwarae rôl hollbwysig yn cefnogi ein proses ddemocrataidd drwy roi ffeithiau a dadansoddiadau diduedd i’n cynulleidfaedd.

Rwyf hefyd yn falch, er bod sylw wedi’i roi ar y DU yn naturiol, bod BBC News wedi parhau i gyflwyno darllediadau o’r radd flaenaf o ddigwyddiadau hynod arwyddocaol ledled y byd. Mae cynulleidfaedd yn eu miliynau yn parhau i ymddiried yn ein hadroddiadau o wrthdaro yn y Dwyrain Canol, Wcráin a manau eraill ac yn dibynnu arnynt.

Mae angen gofal cyson, meddylgarwch a meddwl agored i gynnal yr ymddiriedaeth honno wrth i ni wynebu’r heriau unigryw a gyflwynir wrth adrodd ar ryfel Israel-Gaza. Ar adegau yn ystod y flwyddyn hon, mae ein darllediadau, yn ddealladwy, wedi denu cryn graffu, a byddwn bob amser yn herio ein hunain i wrando ar ein beirniaid a sicrhau ein bod yn cyrraedd y safon uchaf. Hoffwn dalu teyrnged i’n holl dimau Newyddion ledled y byd sydd wedi cyflwyno darllediadau eithriadol dros y cyfnod hwn, yn aml yn gweithio mewn amgylchiadau eithriadol o anodd.

Yr ail her hanfodol i’r BBC yw cefnogi’r prosesau adrodd straeon cartref gorau, drwy fuddsoddi mewn talent a chreadigrwydd Prydeinig.

Mae diwydiannau creadigol y DU yn stori lwyddiant gynyddol gwerth £125 biliwn. Maent wedi’u hadeiladu ar system unigryw a edmygir yn fyd-eang o fuddsoddiad cyhoeddus a masnachol sydd wedi profi ei hun dros ddegawdau gan sicrhau budd i gymdeithas a mantolen y DU. Ond mewn marchnad fyd-eang gystadleuol, mae’r pwysau ar fusnesau rhyngwladol enfawr i sicrhau effeithlonrwydd yn creu sefyllfa wirioneddol beryglus i gynnwys sy’n wreiddiol o’r DU a phrosesau adrodd straeon cartref.

Straeon yw’r rhain sy’n dathlu ac yn arddangos ein diwylliant a’n creadigrwydd sydd o’r radd flaenaf. Maent yn dogfennu’r gwahaniaethau sy’n gwneud pob un o’n gwledydd a’n cymunedau yn arbennig. Mae hyn yn golygu mwy na dim ond teitlau teledu sy’n nodedig Brydeinig, boed hynny’n *The Responder* neu *The Outlaws*, *Black Ops* neu *Wild Isles*. Mae a wnelo hefyd â phwysigrwydd arlwy sain y BBC.

Mae mwy na 30 miliwn o oedolion yn gwrando ar BBC Radio bob wythnos ar gyfartaledd – mwy nag unrhyw gwmni radio darlledu neu chwaraewr ar-alw arall. Mae ein gorsafoedd yn arwain y farchnad o hyd. Radio 2 yw gorsaf fwyaf poblogaidd y DU ar y cyfan, Radio 4 yw’r orsaf lafar fwyaf poblogaidd o bell ffordd a 6 Music yw’r gwasanaeth digidol yn unig mwyaf.

Yn y cyfamser, mae gan orsafoedd radio lleol y BBC le unigryw yng nghanol bywyd lleol, gan roi cwmniaeth i filiynau o wrandawyr a llais i’n cymunedau amrywiol. Arweiniodd ein gwaith i wella dyfnder ac ehangder ein darpariaeth ar-lein lleol at newidiadau i’r amserlen ar draws radio lleol, ond hefyd gwelwyd twf yn nifer yr ymwelwyr â newyddion lleol ar-lein. Ac i danlinellu pwysigrwydd cynrychioli cynulleidfaedd ar lefel leol, y Newyddion rhanbarthol am 6.30pm ar BBC One yw rhaglen newyddion fwyaf poblogaidd y DU ar y teledu o hyd.

Y tu hwnt i’r DU, cryfder ein dulliau o adrodd straeon lleol sydd wrth wraidd ein llwyddiant creadigol rhyngwladol. Straeon Prydeinig dilys, a gaiff eu hadrodd mewn ffordd wych a hyfryd, yw’r pwynt gwahaniaeth unigryw mewn marchnad orlawn sy’n canolbwyntio mwy o lawer ar apêl fyd-eang.

Heddiw, mae’r BBC yn buddsoddi mwy o lawer mewn cynnwys Prydeinig gwreiddiol nag unrhyw un arall. Nid oes neb yn gwneud mwy i hyrwyddo talent newydd o bob cwr o’r DU. Y canlyniad yw bod y BBC yn cynrychioli cronfa twf ac arloesedd bwerus ar gyfer y DU. Rydym yn cyfrannu bron £5 biliwn i economi’r DU bob blwyddyn, gan gefnogi mwy na 50,000 o swyddi a gweithio gyda 14,000 o gyflenwyr. Mae pob £1 o’n gweithgarwch economaidd uniongyrchol yn creu £2.63 yn yr economi yn gyffredinol.

At hynny, mae 50% o’n heffaith economaidd y tu allan i Lundain, o gymharu â chyfartaledd diwydiant o 20%. Mae’n ffigur sy’n dangos pwysigrwydd ein cynllun Across the UK.

Y flwyddyn hon, gwnaethom barhau i symud symiau sylweddol o waith cynhyrchu cynnwys, arweinyddiaeth olygyddol a phŵer i wneud penderfyniadau allan o Lundain. Bydd mwy na 60% o'n gwaith cynhyrchu teledu y tu allan i Lundain erbyn 2026, a 50% o'n radio a cherddoriaeth erbyn 2027 (gweler tudalennau 32-33).

Y drydedd rôl hanfodol a nodwyd gennym ar gyfer y BBC yw dod â phobl ynghyd, drwy gysylltu pawb â chynnwys na ellir ei gollu.

Yn y byd hwn, rydym yn defnyddio mwy a mwy o gynnwys byd-eang ar lwyfannau sydd wedi'u llywio gan algorithmau nad ydynt, o bosibl, er budd gorau diwylliant Prydeinig a rennir a'n cymdeithas ddemocrataidd. Yn hytrach, mae'r algorithmau hyn yn ceisio meithrin y gydberthynas gryfaf yn fasnachol â chwsmer, gan gynnig fersiwn gul iawn o bersonoli a all fygwth cydlynid cymdeithasol.

Wrth i ni symud i fyd rhyngwyd yn unig, gallwn lywio'r pwynt argyfyngus i weithredu er budd y cyhoedd ym Mhrydain. Bydd hyn yn golygu y bydd angen i ni greu algorithmau unigryw sy'n gwahaniaethu ein gwerthoedd, er budd: algorithmau a deallusrwydd artifffisial sy'n dod â ni'n agosach yn hytrach na'n gwahanu. Personoli, wrth gwrs, ond nid wedi'i lywio gan elw masnachol cul.

Yn y cyfamser, mae mwy a mwy ohonom yn canfod gwerth mewn momentau cymunedol, straeon a rennir a mannau lle gallwn ganfod gobaieth a llawenydd; lle gallwn gael sgwrs foesgar a chyd-chwerthin heb gael ein diffinio gan ein credoau gwleidyddol neu ein hanes prynu ar-lein yn unig.

Y flwyddyn hon, mae'r BBC wedi dwyn pobl ynghyd fwy nag erioed. Gwnaethom ddarlledu o ddau o brif ddigwyddiadau byw y DU, a chafodd gwasanaeth y Coroni ei wyllo gan gynulleidfa gyfartalog o 14.6 miliwn a gwyliwyd Rownd Derfynol Eurovision yn Lerpwl gan gynulleidfa gyfartalog o ddeg miliwn ar y noson.

Atom ni y daw pobl i rannu yn eu hangerdd, o'n darllediadau o'r Ewros, y Gemau Olympaidd, Wimbledon a Chyffres y Llundw i Glastonbury, y Proms, Radio 1's Big Weekend a Radio 2 In the Park – heb sôn am holl ddrama noson yr etholiad. Gallwn ni hefyd gael y DU yn siarad, p'un a yw hynny am *Strictly*, *Gladiators* neu *EastEnders*, Comic Relief neu BBC Plant mewn Angen.

Mae dwyn pobl ynghyd hefyd yn golygu sicrhau nad oes neb yn cael eu gadael ar ôl yn y trawsnewidiad digidol. Dros y misoedd diwethaf, ynghyd â darlledwyr cyhoeddus eraill, rydym wedi lansio gwasanaeth teledu am ddim – Freely – i ddarparu teledu byw dros fand eang.

Gwnaethom gynlluniau hefyd i ddod â'r BBC cyfan ynghyd i greu gwasanaeth mwy integredig, mwy personol, a sicrhau ein bod mor hygyrch i bawb yn yr oes ddigidol ag yr oeddem yn y byd darlledu yn unig. Ac rydym am ddefnyddio technoleg i greu newid sylweddol o ran hygyrchedd ein cynnwys er mwyn pennu safonau newydd i gefnogi pobl anabl.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn tynnu sylw at uchelgais ac ymrwymiad y BBC wrth ganolbwyntio ar y tair rôl hyn. Ond mae hefyd yn tanlinellu faint rydym eisoes yn ei gyflawni ar gyfer y cyhoedd a'r DU gyfan, ynghyd â pha mor unigryw yw'r BBC yn nhirwedd cyfryngau heddiw wrth geisio gwasanaethu pawb yn hytrach na cheisio budd masnachol o rai rhannau o gymdeithas.

Yr her fawr sy'n ein hwynebu nawr yw cyflymu trawsnewidiad y BBC. Mae angen i ni greu sefydliad mwy darbodus, mwy ystywyth, a gwneud y mwyaf o'r cyfle digidol yn gyntaf i ailgynllunio ein prosesau, torri costau a gwasanaethu cynulleidfaoedd yn well. Mae setliadau ffi'r drwydded islaw lefel chwyddiant wedi lleihau ein hincwm dros sawl blwyddyn ac wedi rhoi pwysau difrifol ar ein cyllid. Bellach mae gennym gytundeb sy'n gysylltiedig â chwyddiant hyd at ddiwedd y Siarter, ond daw hyn ar ôl toriad o 30% mewn termau real rhwng 2010 a 2020, a dwy flynedd anodd o gyllid gwastad.

Mae angen i ni wneud rhagor o arbedion o ganlyniad i hynny, a symud mwy o arian cynnwys o amgylch y sefydliad i sicrhau'r gwerth mwyaf i gynulleidfaoedd. Ac mae angen i ni barhau i roi hwb i'n hincwm masnachol, gan adeiladu ar lwyddiant BBC Studios a gymerodd berchenogaeth lawn o BritBox International y flwyddyn hon a chyflawni gweithiannau o £1.8 biliwn yn erbyn cefndir o amodau gweithredu heriol iawn (gweler tudalennau 75-82).

Mae hefyd angen i ni ystyried beth yw'r ffordd orau o ariannu'r BBC yn yr hirdymor i sicrhau holl fuddiannau darlledu cyhoeddus cyffredinol yn y dyfodol. Yn benodol, mae angen i ni drafod â'r Llywodraeth beth yw'r ffordd orau o ariannu BBC World Service ar adeg dyngedfennol i ddemocratiaeth yn fydd-eang.

Ond bydd ein gydberthynas bwysicaf â'r cyhoedd, yr ydym yn eiddo iddynt ac sy'n talu amdannom.

Dyna pam y byddwn yn lansio ein proses ymgysylltu cyhoeddus fwyaf erioed y flwyddyn nesaf, gan estyn allan i gynulleidfaoedd fel y gallant lywio ac ysgogi'r drafodaeth ar y BBC.

Roedd y flwyddyn hon yn un anodd ar adegau i'r BBC, ac mae'r Adroddiad hwn yn tynnu sylw at yr heriau y bu'n rhaid i ni eu hwynebu – boed yn gystadleuol, yn ariannol neu o ran y prosesau craffu dwys a wynebir gennym yn aml.

Ond mae hefyd yn dangos bod y BBC yn dal i fod wrth wraidd bywyd cenedlaethol Prydeinig, fel y bu ers dros 100 mlynedd. Rydym yn dal i ganolbwyntio'n gadarn ar adeiladu BBC ar gyfer y dyfodol a all sicrhau buddiannau hanfodol i'r DU ar adeg dyngedfennol – i helpu i gefnogi democratiaeth iach, economi greadigol sy'n ffynnu a chymdeithas gref.



Tim Davie CBE
Director-General
10 Gorffennaf 2024

Layton Williams a Nikita Kuzmin yn perfformio eu dawns sioe ar *Strictly Come Dancing*



BBC AR GYFER BY DYFODOL

Y flwyddyn hon, cyhoeddodd y BBC gynlluniau uchelgeisiol i gynyddu ein gwerth i bob cynulleidfa yn yr oe deallusrwydd artiffisial.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r BBC wedi bod yn trawsnewid er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn rhan o fywydau pob dydd cynulleidfaoedd drwy gynnig gwerth eithriadol i bawb. Mae'r adroddiad hwn yn dangos pa mor llwyddiannus rydym wedi bod wrth gyflawni ar y strategaeth hon dros y 12 mis diwethaf.

Onid nawr mae ton newydd o newid technolegol yn ail-lunio ein tirwedd cyfryngau. Mae'n cynnig buddiannau a chyfleoedd enfawr, ond mae hefyd yn dod â heriau newydd – i'n democratiaeth, i'n heconomi greadigol ac i'n cymdeithas.

Cenhadaeth y BBC o hyd yw hysbysu, addysgu a diddanu pawb. Gwnawn hyn drwy gyflawni yn erbyn y pum diben cyhoeddus sydd wedi'u hymgorffori yn ein Siarter Frenhinol, a nodir ein perfformiad yn erbyn y dibenion hyn ar y tudalennau canlynol. Ond gan edrych i'r dyfodol, credwn y gallwn wneud mwy i wneud cyfraniad hanfodol i'r DU ar adeg dyngedfennol. Wrth i ni ddechrau'r oes deallusrwydd artiffisial, rydym am helpu i lywio'r oes newydd o newid technolegol cyflym er budd pawb. Rydym am ganolbwyntio'n fwyaf clir ar y buddiannau hollbwysig y gallwn eu cynnig i'r cyhoedd a'r DU gyfan.



Edrychwch am y symbolau hyn drwy'r Adroddiad Strategol er mwyn gweld sut mae'r mentrau hyn yn sail i bopeth a wnawn.

Ym mis Mawrth, gwnaethom gyhoeddi ‘A BBC for the Future’. Cynllun ydyw i helpu i atgyfnerthu democratiaeth, economi greadigol a chymdeithas y DU drwy flaenoriaethu tair rôl hanfodol.

CANFOD Y GWIRIONEDD HEB UNRHYW AGENDA



...drwy adrodd yn ddi-ofn ac yn deg

i Darllenwch fwy ar dudalennau 17-19

CEFNOGI'R PROSES AU ADRODD STRAEON CARTREF GORAU



...drwy fuddsoddi mewn talent a chreadigrwydd Prydeinig

i Darllenwch fwy ar dudalennau 21-43

DOD Â PHOBL YNGHYD




...drwy gysylltu pawb â chynnwys na ellir ei gollu

i Darllenwch fwy ar dudalennau 21-43

Gwyddom fod cefnogaeth gref ar gyfer y rolau hyn. Mae tua naw o bob deg o dalwyr ffi'r drwydded o'r farn ei bod yn bwysig i'r BBC ganfod y gwirionedd heb unrhyw agenda. Mae bron i wyth o bob deg o'r farn ei bod yn bwysig bod y BBC yn cynnig y rhaglenni a'r cynnwys Prydeinig gorau o bob cwr o'r DU. Ac mae tua saith o bob deg o'r farn ei bod yn bwysig i'r BBC ddod â phobl ynghyd drwy gynnwys na ellir ei gollu

DOD Â'N STRATEGAETH YN FYW

Mae A BBC for the future yn nodi ein cynlluniau presennol yn llawn. Ceir enghreifftiau o rai o'n mentrau allweddol isod:



Edrychwch am y symbolau hyn drwy'r Adroddiad Strategol er mwyn gweld sut mae'r blaenoriaethau hyn yn sail i bopeth a wnawn.



Er mwyn canfod y gwirionedd heb unrhyw agenda, byddwn yn...

- hyrwyddo BBC Verify ledled y byd fel arweinydd o ran newyddiaduraeth dryloyw yn y DU, ac mewn gwledydd lle ceir yr angen mwyaf ledled y byd drwy BBC World Service.
- lansio BBC Investigate, gan ddod ag un o rymoedd newyddiaduraeth ymchwiliol mwyaf y byd at ei gilydd o dan un brand, ynghyd â chylchgrawn digidol manwl newydd fel cyrchfan ar gyfer y gorau o'n dadansoddiadau a'n newyddiaduraeth dreiddgar ar-lein.
- archwilio potensial technoleg newydd a dulliau fel deallusrwydd artiffisial i gyfieithu ein newyddiaduraeth i sawl iaith neu gefnogi dysgu wedi'i deilwra ar Bitesize.
- cynllunio algorithmau gwasanaeth cyhoeddus fel bod gwasanaethau'r BBC yn gwneud mwy na dim ond gwasanaethu'r hyn y mae cynulleidfaoedd eisoes yn ei ddefnyddio gan eu cyflwyno hefyd i fathau gwahanol o gynnwys.
- ail-lansio BBC.com ac ap y BBC yn rhyngwladol er mwyn symleiddio arlwy digidol Saesneg y BBC y tu allan i'r DU.



Er mwyn cefnogi'r prosesau adrodd straeon cartref gorau, byddwn yn...

- parhau i symud cynnwys a phrosesau gwneud penderfyniadau o Lundain a de-ddwyrain Lloegr. Bydd mwy na 60% o'n gwaith cynhyrchu teledu y tu allan i Lundain erbyn 2026, a 50% o'n radio a cherddoriaeth erbyn 2027.
- buddsoddi mewn amrywiaeth ddigynsail o brosesau adrodd straeon o bob rhan o'r DU – comisiynu a darlledu mwy na 500 o oriau o gynnwys i gynrychioli a phortreadu cynulleidfaoedd y tu allan i Lundain dros y 12 mis nesaf yn unig.
- sicrhau bod prosesau adrodd straeon wrth wraidd ein cynhyrchion ar-lein, a dechrau teilwra tudalen gartref BBC iPlayer ar gyfer cynulleidfaoedd yn y gwledydd datganoledig.
- symleiddio ac atgyfnerthu ein cynlluniau talent ar yr awyr ac oddi ar yr awyr i fod yn un o'r rhaglenni datblygu talent cyfryngau mwyaf uchelgeisiol yn y byd.
- gweithio gyda'r diwydiant cyfryngau ar ddeallusrwydd artiffisial, i archwilio'n gyfrifol ei photensial i gefnogi a grymuso talent a chreadigrwydd pobl.



Er mwyn dod â phobl ynghyd, byddwn yn...

- ailadeiladu ein cynhyrchion ar-lein i ddod â'r holl BBC ynghyd i greu gwasanaeth mwy integredig a mwy personol gydag un dull mewngofnodi – wrth bennu'r meincnod ar gyfer cynhyrchion ar-lein hygyrch.
- buddsoddi mewn mewnbwn a all ddod â chymunedau ynghyd – o ddigwyddiadau cenedlaethol i ddigwyddiadau chwaraeon i gynnwys creadigol cymhellol.
- ehangu ein harlwy byw ar-lein i sicrhau mai ni yw'r darparwr newyddion 'sy'n cynnig y mwyaf o ddeunydd byw' a phrif gyrchfan y DU ar gyfer deunydd fideo a sain byw yn yr oes ffrydio.
- cysylltu pobl yn lleol a dwyn gwneuthurwyr penderfyniadau i gyfrif, gan gynnwys rhaglenni trafod byw ac ehangu'r nodwedd 'Hot Seat' ar radio lleol.
- sicrhau na chaiff neb eu gadael ar ôl yn y trawsnewidiad digidol, drwy gydweithio ag eraill i lansio gwasanaeth am ddim newydd 'Freely' i ddarparu teledu byw dros fand eang.

CYFLYMU TRAWSNEWIDIAD Y BBC

Strategaeth yw 'A BBC for the Future' i gyflwyno BBC sy'n fwy perthnasol, a ddefnyddir yn gyffredinol ac sy'n cynnig gwerth eithriadol i bawb.

BBC digidol yn gyntaf yw hwn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol sy'n sail i sector diwydiannau diwylliannol a chreadigol cynyddol y DU, wedi'i bweru gan eiddo deallusol Prydeinig. Bydd yn wasanaeth cyhoeddus digidol a edmygir yn fyd-eang, ac yn sefydliad a all barhau i ddenu'r dalent orau yn y diwydiant i wneud ei gwaith gorau.

Er mwyn gwneud i hyn oll ddigwydd, bydd angen i ni gyflymu trawsnewidiad y BBC sydd wedi bod yn mynd rhagddo dros y blynyddoedd diwethaf. Bydd angen i ni gael BBC mwy ystwyth sydd wedi'i symleiddio hyd yn oed yn fwy.

Byddwn yn parhau i drawsnewid y sefydliad i fod mor effeithlon ac effeithiol â phosibl

Byddwn yn symud mwy o'r arian rydym yn ei wario ar gynnwys o amgylch y sefydliad ac, yn benodol, oddi wrth allbwn darlledu yn unig

Byddwn yn parhau i roi hwb i'n hincwm masnachol er mwyn creu'r gwerth gorau posibl ar gyfer ffi'r drwydded

Byddwn yn sefydlu partneriaethau newydd mawr a all ein galluogi i gyrraedd talent newydd, i gael gafael ar gyfalaf ac i sicrhau maint

Ein nod yw BBC a all sicrhau buddiannau hanfodol i'r DU ar adeg dyngedfennol – i helpu i gefnogi democratiaeth iach, economi greadigol sy'n ffynnu a chymdeithas gref ar gyfer y dyfodol.



Y dyn camera bywyd gwyllt clodwiw Vianet Djenguët yn ffilmio *Silverback* yn y Congo

CYFLAWNI EIN CYLCH GWAITH CREADIGOL

Mae'r BBC wedi nodi tair rôl hanfodol i'w blaenoriaethu yn y blynyddoedd i ddod. Ond mae ein dibenion cyhoeddus wedi'u hymgorffori yn y Siarter Frenhinol ac maent yn darparu'r fframwaith i fesur ein perfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf.

Cenhadaeth y BBC, a nodir yn ein Siarter Frenhinol, yw "gweithredu er budd y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu allbwn diduedd, nodedig o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu." Hefyd wedi'u hymgorffori yn ein Siarter Frenhinol mae pum diben cyhoeddus y BBC, sydd wedi'u nodi dros y dudalen. Mae'r rhain yn amlinellu'r egwyddorion arweiniol sydd gennym wrth geisio cyflawni ein cenhadaeth ac maent yn rhoi fframwaith clir ar gyfer ein dwyn i gyfrif.

Dros y tudalennau nesaf, rydym yn nodi ein perfformiad wrth gyflawni ein dibenion, a gellir dod o hyd i adroddiadau manylach ar ein hymrwymiaidau a'n cwotâu rheoleiddiol o dudalen 130 ac yn: bbc.co.uk/aboutthebbc/documents/domapp-2023-24.pdf.

Y ffordd sicraf o wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni'r genhadaeth a'r dibenion yw drwy ddarparu gwasanaeth o faint ac effaith.

O ran maint, mae'r BBC yn wasanaeth cyhoeddus y mae'r mwyafrif helaeth o bobl y DU – beth bynnag fo'u hoedran – yn dewis ei ddefnyddio bob wythnos. Yn 2023/24, ar gyfartaledd, roedd 85% o oedolion yn defnyddio'r BBC bob wythnos – mwy nag unrhyw frand arall ar gyfer y cyfryngau.

Ymysg yr ifanc – gyda chyrraeddwydd wythnosol cyfartalog o 71% ymysg pobl 16-34 oed a 69% o bobl ifanc dan 16 oed – y BBC yw'r unig frand cyfryngau o'r DU i gyrraedd eu pump uchaf. Mae dwyster y gystadleuaeth gan ddarparwyr byd-eang – sy'n agored i lai o reoliadau neu rwymedigaethau i hyrwyddo creadigrwydd y DU ac adlewyrchu bywyd yn y DU – wedi gwthio'r darlledwyr cyhoeddus yn y DU a ariennir yn fasnachol allan o'r pump uchaf ar gyfer y grwpiau oedran hyn. Dim ond darlledwyr cyhoeddus yn y DU a ariennir yn gyhoeddus – y BBC – sydd dal yno ymysg YouTube, Netflix a Disney+, a'n strategaeth yw sicrhau bod darlledwyr cyhoeddus yn y DU yn parhau i fod yn rhan reolaidd o'r deiet cyfryngau ar gyfer y mwyafrif o bobl ifanc yn y DU.

75% 22/23 79%

% yr oedolion yn y DU sy'n dweud bod rhaglenni/cynnwys/gwasanaethau'r BBC yn bwysig i bobl yn y DU (ddim yn bwysig: 13%. 22/23: 9%).
Ffynhonnell Ipsos UK 18+

67% 22/23 69%

% yr oedolion yn y DU sy'n dweud bod y BBC yn effeithiol wrth eu hysbysu, eu haddysgu a'u diddanu nhw/pobl yn y DU (aneffeithiol: 13%. 22/23: 13%).
Ffynhonnell Ipsos UK16+

O ran effaith, bob blwyddyn, mae Ipsos UK yn cynnal arolwg o'r cyhoedd yn y DU er mwyn canfod a ydynt o'r farn ein bod yn cyflawni ein cenhadaeth a'r dibenion. Y flwyddyn hon, roedd 67% o oedolion yn y DU o'r farn bod y BBC yn effeithiol wrth gyflawni'r genhadaeth (mae 13% o'r farn ei fod yn aneffeithiol),* yn debyg i'r ddwy flwyddyn ddiwethaf. Mewn cartrefi sy'n talu ffi'r drwydded, dywedodd 69% fod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth yn effeithiol (mae 13% o'r farn ei fod yn aneffeithiol).

Ym mhob grŵp cynulleidfa, ni waeth beth fo'i oedran, rhywedd, gradd gymdeithasol, tarddiad ethnig neu ardal ddaearyddol, mae'r nifer mwyaf o bobl yn parhau i deimlo ein bod wedi cyflawni'r genhadaeth a'r dibenion. Fel y gwelwyd mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r sgorau uchaf yn rhai ar gyfer helpu pobl i ddeall beth sy'n digwydd yn y DU a'r byd, ac ar gyfer ansawdd cynnwys a gwasanaethau. Rydym yn parhau i geisio gwella rhai sgorau, yn enwedig o ran canfyddiadau o ddiueddrwydd, a'r gwahaniaethau rydym yn gweithio i'w lleihau, yn enwedig o ran pa mor dda rydym yn adlewyrchu pobl wahanol a rhannau gwahanol o'r DU.


Ein nod yw cynnig gwerth ardderchog i bawb. Mae ein cenhadaeth a'n dibenion cyhoeddus wrth wraidd popeth a wnawn ac, ar y tudalennau canlynol, rydym yn nodi'n fanwl yr hyn rydym wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau'r gwerth hwnnw.

* Ipsos UK, 4,210 o oedolion 16+ oed yn y DU, Ionawr-Mawrth 2024.
Sgôr gyfartalog ar draws hysbysu, addysgu a diddanu pobl yn y DU a nhw.


Y pum brand a ddefnyddiwyd fwyaf ar gyfer y cyfryngau yn 2023/24. Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog

Y BBC yw'r unig frand yn y DU sydd yn y pump uchaf ar gyfer cyfryngau a ddefnyddir fwyaf gan bobl ifanc yn y DU:

O dan 16 oed




16-34 oed




Y BBC yw'r brand a ddefnyddir fwyaf ar gyfer y cyfryngau ar gyfer y grwpiau oedran hyn yn y DU:

35-54 oed




55+ oed




1

Darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch

 Darllenwch fwy ar dudalennau 17-19


2

Cynorthwyo pobl o bob oedran i ddysgu

 Darllenwch fwy ar dudalennau 21-23


3

Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau

 Darllenwch fwy ar dudalennau 25-29


4

Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig ac, wrth wneud hynny, gefnogi'r economi greadigol ar draws y Deyrnas Unedig

 Darllenwch fwy ar dudalennau 31-39

5

Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd

 Darllenwch fwy ar dudalennau 41-43



NEWYDDION



Diben 1: Darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch

Mae'r tudalennau hyn yn dangos y ffyrdd y cyflawnodd y BBC ei rwymedigaeth i ddarparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r BBC yn darparu lefel heb ei hail o newyddion a materion cyfoes lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Ni yw'r gwasanaeth newyddion a ddefnyddir fwyaf ac yr ymddiriedir ynddo fwyaf yn y DU o hyd, ac rydym yn chwarae rhan bwysig wrth helpu i drechu'r dwyllwbybodaeth sydd mor gyffredin erbyn hyn yn ein trafodaethau cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae BBC News yn parhau i fod ymhell ar y blaen i unrhyw ddarparwr newyddion arall pan ofynnir i gynulleidfaoedd ddewis yr un ffynhonnell y maent fwyaf tebygol o droi ati am newyddion diduedd a chywir y gellir ymddiried ynddo (gweler tudalennau 18-19).

Tynnwyd sylw at bwysigrwydd ein hymrwymiad i ganfod y gwir heb unrhyw agenda dro ar ôl tro y flwyddyn hon. Ers ei lansio ym mis Mai 2023, mae BBC Verify wedi defnyddio amrywiaeth o sgiliau ymchwiliol fforensig a galluoedd Deallusrwydd Ffynhonnell Agored (OSINT) i esbonio beth rydym yn ei wybod i gynulleidfaoedd, ond hefyd sut rydym yn gwybod hynny. Yn dilyn y penderfyniad i ymestyn *BBC Breakfast*, cynyddodd cynulleidfaoedd rhaglen newyddion bore fwyaf poblogaidd y DU ac roedd y ffaith bod 82% o oedolion y DU wedi troi at y BBC i gael gwybod canlyniadau Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Gorffennaf yn dangos mai ni yw dewis y bobl ar adegau o bwys. Yn y cyfamser, mae cynulleidfaoedd yn eu miliynau, gartref a ledled y byd, wedi dibynnu ar ein darllediadau o'r gwrthdaro parhaus yn y Dwyrain Canol ac Wcráin.

DIDUEDD

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol
Diben cyhoeddus 1 – parhad

Darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch



Charlie Stayt a Naga Munchetty yn cyflwyno *BBC Breakfast*

Ni yw'r gwasanaeth newyddion a ddefnyddir fwyaf ac yr ymddiriedir ynddo fwyaf yn y DU o hyd, ac rydym yn chwarae rhan bwysig wrth helpu i drechu'r dwyllwbybodaeth sydd mor gyffredin erbyn hyn yn ein trafodaethau cenedlaethol a rhyngwladol.



Ymestyn *BBC Breakfast*

Ddechrau'r flwyddyn hon, gwnaethom ymestyn *BBC Breakfast* gan ychwanegu 15 munud ati bob dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae'r amser ychwanegol yn rhoi cyfle i ni gynnig hyd yn oed mwy o newyddiaduraeth y BBC fel rhan o'r amserlenni yn ystod y dydd. Mae hefyd yn golygu bod mwy o gynnwys BBC News yn cael ei gyflwyno o Salford – tuedd a fydd yn parhau y flwyddyn hon wrth i ni symud *News at One*, gan greu pwerdy newyddion yn ystod y dydd yn y ddinas.


Mae'r rhaglen wedi parhau i gyflwyno straeon mewn ffordd unigryw drwy gydol y flwyddyn, gan ddilyn hanes unigolion eithriadol fel Rob Burrow, a fu farw yn anffodus ym mis Mehefin.

BBC Breakfast yw'r rhaglen newyddion bore fwyaf poblogaidd o hyd, ac mae'r amser ychwanegol wedi rhoi hwb eithriadol i'w ffigurau gwyllo, gan ychwanegu bron 400,000 at ei chyrrhaeddiad o ddydd Llun i ddydd Gwener.


Mae defnyddwyr newyddion y DU yn troi at BBC News fwyaf i gael darllediadau newyddion diduedd a chywir y gellir ymddiried ynddynt

O blith yr holl ffynonellau newyddion (teledu, radio, papurau newydd, cylchgronau, gwefannau, apiau neu'r cyfryngau cymdeithasol) pa ffynhonnell rydych chi fwyaf tebygol o'i defnyddio...


...ar gyfer y newyddion rydych chi yn ymddiried ynddo fwyaf



...ar gyfer darllediadau newyddion diduedd



...ar gyfer darllediadau newyddion cywir



Ffynhonnell Ipsos UK, 907 o oedolion 18+ yn y DU sy'n dilyn y newyddion, Chwefror 2024



Golygydd Rhyngwladol BBC News Jeremy Bowen yn gohebu o Israel



Israel/Gaza

Mae gohebu o ryfel Israel/Gaza wedi bod yn waith heriol a pheryglus ar adegau i ohebwy y BBC. Ar ddechrau'r gwrthdaro ym mis Hydref, y BBC oedd un o'r sefydliadau newyddion prin â newyddiadurwyr y tu mewn i Gaza, gan ohebu ar ddatblygiadau yn y rhyfel wrth iddynt ar yr un pryd geisio sicrhau bod eu teuluoedd a'u cartrefi yn ddiogel.

Ymdriniodd BBC News â phob agwedd ar y rhyfel, o agweddau geowleidyddol i agweddau personol iawn.

Mae gan bobl safbwyntiau gwahanol iawn ar y pwnc hwn ac cae'n cyflwyno sawl her, gyda darllediadau newyddion yn agored i gryn drafodaeth a chraffu manwl. Serch hynny, dangosodd ein hymchwil pan ofynnir i bobl ddewis un darparwr y byddent yn troi ato i gael adroddiadau diduedd, eu bod deirgwaith yn fwy tebygol o ddewis y BBC ag y byddent i ddewis ein cystadleuydd agosaf.



BBC Verify

Ers ei lansio ym mis Mai, mae BBC Verify wedi bod wrthi'n rhoi esboniadau tryloyw i gynulleidfaoedd o'r hyn y mae'r BBC yn ei wybod, ond hefyd o sut rydym yn gwybod hynny. Mae BBC Verify yn weithrediad hynod arbenigol ac mae amrywiaeth o sgiliau ymchwiliol ffrensig a galluoedd OSINT ar gael yn hwylus i'w newyddiadurwyr.

Maent yn gwirio ffeithiau, yn dilysu deunydd fideo, yn trechu twyllwbyodaeth, yn dadansoddi data ac yn esbonio straeon cymhleth.

Mae BBC Verify wedi mynd i'r afael â straeon yn amrywio o ddadansoddiadau manwl o ddatblygiadau yn Wcráin a Gaza, i chwala mythau ar y cyfryngau cymdeithasol, fel rhoi sicrwydd nad oedd Tŵr Eiffel ar dân, er gwaethaf sawl honiad i'r gwrthwyneb.



Ymchwiliadau manwl

Drwy gydol y flwyddyn, parhaodd newyddiadurwyr y BBC â'u hymdrechion i ddatgelu'r gwir, gan gyflwyno adroddiadau manwl gywir a thrylwyr. Enghraifft eithriadol o hyn oedd pan ddatgelwyd y chweched unigolyn dan amheuaeth am lofruddiaeth Stephen Lawrence. Treuliodd ein gohebydd Daniel de Simone dros flwyddyn ar y stori, gan archwilio 30 mlynedd o dystiolaeth ac olrhain dwsinau o dystion.

Yn sgil ei ymchwiliad, cafodd Matthew White ei enwi'n gyhoeddus gan y BBC am y tro cyntaf, ac o ganlyniad, cafodd Matthew ei enwi'n swyddogol gan yr Heddlu Metropolitaidd (y Met) fel y chweched unigolyn dan amheuaeth. Datgelodd gwaith Daniel gyfres o fethiannau a chyfleoedd a fethwyd gan yr heddlu. Trafodwyd y stori yn Senedd San Steffan, ac mae'r Met bellach wedi cyhoeddi y bydd heddlu annibynnol yn cynnal adolygiad o'r achos.



Ffrydio straeon/sianel newyddion unigol

Lansiwyd gweithrediad sianel newyddion unigol gennym ym mis Ebrill, gan ddisodli'r ddwy sianel newyddion deledu 24 awr ar wahân. Mae'r sianel yn cynnwys ffrwd DU a ffrwd ryngwladol, gan gynnig cynnwys sy'n benodol i'r DU pa bryd bynnag y bydd yr agenda newyddion yn mynnu hynny; cynhyrchoedd ddarllediadau eithriadol ar bynciau yn amrywio o dreial Lucy Letby i gyrch Prigozhin ar Moscow.

Gwnaethom ychwanegu dewisiadau i gynulleidfaoedd drwy opsiynau ffrydio straeon unigol a thrwy sefydlu gweithrediad Washington DC y sianel. Mae'r sianel bellach yn rhan o'n harlwy ddigidol ar ein tudalennau byw a gellir dod o hyd iddi ar ap a gwefan y BBC ac ar BBC iPlayer.

BBC News oedd sianel newyddion fwyaf poblogaidd y DU o hyd, ac mae ganddi gynulleidfa fyd-eang o fwy na 100 miliwn.


75% 22/23 78%

Cyrhaeddiad BBC News cyfan
% yr oedolion yn y DU sy'n defnyddio gwasanaethau BBC News bob wythnos ar gyfartaledd.
Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK 16+

BBC News yw'r sianel fwyaf diduedd yr ymddiriedir ynddi fwyaf


Y tair ffynhonnell newyddion yr ymddiriedir ynddynt fwyaf yn ôl eu defnyddwyr

I ba raddau rydych yn ymddiried yn ... fel ffynhonnell newyddion?
(Graddfa: 1 = ddim yn ymddiried ynddi o gwbl; 10 = yn ymddiried ynddi'n fawr). Nifer y defnyddwyr a roddodd sgôr o 6+/10 (miliynau)



Y tair ffynhonnell newyddion mwyaf diduedd yn ôl eu defnyddwyr

I ba raddau mae'r ffynhonnell newyddion hon yn dangos tuedd neu'n ddiuedd yn eich barn chi?
(Graddfa: 1 = dangos tuedd sylweddol; 10 = diduedd iawn). Nifer y defnyddwyr a roddodd sgôr o 6+/10 (miliynau)



Ffynhonnell Ipsos UK, defnyddwyr fesul darparwr o sampl gynrychioliadol genedlaethol o 1,037 o oedolion 18+ oed yn y DU, Chwefror 2024. % y sgorau 6+/10 wedi'u troi'n ffigur poblogaeth cyfatebol. Ffigurau'r boblogaeth gan SYG. Cyfrifiadau'r BBC

i **t. 142** I gael y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am Ddiben Cyhoeddus 1



CYNORTHWYWO



Diben 2: Cynorthwyo pobl o bob oedran i ddysgu

Mae'r tudalennau canlynol yn dangos ehangder y cynnwys y mae'r BBC yn ei ddarparu i gynorthwyo pobl o bob oedran i ddysgu.

Y flwyddyn hon, mae'r BBC yn dathlu canmlwyddiant ein darllediad addysg cyntaf erioed, a 100 mlynedd o ysbrydoli cenedlaethau o ddysgwyr drwy raglennu arloesol sy'n torri tir newydd ym maes addysg.

Yn 2024 byddwn hefyd yn dathlu 25 mlynedd ers cyflwyno Bitesize. Dyma'r wefan addysgol ar-lein fwyaf poblogaidd o hyd i blant ysgol yn y DU, gydag 83% o blant o dan 16 oed sy'n defnyddio Bitesize yn dweud ei fod yn eu helpu i ddeall eu hastudiaethau'n well. Dathlodd adran BBC Children's and Education ei chanmlwyddiant drwy gyhoeddi buddsoddiad £6 miliwn yn Bitesize er mwyn helpu i greu cynnwys mwy personol a pherthnasol y mae'n haws dod o hyd iddo (gweler tudalen 144). Yn y cyfamser, rhoddodd cynllun Gohebydd Ifanc y BBC gymorth i bobl ifanc 11-18 oed ar draws y DU drwy hyrwyddo sgiliau llythrennedd newyddion a'r cyfryngau.

Mae arlwy addysg a dysgu'r BBC yn parhau i gyrraedd ymhell y tu hwnt i Bitesize a'n ffocws ar y rheini yn yr ysgol. Er enghraifft, mae ein rhaglennu hanes naturiol yn unigryw o ran ei allu i ddod â phobl ynghyd gan eu hysbysu, eu haddysgu a'u diddanu ar yr un pryd. Ein nod yw helpu pobl, ni waeth eu hoedran, i gyflawni eu potensial llawn drwy gynnwys a gwasanaethau addysgol, a chyfluoedd i gymryd rhan, a roddir iddynt gan y BBC, partneriaid a'i gilydd.

POBL I DDDYSGU

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol Diben cyhoeddus 2 – parhad

Cynorthwyo pobl o bob oedran i ddsygu



Ranger Hamza a'r Ramblers yn mynd ar daith eco i ddsygu mwy am iorwg

Y flwyddyn hon, mae'r BBC yn dathlu canmlwyddiant ein darllediad addysg cyntaf erioed, a 100 mlynedd o ysbrydoli cenedlaethau o ddysgwyr drwy raglennu arloesol sy'n torri tir newydd ym maes addysg.



Planet Earth III

Yn nhrydydd iteriad y gyfres boblogaidd, cyflwynodd Syr David Attenborough rai o rywogaethau mwyaf anhygoel y byd i'r gwylwyr, gan adrodd straeon eithriadol am anifeiliaid a oedd yn ddramatig, yn gyffrous, yn ddoniol ac weithiau'n dorcalonnus, ond bob amser yn llawn gobaith. Bron i ddau ddegawd ers darlledu'r gyfres *Planet Earth* wreiddiol ar BBC One, gwelom sut mae gwyddoniaeth a thechnoleg wedi datblygu, ond hefyd sut mae ein planed wedi newid. Yn y bennod olaf, dathlodd Syr David yr arwyr cadwraeth sy'n brwydro i achub bywyd gwylt ledled y byd. Gyda chynulleidfa gyfun gyfartallog o wyth miliwn, hon oedd ein rhaglen ffeithiol fwyaf poblogaidd ond dwy yn ystod 2023/24. Honnodd 57% o'r rhai a wylodd rhywfaint o'r gyfres ei bod wedi gwneud iddynt deimlo mwy o gyswllt â byd natur, a nododd 60% eu bod wedi gwneud mwy o ymdrech i ymddwyn mewn o leiaf un ffordd sy'n fwy ystyriol o'r amgylchedd ar ôl gwyllo'r gyfres.



Little Learners CBeebies

Ym mis Ionawr, cydweithiodd CBeebies a Bitesize am y tro cyntaf i lansio ap Little Learners CBeebies, gan gyflwyno gemau addysgol i blant cyn-ysgol, a oedd yn cynnwys cymeriadau poblogaidd CBeebies ac wedi'u mapio i gwricwlwm Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar. Mae'r ap yn darparu amser sgrin addysgol sy'n helpu plant i feithrin y sgiliau sydd eu hangen arnynt i baratoi ar gyfer y dosbarth Derbyn – gan gynnwys mathemateg; llythrennedd; cyfathrebu ac iaith; datblygiad personol, cymdeithasol ac emosïynol; a deall y byd. Yn dilyn yr achlysur lansio, llwyddodd yr ap i gyrraedd brig rhestr apiau plant Apple App Store, gan ategu cyrhaeddiad addysgol y BBC, gan gynnwys tair miliwn o blant sy'n gwyllo bwletinau *Newsround* mewn ysgolion bob wythnos, a chyfartaledd o 1.8 miliwn o ymwelwyr Bitesize bob wythnos yn ystod y tymor.



BBC Reith Lectures gyda Ben Ansell ar Our Democratic Future

Darlithydd Reith Radio 4 ar gyfer 2023 oedd Ben Ansell, Athro Sefydliadau Democrataidd Cymharol ym Mhrifysgol Rhydychen. Aeth â'r gwrandawyr ar daith drwy bedair darlith, o'r enw *Our Democratic Future*, gyda phob un yn canolbwyntio ar nod penodol: democratiaeth, diogelwch, undod a ffyniant. Cafodd y darlithoedd eu recordio o flaen cynulleidfaoedd byw yn Llundain, Berlin, Sunderland ac Atlanta a chafwyd trafodaethau agored a chadarn. Wrth i'r Deyrnas Unedig a'r Unol Daleithiau baratoi ar gyfer etholiadau pwysig yn 2024, ystyriodd yr Athro Ansell enedigaeth democratiaeth, y sefyllfa yn yr oes sydd ohoni ac ystyriodd yr heriau a fydd yn ein hwynebu yn y dyfodol, cyn gorffen drwy holi beth y gallwn ei wneud er mwyn cyflawni ein nodau cyffredin.



Kate Nash, y cafodd ei brawd William ei saethu'n farw ar Sul y Gwaed, yn y gyfres glodwiw *Once Upon a Time in Northern Ireland*



Dod â BBC Children's a Bitesize yn fyw

Yn ystod y flwyddyn, cynigiodd BBC Children's gyfleoedd i blant a theluoedd greu atgofion gyda'i gilydd ac i brofi rhai o'u hoff raglenni fel rhan o'u bywyd go iawn. Roedd hyn yn cynnwys *Operation Ouch!* Food, Poo and You, sef arddangosfa ryngweithiol ym Manceinion lle gallai ymwelwyr fwrw golwg agos ar y system dreulio a gweld pethau afiach ond doniol er mwyn darganfod hynt bwyd pan fyddwn yn ei fwyta, 'Orrible Opera gyda chast *Horrible Histories* yn nigwyddiad Prom cyntaf erioed CBBC fel rhan o dymor Proms y BBC yn y Royal Albert Hall, a Proms on Tour CBeebies lle cafodd cynulleidfaoedd gyfle i fwynhau Antur Cefnforol hudolus mewn lleoliadau ledled y DU gyfan.

Ymwelodd taith ysgolion BBC Bitesize Careers â 182 o ysgolion uwchradd ledled Cymru a Lloegr, gan gyflwyno gwybodaeth arbenigol a diddorol am yrfaeodd i 136,364 o bobl ifanc i'w helpu i wneud penderfyniadau am eu gyrfa yn y dyfodol. Cyflawnodd y daith ddau o Feincnodau Gatsby – gan gysylltu cyfleoedd dysgu cwricwlaidd â gyrfaeodd a chynnig profiadau â chyflogwyr a chyflogeion.

i t. 143 I gael y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am Ddiben Cyhoeddus 2



Once Upon a Time in Northern Ireland

Gan y cyfarwyddwr clodwiw James Bluemel, rhoddodd *Once Upon a Time in Northern Ireland* lais i'r bobl a fu'n byw drwy'r Helyntion, gan rannu profiadau nas clywyd yn flaenorol o bob ochr i'r gwrthdaro. Cafodd ei chydgomisiynu gyda BBC Northern Ireland ar gyfer y BBC a PBS, a'i chydgynhyrchu gan KEO Films a Walk on Air Films. Cafodd y gyfres lu o adolygiadau pum seren, ac enillodd Wobr Ddarlledu am y Gyfres Ddogfen Orau, dwy Wobr Grierson, dwy Wobr RTS a dwy Wobr TV Craft BAFTA, ymhlith eraill. Wrth ysgrifennu i'r Belfast Telegraph, datganodd Suzanne Breen mai hon oedd "the most magnificent documentary series ever made about this place".



You're Dead To Me

Mae podlediad poblogaidd BBC Radio 4 *You're Dead To Me* wedi parhau i ddi-ddanu ac addysgu gwrandawyr mewn ffyrdd newydd ac annisgwyl. Gan ddod â mawrion y byd comedi a hanes at ei gilydd i ddysgu a chwerthin am y gorffennol, ymdriniodd *You're Dead to Me* â phynciau pellgyrhaeddol yn amrywio o Pythagoras i Bollywood. Cyfeirir ato fel y podlediad comedi sy'n cymryd hanes o ddirif, ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, dathlodd y cyflwynydd Greg Jenner a'r tîm ei ganfed bennod drwy gynnig penodau byw arbennig i'r gwrandawyr, gan gynnwys dathliad o Mozart, i gyfeiliant cerddoriaeth gan Gerddorfa Gyngerdd y BBC, yn ogystal â recordiad yn Shakespeare North Playhouse yn Prescot i gyd-fynd â phedwar canmlwyddiant y Ffolio Cyntaf.

69% 22/23 72%

Cyrhaeddiad y BBC cyfan ymhlith y rhai o dan 16 oed

% y rhai o dan 16 oed sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell Kids Cross-Media Insight gan Ipsos UK

83% 22/23 85%

BBC Bitesize

% y defnyddwyr o dan 16 oed sy'n dweud bod Bitesize yn eu helpu i ddeall eu hastudiaethau/dysgu yn well.

Ffynhonnell DJS



Podlediad poblogaidd BBC Radio 4 *You're Dead To Me*



ALLBWN



Diben 3: Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau

Mae'r tudalennau hyn yn rhoi enghreifftiau o'r amrywiaeth o gynnwys creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau a gynhyrchwyd ar draws y BBC y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r BBC yma i greu rhaglenni gwych i gynulleidfaoedd drwy gefnogi'r dalent adrodd straeon cartref orau. Rydym yn dod â phobl ynghyd ar gyfer cynnwys heb ei ail ac mae'r hyn rydym wedi'i gynhyrchu y flwyddyn hon – ar draws cynnwys ffeithiol, y celfyddydau, drama, adloniant, comedi, chwaraeon a cherddoriaeth – unwaith eto yn dangos ein hymrwymiad i gynnal y safonau cynhyrchu a golygyddol uchaf ar draws yr amrywiaeth ehangaf o allbwn.

Gwnaethom gyflawni ym mhob genre yn 2023/24, gan ddenu cynulleidfaoedd uchel ar gyfer rhaglenni fel *Doctor Who*, *Blue Lights*, *Strictly* a *The Traitors* yn ogystal â phodlediadau poblogaidd fel *Newscast* a *Just One Thing*, ac ennill gwobrau pwysig am raglenni fel *The Sixth Commandment*, *Black Ops*, *Once upon a Time in Northern Ireland* yn ogystal â rhaglen Scott Mills ar BBC Radio 2 a phodlediad eithriadol o bwerus *Seven* ar BBC Radio Leeds gan y diweddar Rob Burrow. Yn y cyfamser, daeth ein darllediadau o ddigwyddiadau cenedlaethol pwysig â'r DU gyfan ynghyd, o Gyfres y Llundw a Chwpan y Byd i Fenywod i Eurovision ac Ultra Ultramarathon Vernon Kay ar gyfer BBC Plant mewn Angen.

Dyma sy'n parhau i wneud y BBC yn unigryw yn nhirwedd y cyfryngau heddiw: amrywiaeth o allbwn creadigol o ansawdd uchel ar draws teledu a radio sy'n unigryw am ei natur nodedig a'i ffocws ar gefnogi'r dalent adrodd straeon cartref orau o bob cwr o'r DU.

NODEDIG

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol Diben cyhoeddus 3 – parhad

Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau



Claudia Winkleman yng nghyfres 2 *The Traitors*

Dyma sy'n parhau i wneud y BBC yn unigryw yn nhirwedd y cyfryngau heddiw: amrywiaeth o allbwn creadigol o ansawdd uchel ar deledu a radio sy'n unigryw am ei natur nodedig a'i ffocws ar gefnogi'r dalent adrodd straeon cartref orau o bob cwr o'r DU.



The Traitors

Roedd y fformat realiti a enillodd sawl gwobr ac a gafodd glod gan y beirniaid eisoes yn hynod boblogaidd yn dilyn ei lansio ddiwedd 2022. Pan gyflwynwyd ail gyfres *The Traitors* ym mis Ionawr 2024, gwelodd dwf aruthrol ar BBC iPlayer, gan gadarnhau ei statws fel y rhaglen adloniant fwyaf poblogaidd ar alw/fideo ar alw ar draws pob darlledwr a ffrydiwr, dros y ddwy flynedd ddiwethaf o leiaf. Cynhyrchwyd yr ail gyfres gan Studio Lambert Scotland a llwyddodd i ddal dychymyg y genedl, gan ddod yn destun trafod a denu cynulleidfa gyfartalog o 8.1 miliwn ar draws y gyfres. Cafodd cynulleidfa oedd ar draws y DU eu hudo gan y gymysgedd anniwall o lofruddiaethau, gwaharddiadau, brad ac ystryw, oll o dan oruchwyliaeth Claudia Winkleman ac yn erbyn cefndir godidog Ucheldiroedd yr Alban. *The Traitors* yw'r brand Adloniant newydd mwyaf yn y farchnad o hyd ar gyfer pobl rhwng 16 a 34 oed ac mae'r gwaith ffilmio bellach wedi'i gwblhau ar gyfer y drydedd gyfres.



Blue Lights

Mae drama'r heddlu *Blue Lights* sydd wedi'i lleoli yn Belfast yn ddrama ddilys, gyffrous sy'n cynnwys hiwmor tywyll am bobl gyffredin sy'n gwneud gwaith allan o'r cyffredin. Wedi'i chyd-greu a'i hysgrifennu gan y cyn newyddiadurwyr ymchwiliol Declan Lawn ac Adam Patterson, ac wedi'i lleoli yn eu dinas gartref, dilynodd y gyfres gyntaf dri recriwt PSNI newydd a oedd ar eu cyfnod prawf wrth iddynt ddygydd â'u misoedd cyntaf mewn gweithle hynod gymhleth, er mwyn cymhwyso fel swyddogion ymateb yr heddlu. Adeg ei lansio, denodd gynulleidfa gyfartalog o fwy na saith miliwn ac roedd ymhlith y deg cyfres ddrama newydd fwyaf poblogaidd yn 2023 ar draws pob darlledwr a ffrydiwr. Dyma oedd y gyfres ddrama fwyaf yng Ngogledd Iwerddon yn 2023. Dilynodd ail gyfres ac mae dwy gyfres arall wedi cael eu comisiynu.



Cwpan y Byd i Fenywod

Gan adeiladu ar fomentwm a llwyddiant Ewros y Menywod yn 2022, dilynodd y BBC yr holl gyffro wrth i'r Llewesau gymryd rhan yng Nghwpan y Byd i Fenywod yn Awstralia. Gan gadarnhau rôl BBC Sport fel y prif ddarlledwr pêl-droed i fenywod yn y DU, darlledodd y BBC 33 o gemau'n fyw gan gynnig darllediadau cynhwysfawr ar deledu, radio, BBC iPlayer, BBC Sounds ac ar ap BBC Sport. Llwyddodd Cwpan y Byd i Fenywod i ddenu sylw'r genedl wrth i'r tîm, dan arweiniad Millie Bright, gyrraedd y rownd derfynol lle gwylodd 12 miliwn y tîm yn cael ei guro 1-0 gan Sbaen, gan olygu mai dyma oedd un o'r digwyddiadau a wylwyd fwyaf yn 2023.



t.143 I gael y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am Ddiben Cyhoeddus 3



Brenin Charles III a Thywysog William yn ymarfer ar gyfer y Coroni yn Abaty Westminster

85%

22/23 88%

Cyrhaeddiad y BBC cyfan

% yr oedolion yn y DU sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd. Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK 16+

66%

22/23 68%

% yr oedolion yn y DU sy'n dweud bod y BBC yn effeithiol wrth eu diddanu/diddanu pobl y DU (aneffeithiol 13%. 22/23: 13%). Ffynhonnell Ipsos UK 16+



Datblygu talent newydd ar BBC Sounds

Mae BBC Sounds Audio Lab yn cynnig rhaglen hyfforddiant a datblygiad i'r genhedlaeth nesaf o gynhyrchwyr podlediadau a gweithwyr sain creadigol. Mae graddedigion o'r rhaglen wedi symud ymlaen i greu cynnwys clodwiw, gan gynnwys Tommy Dixon a enillodd wobwr 'Podlediad Newydd Gorau' y Diwydiant Sain a Radio am ei bodlediad gwych *Colouring in Britain*, a Talia Randall a enillodd wobwr arian yn y categori 'Podlediad Gorau am yr Hinsawdd' yng Ngwobrau Podlediadau Prydain am *Blossom Trees and Burnt-Out Cars*. Cafodd alwmni'r Audio Lab hefyd eu cynnwys yn rhestr yr Academi Radio o bobl ifanc o dan 30 oed i gadw llygad arnynt a chafodd rhai eu penodi i swyddi pwysig gyda chwmnïau cynhyrchu, gan gynnwys BBC Audio, Aunt Nell Productions a Goalhanger Podcasts.

Dychwelodd Audio Lab yn 2023 gan gyflwyno pum stori arall newydd ar ffurf podlediadau, gan amrywiaeth o wahanol leisiau newydd, gan ystyried cydberchnogaeth, datgelu hanesion cudd trefi na chawsant lawer o sylw yn y gorffennol, ymchwilio i effaith Purfa Olew Stanlow, archwilio hunaniaeth unigolion Gorllewin Affrica Prydeinig a bwrw goleuni ar yr arfer Moslemaidd, Zakat.



Dod â phobl ynghyd

Gwnaethom gyflwyno dau o ddigwyddiadau byw mwyaf y DU yn ystod blwyddyn yr adroddiad – sef y Coroni ac Eurovision, y ddau wedi'u cynhyrchu gan BBC Studios.

Darlledwyd Coroni Ei Fawrhydi'r Brenin ac Eii Mawrhydi'r Frenhines Gydweddog mewn mwy nag 80 o diriogaethau, a chyrrhaeddodd Eurovision 162 miliwn o bobl ledled y byd, dros dair rhaglen fyw.

Ar gyfer y Coroni ar 6 Mai, y digwyddiad cyntaf o'i fath ers 70 mlynedd, darparodd y BBC ffrwd manylder uwch i bob darlledwr yn y DU a phob darlledwr rhyngwladol, gan ddefnyddio 150 o gamerâu mewn 17 o leoliadau ar hyd y llwybr, gyda saith tîm darlledu allanol gwahanol yn cyfrannu at y darllediadau, gan gynnwys cerddoriaeth a gyfansoddwyd yn arbennig ac a recordiwyd gan Gerddorfa Gyngerdd y BBC. Yn ogystal, cafwyd y *Coronation Concert*, sef digwyddiad byw dwy awr o hyd ar 7 Mai, a gynhyrwyd gan BBC Studios, ac a darlledwyd o ddeg lleoliad byw ar draws y DU, a oedd yn cynnwys perfformiadau cerddorol gan Katy Perry ac eraill, cerddorfa filwrol â 74 o aelodau, côr cymunedol â 300 o aelodau ac arddangosfa dronïau.

Cynhaliwyd Eurovision Song Contest 2023 yn y DU am y tro cyntaf ers 25 mlynedd. Fe'i cynhaliwyd gan y BBC yn Lerpwl ar ran Wcráin, a chynhyrwyd tair rhaglen deledu fyw dros wyth awr. Mynychodd mwy na 470,000 o bobl ddigwyddiadau a oedd yn gysylltiedig ag Eurovision yn yr ardal, a denodd y gystadlaeuath £54.8 miliwn o wariant ychwanegol net i Ddinas-ranbarth Lerpwl. Y Rownd Derfynol oedd y rownd derfynol a wylwyd fwyaf yn y DU ers dechrau'r cofnodion yn 2002, gan gyflawni cynulleidfa gyfartalog o 9.9 miliwn yn ôl yr ystadegau dros nos.



Mis Piano Room BBC Radio 2

Dangosodd BBC Radio 2 ei ymrwymiad i gerddoriaeth fyw yn ystod *Mis Piano Room* ym mis Chwefror, a ddarlledwyd fel rhan o raglen ganol bore Vernon Kay. Yn ystod y mis, cafwyd 20 o berfformiadau unigryw gan amrywiaeth anhygoel o'r artistiaid pop mwyaf poblogaidd, gan gynnwys Anastacia, Rod Stewart, Gabrielle, PP Arnold, Pet Shop Boys, Olivia Dean a Bruce Hornsby – oll i gyfeiliant Cerddorfa Gyngerdd y BBC yn Maida Vale Studios yn Llundain. Perfformiodd pob un o'r artistiaid un o'u caneuon poblogaidd, cân newydd a chlasur gan artist arall. Roedd y perfformiadau yn fyw ar yr awyr, ar gael i'w clywed ar BBC Sounds, ac fe'u ffilmwyd ar gyfer BBC iPlayer.



Undercover: The Spycops

Mae'r gynulleidfa yn ymddiried yn ein hadroddwyr straeon lleol ac mae llwyfannau digidol yn rhoi mwy o amlygrwydd i'w straeon. Un enghraifft o hyn oedd *Undercover: The Spycops* a wnaed gan BBC Radio Nottingham. Aeth y gyfres podlediadau hon ati i archwilio hanes un o swyddogion cudd yr heddlu a lwyddodd i ymuno â grŵp o actifyddion yr hinsawdd yn yr ardal. Yn sgil hynny, roedd llawer o gwestiynau i'w hateb, ac o ganlyniad, cynhaliwyd ymchwiliad cyhoeddus dan arweiniad barnwr. Cafodd y podlediad ei chwarae a'i lawrlwytho bron i filiwn o weithiau ar BBC Sounds, sy'n gynulleidfa fwy o lawer nag y byddai'r gyfres wedi'i chyflawni pe bai ond wedi cael ei darlledu ar yr orsaf radio leol.



BBC Proms in Gateshead

Fel rhan o ymrwymiad y BBC i ddarparu gwerth i bob cynulleidfa ar draws y DU, lansiodd Proms y BBC yr ŵyl benwythnos Proms gyntaf y tu allan i Lundain yn The Glasshouse International Centre for Music yn Gateshead. Ar y cyd â'r Royal Northern Sinfonia a'r arweinydd Robert Ames, agorodd yr ŵyl â pherfformiad gan Self Esteem, a oedd yn perfformio yn y Proms am y tro cyntaf. Perfformiodd cerddorion â'u gwreiddiau yng ngogledd-ddwyrain Lloegr drwy gydol y penwythnos, a chynhaliwyd cyngherddau yn cynnwys cerddoriaeth glasurol, jazz, gwerin a chorawl. Cafodd mwy na 5,000 o ddilynwyr cerddoriaeth gyfle i fwynhau'r profiad byw mewn chwe digwyddiad dros gyfnod o dri diwrnod ac roedd 95% o'r gynulleidfa yn mynychu Proms y BBC am y tro cyntaf.

Yn ogystal, cynhaliwyd cyngherddau siambr ym mhob un o bedair gwlad y DU: Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth, Guildhall Londonderry, Neuadd y Dref Dewsbury, Neuadd Cernyw yn Truro, Neuadd Gyngerdd Perth a'r Hippodrome yn Great Yarmouth.

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol Diben cyhoeddus 3 – parhad

Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau



Cyflwynwyr Eurovision Song Contest 2023 yn y Rownd Derfynol yn Lerpwl

**Darledwyd Coroni
Ei Fawrhydi'r Brenin ac
Ei Mawrhydi'r Frenhines
Gydweddog mewn mwy
nag 80 o diriogaethau,
a chyrrhaeddodd
Eurovision 162 miliwn o
bobl ledled y byd, dros
dair rhaglen fyw.**

62% 22/23 66%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n gosod safon uchel ar gyfer ansawdd (aneffeithiol 14%. 22/23: 14%).
Ffynhonnell Ipsos UK 16+



Cyfres y Llundw

Chwaraewyd Cyfres y Llundw ddramatig iawn ar dir cartref a chyflwynodd BBC Sport arlwy amlwyfan cynhwysfawr i ddilynwyr criced ar gyfer y gyfres i ddynion a'r gyfres i fenywod. Darparodd BBC 5 Sports Extra a BBC Sounds sylwebaeth arbenigol fanwl drwy *Test Match Special*, a phodlediadau Cyfres y Llundw yn cynnwys y dadansoddiadau a'r wybodaeth orau ar ddiwedd y chwarae bob dydd, a darledwyd uchafbwyntiau bob dydd ar y teledu ar BBC Two. Chwaraewyd dros 59 miliwn o gliplau ar ein gwefan, a chafwyd dros 30 miliwn o geisiadau i wrando.



Y flwyddyn orau erioed i iPlayer

Mae BBC iPlayer yn flaenoriaeth strategol graidd o hyd a chafodd ei flwyddyn orau erioed y flwyddyn ddiwethaf, gyda rhaglenni yn cael eu ffurdiio 8.1 biliwn o weithiau, sef y nifer uchaf erioed, a chynnydd o 10% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan ddangos bod ein strategaeth yn llwyddo i wylwyr.

Gwnaethom ychwanegu mwy o focs-setiau a theitlau o'r archif, a gwnaethom ddenu'r niferoedd uchaf erioed o wylwyr i ddigwyddiadau cenedlaethol byw ar iPlayer – gan gynnwys y Coroni, yr Eurovision Song Contest, Cwpan y Byd i Fenywod a Glastonbury. Lansiodd The Whoniverse gennym hefyd, sef cartref penodol i bob pennod o fewn orbit *Doctor Who* – gan alluogi dilynwyr y rhaglen i wylwio dros 800 o benodau o gynnwys *Doctor Who* mewn un lleoliad.



The Sixth Commandment

Lansiodd *The Sixth Commandment* ym mis Gorffennaf 2023 gan ddenu adolygiadau llawn canmoliaeth a chynulleidfya gyfun o wyth miliwn. Adroddodd y gyfres stori Peter Farquhar ac Ann Moore-Martin, gan archwilio'r digwyddiadau erchyll a ddatblygodd ar ôl iddynt gwrdd â'r myfyriwr, Ben Field, a arweiniodd at un o'r achosion troseddol mwyaf cymhleth a dyrys ers cyn cof. Roedd y ddrama ffeithiol hon a gafodd ei chreu mewn ffordd hynod sensitif yn unigryw a chafodd ganmoliaeth gan y wasg fel "as fine a piece of television as you will ever see" (The Guardian), "proof that true-crime dramas don't have to exploit" (The i), a sylwadau yn The Telegraph yn datgan "it never forgets its victims". Enillodd Timothy Spall ei wobwr BAFTA gyntaf am ei ran yn y gyfres, a chafodd Anne Reid ac Eanna Hardwicke hefyd eu henwebu yn eu priod categorïau. Enillodd y gyfres y wobwr am y Ddrama Gyfyngedig Orau. Enillodd hefyd dair gwobr RTS am Gyfres Gyfyngedig, Actor Cynorthwyol – Gwrywaidd i Eanna Hardwicke ac Awdur – Drama i Sarah Phelps.



Cynnwys amgylcheddol o'r radd flaenaf

Mae'r BBC yn creu cynnwys amgylcheddol o'r radd flaenaf sy'n hysbysu cynulleidfaoedd ac yn eu hysbrydoli i wneud dewisiadau mwy cynaliadwy.

Yn 2023/24, cyrhaeddodd ein cynnwys Teledu a Radio nad yw'n Newyddion a oedd yn cynnwys themâu amgylcheddol penodol fel rhan amlwg tua 64% o'r boblogaeth 16+ yn y DU.

Cyrhaeddodd y gyfres amgylcheddol hynod boblogaidd *Planet Earth III* 26.5 miliwn o bobl ar draws ei holl ddangosiadau ar y BBC yn y DU. Er mwyn tynnu sylw at bŵer sgysiaid sy'n canolbwyntio ar fyd natur, lansiodd y BBC *Become a Voice for Nature*, gyda llu o enwogion yn lleisio adegau allweddol o'r gyfres ac yn gwahodd cynulleidfaoedd i wneud yr un peth, a chafodd ei chwarae fwy na 2.5 miliwn o weithiau ar y cyfryngau cymdeithasol. Ac aeth BBC Studios ati i lunio partneriaeth â Minecraft Education i greu byd thema mewn 29 o ieithoedd, er mwyn tynnu sylw at bwysigrwydd gwarchod cynefinoedd ac ecosystemau.

Gwnaeth y dyn camera a'r cyflwynydd bywyd gwylt Hamza Yassin gryn argraff unwaith eto ar *Strictly Come Dancing*, cyn rhannu ei ddiddordeb brwd mewn adar hela ar BBC One, yn *Hamza: Strictly Birds of Prey*, a gyrhaeddodd fwy na saith miliwn o bobl ar draws ei holl ddangosiadau ar y BBC yn y DU. Tyfodd *Let it Grow* ar BBC Radio 2, a daeth *Max Richter Live: Earth Day 2023*, a recordiwyd i ddathlu byd natur Mile End Park, â'r gymuned leol yn Nwyrain Llundain ynghyd â chynulleidfaoedd BBC Radio 3. Roedd arddangos atebion yn un o'r themâu, gyda 100 Women y World Service yn cydnabod 28 o arloeswyr hinsawdd; Gwobrau Chwaraeon Gwyrdd BBC Sport; Gwobr Growing Together *The One Show* ar gyfer Garddio Cymunedol mewn partneriaeth â'r RHS; a *The Earthshot Prize*. Yn ogystal â dathlu, ystyriwyd atebolrwydd, gyda *Panorama: Why are we still searching for fossil fuels?* ac exposé dramatig Golygydd yr Hinsawdd Justin Rowlatt o gynlluniau UAE i ddefnyddio trafodaethau hinsawdd COP28 i drefnu cytundebau olew.

Rydym yn ymrwymedig i ffyrdd ysgafn a dilys sy'n berthnasol i'r gynulleidfa o gynnwys cynaliadwyedd yn ein cyfresi mwyaf poblogaidd, o gynnwys seigiau yn seiliedig ar blanhigion yn y *Great British Menu* i dasgau sy'n gysylltiedig â 'thwf gwyrdd' yn *The Apprentice*. Ar draws ein hallbwn, rydym yn parhau i gyflawni'r Addewid Cynnwys Hinsawdd ac rydym wrthi'n treialu'r Ymrwymiad Hinsawdd Newyddiaduraeth.



Gbemisola Ikumelo a Hammed Animashaun yn y comedi antur a enillodd wobr BAFTA, *Black Ops*



Giant DJ Hunt BBC Radio 1

Cynhaliodd BBC Radio 1 ddiwyddiad Giant DJ Hunt hynod lwyddiannus gyda phob un o gyflwynwyr Radio 1 – heblaw am Greg James – yn cuddio ledled y DU a thu hwnt. Greg oedd yn gyfrifol am ddod o hyd i bob un ohonynt ac adfer amserlen Radio 1 o fewn 100 awr er mwyn atal yr orsaf rhag cael ei thynnu oddi ar yr awyr. Roedd y pum munud olaf yn ddramatig iawn wrth iddi ymddangos yn hynod debygol na fyddai'n llwyddo. Roedd digwyddiad The Giant DJ Hunt yn llwyddiant ysgubol, gan ddenu 4.8 miliwn o geisiadau i Radio 1 ar BBC Sounds yn ystod yr wythnos yn dechrau 17 Gorffennaf 2023.



Ultra Ultramarathon Vernon Kay ar gyfer BBC Plant mewn Angen

Ym mis Tachwedd, cwblhaodd cyflwynydd ganol bore BBC Radio 2, Vernon Kay, Ultra Ultramarathon ar ran digwyddiad codi arian BBC Plant mewn Angen yr orsaf. Cwblhaodd Vernon daith dros 115 milltir ar droed dros bedwar diwrnod, gan ddechrau yn Victoria Park, Caerlŷr – lle cynhaliwyd Radio 2 in the Park ym mis Medi 2023 – a gorffen yn Bolton Wanderers FC. Safodd miloedd o gefnogwyr wrth ymyl y ffyrdd yn Swydd Gaerlŷr, Swydd Derby a Manceinion Fwyaf, a llwyddodd camp epig Vernon, ochr yn ochr â pherfformiad Gala Radio 2 o Back to the Future: The Musicals, i godi £6,069,887 i BBC Plant mewn Angen.



Black Ops

Adroddodd y comedi antur *Black Ops* stori dau Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn Nwyrain Llundain a ymunodd â Heddlu'r Met er mwyn gwella eu cymuned. Fodd bynnag, ymhen dim, daethant yn rhan ddiarwybod o fyd tywyll a chudd a busnes troseddol pwerus. Llwyddodd y rhaglen a enillodd wobr BAFTA, a gafodd ei chreu gan Gbemisola Ikumelo ac Akemnji Ndiforneyen a wnaeth hefyd ymddangos ynddi, a gyd-ysgrifennwyd gyda Joe Tucker a Lloyd Woolf, a gyda'r actor Hammed Animashaun, i hudo gwylwyr a beirniaid. Lansiodd gan ddenu 2.3 miliwn ar gyfer y bennod gyntaf ac 1.6 miliwn ar draws y gyfres, gyda chyfran o 16% o'r gynulleidfa yn bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Lansiodd gan ddenu 2.3 miliwn ar gyfer y bennod gyntaf ac 1.6 miliwn ar draws y gyfres, gyda 0.3 miliwn/mwy na 16% o'r gynulleidfa yn bobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Cafodd ei henwebu am bedair Gwobr RTS a hi oedd Rhaglen Gomedï Orau'r Gwobrau Darlledu. Mae ail gyfres wedi cael ei chomisiynu.



t.67 Am ragor o wybodaeth am gynaliadwyedd

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol
Diben cyhoeddus 4



CYMNEDAU



Diben 4: Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a chefnogi'r economi greadigol

Mae'r tudalennau canlynol yn dangos ymrwymiad y BBC i wasanaethu pob cynulleidfda ar draws y DU.

Er mwyn cynnig gwerth i bob un o dalwyr ffi'r drwydded, mae dyletswydd ar y BBC i sicrhau y caiff safbwyntiau a lleisiau cymunedau amrywiol ar draws y DU eu hadlewyrchu a'u cynrychioli ym mhob rhan o'i allbwn. Mae cyfrifoldeb arnom hefyd i sicrhau y caiff effaith economaidd y BBC ei dosbarthu i bob cwr o'r DU.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos pa mor gryf rydym yn cyflawni ein cynlluniau 'Across the UK' uchelgeisiol i symud pobl, pŵer a gallu'r BBC i wneud penderfyniadau i'r gwledydd a'r rhanbarthau (gweler tudalennau 32-33). Heddiw, mae'r BBC yn gwario 60% o'i gyllideb teledu rhwydwaith yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ac mae gennym ganolfannau cynhyrchu mawr yng Nghaerdydd, Glasgow, Belfast, Salford, Bryste, Birmingham a Llundain. Mae ein ffocws ar ddatblygu'r dalent a'r syniadau gorau o bob cwr o'r DU yn unigryw. Rydym hefyd yn cefnogi 50,000 o swyddi ar draws y DU ac yn gweithio gyda thua 14,000 o gyflenwyr gwahanol – y mae tri chwarter ohonynt yn fusnesau bach a chanolig yn y DU.

Y flwyddyn hon, mae adroddiadau ar effaith economaidd *Doctor Who* yng Nghaerdydd ac Uned Hanes Naturiol BBC Studios ym Mryste wedi pwysleisio maint effaith y BBC ar dwf clystyrau creadigol ar draws y DU. Yn gyffredinol, caiff 50% o gyfraniad economaidd y BBC ei greu y tu allan i Lundain, yn erbyn cyfartaledd sector o 20%.

AMRYWIOL

Y BBC AR DRAWS Y DU

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cyflymu ein gwaith i sicrhau bod BBC y dyfodol wedi'i wreiddio'n gadarn ym mhob rhan o'r DU a'i fod yn cynrychioli anghenion ein holl gymunedau ac yn eu diwallu'n well.

Rhaglen Across the UK (ATUK)

Mae rhaglen Across the UK bellach wedi dechrau ei hail gam, ac mae ar y trywydd cywir i ragori ar ei tharged gwariant o £700 miliwn y tu allan i Lundain. Hyd yn hyn, mae'r BBC wedi gwneud buddsoddiad cronol o fwy na £200 miliwn ar draws ei raglennu a'i wasanaethau fel rhan o'r rhaglen, gan gynnwys adleoli mwy na 350 o swyddi y tu allan i Lundain.

Mae Across the UK yn golygu mai'r BBC yw'r buddsoddw'r unigol mwyaf mewn cynnwys gwreiddiol o'r DU, gan gyfrannu bron i £5 biliwn i'r economi greadigol genedlaethol – gyda 50% o werth ychwanegol gros y tu allan i Lundain. Am bob £1 o weithgarwch economaidd uniongyrchol y BBC, caiff £2.63 ei greu yn yr economi yn gyffredinol. Rydym yn un o gefnogwyr allweddol y sector creadigol rhanbarthol ar draws y DU ac mae ein dadansoddiadau economaidd yn dangos bod cynnydd o 15% yn ôl troed y BBC yn arwain at dwf ddwywaith mor uchel o fewn clystyrau creadigol rhanbarthol.

Tyfu ein gwariant cynhyrchu teledu a radio rhwydwaith

Mae cynyddu cyfran gwariant cynhyrchu rhwydwaith y BBC ar draws y DU yn hanfodol er mwyn cefnogi'r twf hwn, ac er mwyn adlewyrchu a chynrychioli rhanbarthau ar draws y DU a bywydau ein cynulleidfaoedd yn well. Yn 2023/24, cyflawnodd y BBC ei darged i wario 60% o'r gyllideb teledu rhwydwaith y tu allan i Lundain, gan sicrhau bod 60% o'r gwariant rhwydwaith y tu allan i Lundain am y tro cyntaf, ac rydym ar y trywydd cywir i gynnal y sefyllfa hon yn barhaol erbyn 2026. Cynyddodd gwariant radio rhwydwaith i 44% o gyfanswm y gwariant cynhyrchu radio a cherddoriaeth y tu allan i Lundain yn 2023/24, wrth iddo symud tuag at gyflawni ei darged o 50% erbyn diwedd cyfnod y Siarter bresennol.

Cynrychioli ac adlewyrchu ein cynulleidfaoedd

Mae Drama a Chomedi yn genres allweddol o ran gwella cynrychiolaeth ac effaith ymhlith cynulleidfaoedd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, dangosodd y BBC straeon sy'n adlewyrchu mannau a chymunedau ar draws y DU, gan gynnwys *Blue Lights* yn Belfast, *Steeltown Murders* ym Mhort Talbot, *Shetland* yn Lerwick a *This Town* a *Man Like Mobeen* yn Birmingham.

Roedd y comisiynau hyn yn boblogaidd â'n cynulleidfaoedd. Perfformiodd *Blue Lights* yn arbennig o dda ymhlith cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon gan ddenu cynulleidfau gyfartalog o 0.4 miliwn yn y rhanbarth – sy'n cyfateb i ryw 20% o boblogaeth Gogledd Iwerddon, o gymharu â'i chynulleidfau o 9% ar gyfer y DU gyfan (5.7m). Comisiynodd y BBC raglenni adloniant mawr ar draws y DU – cafodd *The Traitors* ei ffilmio yn yr Ucheldiroedd a *Gladiators* yn Sheffield, ac roeddent ymhlith teitlau adloniant mwyaf poblogaidd 2023/24.

Meithrin sgiliau a gallu yn rhanbarthau allweddol y DU

Mae cynyddu gweithgarwch cynhyrchu yng ngorllewin canolbarth Lloegr a gogledd-ddwyrain Lloegr yn un o nodau allweddol rhaglen Across the UK y BBC. Parhaodd y BBC i gyflawni'r ymrwymadau y cytunwyd arnynt ganddo ym mhob rhanbarth, gan weithio gyda phartneriaid fel Create Central yng ngorllewin canolbarth Lloegr a North East Screen yng ngogledd-ddwyrain y wlad. Rydym ar y trywydd cywir i ragori ar ein hymrwymiaidau yn y ddau ranbarth. Yn ardal gorllewin canolbarth Lloegr yn unig, darlledodd y BBC ail gyfres o *Phoenix Rise* yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a chafodd dwy gyfres bellach eu hailgomisiynu, yn ogystal â *Champion*, *Man Like Mobeen* a *This Town*, ynghyd â chyhoeddiad y BBC y caiff *Silent Witness* ei hadleoli i'r rhanbarth. Bydd y cyfresi hyn yn cael eu cynhyrchu yn y rhanbarth yn ystod y 12 mis nesaf, felly hefyd *MasterChef*. Yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr, comisiynodd y BBC *Making It*, cyfres newydd gyda Sara Davies, ailgomisiynodd *Robson Green's Weekend Escapes*, a dyfarnodd gomisiynau *Morning Live* i dri chynhyrhydd annibynnol bach yn y rhanbarth.

Mae ein gwaith hefyd yn gwella sgiliau a chyfleoedd ar draws y DU. Fel rhan o'i gynllun prentisiaid, mae'r BBC wedi mwy na dyblu nifer y prentisiaid y mae'n eu cyflogi ers 2020. Ar hyn o bryd, mae'r BBC yn cyflogi cyfanswm o 689 o brentisiaid. O'r nifer hwn, mae 62% o brentisiaid Gyrfaoedd Cynnar a 48% o Brentisiaid Staff wedi'u lleoli ar draws y DU (y tu allan i Lundain). Cefnogodd y BBC hefyd 37 o brentisiaethau eraill yng ngorllewin canolbarth Lloegr fel rhan o'i beilot Apprentice Hub, a hyfforddeiaethau ar draws ei gynrychiadau ar draws y DU.

Ymrwymodd y BBC i fenter newydd i brentisiaid, a gaiff ei chynnal yng Nghaerdydd, Glasgow, Salford a Birmingham o fis Mai, gan gynnig cyfle i brentisiaid cynhyrchu Gyrfaoedd Cynnar dreulio amser gyda chwmnïau bach a chanolog lleol, a chan gynnig profiadau hyfforddi lefel mynediad i wneuthurwyr teledu, radio, ffilm a chynnwys digidol y dyfodol.

Mae'r BBC wedi buddsoddi mewn galluoedd newydd fel rhan o'i gynlluniau ar gyfer Across the UK. Y flwyddyn hon, gwnaethom agor Hwb Technoleg Gogledd-ddwyrain Lloegr ac erbyn hyn, mae gennym fwy na 50 o swyddi yn BBC Newcastle gan ddatblygu galluoedd data a dadansoddeg ar draws cynhyrchion digidol y BBC wrth i ni barhau i ddarparu arlyw digidol yn gyntaf i'r gynulleidfau. Mae'r tîm hefyd yn cynnwys aelodau o grŵp arweinyddiaeth ddigidol y BBC a bydd y tîm yn parhau i dyfu yn ystod y flwyddyn nesaf.

Symud timau cynhyrchu a'r gallu i wneud penderfyniadau

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y staff sydd wedi'u lleoli ar draws y DU.

Ehangodd Radio'r BBC ei bresenoldeb ar draws prif hybiau rhanbarthol a chenedlaethol y BBC, gan gynnwys adleoli mwy o raglennu oriau brig BBC Radio 1Xtra i Birmingham, ac allbwn BBC Radio 3, BBC Radio 4 a BBC Radio 6 Music newydd i Salford.

Hefyd, lansiodd BBC Radio 6 Music raglen newydd gyda'r nos gyda Huw Stephens o Gaerdydd, sy'n golygu bod pump o rwydweithiau radio'r BBC bellach yn darlledu o'r ddinas.

Ym mis Rhagfyr 2023, gwnaethom gyhoeddi ein penderfyniad i greu hwb cynhyrchu radio newydd i'r BBC yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Fe'i lansiodd ym mis Ebrill ac mae timau yn cael eu creu i weithio ar raglennu radio rhwydwaith ac i gynyddu faint o gynnwys a gaiff ei wneud ar gyfer Radio'r BBC, BBC Sounds a BBC World Service o'r Alban a Gogledd Iwerddon.

Gan adeiladu ar ei waith i adleoli timau Straeon Newyddion, cyhoeddodd BBC News y bydd yn adleoli *News at One* i Salford. Bydd yn darlledu o MediaCity o fis Mehefin 2024 ac mae'n ehangu presenoldeb newyddion rhwydwaith y BBC yn Salford yn sylweddol.

Ncuti Gatwa a Millie Gibson yn *Doctor Who*

Atgyfnerthu'r ddarpariaeth rhaglenni

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cwblhaodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (SAG) astudiaeth Gwerth am Arian o'r hyn roedd rhaglen Across the UK wedi'i gyflawni yn ystod ei cham cyntaf (2021/22-2022/23). Canfu'r SAG fod y BBC wedi cyrraedd llawer o'r targedau a bennwyd ar gyfer Cam 1, ond bod angen rhagor o waith i gyrraedd pob targed yn llawn, ac i sicrhau buddiannau bwriadedig y rhaglen dros gyfnod y Siarter bresennol, yn enwedig o ran ei gynlluniau sain a'i gynlluniau i brentisiaid. Gwnaeth nifer o argymhellion, gan gynnwys: gwella'r ffordd y caiff newidiadau i'r rhaglen eu hasesu; gwella'r buddiannau a nodir a phrosesau eraill ar gyfer rheoli buddiannau; a gwella trefniadau'r rhaglen ar gyfer cyfathrebu a rheoli rhanddeiliaid. Ers hynny, mae'r BBC wedi mynychu sesiwn tystiolaeth gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PAC) i asesu'r hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn mewn perthynas ag Across the UK. Mae'r BBC wedi ystyried canfyddiadau ac argymhellion y SAG a'r Pwyllgor yn ofalus, ac mae wrthi'n rhoi newidiadau ar waith a fydd yn atgyfnerthu cyflawniadau'r rhaglen.

£1.147 l gael y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am Ddiben Cyhoeddus 4

60%

Cyflawnodd y BBC ei darged i wario 60% o'r gyllideb teledu Rhwydwaith y tu allan i Lundain yn barhaol, gan sicrhau bod 60% o'r gwariant rhwydwaith y tu allan i Lundain yn 2023/24.

£200m

Mae rhaglen Across the UK wedi gwneud buddsoddiad cronol o fwy na £200 miliwn y tu allan i Lundain ac ar draws y DU.

Effaith arall BBC Operations ar y BBC

% staff darlledu cyhoeddus y DU yn ôl gwlad (cyfwerth ag amser llawn) (ac eithrio BBC Commercial)

Gwlad	31 Mawrth 2024	31 Mawrth 2023
Lloegr (heb gynnwys Llundain)	35%	34%
Llundain	46%	47%
Yr Alban	8%	8%
Cymru	7%	7%
Gogledd Iwerddon	4%	4%

Gwariant ar raglennu teledu rhwydwaith yn ôl rhanbarth fel canran o'r gwariant cymwys

	2024	2023
Llundain	39.8%	42.3%
Yr Alban	9.0%	8.4%
Cymru	7.9%	5.4%
Gogledd Iwerddon	4.2%	3.9%

Cyfanswm y gwledydd

Canolbarth Lloegr	2.7%	2.7%
Gogledd Lloegr	20.6%	20.6%
De Lloegr	11.9%	10.9%
Aml-ranbarth yn Lloegr*	3.0%	3.8%

Cyfanswm rhanbarthau Lloegr

Aml-ranbarth arall*	0.9%	1.9%
---------------------	------	------

Cyfanswm y rhanbarthau heb gynnwys Llundain

Cyfanswm y gwledydd a'r rhanbarthau	60.2%	57.7%
-------------------------------------	-------	-------

Cyfanswm cyfan

	100.0%	100%
--	--------	------

Gwariant ar deledu rhwydwaith yn seiliedig ar ddiffiniadau Ofcom yn ôl blwyddyn galendr.

* Mae aml-ranbarth yn cwmpasu rhaglenni a wnaed y tu allan i Lundain ond na ellir eu priodoli i unrhyw un rhanbarth na gwlad

Oriau o allbwn radio Radio Lleol* a radio'r gwledydd y BBC

	2024	2023
--	------	------

Lloegr (heb gynnwys

Llundain)	212,200	242,468
Llundain	6,848	6,956
Yr Alban	11,450	11,869
Cymru	16,647	15,602
Gogledd Iwerddon	7,527	8,019

* Dim ond rhaglenni gwreiddiol gan y BBC y mae oriau allbwn Radio Lleol a radio'r gwledydd y BBC yn eu cynnwys ac nid yw'n cynnwys unrhyw raglenni a gaiff eu haildarlledu



Cyfraniad sylweddol Uned Hanes Naturiol BBC Studios ym Mryste at economi'r DU

Mae comisiynau hanes naturiol gan y BBC a chomisiynwyr rhyngwladol wedi rhoi hwb sylweddol i economi ranbarthol Bryste, gan gyfrif am 44% (£127.2 miliwn) o drosiant sector cynhyrchu Bryste yn 2022, a chyfrannu'n sylweddol at dwf eithriadol sector cyfryngau'r rhanbarth ehangach.

Mae'r Uned Hanes Naturiol wedi gwella statws Bryste fel canolfan ragoriaeth ar gyfer hanes naturiol, gan ysgogi arloesedd ar y sgrin a chefnogi gwaith ymchwil gwyddonol rhyngwladol, ochr yn ochr â sector annibynnol amrywiol sy'n denu mewnfuddsoddiad. Am bob £1 a fuddsoddiwyd gan BBC Public Service ym Mryste, buddsoddiwyd £1.86 gan drydydd parti.

Er y caiff rhaglenni hanes naturiol o bosibl eu ffilmio mewn lleoliadau rhyngwladol, maent yn gwneud cyfraniad sylweddol at economi'r DU. Cyfrannodd *The Green Planet* £7.4 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros, gan gefnogi dros 50 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn y DU, a llwyddodd *Wild Isles*, a gynhyrchwyd ym Mryste gan Silverback Films, i greu amcangyfrif o £9 miliwn o werth ychwanegol gros ac i gefnogi dros 80 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn ystod ei gyfnod cynhyrchu o dair blynedd.

£127m

Effaith Uned Hanes Naturiol BBC Studios ar economi ranbarthol Bryste.



Effaith economaidd Doctor Who

Cyhoeddodd y BBC adroddiad o'r effaith economaidd i gyd-fynd ag achlysur dathlu 60 mlynedd ers dechrau *Doctor Who*. Amcangyfrifwyd bod cynhyrchu'r gyfres boblogaidd wedi cyfrannu £134.6 miliwn o ran gwerth ychwanegol gros i economi Cymru rhwng 2004 a 2021 a £256 miliwn ar draws y DU gyfan.

At hynny, cyfeiriodd yr adroddiad at effaith etifeddol sylweddol y rhaglen a'r rhaglenni a ddeilliodd ohoni, *Torchwood* a *The Sarah Jane Adventures* (y cynhyrchwyd y ddwy yng Nghymru), a gydnabyddir yn eang fel y catalydd ar gyfer buddsoddiadau yng nghlwtwr creadigol De Cymru a'i arbenigedd ym maes cynhyrchu teledu a drama o safon uchel. Roedd y sector sgrin yng Nghymru – sef y sector mwyaf erbyn hyn o blith pum is-sector y Diwydiant Creadigol a flaenoriaethwyd gan Lywodraeth Cymru, yn gyfrifol am drosiant o fwy na £459 miliwn yn 2022.

£256m

Effaith economaidd Doctor Who ar draws y DU.

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol Diben cyhoeddus 4 – parhad

Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a chefnogi'r economi greadigol



Y BBC yng Nghymru

Cyflwynodd uchelgais creadigol y BBC yng Nghymru bedair drama fawr ar BBC One ar draws y DU. Roedd *Steeltown Murders*, a oedd wedi'i lleoli yn ardaloedd Castell-nedd a Phort Talbot a *Wolfyn* boblogaidd â chynulleidfaoedd yn ystod misoedd yr haf; cyflwynodd *Men Up* ddrama yn seiliedig ar dreialon cyffur anallu rhywiol ymysg dynion yn ne Cymru ac roedd yn rhan o arlwy'r BBC adeg y Nadolig; a chafodd *The Way*, stori am deulu cyffredin yn wynebu amgylchiadau cwbl allan o'r cyffredin ei darlledu ym mis Chwefror. Gyda chyllid gan Cymru Greadigol, adroddodd y dramâu hyn, a gydgomisiynwyd gyda BBC One, straeon o Gymru y gallai cynulleidfaoedd ar draws y DU uniaethu â nhw.

Yn ogystal ag adrodd straeon dramatig, cafwyd rhaglenni dogfen grymus, gan gynnwys y rhaglen bwerus *Inseparable Sisters* yn adrodd hanes bywydau gefeilliaid cyfun – Marieme a Ndeye – ar eu pen-blwydd yn saith oed. Roedd *Paranormal*, sef cydgomisiwn gyda BBC Three, yn boblogaidd ymhlith gwylwyr iau wrth i gyflwynydd BBC Radio 1, Sian Eleri, ymchwilio i ffermdy cyffredin yr olwg yng Ngogledd Cymru a gaiff ei ystyried gan lawer fel y tŷ â'r nifer mwyaf o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig ag ysbrydion ym Mhrydain. Caiff ail gyfres ei darlledu y flwyddyn nesaf.

Roedd hefyd yn flwyddyn bwysig i dimau sain BBC Cymru. Cafwyd cynnydd eithriadol yn nifer y ceisiadau gan wrandawyr yn sgil y podlediadau *The Crossbow Killer* a *Death of a Codebreaker* ar BBC Sounds. Ym mis Medi, symudodd Sam a Dani o BBC Radio 1 i'r Sgwâr Canolog yng Nghaerdydd i gyflwyno'r *Weekend Breakfast Show*, ac yn fuan wedi hynny, dilynodd y cyflwynydd Huw Stephens sydd bellach yn cyflwyno rhaglen brynhawn BBC Radio 6 Music o'r hwb darlledu.

Ail-lansiodd BBC Radio Wales *Radio Wales Breakfast* gyda James Williams a Dot Davies ym mis Mehefin. Gan adlewyrchu'r newyddion yng Nghymru, ar draws y DU a'r byd, mae'r ddau yn cyfuno eu harbenigedd ym maes gwleidyddiaeth a chwaraeon i gyflwyno'r newyddion a'r safbwyntiau diweddaraf i'w gwrandawyr. Cyflwynodd timau newyddion BBC Cymru straeon mawr fel ymddiswyddiad Mark Drakeford fel y Prif Weinidog gan ganolbwyntio ar dudalennau byw er mwyn cynyddu eu cyrhaeddiad digidol. Lanswyd BBC Radio Cymru 2, sy'n seiliedig ar gerddoriaeth, ym mis Mawrth gan anelu at apelio at y rhai hynny nad ydynt mor rhugl yn y Gymraeg.

Cafwyd darllediadau helaeth o Gwpan Rygbi'r Byd yn yr hydref ar BBC Cymru ac roedd pob un o gemau Cymru ar gael i wrando arni'n fyw ar BBC Sounds, BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru yn ogystal â phodlediad tîm *Scrum V*.

Cyrhaeddodd cystadleuaeth *BBC Cardiff Singer of the World* ei huchafbwynt ym mis Mehefin wrth i Adolfo Corrado o'r Eidal gael ei goroni fel enillydd 2023, yn dilyn wythnos ddwys o berfformiadau eithriadol. Roedd Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yn rhan o'r digwyddiad a chafodd dymor prysur fel rhan o Proms y BBC hefyd.

I gyd-fynd ag achlysur dathlu 60 mlynedd ers dechrau'r gyfres eiconig, *Doctor Who*, gwnaethom gomisiynu adroddiad yn amlinellu cyfraniad effaith economaidd y gyfres i Gymru, sef cartref y Timelord ers bron i 20 mlynedd. Amcangyfrifwyd bod y gyfres wedi cyfrannu £134.6 miliwn o ran gwerth ychwanegol gros i economi Cymru rhwng 2004 a 2021.

i **t.154** Am y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am Gymru

i **t.125** I ddarllen mwy am y ffordd y mae Bwrdd y BBC wedi monitro ac adolygu perfformiad yng Nghymru

90%

22/23 **91%**

Cyrhaeddiad y BBC cyfan

% yr oedolion yng Nghymru sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK 16+

51%

% yr oedolion yng Nghymru sy'n defnyddio cynnwys BBC Cymru bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell BARB, RAJAR, Piano Analytics, Compass gan Ipsos UK. Nid oes modd cymharu o un flwyddyn i'r llall gan fod y dulliau mesur wedi newid.



Keith Allen yn *Steeltown Murders*

YR ALBAN



Y BBC yn yr Alban

Drwy gydol 2023, gwnaethom ddathlu canmlwyddiant y BBC yn yr Alban, gan gynnwys 100 mlynedd ers y darllediad radio Gaeleg cyntaf, a ddathlwyd drwy ddarlledu cynnwys wedi'i gomisiynu'n arbennig ar BBC Radio nan Gàidheal a BBC ALBA. Yn 2024, gwnaethom ddathlu rôl yr Alban wrth gyflwyno'r darllediad cyntaf erioed i ysgolion.

Dathlodd sianel BBC Scotland bum mlynedd ers ei sefydlu. Gwariwyd £162 miliwn ar raglennu ers ei lansio, gan gynnwys newyddion, drama, comedi, rhaglenni dogfen a chwaraeon, gan ddenu buddsoddiad a chynnwys i bob rhan o'r Alban.

Cydnabuwyd ein hymrwymiad i newyddion diduedd pan enillodd *Reporting Scotland* Raglen Newyddion y Flwyddyn RTS Scotland 2023 a chyflawnodd ein timau newyddion werth ar wahanol lwyfannau, gan gynhyrchu darllediadau ar-lein byw o Storm Babet ar draws allfeydd y BBC. Darparodd BBC Scotland ddarllediadau cynhwysfawr o newyddion yr Alban, o is-etholiad Rutherglen, i'r euogfarn yn achos llofruddiaeth Emma Caldwell, a chafwyd canmloliaeth i newyddiaduraeth y BBC. Tyfodd traffig wythnosol cyfartalog y DU i BBC Scotland News Online i fwy na phum miliwn o ymwelwyr.

Yn mis Chwefror, gwnaethom gyhoeddi ein bwriad i ail-lunio ein gwasanaethau newyddion yn yr Alban er mwyn cynyddu effaith newyddion darlledu, gan ar yr un pryd gynnig mwy o ffyrdd i gynulleidfa oedd gael gafael ar ein hallbwn newyddion ar draws pob un o'n gwasanaethau. Roedd y cynlluniau yn cynnwys: gwasanaeth newyddion wedi'i ail-lunio i sianel BBC Scotland, yn amodol ar gymeradwyaeth reoleiddiol; ymestyn hyd *Reporting Scotland* yn rheolaidd; cyfres materion cyfoes newydd ar gael ar BBC Sounds, BBC iPlayer ac ar y teledu; a buddsoddiad cynyddol yn ein gwasanaethau Newyddion ar-lein. Mae'r cynigion hyn yn adlewyrchu arferion newidiol y gynulleidfa ac yn sicrhau'r gwerth gorau am arian.

Yn ogystal â darllediadau eang o chwaraeon yr Alban, BBC Scotland oedd yr hwb darlledu byd-eang ar gyfer Pencampwriaethau Seiclo UCI y Byd 2023, pan gynhaliwyd y digwyddiad beicio mwyaf erioed yn yr Alban.

Darparodd ein strategaeth Across the UK fuddsoddiad parhaus o ran comisiynau a chydgomisiynau rhwydwaith, gan gynnwys: cyfres olaf y ddrama antur glodwiw, *Guilt*; DI newydd yn dychwelyd adref ac yn creu cryn argraff yn *Shetland*; ail gyfres y ddrama ddwys *Vigil*; a dychweliad y gyfres realiti seicolegol *The Traitors*.

Roedd ein hymrwymiad i fuddsoddi mewn cynnwys effaith uchel yn cynnwys: *Designing the Hebrides* a enillodd wobwr BAFTA; *Scotland: The New Wild*, a gyflwynodd fywyd gwylt gwledig, arfordirol a threfol yr Alban mewn cyfres a gymerodd dair blynedd i'w chreu; a'r rhaglen antur ar BBC ALBA, *Dàna/Scotland's Wild Side*, a enillodd wobwr yng Ngŵyl y Cyfryngau Celtaidd.



Ashley Jensen fel y Ditectif Ruth Calder yn *Shetland*

Mae awydd BBC Scotland i ddarparu cynnwys i wylwyr iau a chynulleidfa oedd ar-lein i'w weld yn amlwg yn *The Agency: Unfiltered* a gynigiodd gipolwg i ddiwylliant dylanwadwyr a'r ddrama wedi'i lleoli yn Dundee, *Dog Days*, a gomisiynwyd fel cynnwys digidol yn gyntaf mewn partneriaeth â Screen Scotland. Cyfrannodd y bartneriaeth at ddatblygu'r economi greadigol drwy fentrau cyfun, gan gynnwys cynllun Emerging Directors BBC Scotland/Screen Scotland ac Academi Hyfforddiant River City BBC Studios.

Perfformiodd cynnwys sain wedi'i gynhyrchu yn yr Alban yn dda ymhlith cynulleidfa oedd ar BBC Sounds gyda theitlau cyfarwydd fel *Breaking the News* yn cael 949,000 o geisiadau a *Sportsound* yn cael 5.6 miliwn o geisiadau, a'r cynnwys newydd *Shiny Bob: The Devil's Advocate* yn cael 786,000 o geisiadau, *The Missing Madonna* yn cael 868,000 o geisiadau a *Trumped* yn cael 625,000 o geisiadau yn 2023/24.

Adnewyddodd BBC Radio Scotland ei hamserlen gerddoriaeth gan lansio *Classical Now* yn cynnwys Cerddorfa Symffoni yr Alban y BBC a chyhoeddwyd enillydd cyntaf Cerddor Jazz Ifanc y Flwyddyn BBC Radio Scotland. Gan gynnig arlwy i'r DU gyfan, daeth BBC Radio 1's Big Weekend i Dundee, gan roi hwb i'r economi leol a chynyddu nifer y gwrandawyr yn yr Alban ar gyfer y digwyddiad.

i t.158 Am y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am yr Alban

i t.125 I ddarllen mwy am y ffordd y mae Bwrdd y BBC wedi monitro ac adolygu perfformiad yn yr Alban

84%

22/23 **87%**

Cyrhaeddiad y BBC cyfan

% yr oedolion yn yr Alban sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd. Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK 16+

57%

% yr oedolion yn yr Alban sy'n defnyddio cynnwys BBC Scotland bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell BARB, RAJAR, Piano Analytics, Compass gan Ipsos UK. Nid oes modd cymharu o fon flwyddyn i'r llall gan fod y dulliau mesur wedi newid.

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol Diben cyhoeddus 4 – parhad

Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a chefnogi'r economi greadigol



Y BBC yng Ngogledd Iwerddon

Roedd drama gartref glodwiw, rhaglenni dogfen a enillodd wobrau a chwaraeon bythgofiadwy ymhlith uchafbwyntiau'r BBC yng Ngogledd Iwerddon yn 2023/24.

Darparodd timau BBC News ddiweddariadau a dadansoddiadau arbenigol i gynulleidfaoedd ar waith Cynulliad a Gweithrediaeth newydd Gogledd Iwerddon, yr anawsterau sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus a'r argyfwng costau byw. Gwnaethom ddefnyddio newyddiaduraeth arbenigol y BBC a'i rwydwaith estynedig o ohebwy'r ardal. Rhoddwyd pwyslais cynyddol ar gasglu newyddion ac allbwn digidol, gan adlewyrchu'r gwahanol ffyrdd y mae cynulleidfaoedd yn defnyddio gwasanaethau'r BBC.

Cyflwynodd BBC Radio Ulster/Foyle amserlen newydd gyda'r nos ac ar benwythnosau, gan gynnwys rhaglen adloniant fin nos newydd, *Vinny and Cate*. Cyflwynodd darllediadau allanol ddigwyddiadau cymunedol lleol i gynulleidfa ehangach y BBC. Llwyddodd yr orsaf hefyd i gynnal ei chymysgedd nodedig o gynnwys cerddoriaeth a llafar. Daeth ystafell newyddion Foyle yn rhan gwbl integredig o BBC News NI gyda chynnwys digidol ychwanegol a rhaglen estynedig awr o hyd bob bore yn ystod yr wythnos, *North West Today*. Llwyddodd gwaith ein timau cynhyrchu radio i ddenu cynulleidfaoedd sylweddol ar BBC Sounds drwy linyddau GAA Social ac Assume Nothing.

Rhoddwyd llwyfan i bobl a straeon lleol mewn amrywiaeth o gomisiynau rhwydwaith y BBC, gan gynnwys rhaglenni dogfen, drama ac adloniant ffeithiol. Archwiliodd y gyfres glodwiw, *Once Upon A Time In Northern Ireland*, ddigwyddiadau cyfnod yr Helyntion a'r hyn a adawodd ar ei ôl, drwy ddeunydd archif a straeon dioddefwyr a goroeswyr. Plismona cyfoes yn Belfast oedd ffocws *Blue Lights*, sef drama newydd boblogaidd i deledu rhwydwaith y BBC. Dychwelodd *Hope Street* am drydedd gyfres yn ystod y dydd a chafodd *The Woman In The Wall* ac ail gyfresi *Wreck a Showtrial* eu ffilmio yng Ngogledd Iwerddon – gan adeiladu ar ymrwymiad y BBC i gynyddu gweithgarwch cynhyrchu ar draws y DU.

Cafodd cyfres newydd o *Mastermind* gyda Clive Myrie ac ail gyfres o *Finish Line* gyda Roman Kemp a Sarah Greene eu recordio yn Stiwdio Blackstaff y BBC yn Belfast. Dyma hefyd lle filmiwyd cyfresi newydd o *Nolan Live* a *The Blame Game* ar deledu BBC Northern Ireland.

Edrychodd Stephen Nolan ar realiti bywyd yn y carchar yn *Jailed: Inside Maghaberry* a hwylusodd sgyrsiau am hynny ar ei raglen radio yn ystod yr wythnos. Tynnodd *Carl Frampton: Men In Crisis* a *Tara Mills: Life After Loss* sylw at faterion iechyd meddwl. A chyflwynwyd digwyddiadau a dadleuon hanesyddol i gynulleidfa ehangach yn *The Long and The Short of It*. Cafodd agweddau gwahanol ar y celfyddydau ac amrywiaeth eu hystyried gan bob un o'n gwasanaethau radio a theledu, gan gynnwys rhaglen ddogfen nodedig am y bardd, Michael Longley.

Gwnaethom barhau i weithio gyda Northern Ireland Screen ar ein hymrwymiad cyfun i dyfu'r sector cynhyrchu annibynnol lleol a'i bresenoldeb ar rwydweithiau'r BBC. Roedd hyn yn cynnwys menter 'Hot House' newydd, a ategodd ein gwaith parhaus ar draws amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys Cronfeydd Darlledu'r Iaith Wyddeleg a Sgoteg-Wlster.

Gwnaethom gyflwyno darllediadau teledu rhwydwaith clodwiw o rownd derfynol GAA All-Ireland Senior Football am y tro cyntaf, yn ogystal â gemau pêl-droed dynion a menywod, rygbi a beicio modur. Mae arloesedd digidol a thechnolegau newydd wedi chwarae rhan yn llawer o'r gwaith hwn, ac wedi bod o fudd hefyd, gan roi cyfle i ni roi cynnig ar bethau newydd a gwasanaethu cynulleidfaoedd mewn ffyrdd gwahanol.

Atgyfnerthodd Book Week 2023 ein partneriaeth hirsefydlog â Libraries NI. A pharhaodd Cerddorfa Ulster â'i gwaith i gyflwyno cerddoriaeth gerddorfaol i gynulleidfaoedd ledled y rhanbarth.

Yn 2024, byddwn yn dathlu canmlwyddiant gwasanaethau'r BBC yng Ngogledd Iwerddon, carreg filltir bwysig a gaiff ei dathlu drwy ddarllediadau allanol arbennig a digwyddiadau sioe deithiol.

i t.162 Am y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am Ogledd Iwerddon

i t.126 I ddarlennu mwy am y ffordd y mae Bwrdd y BBC wedi monitro ac adolygu perfformiad yng Ngogledd Iwerddon

86%

22/23 **84%**

Cyrhaeddiad y BBC cyfan

% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK 16+

62%

% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon sy'n defnyddio cynnwys BBC Northern Ireland bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell BARB, RAJAR, Piano Analytics, Compass gan Ipsos UK. Nid oes modd cymharu o un flwyddyn i'r llall gan fod y dulliau mesur wedi newid.



Nathan Braniff a Katherine Devlin yng nghyfres 2 y ddrama boblogaidd *Blue Lights*

LLOEGR



Gwasanaethau lleol y BBC yn Lloegr

Bu'n flwyddyn o newid trawsnewidiol ar draws gwasanaethau lleol y BBC yn Lloegr. Rydym wedi buddsoddi mewn 130 o swyddi newyddiadurol ychwanegol, gwnaethom lansio Timau Ymchwiliol newydd a gwnaethom fuddsoddi er mwyn adrodd straeon gwreiddiol ar BBC Sounds a'r Sounds Rails ym mhob ardal.

Mae'r broses o gyflwyno amserlenni radio newydd wedi bod yn addasiad anodd i'n staff ac i rai gwrandawyr. Rydym bellach yn rhannu mwy o'n rhaglenni y tu allan i oriau brig (slotiau lle nad oes cymaint o bobl yn gwranddo) i ardaloedd darlledu ehangach, sy'n ein galluogi i fuddsoddi mewn cynnwys digidol.

Ein nod yw cynyddu ein heffaith leol ar draws pob cymuned – gan fanteisio ar ein cryfderau teledu, radio a digidol – ac mae pob tîm yn gwybod sut y gall chwarae ei ran er mwyn sicrhau bod ein cynnwys yn parhau mor berthnasol â phosibl, ni waeth sut y bydd cynulleidfaoedd yn dewis ein defnyddio.

Y newyddion teledu rhanbarthol am 6.30pm yw'r hanner awr o newyddion a gaiff ei wyllo fwyaf ar deledu Prydain. Mae hyn yn enghraifft glir o'r cysylltiad rhyngom ni a thalwyr ffi'r drwydded ledled rhanbarthau Lloegr.

Mae'r cynulleidfaoedd sy'n defnyddio cynnwys ar-lein lleol y BBC wedi cynyddu'n sylweddol ers y newidiadau. Mae nifer yr ymwelwyr unigryw sy'n cyrchu straeon newyddion lleol y BBC bob wythnos ar gyfartaledd wedi cynyddu 17% o flwyddyn i flwyddyn gyda mwy na dwy filiwn o ymwelwyr ychwanegol yn cael eu denu gan ein straeon. Rydym yn cynnig amrywiaeth fwy o straeon nag erioed o'r blaen, ac mae ap diwygiedig BBC News wedi rhoi mwy o amlygrwydd iddynt.

Mae cynulleidfaoedd wedi dod atom i gael y wybodaeth ddiweddaraf y gellir ymddiried ynddi am straeon newyddion sy'n digwydd ar y pryd, gan ddefnyddio ein tudalennau byw. Yn y DU, edrychwyd ar ein tudalennau 8.4 miliwn o weithiau wrth i bobl ddilyn hanes yr ymosodiadau yn Nottingham; 6.3 miliwn o weithiau wrth i'r heddlu geisio dod o hyd i'r unigolyn a gyflawnodd yr ymosodiad yn Clapham; a 2.9 miliwn o weithiau ar gyfer y dudalen fyw ar y bom nad oedd eto wedi ffrwydro o'r Ail Ryfel Byd y daethpwyd o hyd iddo mewn gardd yn Plymouth.

Fel rhan o'n buddsoddiad mewn gwasanaethau digidol, gwnaethom lansio gwasanaethau newyddion ar-lein lleol newydd i Peterborough, Wolvehampton, Wear a Bradford. Rydym bellach yn gwasanaethu'r ardaloedd hyn yn fwy cyson a thrylwyr nag erioed o'r blaen – ac rydym wedi cynyddu nifer y straeon ar wasanaethau cyfagos hefyd, yn enwedig yn Sir Gaergrawnt, Birmingham, Newcastle a Leeds.



Podlediadau Rob Burrow Seven, Meets... a enillodd wobrau

Gwnaethom fuddsoddi mewn podlediadau lleol gyda thîm comisiynu newydd yn creu cynnwys ar alw gan adroddwyr straeon lleol y gellir ymddiried ynddynt ar gyfer BBC Sounds. Cyflwynwyd un o'r rhai mwyaf poblogaidd gan Rob Burrow, seren Rygbi'r Gynghrair a fu farw yn ddiweddar ar ôl byw ag MND ers mwy na phedair blynedd. Yn y gyfres, *Rob Burrow Seven, Meets...* bu'n cyfweled ag unigolion fel Wayne Rooney a Zara a Mike Tindall. Yn y cyfamser, dychwelodd *Love Bombed* am gyfres arall ynghyd ag *Undercover: The SpyCops*.

Mae pob un o'r 39 o orsafoedd radio lleol wedi darparu gwybodaeth, cwmniâeth a llais i bobl leol yn ystod adegau hapus a thrist. Ym mis Chwefror, cafodd Prif Weinidog y DU ei ddwyn i gyfrif gan dair gorsaf am faterion gan gynnwys HS2, tyllau yn y ffyrdd a gofal iechyd – fel y gwna pob un o'n timau â gwneuthurwyr penderfyniadau lleol ar ein 41 o raglenni brecwast lleol bob diwrnod yn ystod yr wythnos ac ar raglenni sy'n eu dilyn yn ystod y dydd o 10am.

Ar adegau o angen, fel yr amodau tywydd peryglus a brofwyd yn ystod y gaeaf, gwnaethom barhau i ddarparu rhaglennu lleol pa bryd bynnag yr oedd ei angen, a hynny'n aml gan gynnig tudalen newyddion ar-lein fyw ar yr un pryd.

Parhaodd ein gwasanaethau radio lleol wrth wraidd bywyd cymunedol, nid yn unig o ran newyddion sy'n digwydd ar y pryd, ond ar gyfer digwyddiadau chwaraeon lleol pwysig, gan hefyd ddarparu llwyfan ar gyfer cerddoriaeth llawr gwlad ac ymrwymiad parhaus i raglenni ffydd. Gwnaethom gynnal 39 o Wobrau Make A Difference yn 2023 ac rydym wedi derbyn y nifer uchaf o geisiadau erioed ar gyfer ein gwobrau ar gyfer 2024; sy'n dathlu pobl gyffredin sy'n gwneud pethau allan o'r cyffredin.

i t.165 Am y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am Loegr

i t.126 I ddarllen mwy am y ffordd y mae Bwrdd y BBC wedi monitro ac adolygu perfformiad yn Lloegr

85%

22/23 **88%**

Cyrhaeddiad y BBC cyfan

% yr oedolion yn Lloegr sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK 16+

45%

% yr oedolion yn Lloegr sy'n defnyddio cynnwys lleol y BBC bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell BARB, RAJAR, Piano Analytics, Compass gan Ipsos UK. Nid oes modd cymharu o un flwyddyn i'r llall gan fod y dulliau mesur wedi newid.

CYNRYCHIOLI A PHORTREADU



Mae'r BBC yn ymrwymedig i ddarparu cynnwys dilys effaith uchel sy'n gwasanaethu cynulleidfaoedd amrywiol ar draws y DU ac y gall y cynulleidfaoedd hynny uniaethu ag ef, gan adlewyrchu amrywiaeth o brofiadau, diwylliannau a safbwyntiau. Mae darparu cynnwys sy'n cynrychioli pobl ar yr awyr ac oddi ar yr awyr yn ein galluogi i adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu ein cynulleidfaoedd ar draws y DU, gan gynnig drych lle y gall pawb weld adlewyrchiad ohonyn nhw eu hunain a ffenestr i fydoedd pobl eraill. Mae timau comisiynu cynnwys, gyda chymorth gan y Tim Amrywiaeth Greadigol, yn sicrhau bod cynnwys y BBC yn cyfleu hanfod straeon go iawn, emosïynau a gwirioneddau, gan feithrin cysylltiadau gwirioneddol â chynulleidfaoedd drwy ei onestrydd, ei bortreadau dilys a'r gallu i uniaethu ag ef.

Nod y BBC yw sicrhau bod ei gynnwys yn hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu, gan gynnig gwerth i bawb a chan ddod â phobl ynghyd.

Ymrwymadau Amrywiaeth Greadigol

Daeth Ymrwymiad Amrywiaeth Greadigol tair blynedd y BBC i fuddsoddi o leiaf £112 miliwn o'r cyllidebau comisiynu presennol ar gynnwys amrywiol (gan gynnwys portreadau amrywiol ar yr awyr, arweinwyr cynhyrchu amrywiol oddi ar yr awyr a/neu arweinwyr cwmni amrywiol) ar y teledu a radio i ben y flwyddyn hon. Dyma'r buddsoddiad ariannol mwyaf yn y diwydiant i sicrhau cynnwys amrywiol. Gwnaethom ragori ar ein hymrwymiad dros y cyfnod o dair blynedd gan fuddsoddi £243 miliwn. Gwnaethom adolygu a chofnodi llwyddiannau allweddol yn ogystal â gwybodaeth i'n helpu i gymryd camau pellach i wasanaethu pob un o'n cynulleidfaoedd. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad a gomisiynwyd gan y BBC, a benododd Ganolfan Lenny Henry ar gyfer Amrywiaeth yn y Cyfryngau fel sefydliad trydydd parti annibynnol i ymchwilio i effaith yr ymrwymadau tair blynedd. Mae ein Hymrwymadau Amrywiaeth Greadigol newydd yn adeiladu ar y gwaith a wnaed er mwyn cynnig adlewyrchiad dilys a chynhwysol o'n cynulleidfaoedd ar draws y DU o fewn cynnwys Teledu, Radio, Plant ac Addysg, Chwaraeon a'r Gwledydd drwy gynrychiolaeth ar yr awyr ac oddi ar yr awyr.

Rydym yn sicrhau ein bod yn atebol, yn mesur ac yn rhannu cynnydd yn erbyn ein Hymrwymadau Amrywiaeth Greadigol drwy'r adroddiad Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth a gyhoeddir bob blwyddyn: bbc.co.uk/creativitydiversity/documents/bbc-diversity-code-of-practice-2023-2024.pdf.

Cynrychiolaeth ar yr Awyr

Mae'r BBC yn ymfalchio yn y ffaith ei fod wedi comisiynu a chynhyrchu rhaglenni clodwiw sy'n cynrychioli ein cynulleidfaoedd amrywiol. Mae'r uchafbwyntiau yn cynnwys y teitlau comedi *Black Ops* a *Juice* lle llwyddodd perfformiadau comedi Prydeinig talentog Gbsemisola Ikumelo a Mawaan Rizwan i ennill Gwobrau Teledu BAFTA a Gwobrau Rhaglenni'r RTS. Mae'r teitlau drama wedi'i sgrïptio y mae cynrychiolaeth a dilysrwydd yn rhan greiddiol ohonynt yn cynnwys *Boarders*, *Waterloo Road* a *Best Interests* ymhlith eraill. Ym maes Adloniant, cafodd cyfres 2 *The Traitors* a *Gladiators* eu canmol gan gynulleidfaoedd am y gynrychiolaeth amrywiol integredig a oedd i'w gweld ymhlith y cast a'r cyfranwyr. Ym maes Ffeithiol, aeth *Rose Ayling-Ellis: Signs for Change* â chynulleidfaoedd ar daith bersonol i'r gymuned fyddar. Roedd talent fyddar a thalent â chlyw yn chwarae rhannau allweddol yng nghast a chriw'r cynhyrchiad.

Fel rhan o'n harlwy sain, mae *Ability* Radio 4 yn rhaglen gomedi sefyllfa wedi'i hysgrifennu a'i pherfformio gan actorion a digrifwyr anabl sy'n adrodd hanes Matt y mae ganddo barlys yr ymennydd. Mae BBC Radio 1 Xtra yn parhau i hyrwyddo diwylliant Du Prydeinig ac aeth ati i ddathlu arwyr anhysbys Carnifal Notting Hill yn *The Carnival Family*. Lansiodd Asian Network *Motivation* â'r eiriolwr anabledd Shani Dhanda yn trafod cydbwyo hunaniaethau diwylliannol a chroestoriadol.

Dangosodd *Darren McGarvey: The State We're In*, cydgynhyrchiad â'r Brifysgol Agored ar gyfer BBC Two a BBC Scotland, gyflwr gwasanaethau cyhoeddus yn y DU, wedi'i gyflwyno gan Darren McGarvey, sef awdur, rapiwr a sylwebydd cymdeithasol o gefndir dosbarth gweithiol.

Dychwelodd y gyfres i blant *The Dumping Ground* yn seiliedig ar fyd Tracy Beaker. Mae'r ddrama gomedi yn cynnig cynrychiolad dilys o blant â phrofiad o fod mewn gofal â chast amrywiol a bu cynulleidfaoedd wrth eu bodd â'r gyfres ers 11 mlynedd.

Gan edrych ar ddata Diamond y Rhwydwaith Amrywiaeth Greadigol, rydym wedi gweld cynnydd o un flwyddyn i'r llall o ran lefelau cynrychiolaeth gwirioneddol ar y sgrin ar gyfer anabledd (o 8.8% yn 22/23 i 9.2% yn 23/24) ac ethnigrwydd (o 27.9% yn 22/23 i 29.3% yn 23/24).

Gan weithio ar draws meysydd cynnwys Newyddion, Y Gwledydd, Radio a Phlant, mae Prosiect 50:50 yn adnodd mesur pwysig ar gyfer olrhain a gwella cynrychiolaeth ar yr awyr o fewn allbwn y BBC mewn ffordd hyblyg a gwybodus, gan fonitro ethnigrwydd, anabledd a rhywedd.

Cynrychioli cymunedau amrywiol y DU

Mae angen i gynnwys dilys y gall pob cynulleidfa uniaethu ag ef gael ei greu gan dimau cynhyrchu amrywiol ag amrywiaeth o brofiadau bywyd a safbwyntiau. Mae ein hymrwymadau Amrywiaeth Greadigol yn ystyried amrywiaeth timau cynhyrchu, arweinyddiaeth y timau cynhyrchu hynny (h.y. uwch-aelodau o staff sy'n gwneud penderfyniadau oddi ar y sgrin sy'n rhan o lywio a gwneud y rhaglen) a chynrychiolaeth yn yr uwch-rolau sy'n gysylltiedig â llunio strategaethau creadigol neu weithredol yn y cwmnïau cynhyrchu annibynnol rydym yn gweithio gyda nhw.

Mae'r BBC wedi pennu targed i sicrhau bod o leiaf 20% o'r dalent gynhyrchu oddi ar y sgrin ar bob cynhyrchiad yn dod o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, ei bod yn cynnwys amrywiaeth ethnig neu unigolion byddar, anabl a/neu niwroamrywiol. Mae adroddiadau Diwedd y Cynhyrchiad yn galluogi'r BBC i fonitro a deall lefelau cynrychiolaeth ar y timau cynhyrchu sy'n gwneud cynnwys y BBC.

Mae'r BBC wedi ymdrechu i wella mynediad ar bob un o'i gynrychiadau er mwyn gwella cynhwysiant a chynrychiolaeth talent fyddar, anabl a/neu niwroamrywiol ar yr awyr ac oddi ar yr awyr. Mae'r BBC yn aelod allweddol o'r TV Access Project, ac yn cefnogi ei weledigaeth ar gyfer diwydiant teledu lle na chaiff unrhyw dalent fyddar, anabl a/neu niwroamrywiol ei heithrio gan fod rhwystrau wedi'u dileu a thegwch wedi'i greu. Rydym wedi gweld cynnydd o ran lefelau cynrychiolaeth gwirioneddol oddi ar y sgrin ar gyfer talent anabl o 8.9% yn 2022/23 i 9.7% yn 2023/24.

Er mwyn helpu i ddatblygu gyrfaoedd talent ar y sgrin ac oddi ar y sgrin nas gwasanaethir yn ddigonol, mae'r Gronfa Datblygu Talent Amrywiol, sydd werth £2.3 miliwn (Teledu a Phlant ac Addysg) yn helpu cwmnïau cynhyrchu i ddatblygu awduron, actorion, cyflwynwyr a chyfranwyr.

Yn ogystal, mae Radio'r BBC wedi ymrwmo o leiaf £250,000 y flwyddyn i ddatblygu'r sector annibynnol drwy'r Gronfa Datblygu Cwmnïau Radio Annibynnol, sydd bellach yn ei thrydedd flwyddyn. Sefydlwyd y gronfa yn benodol i gefnogi blaenoriaethau strategol y BBC, ac mae'n canolbwyntio ar hyn o bryd ar gynlluniau Across the UK a'r ymrwymïadau amrywiaeth.

Ym maes Newyddion, parhaodd Gohebydd Ifanc y BBC i ddatblygu diddordeb pobl ifanc mewn newyddiaduraeth a'r diwydiant darlledu a'u dealltwriaeth ohonynt. Mae'r prosiect yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc rhwng 11 ac 18 oed o gefndiroedd gwahanol ar draws y DU adrodd eu straeon gwreiddiol eu hunain drwy Gystadleuaeth flynyddol Gohebydd Ifanc y BBC.

Amrywiaeth wirioneddol ar y sgrin ac oddi ar y sgrin

Data a ddarparwyd o gyfraniadau gan unigolion sydd â rôl mewn rhaglenni cymwys.

	Gwirioneddol oddi ar y sgrin 2023/24	Gwirioneddol ar y sgrin 2023/24	Gwirioneddol oddi ar y sgrin 2022/23	Gwirioneddol ar y sgrin 2022/23
Menywod	52.6%	50.7%	54.1%	52.2%
Pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol	12.8%	29.3%	12.9%	27.9%
Anabl	9.7%	9.2%	8.9%	8.8%
LHD (lesbiaidd, hoyw, deurywiol)	17.6%	17.7%	15.4%	15.0%
Trawsryweddol	0.9%	0.9%	0.6%	1.1%
Nifer y cyfraniadau*	339,062	90,984	362,432	99,137

* Gall unigolyn wneud sawl cyfraniad i raglen neu raglenni

Amrywiaeth ganfyddedig ar y sgrin

Mewnbwn data gan gwmnïau cynhyrchu sy'n ystyried safbwynt gwylwyr o beth maent yn ei weld a'i glywed.

	Canfyddedig ar y sgrin 2023/24	Canfyddedig ar y sgrin 2022/23
Menywod	46.7%	47.3%
Pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol	27.4%	27.2%
Anabl	4.9%	5.1%
LHD	10.6%	11.0%
Trawsryweddol	0.1%	0.2%
Nifer y cyfraniadau*	435,741	487,661
% y pennwyd nodweddion amrywiaeth ar eu cyfer	90.2%	90.4%

* Gall unigolyn wneud sawl cyfraniad i raglen neu raglenni

Cyrhaeddiad y BBC cyfan

% pob grŵp cynulleidfya sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd

	Dynion 16+	Menywod 16+	ABC1 16+	C2DE 16+	16-34	35-54	55+	Gwyn 16+	Pobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol 16+	Anabl 16+	Ddim yn Anabl 16+
2023/24	86%	85%	86%	84%	71%	85%	96%	88%	70%	86%	85%
2022/23	88%	88%	89%	86%	76%	88%	97%	90%	73%	90%	87%

Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK 16+

51% 22/23 54%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw (aneffeithiol 23%. 22/23: 22%).

Ffynhonnell Ipsos UK 16+

50% 22/23 54%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran gwasanaethu'r rhan o'r DU lle maent yn byw (aneffeithiol 21%. 22/23: 20%).

Ffynhonnell Ipsos UK 16+

60% 22/23 62%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod gan y BBC raglenni, cynnwys a gwasanaethau sy'n codi ymwybyddiaeth o'r ffyrdd o fyw a'r safbwyntiau gwahanol yng nghymdeithas y DU (aneffeithiol 16%. 22/23: 15%).

Ffynhonnell Ipsos UK 16+

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol
Diben cyhoeddus 5



DIWYLLIANT A



Diben cyhoeddus 5: Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd

Mae'r tudalennau canlynol yn dangos y ffordd y mae'r BBC yn gweithio i hysbysu, addysgu a diddanu pobl ledled y byd.

Mae gwasanaethau byd-eang y BBC yn ased gwerthfawr i'r DU. Bob wythnos maent yn cyflwyno diwylliant, llais a gwerthoedd nodedig y DU i gynulleidfa o 450 miliwn o bobl ledled y byd.

Mae'r flwyddyn hon wedi dangos y perygl cynyddol sy'n wynebu cymdeithasau a democratiaethau ledled y byd yn sgil twyllwbyodaeth a chyfyngiadau ar ryddid y cyfryngau. Mae'r mynegai diweddaraf ar gyfer Rhyddid Gwasg y Byd yn nodi bod newyddiaduraeth wedi'i hatal yn llwyr neu'n rhannol yn 75% o'r 180 o wledydd a ystyrir ganddo. Yn y cyfamser, mae gwledydd fel Rwsia a Tsieina yn cynyddu eu gwariant ar lwyfannau cyfryngau gwladol yn sylweddol, fel adnoddau â dylanwad byd-eang. Yn erbyn y cefndir hwn, mae BBC World Service yn unigryw: ymddiriedir ynddo ledled y byd i adrodd heb ofn na ffafriaeth o'r ardaloedd daearyddol caletaf a'r sefyllfaoedd gwleidyddol anoddaf.

Ar hyn o bryd, mae BBC World Service yn gwasanaethu cynulleidfa wythnosol o 320 miliwn o bobl ledled y byd mewn 42 o ieithoedd, gan gynnwys Saesneg. Drwy barhau i weithredu ein cynllun i roi blaenoriaeth i ddenu cynulleidfaoedd i wasanaethau rhyngwladol y BBC, a'n gwasanaethau digidol yn arbennig, rydym wedi llwyddo i gynnal cyrhaeddiad cryf ledled y byd. A hynny er gwaethaf pwysau marchnad newyddion rhyngwladol heriol, gostyngiadau llinellol ar draws rhai tirioogaethau a'r angen i gyflawni arbedion o ganlyniad i setliad ffi'r drwydded. Yn yr oes dwyllwbyodaeth fyd-eang, ni fu rôl BBC World Service wrth geisio sicrhau uniondeb o ran newyddion a hyrwyddo gwerthoedd democrataidd ledled y byd erioed mor bwysig nac mor angenrheidiol (gweler tudalennau 42-43).

GWERTHOEDD

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol Diben cyhoeddus 5 – parhad

Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd



Rhyddid y Wasg

Mae newyddiadurwyr ledled y byd yn gweithio o dan bwysau cynyddol wrth i'r cyfyngiadau ar ryddid y wasg gynyddu. Mae cyfyngiadau pellach yn Rwsia, Affganistan ac Ethiopia, ymhlith eraill, wedi gorfodi mwy o staff y BBC i adleoli er mwyn sicrhau eu diogelwch personol, gyda llawer ohonynt yn gadael teulu a ffrindiau ar eu hól.

Yn gynharach y flwyddyn hon, cynhaliodd y BBC World Service Presents, sef cyfres o ddigwyddiadau a aeth ati i ystyried cyflwr rhyddid y cyfryngau ar lefel byd-eang ac i gyflwyno enghreifftiau o waith dewr ein newyddiadurwyr. Fel rhan o World Service Presents, gwnaethom ddatgelu bod dros 310 o newyddiadurwr BBC World Service – tua 15% – wedi'u halltudio. Mae'r newyddiadurwyr hyn yn parhau i ddarparu newyddion annibynnol i gynulleidfaoedd o'r tu allan i'r gwledydd y maent yn gohebu arnynt.



Gaza Daily

Parhaodd BBC World Service i ymateb i argyfyngau drwy lansio gwasanaeth radio argyfwng newydd gan BBC News Arabic, *Gaza Daily*, ddechrau mis Tachwedd.

Mae'r gwasanaeth yn cyflwyno'r wybodaeth a'r datblygiadau diweddaraf yn y rhyfel ac yn rhoi cyngor diogelwch a dyngarol o ran ble i gael lloches, bwyd a dŵr. Mae'n darlledu ddwywaith y dydd ar y donfedd ganol ac ar FM drwy bartner, Radio Bethlehem.

Mae *Gaza Daily* yn gweithredu o Lundain a Cairo.

Dyma wasanaeth argyfwng diweddaraf y World Service, yn dilyn gwasanaeth radio argyfwng i Sudan a lansiwyd gan BBC News Arabic ym mis Mai 2023, a'r bwletinâu teledu estynedig i Wcráin yn 2022.



Geeta Guru-Murthy a Marianna Spring yn trafod newyddiaduraeth fforensig yn BBC World Service Presents, digwyddiad tri diwrnod yn dangos ehangder newyddiaduraeth BBC World Service

450m

i fyny 1%

Cyrhaeddiad wythnosol byd-eang

Gan gynnwys BBC News a BBC Studios.
Ffynhonnell Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC

414m

i fyny 1%

Cynulleidfa wythnosol ryngwladol BBC News

Ffynhonnell Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC

Mae BBC World Service yn unigryw: ymddiriedir ynddo ledled y byd i adrodd heb ofn na ffafriaeth o'r ardaloedd caletaf a'r sefyllfaoedd gwleidyddol anoddaf.

Cyrhaeddiad wythnosol BBC World Service ar bob llwyfan, fesul gwasanaeth

	2023/24 Miliynau	Newid o un flwyddyn i'r llall %*
Afaan Oromoo	1.5	-3%
Afrique	16.0	-2%
Amhareg	1.9	-5%
Arabeg	35.0	9%
Azeri	0.7	26%
Bengaleg	8.6	-8%
Brasil	5.7	-23%
Byrmaneg	3.2	-18%
Dari	1.6	-7%
Dysgu Saesneg	2.4	10%
Fietnameg	0.9	12%
Gujarati	3.3	0%
Hawsa	20.0	32%
Hindi	39.3	-4%
Igbo	0.3	-85%
Indoneseg	1.9	23%
Coreaidd	0.7	-22%
Kyrgyz	3.1	0%
Marathi	5.9	1%
Mundo	8.7	-8%
Nepali	4.8	-1%
Pashto	4.3	-7%
Perseg	17.1	-11%
Pidgin	0.8	-63%
Punjabi	1.7	-4%
Rwsieg	3.8	-33%
Saesneg Affricanaidd	18.7	1%
Serbaidd	0.6	-11%
Sinhala	0.3	-8%
Somalieg	4.9	-1%
Swahili	29.7	16%
Tamil	11.9	5%
Telugu	7.2	2%
Thai	0.9	-13%
Tigrinya	0.3	-22%
Twrceg	2.1	1%
Tsieinëeg	2.2	-19%
Wcreineg	4.1	-13%
World Service	320.0	1%
World Service Saesneg	84.2	3%
Wrdw	2.8	-2%
Wsbeg	1.7	-14%
Y Llynnoedd Mawr	1.9	-9%
Yoruba	1.2	-16%

Mae'r Mesur Cynulleidfa Fyd-eang yn mesur faint o bobl sy'n defnyddio'r BBC bob wythnos ar gyfer pob gwasanaeth ym mhob gwlad ar bob llwyfan (teledu, radio, gwefan a chyfryngau cymdeithasol). Mae dad-ddyblygu yn allweddol i hyn h.y. sicrhau na chaiff person sy'n defnyddio sawl gwasanaeth neu lwyfan gan y BBC neu ar ddyfeisiau lluosog ei gyfrif fwy nag unwaith yn y cyfanswmiau lefel uchaf. Er enghraifft, mae'r gynulleidfa teledu, radio ac ar-lein ar gyfer BBC World Service yn llai na chyfanswm ei rhannau er mwyn sicrhau nad ydym yn cyfrif pobl fwy nag unwaith wrth edrych ar gyfanswm cynulleidfa World Service



The Disciples

Parhaodd llinyn ymchwiliol clodwiw BBC World Service, BBC Eye, i gynhyrchu rhaglenni dogfen grymus drwy gydol y flwyddyn.

Yn dilyn ymchwiliad dwy flynedd o hyd, datgelodd *The Disciples* gan BBC Africa Eye dystiolaeth o achosion eang o gam-drin ac arteithio gan sylfaenydd un o eglwysi efengylaidd Cristnogol mwyaf y byd.

Ymchwiliad trawslwyfan go iawn oedd yr ymchwiliad hwn, gyda rhaglen ddogfen deledu deiran, erthyglau ar-lein, podlediad naw rhan ac elfen sylweddol ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys cyfres TikTok gyntaf erioed BBC News/Eye Investigations, a oedd yn cynnwys rhestr chwarae o chwe fideo a gafodd eu gwyllo dros ddeg miliwn o weithiau.



The Global Story

Wedi'i gyflwyno gan Katya Adler a'i lansio ym mis Tachwedd gan BBC World Service a BBC Studios, podlediad newyddion dyddiol yw *The Global Story* wedi'i anelu at gynulleidfaedd ledled y byd.

Mae pob pennod yn canolbwyntio ar un stori newyddion byd-eang bwysig, ac yn defnyddio newyddiadurwyr ac arbenigedd y BBC ledled y byd i gynnal ymchwiliadau manwl i bynciau yn amrywio o ddatblygiad deallusrwydd artifffisial i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Mae *The Global Story* yn adeiladu ar lwyddiant podlediad newyddion rhyngwladol mwyaf poblogaidd y BBC, *Global News Podcast* ac yn ychwanegiad perffaith ato. Caiff bellach ei ddarlledu ar radio BBC World Service hefyd.

Rhif 1

Y gorau am Ymddiriedaeth, Dibynadwyedd ac Annibyniaeth ymysg darparwyr newyddion rhyngwladol.

Ffynhonnell BBC Brand Tracker (ac eithrio'r DU)

62%

o ddefnyddwyr byd-eang dylanwadol yn dweud bod defnyddio'r BBC yn gwneud iddynt ystyried y DU mewn ffordd fwy cadarnhaol.

Ffynhonnell Tapestry 2021

i t.148 I gael y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am Ddiben Cyhoeddus 5



Disciples: The Cult of TB Joshua BBC World Service

EIN CYNULLEIDFAOEDD

Mae'r tudalennau canlynol yn nodi ein cydberthynas â chynulleidfaoedd: sut mae'r bobl yn y DU yn ein defnyddio a'u canfyddiad ohonom, y ffyrdd rydym yn ymgysylltu'n uniongyrchol â chynulleidfaoedd, a phan fyddwn yn ymgynghori ynghylch newidiadau arfaethedig i wasanaethau.

Gwerth i gynulleidfaoedd

Ym mis Mawrth, cyflwynodd y BBC ei nodau o ran cynulleidfaoedd ar gyfer ail hanner y Siarter yn ei strategaeth, **A BBC for the Future**. Rydym yn adeiladu ar y nodau hyn ar sail sylfaen gadarn o werth i gynulleidfaoedd heddiw.

Yn ganolog i **A BBC for the Future** mae blaenoriaethu tair rôl; canfod y gwirionedd heb unrhyw agenda; cefnogi'r prosesau adrodd straeon cartref gorau; a dod â phobl ynghyd. Ysgogir y rolau hyn gan anghenion cynulleidfaoedd a chaiff pob un ei chefnogi gan fwyafriaf amlwg o dalwyr ffi'r drwydded.

Mae **A BBC for the Future** hefyd yn nodi mai llwyddiant fydd ennyn diddordeb mawr ymhlith cynulleidfaoedd a defnydd cyffredinol drwy gynnig rhywbeth gwahanol i bawb; bod yn hygyrch i bawb, ar-lein ac yn y byd darlledu; a chyrraedd ac ennyn diddordeb pawb yn rheolaidd.

Fel y mae ein perfformiad yn 2023/24 yn ei ddangos, mae llawer i adeiladu arno.

Yn 2023/24, ein newyddion oedd y ffynhonnell a ddefnyddiwyd fwyaf ac yr ymddiriedwyd fwyaf ynddo yn y DU; ni yw'r darparwr cyfryngau sy'n arddangos creadigrwydd y DU i'r cyhoedd fwyaf; ac ar draws ein holl wasanaethau, at y BBC y trodd 35 miliwn o oedolion yn y DU bob dydd.

Yn gyffredinol, trodd 95% o oedolion yn y DU (51 miliwn) at y BBC ar draws pob gwasanaeth bob mis yn 2023/24, a 85% (46 miliwn) ar gyfartaledd bob wythnos.

Ar-lein, y BBC oedd unig frand cynulleidfaoedd y DU ymhlith y deg mwyaf poblogaidd yn gyson – yr unig ddarparwr o'r DU ymhlith darparwyr byd-eang. Yn yr wythnos gyfartalog, defnyddiodd 33 miliwn o'r 46 miliwn o oedolion a drodd at y BBC ein gwasanaethau ar-lein. Roedd twf ein cynhyrchion ar-lein yn gryf iawn, gan gyrraedd y lefelau uchaf erioed yn 2023/24, a pharhau ar y trywydd y bydd angen i ni ei ddilyn er mwyn parhau'n berthnasol mewn byd ar-lein yn unig.

Parhaodd y BBC i arwain y ffordd ym maes y cyfryngau yn gyffredinol, fideo, sain a newyddion yn y DU yn 2023/24, a bydd angen i ni barhau i ymateb yn gyflym i'r tueddiadau o'n cwmpas er mwyn cyflawni'r nodau rydym wedi eu gosod hyd at 2028.

Yn y farchnad fideo, er gwaethaf lleihad yn nifer y gwylwyr ar gyfer teledu darlledu a'r BBC, ar lefel gyffredinol, darlledwyr oedd yn cyfrif am y gyfran fwyaf o amser gwyltio y DU o hyd yn 2023/24, a hynny o bell ffordd. Ac yn benodol, parhaodd y cyhoedd yn y DU i wyltio mwy o oriau o gynnwys teledu y BBC nac unrhyw ddarparwr arall ar y cyfan, gan gynnwys mwy na Netflix, Disney+ ac Amazon Prime gyda'i gilydd.

Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau clir yn ôl oedran. Ar gyfer pobl dan 35 oed, rhannu fideos oedd yn cyfrif am y gyfran fwyaf o'u hamser fideo, ac o fewn hyn, YouTube yn benodol. O ran cyrhaeddiad, defnyddiodd mwy o bobl dan 35 oed (65%) lwyfannau rhannu fideos byd-eang a gwasanaethau fideo ar alw y tanysgrifir iddynt neu sy'n seiliedig ar hysbysebion (SVOD/AVOD) (66%) ar gyfartaledd bob wythnos na darlledwyr yn y DU (57%).

Nid yw darparwyr byd-eang o'r fath yn gysylltiedig â rhaglenni sy'n adlewyrchu bywydau pobl yn y DU – er enghraifft, mae 16% o oedolion yn y DU yn teimlo bod Netflix yn dangos y rhain, a dyma'r gwasanaeth SVOD sy'n cael ei olrhain mwyaf poblogaidd. O ran cymhariaeth, mae'r ffigur ar gyfer Teledu'r BBC/iPlayer – y darparwr sy'n cael ei olrhain mwyaf poblogaidd – bedair gwaith yn fwy, sef 64%. Fel brand cyfryngau mwyaf y DU i bobl ifanc, rydym am wneud yn siŵr bod ein proses o adrodd straeon y DU yn parhau i fod yn rhan annatod o ddefnydd pobl o bob oedran yn y DU o'r cyfryngau.

Yn y farchnad sain, parhaodd BBC Sounds i ddenu mwy o wrandawyr ymhlith cynulleidfaoedd 35 oed a throsodd, ond parhaodd llwyfannau ffrydio cerddoriaeth a sector radio masnachol bywiog i roi pwysau ar radio'r BBC yn gyffredinol, wrth i nifer y gwrandawyr leihau o un flwyddyn i'r llall. Gwelwyd llwyfannau ffrydio cerddoriaeth a'r sector radio masnachol yn tyfu o un flwyddyn i'r llall, a bu'r cynnydd yn nifer y gwasanaethau a'r rhwydwaith o frandiau mawr ar draws y DU yn hwb i radio masnachol.

Mae'r BBC yn ddarparwr cyfryngau cyffredinol Defnyddir gan:

Bob dydd **65%** o oedolion yn y DU
35 miliwn

Bob wythnos **85%** o oedolion yn y DU
46 miliwn

Bob mis **95%** o oedolion yn y DU
51 miliwn



Breakfast with Greg James ar BBC Radio 1

Yn y farchnad newyddion, gwelsom bobl yn parhau i osgoi'r newyddion. Yn y DU, dywedodd dros 40% o oedolion eu bod yn ceisio osgoi'r newyddion yn aml neu weithiau, a'r DU oedd ag un o'r cyfraddau uchaf o ran y mesur hwn. Er gwaethaf hyn, defnyddiodd 75% o oedolion yn y DU BBC News ar gyfartaledd bob wythnos yn 2023/24.

Llwyddwyd i gyflawni'r rhan fwyaf o'r targedau perfformiad a osodwyd gan y BBC ar gyfer 2023/24.

Gwnaethom gyflawni ein targed ar gyfer ehangder y gydberthynas sydd gennym â phobl yn y DU, wrth i 85% o oedolion yn y DU ddefnyddio'r BBC bob wythnos ar gyfartaledd yn ystod 2023/24.

O ran dwyster y gydberthynas, gwnaethom ragori ar ein targed ar gyfer pa mor aml rydym yn rhyngweithio â chynulleidfaoedd y DU a chyflawni ein targed ar gyfer yr amser y gwnaethant ei dreulio gyda ni, ond ni lwyddom i gyflawni ein targed ar gyfer faint o foddau'r BBC y mae pobl yn eu defnyddio mewn wythnos gyfartalog. Cynnal dwyster y cysylltiad â chynulleidfaoedd yw ein her allweddol mewn marchnad cyfryngau lle mae nifer y cartrefi sy'n mabwysiadu SVOD ac yn defnyddio gwasanaethau sain ar alw wedi dyblu ers 2017.

Gan fyfyrion ar ein cynlluniau digidol yn gyntaf, mae ein blwyddyn orau erioed ar-lein wedi golygu bod BBC Ar-lein yn gyffredinol a BBC iPlayer wedi rhagori ar eu targedau. Yn ogystal â sicrhau'r cyrhaeddiad mwyaf erioed ar gyfer BBC Ar-lein ac iPlayer, gwelwyd cynnydd yn yr amser a dreuliwyd gan bobl yn defnyddio iPlayer o un flwyddyn i'r llall. O ystyried cryfder y gystadleuaeth, ni ellir gwarantu'r fath gynnydd mewn amser ym maes gwasanaethau fideo ar alw. Rhagorodd Sounds – a welodd ei flwyddyn orau erioed – ar ei darged cyffredinol, wedi'i bweru gan ei dwf ymhlith cynulleidfaoedd 35 oed a throsodd. Cyflawnodd BBC News Online ei darged ymhlith cynulleidfaoedd yn gyffredinol.

Ymhlith pobl ifanc dan 16 oed, defnyddiodd 69% y BBC yn gyffredinol a defnyddiodd bron hanner ein gwasanaethau plant ac addysg bob wythnos ar gyfartaledd yn 2023/24 – ac mae'r ddau ffigur yn unol â'n targedau yn fras. Dros y tymor hwy, mae ein perfformiad yn dirywio'n raddol, wrth i wasanaethau darlledu'r DU deimlo pwysau apêl cwmnïau cyfryngau byd-eang i'r grŵp oedran hwn. Yn 2023/24, roedd hyn yn arbennig o wir ymhlith plant dan 7 oed. Fodd bynnag, ymhlith plant 7-12 oed, roedd ein cyrhaeddiad cyffredinol yn sefydlog o un flwyddyn i'r llall am y tro cyntaf ers 2019/20. Ymhlith pobl 16-34 oed, defnyddiodd 71% y BBC bob wythnos ar gyfartaledd yn 2023/24. Ar ôl cynnal cyrhaeddiad sefydlog ymhlith y grŵp oedran hwn am dair blynedd hyd at 2021/22 er gwaethaf y gystadleuaeth, mae hyn wedi gostwng dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac ni wnaethom lwyddo i gyflawni ein targed ar gyfer grŵp oedran 16-34 o ran y mesur hwn y flwyddyn hon a hefyd o ran eu sgôr perthnasedd personol.

Ar-lein, llwyddodd BBC iPlayer i gyflawni ei darged ar gyfer pobl 16-34 oed. Roedd BBC Sounds ar ei

hól hi o ran ei uchelgais ar gyfer pobl 16-34 oed, gan aros yn sefydlog o un flwyddyn i'r llall ar gyfer y grŵp oedran hwn. Roedd BBC News Online yn agos (o fewn un pwynt canrannol) at gyflawni ei darged ar gyfer pobl 16-34 oed, ond ni welwyd cynnydd dros y tair blynedd diwethaf. Mae hyn yn debyg i'r farchnad newyddion ar-lein yn gyffredinol ac mae'n adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n osgoi'r newyddion.

Yn gyffredinol – er gwaethaf yr heriau – y BBC oedd y brand cyfryngau yn y DU mwyaf poblogaidd o hyd ymhlith pobl 16-34 oed ac roeddent yn gadarnhaol iawn o hyd am ein gallu i gyflawni'r genhadaeth – gyda sgorau sefydlog dros y tair blynedd diwethaf.

Mae'r gydberthynas rhwng y BBC a'r cyhoedd yn y DU yn parhau, er gwaethaf y gystadleuaeth a'r heriau.

Roedd tri chwarter yr oedolion yn y DU o'r farn bod y BBC yn darparu gwasanaeth cyhoeddus gwerthfawr i bobl y DU yn 2023/24.

Parhaodd y BBC yn ganolog i fywyd cenedlaethol y DU. Ar ddiwrnod cyfartalog, dechreuodd 16 miliwn eu diwrnod gyda'r BBC a throdd 25 miliwn at y BBC am adloniant gyda'r nos yn 2023/24. Roedd y BBC yn rhan o Ddydd Nadolig 2023 43 miliwn o bobl, a chroesawodd 22 miliwn o bobl y Flwyddyn Newydd gyda ni.

At y BBC y trodd y DU hefyd am wybodaeth am yr hyn oedd yn digwydd gartref a thramor. Mae mwy o bobl, o bell ffordd, yn troi at y BBC am newyddion nag unrhyw ffynhonnell arall. Ac at y BBC y trodd pobl er mwyn dilyn diddordebau cenedlaethol, wrth i 22 miliwn droi at y BBC bob wythnos ar gyfartaledd i fwynhau chwaraeon, a gwnaethom hefyd gyflwyno celfyddydau, cerddoriaeth a diwylliant y DU i gynulleidfaoedd 22 miliwn o oedolion bob wythnos ar gyfartaledd.

Yn yr wythnos gyfartalog yn 2023/24, treuliodd oedolion 15 awr a hanner gyda'r BBC yn gyffredinol – mwy na gydag unrhyw frand cyfryngau arall. Hyd yn oed gyda'r amrywiaeth enfawr o opsiynau sydd ar gael heddiw, mae hyn yn golygu ein bod wedi cadw bron 90% o'n defnydd cyn y pandemig, sef 17¼ awr yr wythnos yn 2019/20. Dros yr un cyfnod, mae nifer y bobl sy'n gwyllo gwasanaethau SVOD wedi cynyddu i 35 miliwn ar gyfartaledd bob wythnos ac mae nifer y bobl sy'n gwrandao ar lwyfannau ffrydio cerddoriaeth/podlediadau bellach yn 26 miliwn. Parhaodd sgôr gyfartalog oedolion ar gyfer gwerth am arian i fod yn bump allan o ddeg. Ac o ran gwerth a gyflawnwyd, costiodd pob awr o ddefnydd o'r BBC 7.8c ar gyfartaledd.


Fodd bynnag, mae angen i ni wneud mwy o hyd i leihau'r amrywiadau o ran pa mor dda rydym yn gwasanaethu a chynrychioli rhannau gwahanol o'r DU a phobl wahanol.

O ran ein perfformiad o amgylch y DU, mae defnydd o'n cynnwys o'r gwledydd, y rhanbarthau a'n cynnwys portreadu yn uchel – yn yr wythnos gyfartalog yn 2023/24 defnyddiwyd y cynnwys hwn gan 32 miliwn o'r 46 miliwn o oedolion a drodd at y BBC. Rydym yn canolbwyntio ar leihau'r gwahaniaethau sy'n bodoli ar draws y DU o ran canfyddiadau o borteadau.


Mae hefyd angen i ni wneud mwy o welliannau o ran lleihau'r bwlch mewn lefelau bodddhad ymysg cynulleidfaoedd o gefndiroedd llai

Parhaodd y BBC i arwain y ffordd ym maes y cyfryngau yn gyffredinol, fideo a sain yn y DU yn 2023/24.


Y brandiau a ddefnyddiwyd fwyaf ar gyfer y cyfryngau 16+ oed



Y farchnad fideo 4+ oed



Y farchnad sain 15+ oed



cefnog, cynulleidfaoedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a phobl sy'n anabl.

Mae ein cynlluniau Across the UK, ein Hymrwymadau Amrywiaeth Greadigol a'n cynllun gweithredu ar ddiueddrwydd i gyd yn rhan o'n ffocws i leihau gwahaniaethau o'r fath rhwng canfyddiadau grwpiau cynulleidfaoedd. Bydd ein hadolygiad thematig annibynnol diweddaraf ar bortreadu yn gymorth yn hyn o beth.

Yn fwy cyffredinol, gwelsom effaith heriau o ran enw da yn 2023/24 ar ganfyddiadau o'r BBC, gyda rhywfaint o ostyngiadau bach mewn barn o gymharu â 2022/23. Fodd bynnag, erys canfyddiad y cyhoedd o rôl y BBC yn gadarnhaol, gydag wyth o bob deg oedolyn o'r farn bod ein cenhadaeth a'n dibenion yn bwysig, Mewn blwyddyn nodweddiadol, mae'r BBC yn arolygu ac yn siarad â miloedd o aelodau o'r cyhoedd yn y DU i gasglu eu barn am yr hyn rydym yn ei gynnis. Ac fel y mae **A BBC for the Future** yn ei nodi, ar ddechrau'r flwyddyn nesaf a chyn cyflwyno'r Siarter newydd yn 2028, byddwn yn lansio ein proses ymgysylltu â'r cyhoedd fwyaf erioed – gyda'r nod o gyrraedd hyd at filiwn o bobl – er mwyn sicrhau bod barn y cyhoedd yn y DU wrth wraidd y drafodaeth am ddyfodol y BBC.

Ein cynulleidfaoedd – parhad

Sicrhau gwerth i gynulleidfaoedd

Perfformiad yn erbyn targedau cynulleidfaoedd 2023/24

Sicrhau gwerth i gynulleidfaoedd yn gyffredinol

Cyrhaeddiad y BBC % yr oedolion 16+ oed yn y DU sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK	85% Targed 85-90%
Arfer a werthfawrogiar gyda'r BBC % yr oedolion 16+ oed yn y DU sy'n defnyddio'r BBC bum diwrnod neu fwy bob wythnos ar gyfartaledd Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK	66% Targed 60-65%
% yr oedolion 16+ oed yn y DU sy'n defnyddio'r BBC am bum awr neu fwy bob wythnos ar gyfartaledd Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK	55% Targed 55-60%
% yr oedolion 16+ oed yn y DU sy'n defnyddio dau neu fwy o foddau'r BBC bob wythnos ar gyfartaledd Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK	61% Targed tua 65%

Parhau i ganolbwyntio ar heriau allweddol o ran cynulleidfaoedd

Oedolion ifanc Cyrhaeddiad y BBC % y bobl 16-34 oed yn y DU sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK	71% Targed tua 75%
Perthnasedd personol Sgôr pobl 16-34 oed yn y DU ar gyfer 'mae'r BBC ar fy nghyfer i' (sgôr gymedrig allan o 10) Ffynhonnell Kantar Media	5 allan o 10 Targed 6 allan o 10
Y rhai dan 16 oed Cyrhaeddiad y BBC % y rhai dan 16 oed yn y DU sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd Ffynhonnell Kids Cross-Media Insight gan Ipsos UK	69% Targed tua 70%
Cyrhaeddiad gwasanaethau BBC Children's/Education % y rhai dan 16 oed yn y DU sy'n defnyddio gwasanaethau BBC Children's/Education bob wythnos ar gyfartaledd Ffynhonnell Kids Cross-Media Insight gan Ipsos UK	48% Targed 45-50%

Cyflymu gweithgarwch sy'n ganolog i ymdrechion parhaus ac ymdrechion yn y dyfodol i sicrhau gwerth i gynulleidfaoedd

Cyrhaeddiad BBC Ar-lein o ran defnyddwyr sydd â chyfrifon Cyfrifon gweithredol sy'n defnyddio BBC Ar-lein bob wythnos ar gyfartaledd Ffynhonnell Piano Analytics	22.8m Targed 22m+
Cyrhaeddiad BBC iPlayer o ran defnyddwyr sydd â chyfrifon Cyfrifon gweithredol sy'n defnyddio BBC iPlayer bob wythnos ar gyfartaledd Cyfrifon yn gyffredinol Ffynhonnell Piano Analytics	14.1m Targed 13.5m+
Cyfrifon y rhai dan 35 oed Ffynhonnell Piano Analytics	4.1m Targed 4.0m+
Amser a dreulir yn defnyddio BBC iPlayer y pen bob wythnos Amser a dreulir y pen bob wythnos ar gyfartaledd Ffynhonnell Data Dull Fel y'i Gwyliwyd BARB (pob dyfais)	66 munud Targed 65 munud+
Sgôr BBC iPlayer Sgôr defnyddwyr wythnosol ar gyfer BBC iPlayer (sgôr gymedrig allan o 10) Defnyddwyr wythnosol 16+ yn y DU Ffynhonnell YouGov	8 allan o 10 Target 8 allan o 10
Defnyddwyr wythnosol 16-34 oed yn y DU Ffynhonnell YouGov	8 allan o 10 Target 8 allan o 10
Cyrhaeddiad BBC Sounds o ran defnyddwyr sydd â chyfrifon Cyfrifon gweithredol sy'n defnyddio BBC Sounds bob wythnos ar gyfartaledd Cyfrifon yn gyffredinol Ffynhonnell Piano Analytics	4.8m Targed 4.5m+
Cyfrifon pobl 16-34 oed Ffynhonnell Piano Analytics	585k Targed 0.6m+
Cyrhaeddiad BBC News Online % sy'n defnyddio BBC News Online bob wythnos ar gyfartaledd Oedolion 16+ yn y DU Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK	32% Targed 32%+
Pobl 16-34 oed yn y DU Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK	31% Targed 32%+

BBC iPLAYER

BBC SOUNDS

Cyrhaeddiad BBC iPlayer o ran defnyddwyr sydd â chyfrifon

Cyfrifon yn gyffredinol
Cyfrifon pobl dan 35 oed

14.1m **4.1m**

22/23 **13.4m** 22/23 **4.0m**

Cyfrifon gweithredol sy'n defnyddio BBC iPlayer. Ffynhonnell Piano Analytics

Amser yn ffrydio BBC iPlayer

54.4m

22/23 **50.4m**
Oriaau a chwaraewyd drwy iPlayer bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell Data dal i fyny Piano Analytics/Sky Dull gwell o fesur ers 2023/24

16+ oed 16-34 oed

8/10 **8/10**

22/23 **8/10** 22/23 **8/10**

Sgôr defnyddwyr wythnosol ar gyfer BBC iPlayer (sgôr gymedrig/10). Ffynhonnell YouGov 16+

16+ oed 16-34 oed

85% **86%**

22/23 **85%** 22/23 **78%**

% y defnyddwyr wythnosol sydd o'r farn bod iPlayer yn effeithiol o ran helpu'r BBC i gyflawni'r genhadaeth yn gyffredinol (mae 7% o ddefnyddwyr 16+ oed a 7% o ddefnyddwyr 16-34 oed o'r farn ei fod yn aneffeithiol). Ffynhonnell Ipsos UK 16+

16+ oed 16-34 oed

87% **87%**

22/23 **86%** 22/23 **83%**

% y defnyddwyr wythnosol sydd o'r farn bod iPlayer yn effeithiol o ran helpu'r BBC i gyflawni'r dibenion cyhoeddus yn gyffredinol (mae 5% o ddefnyddwyr 16+ a 5% o ddefnyddwyr 16-34 oed o'r farn ei fod yn aneffeithiol). Ffynhonnell Ipsos UK 16+

i **£.150** Am y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am BBC iPlayer

Cyrhaeddiad BBC Sounds o ran defnyddwyr sydd â chyfrifon

Cyfrifon yn gyffredinol
Cyfrifon pobl 16-34

4.8m **585k**

22/23 **4.4m** 22/23 **587k**

Cyfrifon gweithredol sy'n defnyddio BBC Sounds bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell Piano Analytics Diffiniad diwygiedig ers 2023/24

Amser yn ffrydio BBC Sounds

17.3m

22/23 **15.3m**
Oriaau a chwaraewyd drwy Sounds bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell Piano Analytics Dull gwell o fesur BBC Sounds ar seinyddion clyfar ers mis Ebrill 2023.

8/10


22/23 **8/10**
Sgôr defnyddwyr wythnosol ar gyfer BBC Sounds (sgôr gymedrig/10). Ffynhonnell YouGov 16+

i **£.150** Am y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am BBC Sounds

Nifer sy'n gwyllo Teledu'r BBC drwy iPlayer

Mae'r siartiau'n dangos canran holl lefelau gwyllo'r BBC yn ôl genre sydd bellach yn digwydd drwy iPlayer. Er enghraifft, mae 52% o holl lefelau gwyllo dramâu'r BBC yn digwydd drwy iPlayer. I'r gwrthwyneb, profiad darlledu byw yw gwyllo newyddion yn bennaf.

% lefelau gwyllo teledu'r BBC yn ôl genre drwy iPlayer 4+



Ffynhonnell BARBI Fel y'i Gwylwyd. Pob dyfais

Sut y defnyddiodd cynulleidfaoedd BBC iPlayer a BBC Sounds yn 2023/24 Ceisiadau i BBC iPlayer yn ôl dyfais a math Allan o 8.1 biliwn o geisiadau:

Byw	18%
Ar alw	82%
Dyfais deledu	74%
Llechen	10%
Cyfrifiadur	7%
Ffôn symudol	9%

Cyfrifon gweithredol sy'n defnyddio BBC iPlayer bob wythnos ar gyfartaledd miliynau/% y proffil oedran

Y rhai dan 35 oed	4.1m	29%
Pobl 35-54 oed	4.4m	31%
Pobl 55 oed+	4.6m	32%
Oedran yn anhysbys	1.1m	8%

Eitemau a chwaraewyd ar BBC Sounds yn ôl math

Allan o 2.4 biliwn o eitemau a chwaraewyd:

Byw	62%
Ar alw	38%
Llafar byw	32%
Cerddoriaeth fyw	30%
Llafar ar alw	32%
Cerddoriaeth ar alw	6%


Cyfrifon gweithredol sy'n defnyddio BBC Sounds bob wythnos ar gyfartaledd miliynau/% y proffil oedran

Y rhai dan 35 oed	0.6m	12%
Pobl 35-54 oed	1.6m	33%
Pobl 55 oed+	2.0m	41%
Oedran yn anhysbys	0.7m	14%

Oherwydd talgrynnu, efallai na fydd y ffigurau'n creu cyfanswm o 100%.

Ffynhonnell Piano Analytics Dull gwell o fesur BBC Sounds ar seinyddion clyfar ers mis Ebrill 2023.

% lefelau gwyllo teledu'r BBC yn ôl genre drwy iPlayer 16-34 oed



Ffynhonnell BARBI Fel y'i Gwylwyd. Pob dyfais

Ein cynulleidfaoedd – parhad

Ymgysylltu â chynulleidfaoedd

Gwerth i Bawb

Caiff ein strategaeth Gwerth i Bawb ei hategu gan ddealltwriaeth ddofn o gynulleidfaoedd ar draws y DU.

Mae'r BBC yn manteisio ar amrywiaeth eang o adborth a data gan gynulleidfaoedd – ac mae'n defnyddio'r wybodaeth hon er mwyn helpu i wneud penderfyniadau ym mhob rhan o'r sefydliad; drwy gomisiynu cynnwys, newyddiaduraeth, datblygu cynhyrchion digidol, marchnata a thu hwnt.

Mae'r ffynonellau a ddefnyddiwn yn amrywio o rai arsylwadol – drwy adnoddau mesur y cyfryngau ac adnoddau dadansoddi digidol, i rai mwy myfyriol lle rydym yn gofyn i bobl y DU am eu barn ysturlon ar yr hyn y maent yn ei werthfawrogi gan y BBC.

Mae'r ffynonellau hyn yn cynnwys:

- un o ymarferion mwyaf blaenllaw'r diwydiant i fesur dewisiadau o ran y cyfryngau yn y DU ar bob llwyfan (Teledu, Radio, Ar-lein)
- buddsoddiad parhaus yng ngwerthoedd mesur y cyfryngau yn y DU
- adnoddau dadansoddi digidol dwfn: gyda set ddata ddigidol gynhwysfawr i'n helpu i ddeall sut mae pobl yn defnyddio ein cynhyrchion digidol (gan gynnwys ein sylfaen o ddefnyddwyr sy'n mewngofnodi – sydd bellach yn rhagori ar 50 miliwn o gyfrifon cofrestredig)
- arolygon a pholau piniwn rheolaidd i ddeall agweddau ac ymatebion y DU i'n harlwy
- cysylltiadau dyddiol gan ein cynulleidfa
- gyda mwy na 286,187 o ffurflenni gwe, negeseuon e-bost, llythyrau a galwadau i'n canolfannau cyswllt bob blwyddyn.

Ar y cyd, mae'r data hyn yn ein helpu i feithrin dealltwriaeth gyfoethog o fywyd ar draws y DU; ond gwyddom hefyd nad oes dim yn well na chwrrd â'n cynulleidfa yn y cnawd – ac am y rheswm hwn, rydym wedi datblygu rhaglen ymgysylltu â chynulleidfaoedd ar gyfer y sefydliad cyfan ('BBC Virtual In Person').

Rhaglen ymgysylltu Virtual In Person (VIP)

Mae rhaglen ymgysylltu â chynulleidfaoedd y BBC, Virtual In Person (VIP), bellach yn ei phumed flwyddyn. Cyfweiliadau grŵp ar-lein wedi'u hwyluso ag aelodau o'r cyhoedd yw sesiynau VIP, a gaiff eu gwyllo'n fyw gan staff y BBC. Maent yn ffordd bwerus o glywed pobl go iawn yn mynegi eu barn yn onest am y BBC a'i gynnwys, ei gynhyrchion a'i wasanaethau.

Dros y 12 mis diwethaf, mae tîm VIP wedi cynnal 116 o sesiynau ychwanegol, gan gynnwys 688 o aelodau o'r gynulleidfa a 2,576 o'r BBC.

Fel rhan o ddatblygiad gwyb, dewiswyd chwech o blith yr aelodau o'r gynulleidfa y siaradodd tîm VIP â nhw i fod yn sail i gymeriadau wedi'u hanimeiddio ar gyfer ymgyrch brand y BBC Things we Love Aardman.



Ciplun o ddiwyddiad BBC Virtual In Person (VIP)

Un o'r ychydig aelodau a ddewiswyd oedd Karen o Bort Talbot yn ne-orllewin Cymru (a welir yn y llun ochr yn ochr ag aelodau o dîm VIP).

Fel y gwelwyd mewn blynyddoedd blaenorol, roedd yr aelodau o'r gynulleidfa yn cynrychioli ystod eang o oeddrannau a demograffeg ac yn dod o leoliadau o bob cwr o bedair gwlad y DU. Ymysg y pynciau a drafodwyd mae arferion gwyllo a gwrando, BBC iPlayer a BBC Sounds, newyddion cenedlaethol a lleol, chwaraeon, cynnwys plant, cynrychiolaeth ar y sgrin, gwerth am ffi'r drwydded a didueddrwydd.

Yr haf hwn, bydd y BBC hefyd yn cynnal cyfres o sesiynau VIP, gan siarad ag aelodau o'r gynulleidfa o bob cwr o'r DU am eu barn am dryloywder y BBC. Bydd yr ymatebwyr yn cynrychioli amrywiaeth o oeddrannau, lleoliadau a demograffeg, a gofynnir iddynt rannu eu barn am y wybodaeth sy'n werthfawr iddynt mewn perthynas â natur agored ac atebolrwydd y BBC.

Mae deall ein cynulleidfaoedd yn well drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â nhw yn chwarae rôl hanfodol o ran helpu'r BBC i gyflawni ei nod o sicrhau gwerth i bawb.

50 miliwn

Nifer y cyfrifon cofrestredig

286,187

Nifer y ffurflenni gwe, negeseuon e-bost, llythyrau a galwadau i'n canolfannau cyswllt y flwyddyn ddiwethaf.

Ymgynghoriadau

Mae Siarter y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd y BBC ystyried manteision ymgynghori â phobl â budd fel rhan o'n hymrwymiad i fod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol, ac mae'n elfen allweddol o'n gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Yn 2023-2024, agorodd y BBC dri ymgynghoriad cyhoeddus, yr oedd pob un ohonynt yn ymwneud â newidiadau perthnasol i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC ac yn cynnwys cynnal Prawf Budd y Cyhoedd.

Ymgynghoriad Prawf Budd y Cyhoedd ar newidiadau i BBC Radio Cymru 2

Ym mis Gorffennaf 2023, agorodd y BBC ymgynghoriad ar gynigion i gynyddu nifer yr oriau Cymraeg gwreiddiol a gynigiwyd gan **BBC Radio Cymru 2** a fyddai'n ei wneud yn un o Wasanaethau Cyhoeddus y DU yn ei rhinwedd ei hun. Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn am werth posibl y cynigion i'r cyhoedd a'u heffaith gystadleuol bosibl.

Ym mis Medi 2023, daeth Bwrdd y BBC i'r casgliad bod y cynnig wedi bodloni gofynion Prawf Budd y Cyhoedd ac y byddai'n cynnig gwerth ychwanegol i'r cyhoedd, yn enwedig i gynulleidfaoedd cynnwys Cymraeg 25-54 oed, sy'n llai rhugl yn y Gymraeg, heb fawr ddim effaith andwyol, os o gwbl, ar y farchnad radio yng Nghymru. Ym mis Ionawr 2024, cytunodd Ofcom â chasgliadau Bwrdd y BBC a phenderfynodd y gallai'r BBC fwrw ati gyda'i gynlluniau. Dechreuodd Radio Cymru 2 ddarlledu oriau estynedig ar 4 Mawrth 2024.

Gellir gweld manylion yr ymgynghoriad, gan gynnwys yr adborth a gafwyd, yma: bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/consultation/bbc-radio-cymru-2-public-interest-test/.

Ymgynghoriadau Prawf Budd y Cyhoedd ar orsafod cerddoriaeth ddigidol newydd a newidiadau i BBC Radio 5 Live Sports Extra

Ym mis Chwefror 2024, agorodd y BBC ddau ymgynghoriad Prawf Budd y Cyhoedd, un ar gynigion ar gyfer pedair gorsaf cerddoriaeth DAB+ newydd, a'r llall ar gynigion i gynyddu oriau darlledu BBC Radio 5 Live Sports Extra.

Byddai'r gorsafod cerddoriaeth arfaethedig – cynyddu oriau darlledu BBC Radio 1, BBC Radio 2 a BBC Radio 3 – yn rhoi mwy o ddewis a gwerth i gynulleidfaoedd am ffi'r drwydded ac yn adeiladu ar gefnogaeth y BBC i gerddoriaeth Brydeinig. Yn benodol, byddent yn rhoi mwy o ddewis i'r rhai nad yw'r BBC yn eu gwasanaethu'n ddigonol ar hyn o bryd, ac y mae Ofcom wedi herio'r BBC i wneud mwy drostynt.

Byddai'r cynnig ar gyfer BBC Radio 5 Live Sports Extra yn golygu bod yr orsaf yn darlledu'n llawnamser. Byddai'n golygu bod cynnwys sain sy'n gysylltiedig â chwaraeon presennol y BBC yn cael ei chwarae ar yr orsaf, gan alluogi buddsoddiad presennol y BBC mewn cynnwys chwaraeon i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach a nas gwasanaethir yn ddigonol.

Gofynnodd yr ymgynghoriadau am farn am werth posibl y cynigion i'r cyhoedd a'u heffaith gystadleuol bosibl.

Bydd canlyniadau'r ymgynghoriadau hyn, ynghyd â gwaith ymchwil a dadansoddi arall, yn helpu i lywio cynigion terfynol y BBC, a disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi yn ystod haf 2024. Os bydd Bwrdd y BBC yn penderfynu bod y cynigion yn bodloni Prawf Budd y Cyhoedd, cânt eu cyflwyno i Ofcom am Asesiad o Gystadleurwydd a phenderfyniad terfynol.

Gellir gweld manylion yr ymgynghoriadau yma: bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/consultation/bbc-new-digital-music-stations-5-sports-extra-public-interest-test/.

Ymgynghoriad ar ddrافت diwygiedig o Ganllawiau Golygyddol y BBC

O dan y Siarter bresennol, Bwrdd y BBC sy'n gyfrifol am y Canllawiau Golygyddol a rhaid iddo bennu, cyhoeddi a dilyn canllawiau sydd â'r nod o sicrhau safonau priodol yng nghydestun Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, a'u hadolygu o bryd i'w gilydd. Yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ddrافت diwygiedig o Ganllawiau Golygyddol y BBC. Byddwn yn adrodd ar hyn yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y flwyddyn nesaf.



Union with David Olusoga ar BBC Two

ADRODDIAD GWEITHREDOL

t.51

Adolygiad y Prif
Swyddog Gweithredu

t.57

Ein pobl

t.61

Amrywiaeth a
chynhwysiant yn
y gweithlu a'n
hadroddiad ar
wybodaeth
cydraddoldeb

t.64

Adroddiad ar y
Bwlch Cyflog

t.67

Cynaliadwyedd
amgylcheddol


t.72

Gwaith elusennol

t.73

Partneriaethau
a mentrau
cydweithredol

Y gweithredwr camera Christiaan Munoz-Salas yn ffilmio morlewod yn Ne America ar gyfer *Mammals*



ADOLYGIAD Y PRIF SWYDDOG GWEITHREDU



“Mae rheolaeth weithredol ac ariannol gref yn hanfodol wrth i ni drawsnewid er mwyn galluogi BBC ar gyfer y dyfodol”

Leigh Tavaziva,
Prif Swyddog Gweithredu'r Grŵp

Mewn amodau economaidd heriol, roedd 2023/24 yn flwyddyn o chwyddiant uchel, amgylchedd masnachu anodd ac yn flwyddyn olaf pris gwastad ffi'r drwydded. Arweiniodd hyn at reffeniw i Grŵp y BBC o £5,389 miliwn (2022/23: £5,725 miliwn) a diffyg gweithredu o £263 miliwn (2022/23: diffyg o £193 miliwn). Yn 2023/24 mae'r diffyg gweithredu cyn dau ennill untro sylweddol, sef credyd treth net a gwarediad tybiedig o'n cyfranddaliad o 50% o BritBox International wedi i'r gyfranddaliadaeth

weddilliol gael ei chaffael. Gwnaethom gau'r flwyddyn gyda chronfeydd arian parod wrth gefn grŵp a buddsoddiadau o £559 miliwn (2022/23: £600 miliwn).

Roedd cyfanswm incwm ffi'r drwydded yn £3,660 miliwn yn 2023/24 a dyma yw prif ffynhonnell incwm unigol y BBC o hyd. Er bod incwm ffi'r drwydded yn gostwng o un flwyddyn i'r llall, ymrwymodd y mwyafrif helaeth o'n cynulleidfa oedd i dalu ffi'r drwydded o hyd.

Pennir pris ffi'r drwydded gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Er bod y setliad presennol yn rhoi sicrwydd cyllid hyd at ddiwedd y Siarter, mae dwy flynedd o bris gwastad ffi'r drwydded ar adeg o chwyddiant uchel, a chymhwyso cyfradd chwyddiant ar y pryd ym mis Medi hyd at y cynnydd mewn pris ym mis Ebrill 2024 wedi arwain at effaith sylweddol ar gyllid. Mewn termau real, creodd ffi'r drwydded 30% yn fwy o incwm yn 2010/11 o gymharu â heddiw – gwahaniaeth o fwy na £1 biliwn y flwyddyn.

O dan y pwysau ariannol hyn ac er mwyn sicrhau y gallwn gyflawni ar ein trawsnewidiad strategol wrth gynnig gwerth gwyd am arian i'n holl gynulleidfa oedd rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar gynllun arbed ac ail-fuddsoddi sylweddol. Gwnaethom gyhoeddi cynllun arbed ac ail-fuddsoddi gwerth £500 miliwn ym mis Mai 2022. Mae gennym hanes gwyd o sicrhau arbedion, gan gyflawni £323 miliwn o'r arbedion hyn hyd yma, gyda £287 miliwn wedi'i gwblhau yn 2023/24. Yn fwy diweddar, gwnaethom gyhoeddi bod arbedion pellach o £200 miliwn y flwyddyn yn ofynnol erbyn 2027/28. Yn 2024/25 rydym yn rhagfynegi diffyg o £492 miliwn i Grŵp y BBC o ganlyniad i wariant eithriadol yn ystod y flwyddyn i drawsnewid y gwasanaeth cyhoeddus wrth i ni fuddsoddi yn y trawsnewidiad digidol a chynnwys fideo, a sefydlu'r rhaglen arbedion bellach. Yn ystod 2023/24, gwnaethom fuddsoddi £3 biliwn mewn cynnwys gwasanaeth cyhoeddus – gan fuddsoddi mwy mewn cynnwys Prydeinig gwreiddiol nag unrhyw un arall. Gweler tudalen 64 ar gyfer ein hadroddiad ariannol manwl.

Perfformiodd BBC Commercial yn dda er gwaethaf y cefndir o amodau masnachu heriol i gyflawni gwerthiannau o £1.9 biliwn (2022/23: £2.1 biliwn). Galluogodd cynnydd yn nherfynau benthyca BBC Commercial dwf mewn buddsoddiad o fewn y Grŵp. Mae caffaeliad diweddar y gwasanaeth ffrydio proffidiol sy'n tyfu'n gyflym BritBox International yn dangos maint ein huchelgais wrth i ni anelu at ddyblu'r busnes masnachol erbyn 2027/28 a fydd, yn ei dro, yn creu enillion ychwanegol i'r BBC ar ffurf cynnwys a chyllid.

Yn weithredol, mae'r BBC wedi ymrwmo i allu technoleg gwydn â pherfformiad uchel. Yn 2023/24, gwnaethom barhau i berfformio'n dda yn erbyn ein targedau perfformiad gweithredol allweddol o 99.99% ar gyfer argaeledd TV Payout, 100% ar gyfer cywirdeb teledu a 99.95% ar gyfer argaeledd ar draws ein Cynhyrchion Digidol.

Yn 2023/24, gwnaethom brofi nifer o heriau i'n cadwyn gyflenwi trydydd parti, gan gynnwys risgiau seiberddiogelwch, risgiau diogelu data, hyfywedd ariannol cyflenwyr a gweithgarwch ail-gaffael sylweddol. Mae prosesau uwchraddio technoleg ar gcontract gyda phartner strategol allweddol yn cael eu rheoli'n agos a chytunwyd ar gynllun cerrig milltir newydd i'w gyflawni yn 2023/24. Ym mis Mai 2024, cafwyd mynediad heb awdurdod i lwyfan a ddefnyddir gan y BBC lle cafwyd mynediad i nifer o ffeiliau gan gynnwys ffeiliau yn cynnwys gwybodaeth bersonol am rai o aelodau Cynllun Pensiwn y BBC. Hysbyswyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am hyn. Cafodd ein cyflenwr gwasanaethau post ar gyfer trwyddedau teledu anawsterau ariannol yn ystod y flwyddyn a phenodwyd cyflenwr newydd. Ym mis Mehefin 2023 gwnaethom gyhoeddi y dyfarnwyd y contract ar gyfer ein gwasanaethau cyflogres a busnes i Tata Consultancy Services Ltd (TCS). Bydd y broses o symud gwasanaethau i TCS yn dechrau ym mis Gorffennaf 2024.

Adolygiad y Prif Swyddog Gweithredu – parhad

Prif benawdau ar gyfer 2023/24

£3,660m

2022/23 £3,740m

Incwm o ffi'r drwydded

£1,859m

2022/23 £2,115m

Incwm masnachol

95%

o wariant gwasanaeth cyhoeddus a gaiff ei neilltuo ar gyfer cynnwys a'i ddarparu

Gyda'r newidiadau i ymddygiadau gwyllo cynulleidfaoedd yn parhau i gyflymu, rydym yn addasu i ofynion ein cynulleidfaoedd yn yr oes ddigidol. Yn 2023/24, cawsom y fwyddyn orau erioed ar gyfer nifer y Cyfrifon Gweithredol Wythnosol ar gyfer BBC iPlayer a BBC Sounds. Mae arloesedd ar draws ein hystâd ddigidol yn parhau i fod yn faes ffocws allweddol, gan gynnwys defnyddio technoleg i ysgogi newid yn hygyrchedd ein cynnwys – am y tro cyntaf, gallodd ein cynulleidfaoedd fwynhau Rhaglenni Byw *Strictly Come Dancing* gyda Sain Ddisgrifiad.

Rydym wedi treialu dull tryloywder newydd mewn partneriaeth â Microsoft, Adobe, NY Times a CBS Radio Canada – nodwedd 'Content Credentials' sy'n cadarnhau o ble y mae delwedd neu fideo wedi dod a sut y cadarnhawyd ei ddilysrwydd – gan helpu i wrthbrofi twyllwbyodaeth pan fydd y cynnwys wedi'i rannu y tu allan i'r BBC.

Byddwn yn mynd ati i ddefnyddio deallusrwydd artifisial ar ein telerau ein hunain, gan gynnal ein hegwyddorion cyhoeddedig o hyd a lansio dulliau i'n helpu i adeiladu perthnasedd. Yn ystod y fwyddyn buom yn cydweithio â nifer o gwmnïau technoleg mawr ar dreialion i archwilio amrywiaeth o syniadau, o gyfieithu ac ailfformatio cynnwys i nodweddion hygyrchedd a dulliau cynhyrchiant staff newydd.

Ym mis Ebrill 2024 gwnaethom gyrraedd carreg filltir hanesyddol ar gyfer teledu gyda lansiad Freely – y gwasanaeth teledu byw dros fand eang cyntaf mewn partneriaeth â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus cenedlaethol eraill.

I gefnogi twf y diwydiannau creadigol ar draws y DU rydym yn parhau i symud symiau sylweddol o brosesau cynhyrchu cynnwys, arweinyddiaeth olygyddol a phrosesau gwneud penderfyniadau allan o Lundain a de-ddwyrain Lloegr. Bydd mwy na 60% o'n gwaith cynhyrchu teledu y tu allan i Lundain erbyn 2026, a mwy na 50% o'n radio a cherddoriaeth erbyn 2027. Mae mwy na 54% o'n gweithlu bellach wedi'i leoli y tu allan i Lundain. Ym mis Chwefror 2024, dechreuodd y gwaith adeiladu yn ein Pencadlys newydd yn Birmingham, The Tea Factory, a fydd yn gatalydd ar gyfer adfywiad ehangach yn Digbeth gan ein galluogi i adleoli llinynnau arwyddocaol o raglennu fel *MasterChef*. Ym mis Mehefin 2024, adleolodd *News at One* i Salford, gan ategu'r gwaith a wnaed

ar leoli timau Newyddion rhwydwaith ar draws y DU. Ceir rhagor o fanylion ar dudalen 32.

Rydym wedi parhau i leihau ein hystâd safleoedd drwy werthu Maida Vale ym mis Medi 2023 ac rydym yn bwriadu gwerthu Caversham ac Elstree. Mae ein safleoedd yn Llundain wedi'u cyfuno ymhellach drwy adael Wogan House a symud Pop Radio i Broadcasting House, Llundain – gan gyfrannu ymhellach at ein harbedion.

Mae ad-drefnu ein hystâd wedi helpu i leihau ein gorbenion a gwella effeithlonrwydd ond mae hefyd yn llinyn pwysig o'n gwaith i gyflawni ein hymrwymiaadau Sero Net. Mae ein hallyriadau Cwmpas 1 a Chwmpas 2 gweithredol uniongyrchol yn cyflawni'n well na'r llwybr targed ar ostyngiad o -21% – a gyflawnwyd drwy gyfres a dargedwyd o fentrau yn erbyn ein defnydd o danwydd ffosil a thrydan, gan gynnwys uwchraddio a gadael safleoedd. Mae allyriadau Cwmpas 3 (cadwyn gwerth) uwchlaw'r waelodlin o hyd, ond maent wedi gostwng o un fwyddyn i'r llall a disgwylir iddynt ostwng ymhellach wrth i ni roi ein cynllun ar waith i gyflawni ein targed Cwmpas 3. Gweler tudalen 67 am ein hadroddiad cynaliadwyedd manwl.

Lleiaodd ein gweithlu gwasanaeth cyhoeddus (cyfartaledd amser llawn cyfartalog) ychydig i 17,611 (2022/23: 17,688). Yn 2023/24 roedd cyfanswm taliadau diswyddo Grŵp y BBC ar gyfer y fwyddyn yn £55 miliwn (2022/23: £28 miliwn) wrth i 811 o bobl adael y sefydliad. Caiff darpariaeth o £37 miliwn ei gydnabod ar 31 Mawrth 2024 ar gyfer costau ailstrwythuro tebygol yn y dyfodol.

Mae'r angen i wobrwyo ein pobl yn unol â'n hegwyddorion o gyflog 'teg', 'clir' a 'chystadleuol' yn sail i'n cynlluniau i wneud y BBC yn lle gwych i weithio ynddo a'r fwyddyn hon gwnaethom gyhoeddi cam nesaf ein dull i ddatblygu cyflog. Gynhoddodd ein bwllch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau yn 2023/24 i 7.9% (2022/23: 7.3%) a chynyddodd ein bwllch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau i 5.4% (2022/23: 4.7%). Er gwaethaf y cynnydd canolrifol a chymedrig, mae'r ddau ffigur ymhell islaw'r ffigurau a nodwyd gyntaf yn 2017 (9.3% a 10.7% yn y drefn honno). Rydym yn parhau i fonitro ein bylchau cyflog yn agos ac rydym yn disgwyl gweld newidiadau yn adlewyrchu tueddadau hurio a gadael cyffredinol, ymyriadau cyflog a hurio prentisiaid. Mae ein hadroddiad llawn i'w weld ar dudalen 64.

Er mwyn sicrhau ein bod yn portreadu'r cymunedau amrywiol niferus ar draws y DU mae angen i'n gweithlu adlewyrchu ein cynulleidfaoedd ac rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i wella cynrychiolaeth ym mhob rhan o'r sefydliad. Mae hyn yn cynnwys ein targed o 25% ar gyfer cyflogeion o gefndir economaidd-gymdeithasol isel. Er nad ydym wedi cyrraedd ein holl dargedau Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer y fwyddyn, rydym yn parhau i wneud cynnydd da tuag at ein huchelgeisiau 50:20:12:25 cyffredinol. Mae anabledd ac ethnigrwydd ar ei hôl hi o ran ein huchelgais ddisgwyliedig ac wrth i ni lansio ein strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant ddiwygiedig dros y fwyddyn i ddod, mae'r ddau yn ffocws o hyd. O fis Mawrth 2024, roedd cyfanswm o 689 o brentisiaid y BBC ar leoliadau ar draws 40 o gynlluniau gwahanol (Mawrth 2023: 629). Mae gennym gyfraddau cwblhau rhagorol gyda 94% o

brentisiaid Gyrfaoedd Cynnar y BBC yn cwblhau eu cynllun, o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 54%. Gweler tudalen 61 am ragor o fanylion.

Dros y fwyddyn ddiwethaf, mae argyfyngau geoleidyddol wedi parhau i gyflwyno heriau a risgiau sylweddol i ddiogelwch ein pobl. Mae'r BBC yn parhau i ganolbwyntio ar ddiogelwch staff a pharhad gweithrediadau ac allbwn sy'n darparu gwasanaethau hanfodol i gynulleidfaoedd. Mae Timau Diogelwch Newyddion Risg Uchel wedi parhau i gefnogi cydweithwyr sydd wedi'u lleoli yn Wcraïn a Rwsia, yn ogystal ag yn Israel-Gaza.

Yn ein Gweithrediadau Rhyngwladol, gwnaethom lansio cwmni cynhyrchu newydd mewn ymateb i newidiadau yn rheolau buddsoddi tramor India. Bydd Collective Newsroom Limited yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi cynnwys BBC News mewn ieithoedd Indiaidd.

Yn ystod y fwyddyn gwnaethom barhau i reoli nifer o adolygiadau ac ymchwiliadau parhaus. Ym mis Gorffennaf 2023, comisiynodd y BBC adolygiad o effeithiolrwydd ei bolisiau a phrosesau cwynion nad ydynt yn rhai golygyddol, yn dilyn cwyn am ymddygiad un o gyflwynwyr y BBC. Cynhaliwyd yr arolygiad gan Deloitte ym mis Chwefror 2024 ac argymhellwyd gwelliannau i'n prosesau y mae'r BBC wedi'u derbyn yn llawn. Rydym hefyd yn agosau at gamau olaf adolygiad a gyfarwyddwyd gan Fwrdd y BBC i ymateb y BBC dros honiadau ynghylch ymddygiad ein cyn DJ Tim Westwood, a arweinwyd gan adolygydd annibynnol Gemma White CB. Rydym yn parhau i ymgysylltu â'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar ei ymchwiliadau o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998.

Rydym wrthi'n adolygu ein cynnig o ran darpariaeth pensiynau ar gyfer y dyfodol ac ym mis Mai 2023 gwnaethom ofyn am eglurhad gan yr Uchel Lys ar reol benodol yn y cynllun buddiannau diffiniedig i egluro pa opsiynau a allai fod ar gael ar gyfer newid. Cynhaliwyd gwrandawriad apêl ar y rheol honno ym mis Mehefin 2024, a disgwylir y canlyniad yn ddiweddarach y fwyddyn hon. Yn 2023/24 cawsom ad-daliad treth gan CTHEF ar ôl iddynt gwblhau eu hymholiad i driniaeth treth gorfforaethol incwm eiddo deallusol a gafwyd o Archif Hawliau Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009 i 31 Mawrth 2021.

Mae'r adroddiadau canlynol yn rhoi rhagor o wybodaeth am berfformiad Grŵp y BBC dros y 12 mis nesaf, gan ddangos sut rydym yn dyrannu cyllid ac adnoddau i sicrhau'r gwerth gorau o ffi'r drwydded i'n holl gynulleidfaoedd.

Ar ran y Pwyllgor Gweithredol cyfan, hoffwn ddiolch i'n holl gyflogeion, gweithwyr llawrydd a chyfranwyr, y mae pob un ohonynt yn chwarae rôl hanfodol yn sicrhau gwerth i'n holl gynulleidfaoedd ac yn helpu i sicrhau bod y BBC yn lle gwych i weithio ynddo.



Leigh Tavaziva
Prif Swyddog Gweithredu
10 Gorffennaf 2024

Ein sefyllfa ariannol

Mae'r adran hon yn rhoi manylion ein perfformiad ariannol dros y flwyddyn ddiwethaf.

Incwm o ffi'r drwydded

Y flwyddyn hon, gwnaethom gasglu £3,660 miliwn o incwm ffi'r drwydded, gostyngiad o £80 miliwn o un flwyddyn i' llall, wedi'i ysgogi gan ostyngiad o 2% mewn maint gwerthiannau a phris gwastad ffi'r drwydded. Mae ein cynulleidfaoedd yn parhau i dalu ffi'r drwydded gyda 23.9 miliwn o drwyddedau yn weithredol ar ddiwedd y flwyddyn (2022/23: 24.4 miliwn).

Ym mis Ionawr 2022, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon setliad ffi'r drwydded, gyda'r ffi drwydded flynyddol wedi'i rhewi ar £159 tan fis Mawrth 2024, yna'n codi gyda chwyddiant o fis Ebrill 2024 hyd at ddiwedd cyfnod y Siarter yn 2027/28. Ym mis Rhagfyr 2023, penderfynwyd y byddai cyfradd chwyddiant mis Medi 2023 yn cael ei chymhwyso i ffi'r drwydded, yn hytrach na'r gyfradd chwyddiant flynyddol, gan arwain at gynnydd chwyddiant is i brif ffi'r drwydded ym mis Ebrill 2024.

Ceir rhagor o fanylion ar incwm ffi'r drwydded yn nodyn B2 o'r datganiadau ariannol.

Casglu ffi'r drwydded

Mae systemau rheoli ariannol effeithiol yn rhan allweddol o gyberthynas unigryw'r BBC â'n cynulleidfaoedd. Mae hyn yn cynnwys gwario ffi'r drwydded yn effeithlon a chasglu ffi'r drwydded deledu gan bawb y mae'n ofynnol iddynt brynu un. Caiff y broses o gasglu ffi'r drwydded ei hategu gan ofyniad cyfreithiol i brynu trwydded os byddwch yn gwyllo neu'n recordio rhaglenni sy'n cael eu dangos ar unrhyw wasanaeth darlledu teledu; yn gwyllo ffrydiau byw drwy wasanaeth teledu ar-lein; neu'n lawrlwytho neu'n gwyllo rhaglenni ar BBC ar iPlayer (yn fyw, drwy'r gwasanaeth dal i fyny neu ar alw).

Mae gan y BBC nifer o drefniadau cytundebol sy'n cwmpasu'r gwaith o gasglu, gweinyddu a gorfodi ffi'r drwydded, marchnata, rheoli sianelau talu a rhwydweithiau manwerthu. Mae'r mwyafrif o'r gwaith gweinyddol yn cael ei gynnal gan Capita Business Services Ltd ac mae contractau ar waith tan 2027.

Rydym yn cynnig amrywiaeth o ddulliau talu yn cynnwys mewn siopau, dros y ffôn ac ar-lein. Rydym yn parhau i gefnogi'r sawl sy'n wynebu caledi ariannol drwy gynnig y Cynllun Talu Syml, cynllun talu hyblyg sy'n lledaenu cost ffi'r drwydded dros 12 mis. Mae trwyddedau teledu am ddim, a ariennir gan y BBC, ar gael i unrhyw un dros 75 oed sy'n cael Credyd Pensiwn*.

Mae'r dull casglu presennol yn parhau i fod yn deg ac yn effeithiol gan sicrhau gwerth da am arian. Wrth i ni nesáu at ddiwedd cyfnod y Siarter, byddwn yn mynd ati i ymchwilio i'r modd y gallwn ddiwygio ffi'r drwydded i sicrhau buddiannau BBC cymesur cyffredinol â'r adnoddau priodol ar gyfer yr hirdymor.

Datganiad ffi'r drwydded

Rydym yn paratoi datganiad blynyddol o refferniw ffi'r drwydded a gaiff ei archwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Mae'r datganiad hwn yn nodi'r symiau a gasglwyd gennym ac a dalwyd i Lywodraeth EF yn ystod y flwyddyn. Ynghyd â'i gwaith archwilio, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn edrych ar ein trefniadau casglu ac yn adrodd arnynt i Senedd y DU. Ceir rhagor o wybodaeth am ddatganiad refferniw ffi'r drwydded yn: www.tvlicensing.co.uk/about/bbc-trust-statement-AB21.

Sut rydym yn casglu ac yn defnyddio ffi'r drwydded

Mae'r ffordd y caiff y BBC ei ariannu yn gosod cyfrifoldebau sylweddol ar y sefydliad i wneud y canlynol:

- sicrhau trefniadau effeithiol ac effeithlon ar gyfer casglu ffi'r drwydded;
- sicrhau'r cyllid mwyaf o ffynonellau eraill, mewn ffordd sy'n gyson â thelerau ei Siarter a rhwymedigaethau eraill;
- sicrhau gwerth am arian drwy ganolbwyntio gwariant ar y rhaglenni a'r gwasanaethau y mae'r cyhoedd am eu cael fwyaf gan y BBC; a
- sicrhau bod yr allbwn wedyn yn cael ei gyflwyno mewn ffordd mor gosteffeithlon â phosibl.

* Mae deiliad trwydded sydd dros 75 oed ac sy'n byw mewn cynllun Llety Gofal Preswyl â Hawliau a Gedwir hefyd yn gymwys i gael trwydded am ddim. Ar gyfer Tiriogaethau Dibynnol y Goron, rhoddwyd trefniadau cyfatebol ar waith, gan ddechrau o 1 Ionawr 2021, yn seiliedig ar fudd-daliadau lleol.

Datganiad Incwm Grŵp y BBC

Datganiad incwm	Wedi'i ddatgan fel	2023/24 £m	2022/23 £m	Gweithgarwch sylweddol
Incwm o ffi'r drwydded	Cyfanswm y ffioedd trwyddedau a gasglwyd	3,660	3,740	Gostyngiad o 2% yn y trwyddedau y talwyd amdanynt a phrisiau gwastad ers mis Ebrill 2021
Incwm arall	Incwm masnachol ac incwm grant	1,729	1,985	Gostyngiad mewn incwm masnachol mewn amgylchedd masnach heriol a chyflwyno refferniw ar gyfer cytundebau sawl blwyddyn a gafodd ei gydnabod yn 2022/23
Cyfanswm yr incwm		5,389	5,725	
Costau gweithredu	Cost cynhyrchu'r holl gynnwys a rhedeg y BBC	(5,652)	(5,918)	Llai o ddigwyddiadau chwaraeon mawr yn 2023/24 a gwariant ychwanegol ar gytundebau masnachol yn 2022/23
(Diffyg) gweithredu'r Grŵp		(263)	(193)	
Cyfran o ganlyniadau partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau	Cyfran o elw'r busnesau lle rydym yn rheoli 50% neu lai	29	12	Ymysg y canlyniadau mae New Video Channel AMERICA a chanlyniadau cyn caffael ar gyfer BritBox International
Enillion a cholledion eraill	Enillion a cholledion o symudiadau mewn offerynnau ariannol a gwaredu asedau neu weithrediadau	209	(49)	Mae 2023/24 yn cynnwys gwarediad tybiedig 50% o gyfranddaliadau BritBox International yn dilyn proses o gaffael y cyfranddaliadau sy'n weddill
Incwm ariannu net	Incwm a gaiff ei ennill neu a gafwyd mewn perthynas ag offerynnau ariannol ac asedau a rhwymedigaethau pensiwn	13	91	Caiff cynnydd mewn incwm llog net ar arian parod cyfatebol yn 2023/24 ei wrthbwyso gan golled gwerth teg ar offerynnau ariannol wedi'i ysgogi gan newidiadau mewn cyfraddau llog hirdymor
Trethiant	Y credyd treth net ar gyfer y flwyddyn	241	19	Mae credydau treth teledu pen uchaf ac ad-daliad treth hanesyddol yn 2023/24 wedi'u gwrthbwyso'n rhannol gan daliadau treth gorfforaethol
Gwarged/(diffyg) y Grŵp am y flwyddyn		229	(120)	

Ein sefyllfa ariannol – parhad

Gostyngiad o 2% yn incwm ffi'r drwydded
£3 biliwn mewn gwariant ar gynnwys
gwasanaeth cyhoeddus

Gorbenion Gwasanaeth Cyhoeddus o
fewn 5% o wariant y gellir ei reoli

EBITDA masnachol o £199 miliwn

Incwm arall

Cefnogir incwm ffi'r drwydded gan ein ffrydiau incwm eraill, sy'n cynnwys incwm a gaiff ei greu gan BBC Commercial ac incwm trydydd parti yn y gwasanaeth cyhoeddus. Yn 2023/24, daeth yr incwm arall i gyfanswm o £1,729 miliwn (2022/23: £1,985 miliwn).

Cyflawnodd BBC Commercial, gan gynnwys trafodion o fewn y Grŵp, refeniw o £1,859 miliwn yn 2023/24 (2022/23: £2,115 miliwn), yn erbyn cefndir o amodau gweithredu heriol gyda marchnad hysbysebu feddal.

Mae'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu yn parhau i fuddsoddi yn BBC World Service. Roedd cyfanswm incwm grant World Service y flwyddyn hon yn £104 miliwn (2022/23: £96 miliwn). Cadarnhaodd y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO) fuddsoddiad pellach o £94 miliwn y flwyddyn yn BBC World Service hyd at fis Mawrth 2025, sef cyfanswm o £189 miliwn dros y cyfnod o ddwy flynedd. At hynny, mae £20 miliwn arall wedi'i roi dros y cyfnod o ddwy flynedd hyd at fis Mawrth 2025 i gefnogi'r 42 o wasanaethau iaith BBC World Service a darlledu Saesneg.

Gwariant gwasanaeth cyhoeddus

Rydym yn parhau i flaenoriaethu gwariant ar gyfer ein cynulleidfaoedd – roedd 95% o wariant y gellir ei reoli yn y gwasanaeth cyhoeddus wedi'i gyfeirio at gynnwys a'r gwaith o'i ddarparu yn 2023/24. Y flwyddyn hon, gwnaethom wario £2,969 miliwn ar gynnwys ar draws ein gwasanaethau, gostyngiad o 4% o un flwyddyn i'r llall oherwydd digwyddiadau chwaraeon mawr yn 2022/23. Caiff ein cynnwys ei ariannu gan incwm ffi'r drwydded, wedi'i gynyddu drwy gyflawni rhaglenni arbedion yn ystod y flwyddyn. Wrth i ni drawsnewid i fod yn ddarlledwr digidol yn gyntaf, rydym yn parhau i adolygu ein polisïau cyfrifyddu er mwyn sicrhau bod gwariant yn adlewyrchu defnydd cynulleidfaoedd yn y ffordd orau a bod ein prosesau adrodd yn rhoi gwybodaeth strategol.

Yn 2023/24, gwnaethom gyflawni arbedion blynyddol o £287 miliwn – gan gyfrannu at ein cyfanswm arbedion o £323 a gyflawnwyd hyd yma. Cyflawnwyd arbedion drwy effeithlonrwydd gweithredol a thrwy ail-flaenoriaethu gwariant tuag at gynnwys newydd ar gyfer cynulleidfaoedd.

Mae ein cynllun arbedion ac ail-fuddsoddi presennol gwerth £500 miliwn y flwyddyn yn cynnwys arbedion i reoli effaith setliad ffi'r drwydded ac mae'n galluogi buddsoddiad mewn cynnwys a chynhyrchion digidol o bwys i wella profiad defnyddwyr, ynghyd â rheoli pwysau costau chwyddiant. Yn gynharach y flwyddyn hon, gwnaethom gyhoeddi y byddwn yn ehangu ein cynlluniau arbedion presennol hyd at £200 miliwn y flwyddyn a fydd yn helpu i atgyfnerthu ein cynnwys a'n gwasanaethau digidol i'n cynulleidfaoedd.

Ceir manylion ein gwariant darlledu cyhoeddus ar dudalen 56.

BBC Commercial

Mae BBC Commercial yn defnyddio gwerth byd-eang eiddo deallusol y BBC i greu a dosbarthu cynnwys o bwys, sydd yn ei dro yn creu enillion ariannol i Grŵp y BBC, gan sicrhau'r gwerth gorau o ffi'r drwydded i gynulleidfaoedd.

Un mesur perfformiad allweddol ar gyfer BBC Commercial yw elw, wedi'i fynegi fel EBITDA (enillion cyn llog, treth, dibrisiant ac amorteiddio). Cyflawnodd y busnes EBITDA* o £199 miliwn yn 2023/24 (2022/23: £252 miliwn), ac enillion i'r BBC o £325 miliwn (2022/23: £368 miliwn). Roedd EBITDA yn is na'r flwyddyn flaenorol gan adlewyrchu cytundebau eithriadol dros sawl blwyddyn yn 2022/23, marchnad hysbysebu feddalach, a buddsoddiad yn nhwf gwasanaethau digidol i gefnogi twf cynaliadwy hirdymor. Gweler y tabl isod ar gyfer cysoni i ddiffyg gweithredu.

Mae'r Grŵp Masnachol wedi rhoi cynlluniau uchelgeisiol ar waith i ddyblu gwerthiannau ac elw 2021/22 erbyn 2027/28, gan ariannu'r twf hwn drwy sicrhau terfynau benthyca uwch gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth BBC Commercial nifer o gaffaeliadau strategol i ehangu gallu cynhyrchu a'r busnes Global Media & Streaming. Yn gynharach y flwyddyn hon, prynodd BBC Studios gyfran 50% ITV o BritBox International i gymryd perchnogaeth lawn o'r busnes. BritBox International yw prif wasanaeth ffrydio arbenigol Prydain gyda 3.8 miliwn o danysgrifwyr byd-eang.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein perfformiad masnachol ar dudalen 75.

Is-gwmnïau masnachol

Refeniw Grŵp Masnachol

£1,859m

2022/23: £2,115m

(Colled)/elw gweithredu Grŵp Masnachol

£(56)m

2022/23: £106m

EBITDA Grŵp Masnachol

£199m

2022/23: £252m

Enillion i'r BBC

£325m

2022/23: £368 miliwn

Cysoni EBITDA Grŵp Masnachol y BBC i elw/(colled) gweithredu statudol

	2023/24 £m	2022/23 £m
Elw/(colled) gweithredu statudol	(56)	106
Ychwanegu yn ol:		
Eitemau eithriadol gweithredu	56	8
Cyfran o EBITDA partneriaethau cyswllt a chydentrau	39	17
Credydau treth cynhyrchu	80	57
Dibrisiant, amorteiddio a lleihad	80	64
EBITDA	199	252

Mae'r golled weithredu statudol yn ystod y flwyddyn yn adlewyrchu perfformiad masnachol cyn ystyried cynnydd mewn credydau treth cynhyrchu a pherfformiad gwell yn ein partneriaethau cyswllt a chydentrau. Mae'r golled weithredu yn 2023/24 yn uwch na'r flwyddyn flaenorol oherwydd cynnydd mewn costau cysylltiedig â chaffael ac ailstrwythuro trawsnewidiol wrth i'r busnes fuddsoddi i gefnogi twf cynaliadwy hirdymor.

Yn dilyn adolygiad yn ystod y flwyddyn, addasodd Grŵp Masnachol y BBC ei ddiffiniad o EBITDA i sicrhau cysondeb ag arferion gorau'r diwydiant. Mae BBC Commercial yn diffinio EBITDA fel elw gweithredu statudol, gyda'r treuliau gweithredu canlynol yn cael eu hychwanegu'n ôl: dibrisiant; amorteiddio nad yw'n gysylltiedig â chynnwys; amhariadau; costau ennill ar ôl gwerthu a chostau cynllun cymhelliad hirdymor a setlwyd nad yw'n arian parod; costau ailstrwythuro trawsnewidiol; ac eitemau eithriadol eraill nad ydynt yn gylchol. Wrth gyfrifo EBITDA, mae BBC Commercial hefyd yn gwrthbwyso costau gyda chredydau treth cynhyrchu, sy'n cyd-fynd ag arfer y farchnad. Gweler nodyn B8 am gysoni i ddiffyg gweithredu. Rydym o'r farn mai 'EBITDA' yw'r dull anstatudol o fesur perfformiad ariannol sy'n cynnig yr arweiniad gorau er mwyn helpu i ddeall perfformiad ar sail gymaradwy o flwyddyn i flwyddyn. Bwriad hyn yw dangos profffidioldeb sylfaenol y gellir ei feincnodi'n gymharol hawdd ac sy'n rhoi sylfaen resymol ar gyfer cysylltu â mesurau llif arin parod

Arian parod a dyled net

Roedd cronfeydd arian parod wrth gefn a buddsoddiadau Grŵp y BBC ar 31 Mawrth 2024 yn £559 miliwn (2022/23: £600 miliwn) y delir £361 miliwn ohono gan y gwasanaeth cyhoeddus (2022/23: £338 miliwn). Mae hyn yn ein rhoi mewn sefyllfa gref wrth i ni ddechrau ar raglen newydd o arbedion ac ailfuddsoddiad, lle caiff cronfeydd arian parod wrth gefn hanesyddol eu defnyddio i ariannu costau trawsnewid untro ac i ariannu buddsoddiad ychwanegol i Premium Video a chynhyrchion digidol. Mae cynllunio arian parod yn hanfodol i sicrhau digon o gronfeydd wrth gefn i reoli amseriad y llyf arian parod ar gyfer gweithrediadau o ddydd i ddydd, wrth flaenoriaethu'r broses o ariannu cynnwys a gwasanaethau i gynulleidfa oedd.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn pennu ein terfynau benthycu yn unol â'r cytundeb rhwng y BBC a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Ar 31 Mawrth 2024, dyled net Grŵp y BBC oedd £1,644 miliwn, ac mae'n dal i fod o fewn y terfynau benthycu o £3,000 miliwn, sy'n cynnwys £2,200 miliwn yn benodol ar gyfer prydesau.

Ceir rhagor o fanylion ar ein benthyciadau yn Nodiadau G3 a G4 o'r datganiadau ariannol.

Costau pensiwn

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn adolygu ein cynnig darpariaeth pensiynau ar gyfer y dyfodol gyda'r nod o gynnig darpariaeth sy'n ariannol gynaliadwy, yn decach ac yn fwy cyson i'n cyflogeion nawr ac yn y dyfodol. Fel cam cyntaf, gwnaethom ofyn i'r Uchel Lys ym mis Mai egluro un o reolau penodol y cynllun buddiannau diffiniedig (Cynllun Pensiwn y BBC) er mwyn egluro pa newidiadau y gellid eu gwneud. Cadarnhaodd y llys ei safbwynt bod y rheol yn gyfyngol ac, ar ôl ystyriaeth ofalus, gwnaethom gais am ganiatâd i apelio yn erbyn y penderfyniad a derbynwyd ein cais. Cynhaliwyd gwrandawriad yr apêl ym mis Mehefin 2024 a disgwyliar y canlyniad tuag at ddiwedd 2024. Unwaith y byddwn wedi cael yr ymateb, byddwn yn ei ystyried fel rhan o'n hadolygiad pensiynau. Ni fydd unrhyw newidiadau i'r buddiannau a gronwyd hyd yma a byddwn yn gweithio gyda'r Undebau Llafur i lywio ein darpariaeth pensiynau ar gyfer y dyfodol. Byddai unrhyw gynigion ar gyfer newid yn agored i ymgynghoriad â chyflogeion.

Cwblhawyd y prisiad actiwaraid teirblwydd diweddaraf ym mis Mehefin 2023 a arweiniodd at ddiffyg ariannu o £841 miliwn ar 1 Ebrill 2022. Mae'r prisiad yn defnyddio amrywiaeth o dybiaethau ariannol a demograffig i arfarnu asedau a rhwymedigaethau'r gronfa pensiwn. Mae'r asesiad hwn yn ofynnol yn ôl y gyfraith i sicrhau bod y cynllun yn cael ei ariannu'n ddigonol i gyflawni ei rwymedigaethau yn y dyfodol. Cytunwyd ar gynllun adfer ac amserlen o gyfraniadau hyd at fis Rhagfyr 2028 rhwng y BBC ac Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn ym mis Mehefin 2023, a chytunwyd ar amserlen ddiwygiedig i gyflwyno taliadau 2024/25 yn ystod y flwyddyn ym mis Mehefin 2024. Talodd y BBC gyfraniadau cyflogwyr o £170 miliwn (2022/23: £239 miliwn).

Cyflawnir prisiad cyfrifyddu blynyddol o'r cynllun pensiwn i gyrraedd safonau cyfrifyddu (IAS 19 Buddiannau Cyflogeion). Ar 31 Mawrth 2024, cafodd y cynllun ei ailbriso at ddibenion cyfrifyddu a dangosodd warged o £121 miliwn (2022/23: gwarged o £695 miliwn) sy'n deillio o golled net ar asedau'r cynllun. Mae'r prisiad cyfrifyddu'n rhoi 'cipolwg' ar ddiwedd y flwyddyn ac felly mae'n sensitif i amrywiadau byrdymor yn y farchnad. Yn aml, mae'r prisiad cyfrifyddu'n cyflwyno sefyllfa gyllid fwy ffafriol o gymharu â phrisiad yr actiwari oherwydd y cyfraddau disgowntio a ddefnyddir – fodd bynnag, nid yw'r gwerthusiad cyfrifyddu yn effeithio ar gost arian parod adfer diffyg y cynllun pensiwn actiwaraid a'r buddiannau pensiwn i'r aelodau.

Strategaeth treth

Rydym yn ymrwymedig i dalu'r swm cywir o dreth ar yr adeg gywir yn yr holl awdurdodaethau rydym yn gweithredu ynddynt, gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, dreth gyflogaeth, TAW a threth gorfforaeth. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd talu'r swm cywir o dreth i'r cymunedau rydym yn gweithredu ynddynt, ac rydym yn cymryd ein rhwymedigaethau cydymffurfio â rheolau treth o ddirifrif.

Rydym yn rheoli ein materion treth o fewn fframwaith deddfwriaeth treth y DU a'r awdurdodaethau eraill rydym yn gweithredu ynddynt. Mae lefel goddefiant y BBC mewn perthynas â threth yn isel, a dangosir hyn yn ein dull o gynllunio a llywodraethu treth. Mae ein hasesiad o'r risg sy'n gysylltiedig â threth yn ystyried nid yn unig y swm ariannol sydd yn y fantol, ond hefyd effaith y mater dan sylw ar ein henw da. Mae'r amgylchedd gwleidyddol, deddfwriaethol ac adrodd yn dod yn gynyddol gymhleth mewn nifer o diriogaethau allweddol ledled y byd.

Yn 2023/24, gwnaethom gydnabod credyd treth net o £241 miliwn yn y datganiad incwm (2022/23: £19 miliwn) yn deillio'n rhannol ar ôl i CThEF gwblhau eu hymholiad i driniaeth treth gorfforaethol incwm eiddo deallusol a gafwyd o Archif Hawliau Cyhoeddus y BBC ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009 i 31 Mawrth 2021. Mae'r cytundeb yn effeithio ar gyfnodau cyfrifyddu yn dilyn cyfnod yr ymholiad. O ganlyniad i'r cytundeb a wnaed â CThEF yn ystod y flwyddyn ynghylch cymhwyso'r drefn asedau sefydlog anniriaethol, cofnodwyd addasiad untro mewn perthynas â chyfnodau blaenorol. Mae hyn yn cynnwys credyd treth cyfredol ar gyfer y flwyddyn flaenorol o £137 miliwn. Rydym yn cyhoeddi ein strategaeth treth yn unol â Deddf Cyllid 2016, y gellir dod o hyd iddi ar ein gwefan: downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/reports/bbc-tax-strategy-2024.pdf

Gwariant darlledu cyhoeddus

Mae'r tabl isod yn dangos sut y cafodd arian ffi'r drwydded ei wario yn ystod y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol, gan gynnwys gofyniad y Siarter i'r BBC adrodd ar wariant ar Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU fesul genre (fel y'i diffinnir yn unol â safonau'r diwydiant). Mae cyfanswm y gwariant ar gynnwys yn cynrychioli'r gost o wneud cynnwys ar draws gwasanaethau'r BBC. Mae cyfanswm y gwariant ar wasanaethau yn cynrychioli holl gostau cynhyrchu, cefnogi a chyflwyno cynnwys y BBC i gynulleidfaeodd.

Gwariant Darlledu Cyhoeddus

	2023/24 £m	2022/23 £m
Newyddion a Materion Cyfoes	321	342
Ffeithiol a Dysgu	271	280
Y Celfyddydau a Cherddoriaeth	34	39
Ffilm a Drama	391	397
Adloniant a Chomedi	241	244
Cynrychiadau Chwaraeon	67	99
Plant	92	89
Gwariant ar gynnwys teledu arall	330	379
Gwasanaethau teledu fesul genre	1,747	1,869
Radio	507	498
Ar-lein	239	234
Gwariant ar gynnwys gwasanaethau fesul llwyfan	2,493	2,601
Cerddorfeydd a grwpiau perfformio	29	31
S4C (gwariant ar y gwasanaeth)	22	22
Gwariant ar ddatblygu	91	72
Grant BBC World Service	101	103
Trwydded Weithredu BBC World Service*	233	249
Gwariant arall ar y gwasanaeth	476	477
Cyfanswm gwariant ar gynnwys	2,969	3,078
Costau dosbarthu	208	197
Cynnwys a chymorth dosbarthu	482	469
Cymorth cyffredinol	165	187
Cyfanswm gwariant ar y gwasanaeth	3,824	3,931
Costau casglu ffi'r drwydded	145	137
Rhwymedigaethau eraill (S4C)	89	89
Monitro	10	6
Taliad gostwng diffyg pensiwn Grŵp PSB	41	75
Costau PSB i gynhyrchu incwm heblaw am ffi'r drwydded	234	220
Costau ailstrwythuro	30	61
Cyfanswm gwariant Grŵp PSB	4,373	4,519
Eitemau a nodwyd y tu allan i wariant gweithredu**	(80)	(77)
Gwariant gweithredu Grŵp PSB	4,293	4,442

[^] Gwariwyd £265 miliwn ar Drwydded Weithredu BBC World Service yn 2023/24 gan gynnwys costau cynnwys, dosbarthu a chymorth cyffredinol (2022/23: £290 miliwn)

* Mae Trwydded Weithredu BBC World Service yn cynnwys gwariant dosbarthu o £37 miliwn (2022/23: £39 miliwn)

** Er mwyn adlewyrchu cost lawn gwariant Grŵp PSB fesul gwasanaeth, caiff costau penodol eu cynnwys uchod, a nodir y tu allan i wariant gweithredu (h.y. llog prydles gyllidol). Mae'r cyfrifiad wedi'i ddiwygio ac mae angen ailddatganiad ar gyfer 2022/23.

Ein pobl: profiad i gyflogeion sy'n unigryw i'r BBC

Lle gwych i weithio

Un o brif elfennau strategaeth Gwerth i Bawb y BBC yw parhau i gyflymu trawsnewidiad y BBC a sicrhau ei fod yn lle gwych i weithio ynddo. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn nodi rhywfaint o'r gwaith a wnaed gennym i gefnogi'r trawsnewidiad hwn, i gynnig profiad gwych i gyflogeion ac i helpu i lunio BBC ar gyfer y dyfodol.

Profiad cyflogeion

Erys yr Arolwg Cyflogeion yn un o'n prif fesurau o ymgysylltu â staff. Mae'r arolwg yn rhoi cipolwg gwerthfawr i ni i barhau ein ffocws ar sicrhau bod y BBC yn lle gwych i weithio ynddo.

Y flwyddyn hon, rhannodd mwy na 16,000 o gyflogeion eu hadborth ar weithio yn y BBC. Mae ein sgôr ymgysylltu – sy'n cwmpasu ymrwymiad a balchder – bellach ar 64%, cynnydd o 7% ar 2023; a'n sgôr ymgysylltu uchaf erioed. Er ein bod yn gwneud cynnydd sylweddol, rydym hefyd yn cydnabod bod gennym fwy o waith i'w wneud o ran datblygu gyrfa, dysgu a datblygu ac adeiladu ymwybyddiaeth o'n hegwyddorion cyflog.

Yn arolwg 2024, gwelwyd cynnydd yn 51 o'r 52 o gwestiynau. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar adeiladu eglurder a hyder yn ein strategaeth, yn parhau â'n gwaith i rymuso timau perfformiad uchel drwy gymunedau arwain eithriadol a gweithredu mewn timau i ymateb i'r adborth.

Er mwyn gwella profiad cyflogeion ymhellach yn y BBC, rydym wedi lansio datblygiadau arloesol newydd gan gynnwys system recriwtio newydd gyda phrofiad gwell i ymgeiswyr sy'n gwneud cais i weithio yn y BBC. Rydym hefyd wedi lansio dangosfwrdd arweinydd tîm newydd, sy'n rhoi gallu digidol gwell i reolwyr gael mynediad uniongyrchol i ddata allweddol am eu timau, a'u helpu i wneud penderfyniadau gwell.

Mae ein cynnig buddiannau wedi'i ehangu i gynnwys cynhyrchion arbedion yn y gweithle newydd a chynllun llogi car drwy aberthu cyflog sy'n cynnig y cyfle i gydweithwyr logi cerbydau trydan a cherbydau ag allyriadau isel iawn. Cynigiodd Wythnos Gyrfaoedd 2023 raglen orlawm o ddiwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb, gydag amrywiaeth gyfoethog o bynciau i'w harchwilio ac amrywiaeth eang o arbenigedd i ddarparu gwybodaeth, awgrymiadau ac anogaeth.

Rydym wedi parhau i gynnal ein dau gynllun 'gyrfaoedd i brofiadau' mewnol, Hot Shoes ac 80/20. Mae'r cynlluniau hyn yn galluogi cydweithwyr i ddysgu sgiliau newydd a datblygu eu gyrfa drwy wneud y gorau o'r hyn sydd gan y BBC cyfan i'w gynnig. Mae'r rhaglenni hyn yn adeiladu ar raglenni datblygu eraill ym mhob rhan o'r BBC, gan gynnwys ein rhaglen prentisiaeth sy'n arwain y diwydiant.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant cyflogeion drwy barhau i gefnogi ein cydweithwyr sy'n gweithio i'r BBC mewn sefyllfaoedd peryglus ledled y byd. Ym mhob rhan o BBC News, gwnaethom gefnogi cydweithwyr yn Affganistan, Wcráin a Rwsia.

Ym mis Hydref 2023, gwnaethom gefnogi newyddiadurwyr y BBC sy'n darlledu cynnwys anodd mewn perthynas â gwrthdaro Israel-Gaza dramor ac yn y DU. Cymerwyd mesurau i adleoli cydweithwyr a'u teuluoedd o'r parth gwrthdaro i leoliad diogel.

Rydym hefyd wedi cyflwyno cymorth ychwanegol drwy sesiynau cwnsela trawma i helpu newyddiadurwyr i reoli straen emosiynol eu gwaith. Gwnaethom sefydlu rhwydweithiau ffydd staff ac integreiddio addysg ar ffydd a chred mewn rhaglenni arweinyddiaeth.

Dylunio BBC cryfach

Drwy gydol y flwyddyn mae ein hisadrannau adnoddau dynol wedi bod yn gweithio'n galed i gefnogi'r busnes drwy gynllunio BBC cryfach a mwy effeithlon. Rydym yn glir bod angen i ni ganolbwyntio ar ein dull gweithredu, gan herio ein hunain yn barhaus i wneud yn well, i chwalo rhwystrau ac i annog tryloywder.

Rydym yn parhau i wneud newidiadau i'r sefydliad. Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod cyfrif pen amser llawn cyfartalog PSB Group wedi gostwng o un flwyddyn i'r llall o 17,688 i 17,611, gyda chyfrif pen cyffredinol y Grŵp yn cynyddu ychydig i 21,795. Cyfrifir am y cynnydd hwn gan gynydd yn y boblogaeth prentisiaid ac yn ein gweithrediadau masnachol.

Parhawyd i weld newid sefydliadol sylweddol yn y broses o ad-drefnu BBC Audio; trosglwyddo rhan o'r gwasanaeth sain wedi'i sgrïptio i BBC Studios; sefydlu canolfan gynhyrchu i gefnogi'r Alban a Gogledd Iwerddon; ac ailstrwythuro o fewn BBC Sport a Children's and Education.

Mae gwaith sylweddol wedi parhau ar y broses o foderneiddio telerau ac amodau cerddorfeidd y BBC ar y cyd ag Undeb y Cerddorion, yn dilyn ceisiadau i ni edrych eto ar ein dull gweithredu ac i ddiwygio ein cynlluniau. O ran Newyddion, mae rhaglen newid Digital First wedi sicrhau y gellir ail-alinio adnoddau ar draws allbwn aml-lwyfan.



Rose Ayling-Ellis: Signs for Change



Astudiaeth achos: Prentisiaeth staff – Ena Jawa

Yn 2023, cwblhaodd Ena brentisiaeth staff L4 Dadansoddi Data am fod ganddi ddi-ddordeb mewn pŵer data ac roedd am feithrin sgil newydd a pherthnasol iawn.

“Rwy’n dod o gefndir technegol (peirianeg) ac wedi symud i faes rheoli rhaglenni, ac roeddwn am adfywio fy sgiliau technegol a chyfuno’r ddau beth. O safbwynt proffesiynol, dysgais bŵer dadansoddi a delweddu data a sut y gellid ei ddefnyddio i ysgogi prosesau gwneud penderfyniadau ar brosiect. Roedd yn ddeallusol heriol i ddysgu’r iaith codio. Hefyd, roedd yn fuddugoliaeth bersonol i gydbwysu gwneud hyn â’r cyfrifoldebau eraill ac roeddwn yn eithriadol o falch o fod wedi cyflawni rowndiau o aseiniadau, arholiadau a phrosiectau.”

Defnyddiodd Ena ei sgiliau newydd i gynllunio dangosfwrdd rhaglen a oedd yn galluogi arweinwyr i weld cynnydd yn cael ei wneud a beth yr oedd angen iddynt ei wneud i gyflawni eu targedau blynyddol.

94%

% prentisiaid Gyrfaoedd Cynnar y BBC sy’n cwblhau eu cynllun o gymharu â’r cyfartalog cenedlaethol o 54%

Rydym wedi cyflawni

50.4%

o gynrychiolaeth o fenywod yn y gweithlu

1af

Enillydd gwobr Cyflogwr Creadigol, y Cyfryngau a Marchnata y Flwyddyn, Gwobrau Amlddiwylliannol 2023

22,170

o unigolion wedi ymuno â digwyddiadau Production Unlocked dros y ddwy flwyddyn ers iddynt gael eu sefydlu

Diwylliant, gwerthoedd ac ymddygiad

Mae’n ffocws canolog gennym i sicrhau bod aelodau o staff yn deall ac yn ymddwy gan ddilyn Gwerthoedd y BBC ac yn unol â’r Cod Ymddygiad.

Rydym wedi esbonio pan na chyrrhaeddir y safonau hyn bod pawb yn y BBC yn gwybod sut a ble i godi eu pryderon neu faterion a dylent deimlo y gallant leisio eu barn. Pan fyddant yn gwneud hynny, byddwn yn gwrandio; byddwn yn siarad yn agored; a byddwn yn gweithredu.

Mae’r ymgyrchoedd hyn wedi arwain at gynnydd mewn achosion yn gyffredinol, gan ddangos diwylliant cynyddol agored a pharodrwydd i leisio barn. Mae’r llwyth achosion hwn yn dangos bod ymwybyddiaeth o’n llwybrau cwynion yn uchel ac rydym yn blaenoriaethu cynlluniau i atgyfnerthu ein swyddogaeth Cymorth yn y Gwaith yn 2024/25. Gweler tudalen 63 am fwy o fanylion ar achosion a’n prosesau.

Rydym wedi creu rhwydwaith mewnol cryf o asiantiaid newid ym mhob rhan o’r sefydliad. Mae gan y gwirfoddolwyr hyn y gallu a’r sgiliau i helpu i brofi, treialu a chyflawni newid a gwelliannau i fywydau gwaith. Maent yn gweithio i fynd i’r afael â materion ac i ddatblygu ymddygiadau sy’n seiliedig ar werthoedd. Ein nod yw defnyddio’r dull ymgysylltu pwerus hwn i helpu i gefnogi’r BBC â’i agenda newid radical.

Rydym wedi ymgorffori’r Gwerthoedd mewn sawl agwedd ar y BBC. Maent bellach yn ganolog i’r broses sefydlu ar gyfer aelodau newydd o staff ac maent yn rhan bwysig o’r hyfforddiant gorfodol newydd ar gyfer arweinwyr. Fe’u defnyddiwyd i lywio ein dull gweithredu ar gyfer deallusrwydd artiffisial, sut rydym yn mesur perfformiad arweinwyr a sut rydym yn recriwtio.

Hawliau dynol, caethwasiaeth fodern, gwrth-lwgrwobrwyo

Rydym yn ymrwymedig i barchu hawliau dynol y rhai sy'n gweithio i ni neu gyda ni. Mae ein Telerau Masnach yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gyflenwyr rydym yn cydweithio â nhw, ac unrhyw isgontractwyr a ddefnyddir ganddynt, ddilyn codau ymarfer y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon. Hefyd, mae'n ofynnol i gyflenwyr ac isgontractwyr ddilyn ein Cod Polisi Moesegol. Mae'r cod llawn ar gael yn: downloads.bbc.co.uk/supplying/pdf/BBC-EthicalPolicy.pdf

Rydym yn cydnabod yr angen i flaenoriaethu'r gwaith o fynd i'r afael â'r achosion mwyaf difrifol o ymryrd â hawliau dynol, yn cynnwys caethwasiaeth fodern. Rydym yn glynu wrth Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac yn cyhoeddi ein Datganiad Caethwasiaeth Fodern yn unol â hynny. Mae'r datganiad llawn ar gael yn: downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/documents/bbcmsa2024.pdf

Rydym wedi ymrwmo i bolisi dim goddefgarwch mewn perthynas â llwgrwobrwyo a llygredd. Rydym yn disgwyl i bawb sy'n cynrychioli'r BBC ddilyn Cod Ymddygiad Gwrthlwgrwobrwyo y BBC. Gellir gweld y cod llawn yma: downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/policiesandguidelines/pdf/bbc_anti_bribery.pdf

Datganiad Gwybodaeth Anariannol a Chynaliadwyedd

Rydym yn cydnabod gofynion adrodd anariannol Deddf Cwmniâu 2006 ac wedi datgelu gwybodaeth gysylltiedig a pherthnasol drwy gydol yr adroddiad strategol. Er hwylystod, gellir dod o hyd i wybodaeth am y pum mater a gwmpesir gan y rheoliad ar y tudalennau canlynol: cynaliadwyedd amgylcheddol (tudalennau 66-70); ein pobl (tudalennau 54-57); hawliau dynol, caethwasiaeth fodern, gwrth-lwgrwobrwyo (uchod). Hefyd, ceir rhagor o wybodaeth am ein model busnes (tudalen 85), ein prif risgiau (tudalennau 111-121) a'n perfformiad anariannol (drwy gydol yr adroddiad strategol).

Perfformiad â diben

Mae diwylliant gwaith wedi'i lywio gan ddiben wedi'i ategu gan berfformiad uchel yn un o brif alluogwyr ein strategaeth Gwerth i Bawb. O dan ein fframwaith myConversation, mae pob cyflogai yn cael trafodaeth ddwyffordd o ansawdd uchel ddwywaith y flwyddyn â'i reolwr llinell gan ganolbwyntio ar ei berfformiad a'i ddatblygiad. Rydym wedi gwella ansawdd y trafodaethau hyn er mwyn canolbwyntio ar bennu nodau CAMPUS clir a chysylltiedig, gan ddefnyddio adborth dwyffordd i ddysgu a thyfu a rhoi cymorth i ddatblygu gyrfa.

Mae myConversation yn un o blith llawer o ddulliau a ddefnyddir gennym i ysgogi ein diwylliant o berfformiad uchel ac atebolrwydd. Rydym yn disgwyl y perfformiad uchaf gan ein harweinwyr uchaf ac yn mesur eu heffaith drwy ein Mynegai Arweinwyr â metrigau ar gyfer lefelau ymgysylltu timau, ansawdd trafodaethau perfformiad a datblygiad, amrywiaeth a chynwysoldeb hinsawdd y tîm a'r ffocws ar ddiedduddrwydd. Yn ogystal, mae arweinwyr wedi cael adroddiad adborth 360 sy'n mesur i ba raddau maent yn dangos Gwerthoedd y BBC yn eu hymddygiadau a'u gweithredoedd. Mae penderfyniadau am gyflogau ar gyfer ein Huwch-arweinwyr, a chanlyniadau bonws ar gyfer uwch-aelodau o staff yn ein hendidau masnachol, yn adlewyrchu perfformiad o fewn rolau a'u Mynegai Arweinwyr.

Denu a datblygu talent

Rydym yn ymrwymedig i ddenu, cadw a datblygu'r dalent orau. Mae ein dull ar gyfer denu a datblygu talent yn dal i ganolbwyntio ar ddarparu diwylliant creadigol, arloesol a chynhwysol, a ysgogir gan ein gwerthoedd, lle mae'r bobl orau yn gwneud eu gwaith gorau. Daeth y BBC yn bumed yn 100 uchaf The Times o gyflogwyr graddedigion yn y DU, ac yn BBC Studios cawsom ein cydnabod fel un o brif gyflogwyr y DU gan Glassdoor.

Rydym wedi gwella ein ffocws ar ymgysylltu â thalent o gymunedau a dangynrychiolir drwy feithrin cydberthnasau â sefydliadau amrywiaeth arbenigol a chynnal digwyddiadau pwrpasol i gynyddu cyfranogiad. Datblygwyd hyn ymhellach drwy gyflwyno'r cynllun cyfweiliadau Hyderus o ran Anabledd ac ehangu ein rhaglen Extend, gan glustnodi rolau ar gyfer talent anabl.

Rydym wedi cynyddu ein cyfleoedd Gyrfaoedd Cynnar gyda mwy na 250 o brentisiaid yn cael eu hurio ar draws y DU. Er mwyn cefnogi'r ffocws ar raglenni Gyrfaoedd Cynnar yn y dyfodol, rydym wedi ehangu ein portffolio cyfryngau cymdeithasol sydd â'r nod o ymgysylltu â chynulleidfau eang ac amrywiol o bobl ifanc drwy lansio ein sianel TikTok @LifeAtTheBBC.

Astudiaeth achos: Prentisiaeth peiriannydd darlledu – Emily Hunter



Cwblhaodd Emily Hunter ei phrentisiaeth peiriannydd darlledu yn Adran Gweithrediadau Technoleg y BBC yn Salford yn 2023. Drwy gydol ei phrentisiaeth, bu Emily yn astudio yn y Brifysgol a chafodd brofiad ymarferol mewn swydd yn gweithio ag amrywiaeth o beirianwyr y BBC, yn cefnogi cynyrchiadau chwaraeon Teledu a Radio. Roedd hyn yn cynnwys gosod a rigio ynghyd â chynnal a monitro cyfarpar ar gyfer cynyrchiadau mawr fel Gemau'r Gymanwlad.

Yn ei blwyddyn olaf, cwblhaodd draethawd hir ar dechnolegau eiddo deallusol ar gyfer BBC Sport. Archwiliodd a chynhaliodd amrywiaeth o brofion i gymharu perfformiad y cyfarpar sydd ar gael, ynghyd â gweithio ar ddarllediadau allanol amrywiol: Gêm Derfynol Cwpan yr FA yn Wembley, Match of the Day, Marathon Llundain a Wimbledon.



Hyfforddiant o'r radd flaenaf

Ers 2021, mae mwy na 1,000 o brentisiaid wedi dechrau ar gynllun prentisiaid y BBC. Dros y 12 mis diwethaf, gwelwom 259 o brentisiaid Gyrfaoedd Cynnar yn ymuno â'r sefydliad a daeth 166 o aelodau o staff y BBC yn brentisiaid.

Mae gennym darged i gyrraedd 1,000 o brentisiaid erbyn 2025 ac rydym yn parhau i weithio'n galed i gyflawni'r uchelgais hon. Wrth i ni asesu'r heriau ariannol a phwysau'r farchnad sy'n wynebu'r BBC yn y cyfnod i ddod, byddwn yn parhau i adolygu ein huchelgeisiau'n barhaus.

Mae gennym 689 o brentisiaid ar 40 o gynlluniau gwahanol yn gweithio gyda 25 o ddarparwyr dysgu gwahanol. Mae hyn yn cynnwys 423 o brentisiaid Gyrfaoedd Cynnar gyda phroffil amrywiaeth o 56% o fenywod, 28% o bobl o grwpiau Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol, 20% o unigolion ag anabledd a 23% o unigolion o gefndir economaidd-gymdeithaol isel. Mae 62% wedi'u lleoli y tu allan i Lundain.

Mae gennym gyfraddau cwblhau rhagorol. Mae 94% o brentisiaid Gyrfaoedd Cynnar y BBC yn cwblhau eu cynllun, o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 54%. Mae 89% sy'n cwblhau yn cael eu cadw gan y BBC. Rydym wedi cefnogi 37 o brentisiaid ar ein cynllun prentisiaid Flexi-job, yr Hwb Prentisiaid, sy'n lleoli prentisiaid mewn BBaCh yng ngorllewin canolbarth Lloegr. Mae 92% o brentisiaid Hwb sydd wedi cwblhau bellach wedi mynd ymlaen i sicrhau swyddi yn y sector.

Y flwyddyn hon gwnaethom hefyd lansio Diwrnodau Profiadau Profi Get In, cynllun sy'n rhoi blas i fyfyrwyr blynyddoedd 12 a 13 o'r hyn y mae'r BBC yn ei gynnig a thynnu sylw at y cyfleoedd prentisiaeth sydd ar gael. Hyd yma, mae 150 o blant mewn 13 o leoliadau'r BBC wedi cael budd o'r cynllun hwn.

Mae meithrin ymddiriedaeth cynulleidfaoedd yn flaenoriaeth o hyd ac mae 97.3% o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol ar ddiudeddrwydd. Mae BBC Academy wedi ychwanegu cynnwys newydd drwy gydol y flwyddyn i'r Hwb Dysgu Safonau Golygyddol, ardal lle ceir cynnwys dysgu sy'n anelu'n benodol at gyrraedd safonau golygyddol uchel.

Ym mis Ionawr 2024, gwnaethom lansio'r carfannau cyntaf o raglenni arwain mentrau newydd. Mae mwy na 80 o arweinwyr ar y rhaglenni bellach, sydd wedi'u cynllunio a'u cyflwyno gan arbenigwyr sy'n arwain y diwydiant. Rydym hefyd wedi lansio cynnwys digidol gwll i gefnogi arweinwyr ar gyfnodau gwahanol o'u gyrfaoedd i ddysgu, datblygu a meithrin diwylliant o ddysgu parhaus, naill ai drwy yrfaedd i brofi rhaglenni neu drwy raglenni datblygu arweinyddiaeth wedi'u targedu.

Dysgu a datblygu BBC Academy a BBC Studios

Cyrhaeddiad	2023/24	2022/23	2021/22
Cyfanswm y cyrsiau hyfforddi a gwblhawyd*	100,876	88,146	107,452
Staff y BBC a gwblhaodd un cwrs neu fwy	91%	79%	92%
Cyfanswm oriau dysgu a datblygu	189,458	185,209	175,663
Nifer y diwrnodau dysgu a datblygu fesul CALL	1.2	1.2	1.2
Gwerth am arian	2023/24	2022/23	2021/22
Gwariant ar gyflwyno hyfforddiant (£m)**	£11.98	£12.28	£11.7
Cost dysgu a datblygu fesul CALL***	£549	£553	£556

Mae data hyfforddiant a ffigurau CALL ar gyfer y BBC cyfan, yn cynnwys PSB, BBC Studios ac is-gwmnïau masnachol eraill

* Cyfanswm cyrsiau unigol wyneb yn wyneb, ystafell ddosbarth rithwir ac ar-lein a gwblhawyd

** Cyfanswm gwariant BBC Academy a BBC Studios ar gyflwyno hyfforddiant ac eithrio prosiectau mawr

*** Cyfanswm gwariant BBC Academy a BBC Studios ar gyflwyno hyfforddiant wedi'i rannu â chyfanswm CALL

Astudiaeth achos: Rhaglen 80/20 – Simi Jolaoso

Roedd Simi Jolaoso yn gweithio fel Newyddiadurwr yn BBC News yn Llundain pan gafodd gyfle 80/20 wedi'i leoli yn Lagos. Roedd y rôl ar gyfer Uwch-ohebydd i roi sylw i straeon ledled Gorllewin Affrica ar gyfer Teledu, Radio a Digidol.

Fel storiwr angerddol, bachodd Simi y cyfle a chafodd ei bwrw i'r dwfn, gan fynd o amgylch gorsafoedd pleidleisio i helpu i adrodd y straeon y tu ôl i Etholiadau Arlywyddol Nigeria ar gyfer cynulleidfa aml-lwyfan. Rhoddodd y lleoliad gyfle i Simi 'ddangos fy ngwydnwch mewn amgylchedd adrodd anodd' a gweithio gyda 'chydweithwyr newydd gwych yn nhim Lagos', gyda'r ddwy ochr yn cael 'safbwyntiau newydd' ar adroddiadau newyddion a phrosesau adrodd straeon.

Fis ar ôl cwblhau ei lleoliad, cafodd Simi ei dyrchafu i rôl Uwch-newyddiadurwr. Mae'n talu teyrnged i 80/20 am ei helpu i gael y dyrchafiad gan nodi ei fod yn 'brofiad gwych ac yn rhywbeth y byddwn yn ei argymhell'. Mae Simi hefyd newydd ddechrau ymlyniad fel Gohebydd Affrica ac i 80/20 y mae'r diolch am hynny!



Amrywiaeth a chynhwysiant yn y gweithlu a'n hadroddiad ar wybodaeth cydraddoldeb



Sort Your Life Out gyda Stacey Solomon sydd wedi ennill gwobr RTS

Bob blwyddyn, rydym yn nodi gwybodaeth fanwl am amrywiaeth ein staff, ar draws ystod o nodweddion gwahanol wedi'u rhannu yn amryw o categorïau. Mae'r wybodaeth lawn ar gael ar-lein ochr yn ochr â'r Adroddiad Blynyddol hwn, ac ar y dudalen hon rydym yn nodi ein perfformiad cyffredinol ar gyfer y flwyddyn hon a rhai o'r camau a gymerwyd gennym i wella amrywiaeth a chynhwysiant ein gweithlu.

Hon oedd blwyddyn olaf ein cynllun Amrywiaeth a Chynhwysiant presennol, a gyhoeddwyd gennym yn 2021, gan nodi deg ymrwymiad cadarn i wella cynrychiolaeth a chynhwysiant yn y BBC. Er nad ydym wedi cyrraedd ein holl dargedau Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer y flwyddyn, rydym yn parhau i wneud cynnydd da tuag at ein huchelgeisiau 50:20:12:25 cyffredinol. Mae anabledd ac ethnigrwydd, yn benodol, yn heriol o hyd. Wrth i ni lansio ein strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant diwygiedig dros y flwyddyn i ddod, mae'r ddau yn ffocws o hyd. Bydd y strategaeth ailbennu yn canolbwyntio ar bob maes cynhwysiant a fydd, ymysg meysydd eraill, yn canolbwyntio ar gynrychiolaeth Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

Wrthi i ni barhau â'n hymdrechion i gyrraedd y targedau hyn, mae ein rhaglen cyflogaeth BBC Extend, sydd wedi ennill gwobrau, yn parhau i ddod â phobl anabl i mewn i'r sefydliad drwy glustnodi rolau. Yn 2023/24, gwnaethom lansio ymgyrch denu ar draws y DU gyda diwrnodau gwybodaeth ar draws y DU i ddangos y BBC fel cyflogwr o ddewis ar gyfer pobl anabl a chodi proffil y bobl wych sydd eisoes yn gweithio yma. Fel rhan o hyn, gwnaethom gyflwyno BBC Extend Pool i helpu pobl anabl i glywed am rolau wedi'u clustnodi yn y BBC – mae hyn wedi tyfu o sero i fwy na 1,200 mewn chwe mis.

Yn ystod y flwyddyn rydym hefyd wedi ceisio gwella ein harlwy fewnol a chreu amgylchedd mwy hygyrch i'n staff drwy gynnal dau adolygiad llawn o'n systemau a'n polisïau ar addasiadau gweithlu a thechnoleg gynorthwyo, gyda'r nod o wella'r holl brosesau yn y meysydd hynny i fod mor rhwydd â phosibl.

Rydym wedi cael ein henwi fel un o brif gyflogwyr y cyfryngau ar gyfer graddedigion yn rhestr y Times o'r 100 o Brif Gyflogwyr Graddedigion 2023 am y 25ain flwyddyn yn olynol, a gwnaethom hefyd ennill Gwobr Cyflogwr Creadigol, y Cyfryngau a Marchnata y Flwyddyn yng Ngwobrau Prentisiaethau Amlddiwyllynnol 2023.

Rydym yn falch o'n rhwydweithiau staff amrywiaeth, sy'n chwarae rhan bwysig yn cefnogi cydweithwyr, yn cydweithio ac yn atgyfnerthu cynhwysiant yn y sefydliad, gydag aelodaeth gyfunol o fwy na 11,000 o bobl, yn cynrychioli amrywiaeth eang o nodweddion a phrofiadau.

Rydym yn ymrwymedig i fuddsoddi mewn arweinyddiaeth amrywiol ac mae ein Rhaglen Accelerator wedi datblygu grŵp amrywiol o arweinwyr, gyda 44% o'n cyfranogwyr wedi'u dyrchafu, a 32% arall wedi cael cyfrifoldebau ehangach a mwy heriol, o fewn neu'r tu hwnt i'r BBC. Rydym hefyd yn parhau i weld cynnydd yn amrywiaeth ein poblogaeth arwain.

Mae ein gwaith i greu diwylliant cynhwysol yn parhau i drawsnewid y sefydliad i bawb, ni waeth beth fo'u hunaniaeth na'u cefndir. Mae hyfforddiant ar Arweinyddiaeth Gynhwysol yn cael ei gyflwyno i arweinwyr, ac mae ein Pecyn Cymorth Cynhwysiant yn rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ar gyfer y rôl y mae pawb yn ei chwarae wrth greu amgylchedd lle mae gan bob un ohonom ymdeimlad o berthyn.

i Gellir gweld data manwl am y nodweddion hyn a nodweddion eraill, gan gynnwys dadansoddiadau is-adrannol, yn: [bbc.co.uk/aboutthebbc/documents/equality-information-report-2023-24-cy.pdf](https://www.bbc.co.uk/aboutthebbc/documents/equality-information-report-2023-24-cy.pdf).

Ar draws y BBC – Pob aelod o staff a phob arweinydd: 31 Mawrth 2024

	Gweithlu	Mawrth 2024	Mawrth 2023	Mawrth 2026 targed*
Menywod	Pob aelod o staff	50.4%	50.1%	50%
	Arweinyddiaeth	49.1%	49.0%	
Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol	Pob aelod o staff	17.2%	17.0%	20%
	Arweinyddiaeth	14.4%	14.1%	
Anabledd	Pob aelod o staff	9.3%	9.4%	12%
	Arweinyddiaeth	8.0%	7.9%	
Cefndir Economaidd-gymdeithasol Isel (metrig galwedigaeth yr aelwyd)	Pob aelod o staff	20.8%	21.1%	25%
	Arweinyddiaeth	19.3%	20.1%	

* Targed amrywiaeth economaidd-gymdeithasol i'w gyflawni erbyn blwyddyn ariannol 2026/27

Tablau data

Ar y tudalennau canlynol, rydym yn rhoi rhagor o ddata i ategu'r wybodaeth yn yr adran hon.

Cyfanswm nifer y staff cyfartalog 2023/24 (cyfwerth ag amser llawn)

	2024		2023	
	Staff ac eithrio prentisiaid	Prentisiaid*	Cyfanswm	Cyfanswm
Grŵp PSB	17,201	410	17,611	17,688
Grŵp Masnachol	4,118	66	4,184	3,943
Cyfanswm y Grŵp	21,319	476	21,795	21,631

* Yn cynnwys prentisiaid Gyrfaoedd Cynnar a phrentisiaid FJAA

Fframwaith Llwybr Gyrfa (Grŵp y BBC)

Mae ein Saerriaeth Swyddi yn mapio swyddi cyflogaeth ar draws 27 o deuluoedd swyddi a saith band gyrfa (gan amrywio o Fand A i uwch-arweinwyr), gan drefnu swyddi i strwythur clir, tryloyw a chydawns gellir ei ddefnyddio am amrywiaeth o resymau sy'n amrywio o drafodaethau datblygu gyrfa i benderfyniadau tryloyw am gyflogau.

Cyfwerth ag amser llawn (CALL)/Nifer y staff yn ôl Band CPF Grŵp y BBC (ac eithrio Grwpiau Perfformio, Hyfforddeion a Phrentisiaid a'r Rhai nad ydynt yn CPF).

Band CPF	CALL		Nifer y staff	
	CALL	CALL (%)	Nifer y staff	Nifer y staff (%)
A	148	1%	182	1%
B	1,879	10%	2,009	10%
C	5,808	31%	6,205	32%
D	6,924	37%	7,358	37%
E	2,387	13%	2,487	13%
F	974	5%	1,007	5%
FP	86	0%	96	0%
SL	296	2%	297	2%
Cyfanswm	18,502	100%	19,641	100%

Nifer yr uwch-arweinwyr yn y DU yn ôl band cyflog (PSB yn unig)

Band cyflog	2023/24 Gwirioneddol	2022/23 Gwirioneddol
£50,000-£99,999	7	22
£100,000-£149,999	89	102
£150,000-£199,999	77	80
£200,000-£249,999	42	26
£250,000-£299,999	10	5
£300,000-£349,999	8	6
£350,000+	1	1
Cyfanswm*	234**	242

* Nid yw'r cyfanswm yn cynnwys aelodau o Fwrdd y BBC na chyfarwyddwyr pensiwn

** Cyfanswm CPF Band CALL

Gwariant ar rolau ar yr awyry* (PSB yn unig)

Band cyflog	2023/24		2022/23		Amrywiant £000oedd
	Gwariant £000oedd	Nifer	Gwariant £000oedd	Nifer	
Llai na £40,000	39,524	22,121	37,095	23,197	2,429
£40,000-£100,000	61,565	966	63,944	1,038	(2,379)
£100,000-£150,000	13,652	116	15,301	125	(1,649)
£150,000-£500,000	23,054	102	20,539	87	2,515
£500,000-£1m	955	1	1,530	2	(575)
£1m-£5m	1,350	1	1,350	1	-
Cyfanswm	140,100	23,307	139,759	24,450	341

* Ystyrir bod gan unigolyn rôl ar yr awyry os oes ganddo gyfrifoldebau ar yr awyry perthnasol (h.y. 80% neu fwy)

Taliadau diswyddo

Ein polisi o ran taliadau dileu swyddi yw un mis o gyflog am bob blwyddyn o wasanaeth hyd at uchafswm o 12 mis o gyflog (uchafswm o 24 mis o gyflog i'r rhai a ymunodd cyn mis Ionawr 2013). Rhaid bod cyflogaeth wedi'u cyflogi'n barhaus am ddwy flynedd neu fwy pan ddaw eu swydd i ben er mwyn bod yn gymwys i gael taliad. Rydym wedi cynnal cap o £150,000 ar daliadau dileu swyddi a diswyddo. Lle y telir taliadau dileu swyddi, caiff rhybudd ei roi. Os bydd unigolion am adael yn gynt na diwedd eu cyfnod rhybudd, rhaid iddynt ildio hawl i'r cyfnod rhybudd sy'n weddill ac ni chânt dâl amdano.

Yn 2023/24, talwyd un taliad yn lle rhybudd (PILON) i gyflogai oddi ar yr awyry a adawodd y BBC ar ôl i'w gyflogaeth gael ei therfynu; talwyd PILON er mwyn sicrhau y byddai'n gadael y busnes ar unwaith. Yn ogystal, talwyd PILON i 11 o gyflogaeth tramor a adawodd y busnes fel rhan o brosesau ailstrwythuro a lle y talwyd PILONs oherwydd traddodiadau ac arferion lleol a/neu er mwyn hwyluso gweithrediadau busnes.

Band taliadau	2023/24		2022/2023	
	Gwariant £000oedd	Nifer	Gwariant £000oedd	Nifer
O dan £10,000	455	80	214	62
£10,000-£50,000	7,403	254	3,697	131
£50,000-£75,000	8,590	139	3,250	52
£75,000-£100,000	10,524	119	4,108	47
£100,000-£150,000	28,289	219	16,583	124
Cyfanswm	55,261	811	27,852	416

Darperir gwybodaeth yn unol â Rheoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017 – atodlen 2 (1 Ebrill 2023–31 Mawrth 2024)

Rydym wedi parhau i gydweithio'n agos â'n hundebau llafur cydnabyddedig yn ystod cyfnod o newid technolegol cyflym yn y diwydiant cyfryngau ynghyd â heriau oherwydd cyfyngiadau ariannol a digideiddio. Yn 2023/24, cafwyd anghydfod llafur ffurfiol parhaus yn BBC Local gyda streic pum diwrnod arall a chyfnod gweithredu nad oedd yn cyfateb i streic (gweithio yn ôl y rheolau) mewn perthynas ag ad-drefnu cynnwys radio lleol. Cafodd hyn ei ddatrys yn ffurfiol ym mis Tachwedd 2023. Cafwyd ail anghydfod yng Ngogledd Iwerddon gyda streic undydd a chyfnod gweithredu nad oedd yn cyfateb i streic mewn perthynas â thoriadau swyddi a rhaglenni sydd hefyd wedi'i ddatrys.

Fel rhan o Reoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi gwybodaeth am amser cyfleuster a gymerir gan swyddogion undebau llafur dros gyfnod o 12 mis. (Mae amser cyfleuster yn cyfeirio at yr amser a gymerir i'n hundebau llafur cydnabyddedig gynrychioli aelodau yn unigol ac ar y cyd mewn amrywiaeth o faterion ym mhob rhan o'r BBC.)

Swyddogion undeb perthnasol

	2023/24
Nifer y swyddogion undeb	313
	(CALL: 298)

Canran yr amser a dreuliyd ar amser cyfleuster	Nifer y cyflogaeth
0%	0
1%-50%	303
51%-99%	8
100%	2
Cyfanswm cost amser cyfleuster	£752,682
Cyfanswm bil cyflogau cymwys PSB	£1,432.6m
Canran cyfanswm y bil cyflogau a wariwyd ar amser cyfleuster	0.05%

Gweithgareddau undeb llafur â thâl

Amser a dreuliyd ar weithgareddau undeb llafur â thâl fel canran o gyfanswm yr oriau amser cyfleuster â thâl	20%
--	-----

* Cafodd 10 cynrychiolydd undeb eu seondio i gynrychioli eu hundeb, gyda dau ohonynt yn gweithio'n llawn amser i'r undeb, wyth yn rhai oedd yn rhannu swyddi yn gweithio i'r BBC ac yn cynrychioli eu hundeb

Nifer y cwynion mewnl

Cwynion a wnaed ac yr ymchwiliwyd iddynt

2023/24	2022/23
<p>Bwlio ac aflonyddu Cwynion cyflogaeth a wnaed naill ai'n uniongyrchol i'r adran Adnoddau Dynol, drwy gyflwyno cwyn gyflogaeth, neu drwy'r llinell gymorth bwlio ac aflonyddu gyfrinachol.</p> <p>* Cyfrifiad yn seiliedig ar wythnos saith diwrnod</p>	<p>50 o achosion ffurfiol</p> <ul style="list-style-type: none"> • 4 yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol • 46 yn ymwneud â bwlio ac aflonyddu • 24 wedi'u cau • 24 yn mynd rhagddynt • 2 wedi'u tynnu'n ôl <p>Amser cyfartalog i gau achos: 101 diwrnod*</p>
<p>Achosion o chwythu'r chwiban Daw honiadau o chwythu'r chwiban i law naill ai drwy Navex Global, sy'n rheoli llinell gymorth chwythu'r chwiban annibynnol ar ein rhan, drwy uwch-reolwyr yn cynnwys cyfarwyddwr anweithredol dynodedig, neu'n uniongyrchol i'r timau Ymchwiliadau.</p> <p>* Cyfrifiad yn seiliedig ar wythnos saith diwrnod</p>	<p>Cafwyd 53 o achosion drwy ddulliau chwythu'r chwiban amrywiol y BBC a chawsant eu brysennu, a derbyniodd 22 eu bod wedi cyrraedd y trothwy o ran chwythu'r chwiban</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cwblhawyd 22 o achosion o chwythu'r chwiban (gan gynnwys rhai a ddygwyd ymlaen o 22/23) • 13 (o'r 22 a oedd wedi'u cau) wedi'u cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol • 1 heb ei gefnogi • 8 heb eu cadarnhau • 18 yn mynd rhagddynt <p>Amser cyfartalog i gau achos: 160 diwrnod*</p>
	<p>34 o achosion ffurfiol</p> <ul style="list-style-type: none"> • 4 yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol • 30 yn ymwneud â bwlio ac aflonyddu • 23 wedi'u cau • 8 yn mynd rhagddynt • 3 wedi'u tynnu'n ôl <p>Amser cyfartalog i gau achos: 69 diwrnod</p>
<p>Codi pryder yn y BBC Ymdrinnir â'r rhan fwyaf o bryderon a godir gan staff drwy Bolisi Cwynion Cyflogaeth y BBC neu Bolisi Bwlio ac Aflonyddu'r BBC. Lle y bo modd, dylid codi unrhyw bryderon gyda rheolwyr llinell yn uniongyrchol, ond gall Partner Busnes Adnoddau Dynol hefyd ddarparu cymorth uniongyrchol i fynd â phethau ymhellach, neu gellir defnyddio'r llinell gymorth Bwlio ac Aflonyddu, a llinell gymorth a gwefan Care First. Gall honiadau chwythu'r chwiban, a elwir yn 'Ddatgeliadau a Ddiogelir' hefyd, gael eu gwneud gan unrhyw un â phryderon gwirioneddol am gamymddwyn difrifol yn y BBC. Mae'r pryderon y gellir eu codi drwy bolisi Chwythu'r Chwiban y BBC yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Materion sy'n cyflwyno risg o niwed difrifol, colled ariannol neu rwymedigaeth gyfreithiol ar ran y BBC, neu a allai gael effaith ddifrifol ar enw da'r BBC fel arall • Achosion o gamymddwyn wrth gynnal busnes y BBC, gan gynnwys er enghraifft, camddefnyddio pŵer a llygredd (e.e. nepotiaeth, camddefnyddio achos o wrthdaro buddiannau nas datganwyd), a llwgrwobrwyo • Camymddwyn golygyddol difrifol (y tu hwnt i anghyundebau golygyddol arferol) neu weithredoedd neu ddiffyg gweithredoedd eraill sy'n gyfystyr â chamymddwyn proffesiynol difrifol <p>Mae Polisi Chwythu'r Chwiban y BBC yn galluogi pobl i roi gwybod am honiadau difrifol yn ddienw, mewn ffordd briodol ac effeithiol, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • drwy'r Tim Chwythu'r Chwiban • drwy'r Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd Is-adrannol • drwy'r Cyfarwyddwr Anweithredol ar Fwrdd y BBC, Nicholas Serota • drwy ein darparwr trydydd parti annibynnol allanol, Navex Global, naill ai ar-lein neu drwy ei linell adrodd ddynodedig sydd ar gael mewn 37 o ieithoedd gwahanol <p>Yn ogystal â'r broses chwythu'r chwiban, mae gennym lwybr cysylltiadau cyflogeion mewnl, proses cynwion cyflogaeth ar gyfer codi pryderon ac amrywiaeth o ddatrysiadau wedi'u teilwra'n benodol i sicrhau bod ein cyflogeion</p>	<p>wedi'u hamddefnyddio gan brosesau sy'n teimlo'n deg, yn dryloyw ac yn gyson.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pryderon diogelu am blentyn neu berson ifanc (h.y. person o dan 18 oed) neu oedolyn agored i niwed • Troseddau gwirioneddol neu bosibl • Methiant i gydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol • Risgiau i iechyd a diogelwch unrhyw unigolyn • Difrod gwirioneddol neu bosibl i'r amgylchedd • Gwybodaeth sy'n awgrymu bod unrhyw un o'r materion uchod wedi cael eu cuddio <p>At hyn, cwblhawyd adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan y Bwrdd o gwynion nad ydynt yn rhai golygyddol a'r llwybrau sydd ar gael i'w codi y fwyddyn hon, a chyhoeddwyd yr adroddiad yn allanol. Mae'r BBC wrthi'n rhoi camau gweithredu ar waith i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r adolygiad.</p> <p>Polisi Chwythu'r Chwiban Ers lansio Polisi Chwythu'r Chwiban y BBC ar ei newydd wedd ym mis Gorffennaf 2022, a ehangwyd yn dilyn adolygiad Serota i ehangu'r mathau o ymddygiad difrifol gan gynnwys 'camymddwyn golygyddol difrifol', mae nifer yr achosion a dderbyniwyd i'w brysennu wedi parhau i gynyddu. Mae'r cynnydd yn nifer yr achosion yr adroddir amdanynt yn dangos y cynnydd parhaus tuag at ddiwylliant cryf o leisio barn yn erbyn gweithredoedd o gamwedd proffesiynol difrifol. Roedd hyn, ynghyd â'r cynnydd mewn achosion sy'n cael eu cadarnhau ar ôl ymchwiliad iddynt, yn tynnu sylw at bwysigrwydd chwythu'r chwiban yn y BBC. Ym mlwyddyn ariannol 2023/24, mae'r BBC wedi ceisio annog hyder ac ymwybyddiaeth o swyddogaeth Chwythu'r Chwiban drwy gyfres o weithdai a seminarau ar-lein ac wyneb yn wyneb, a gyflawnir ar draws is-adrannau, BBC Studios ac i gwmnïau cynhyrchu annibynnol.</p> <p>Mae chwythu'r chwiban yn ddull allweddol o nodi achosion posibl o gamymddwyn. Mae'r BBC yn ymrwymo drwy bolisi i ddiogelu'r sawl sy'n codi pryderon rhag triniaeth annheg o ganlyniad i'r ffaith eu bod wedi lleisio eu barn. Mae'r Tim Chwythu'r Chwiban wedi parhau i</p>
	<p>ysgogi mentrau strategol i godi ymwybyddiaeth, dealltwriaeth ac ymddiriedaeth yn ei fframwaith adrodd chwythu'r chwiban annibynnol. Mae hyn wedi cynnwys cyfres o raglenni hyfforddiant wyneb yn wyneb ac ar-lein ar gyfer staff a rheolwyr, ar draws y DU ac yn rhyngwladol, ynghyd â rhannu gohebiaeth ac adnoddau â'r holl staff. Mae Tim Chwythu'r Chwiban y BBC hefyd wedi cymhell ymdrechion i godi proffil a phroffesiynoldeb sianeli 'lleisio barn' ym mhob rhan o'r diwydiant darlledu a'r cyfryngau drwy fentrau traws-sector â sefydliadau cymheiriaid.</p> <p>Camddefnyddio pŵer a llygredd yw'r categori amlycaf o bryder a nodwyd o hyd, gan gynychioli 32% o'r achosion o chwythu'r chwiban a nodwyd y fwyddyn hon. Yn dilyn adolygiad diweddar o adroddiadau chwythu'r chwiban, gwnaed gwelliannau o ran prosesau goruchwyllo gan is-bwyllgorau'r Bwrdd a'r Bwrdd Gweithredol. Nod y newid hwn yw helpu i nodi a chymryd camau i fynd i'r afael â risgiau busnes sy'n deillio o fframwaith Chwythu'r Chwiban neu a nodwyd drwyddo.</p> <p>Mae sicrwydd trydydd parti annibynnol o ymchwiliadau chwythu'r chwiban yn parhau ar sail chwarterol, gydag achosion o gamymddwyn golygyddol difrifol bellach yn cael eu cynnwys yn y sampl sicrwydd. Caiff canlyniadau sicrwydd eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Safonau a Chanllawiau Golygyddol ar gyfer achosion perthnasol er mwyn sicrhau goruchwyliaeth gynhwysol gan bob uwch-randdeiliad perthnasol.</p>

Wedi'i gadarnhau: Nodir bod achos wedi'i gadarnhau pan gaiff tystiolaeth o'r honiad ei phrofi'n llawn neu'n rhannol ar ôl i'r ymchwiliad gael ei gwblhau, a ddaw o dan baramedrau un o bum llinyn datgeliad gwarchoddedig

Heb ei gadarnhau: Nodir bod achos heb ei gadarnhau pan na fydd tystiolaeth wedi'i chyflwyno i brofi'r honiadau ar ôl i'r ymchwiliad gael ei gwblhau; neu y cafwyd tystiolaeth i'r gwrthwyneb sy'n gwrthbrofi'r honiadau

Heb ei gefnogi: Nodir bod achos heb ei gefnogi pan na fydd digon o dystiolaeth i brofi'r honiadau ond bod canfyddiadau, cyhyd ag y llwyddwyd i ddilyn eu trywydd, yn cyfeirio at y ffaith bod sylwedd i rywfaint o dystiolaeth o'r honiadau. Gall hyn fod oherwydd amharodrydd i ddatgelu rhagor o wybodaeth gan y chwythwr chwiban, neu gyfyngiadau ynghylch data sydd ar gael, neu dystiolaeth ddiriaethol i gadarnhau'r honiad

Achos na chaff ei dderbyn fel un Chwythu'r Chwibrn: Caiff y rhain eu hatgyfeirio gyda chaniatâd y chwythwr chwiban at y tim priodol i adolygu'r achos

Adroddiad ar Fwlch Cyflog y BBC 2023/24

Beth mae'r adroddiad hwn yn ei gynnwys?

Mae'r adroddiad ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ein hadroddiad Bylchau Cyflog yn nodi'r gwahaniaeth yn y cyflog crynswth cymedr a chanolrif fesul awr rhwng dynion a menywod. Fel o'r blaen, rydym wedi cynnwys datgeliadau gwirfoddol o fylchau cyflog ar gyfer nodweddion gwarchoddedig eraill (ethnigrwydd, pobl anabl ac LHDTC+ ynghyd ag Economaidd-gymdeithasol y flwyddyn hon). Sicrhawyd cyfrifiadau statudol a chanlyniadau gan dîm Archwilio Mewnol y BBC.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r datgeliadau statudol sy'n ofynnol gan wasanaeth darlledu cyhoeddus y BBC ar gyfer aelodau o staff yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, gan gynnwys BBC World Service. Nid yw'n cynnwys ein his-gwmnïau masnachol: BBC Studios, BBC Global News, BBC Studioworks, Plant mewn Angen a Media Action. Mae'r rhain naill ai islaw'r gofynion adrodd statudol o ran nifer y staff, neu cyflwynir adroddiad ar wahân ar eu cyfer ([gweler yr adroddiad ar y bwlch cyflog ar gyfer ein hendidau masnachol ar www.bbcstudios.com](#)). Mae'r cyfraddau datgeliad a nodir ar gyfer pob nodwedd yn cyfateb i'r boblogaeth a gynhwysir yn y dadansoddiad o'r bwlch cyflog ac felly gallant fod yn wahanol i'r rhai a gyflwynir mewn manau eraill.

Fel yn y flwyddyn flaenorol, rydym wedi cynnwys data ar gyfer pobl ar gontractau staff (parhaol a thymor sefydlog). Mae hyn yn cynnwys ein cyflwynwyr ar yr awyr sydd â chontractau staff y BBC. Nid ydym yn cynnwys unrhyw weithwyr ar gontractau llawrydd. Ni chaiff gweithwyr asiantaeth a oedd yn gweithio'n llawn amser i'r BBC ond a oedd wedi'u cyflogi drwy asiantaethau trydydd parti eu cynnwys gan y byddant wedi'u cynnwys yn yr adroddiad Bwlch Cyflog a gyflwynir gan yr asiantaeth sy'n eu cyflogi.

Wrth adolygu ein bylchau cyflog, rydym yn llunio rhestr o enillion ein cyflogeion – o'r uchaf i'r isaf – ac yn ei rhannu'n bedwar grŵp cyfartal, neu chwarteli. Rydym wedi dangos y data hyn ochr yn ochr â'r bylchau cyflog cymedr a chanolrif a'r bylchau cyflog yn ôl band gyrfa ar gyfer pob nodwedd. Rydym hefyd wedi cynnwys ein bylchau bonws, sy'n ymwneud â dyfarndaliadau ar ffurf talebau a wnaed o dan ein cynllun cydnabyddiaethau a'n dyfarndaliadau gwasanaeth hir. Mae'r data a gyflwynir yn seiliedig ar y data cipolwg statudol ar gyfer cyflogwyr awdurdodau cyhoeddus ar 31 Mawrth 2024.

Cyflwyniad

Erys tegwch a thryloywder ymhlith egwyddorion allweddol ein dull o reoli cyflogau yn y BBC. Mae gennym lefelau uchel o dryloywder o ran cyflogau, yn fewnol ac yn allanol, gan ein bod yn datgelu cyflogau ein huwch-aelodau o staff a'n staff sy'n cael y cyflogau uchaf ac rydym yn parhau i arwain y farchnad drwy gyhoeddi ein bylchau cyflogau yn ôl band gyrfa ac yn ôl nodweddion y tu hwnt i rywedd. Mae'r broses o gyflwyno data ar Amrywiaeth Economaidd-gymdeithasol y flwyddyn hon yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i sicrhau lefelau gorau'r farchnad o dryloywder ac adrodd ar gyflogau; credwn fod hwn yn llwybr clir at gyflogau tecach.

Mae'r niferoedd yn seiliedig ar ddata cipolwg ar 31 Mawrth yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Bylchau cyflog yn y BBC

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r prif ffigurau ar gyfer y bwlch cyflog ar gyfer y pum categori a nodir yn fanwl yn yr adroddiad, yn ogystal â'r categori ar gyfer cyflogeion rhan-amser, a chaiff data y flwyddyn hon eu cymharu â data y flwyddyn ddiwethaf. Mae bylchau cyflog ar gyfer anabledd (cymedr a chanolrif), ethnigrwydd (cymedr) a rhan-amser (canolrif) i gyd wedi lleihau y flwyddyn hon. Mae'r gweddill wedi cynyddu rhwng 0.1 a 2.0 pwynt canran.

Prif achosion ein bylchau cyflog yw cynrychiolaeth ar lefelau sefydliad gwahanol ac mewn teuluoedd swyddi gwahanol. Mae ein bylchau cyflog wedi cynyddu'r flwyddyn hon oherwydd cyfuniad o symudiadau yn y gweithlu (yn debyg i gwmnïau eraill, gwelwn newidiadau i'n bylchau cyflog am fod pobl yn ymuno ac yn gadael ar lefelau gwahanol yn y sefydliad), ymyriadau cyflog a hurio prentisiaid.

Mae mwy o amrywiaeth yn y prentisiaid a dderbyniwyd gennym o gymharu â gweddill y sefydliad wedi effeithio ar ein bylchau cyflog y flwyddyn hon, yn enwedig y bylchau cyflog LHDTC+. Caiff ein prentisiaid eu hurio i'n band gyrfa isaf (Band A) ac mae cynrychiolaeth

ar gyfer LHDTC+ ym Mand A yn sylweddol uwch nag ar gyfer bandiau eraill. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i hurio carfannau prentisiaid amrywiol er mwyn creu cyflenwad cryf o dalent ar gyfer y dyfodol ac rydym yn rhagweld cynnydd posibl i'n bylchau cyflog yn y dyfodol o ganlyniad i hynny.

Mae'r cyfuniad o drefniant datblygu cyflog penodol ar gyfer 2022 a 2023 gydag ymyriadau cyflog sy'n gysylltiedig â'r farchnad yn y teulu swyddi Technoleg, Systemau a Chyflawni yn 2022, yn parhau i effeithio ar ein bylchau cyflog, yn benodol y bylchau cyflog rhwng y rhywiau, gan fod y teulu swyddi hwn wedi'i bwysoli'n fwy â ddyinion na menywod. Fel rhan o gytundeb cyflog y flwyddyn hon, rydym wedi cytuno ar newidiadau i'r dull datblygu cyflog o adolygiad cyflog 2024.

Er bod camau byrdymor cyfyngedig y gallwn eu cymryd i fynd i'r afael â'n bylchau cyflog, mae ein hegwyddorion gwobrwy sef 'teg', 'clir' a 'chystadluol' yn sicrhau ein bod yn pennu cyflogau gan gyfeirio at ddata marchnad allanol a charfannau mewnol i sicrhau tegwch a chysondeb. Bydd ein pwyslais parhaus ar dryloywder cyflogau yn helpu i leihau ein bylchau cyflog dros amser a'n ffocws ar hurio a hyrwyddo menywod a grwpiau lleiafrifol mewn rolau uwch â chyflogau uwch, ynghyd ag ym mhob rhan o'r sefydliad yn ehangach, yn parhau i gefnogi'r newidiadau strwythurol sydd eu hangen i leihau ein bylchau cyflog.

Rydym yn hyderus o hyd nad yw ein bylchau cyflog o ganlyniad i gyflog anghyfartal. Rydym wedi cymryd nifer o gamau yn unol â'r argymhellion o archwiliad Cyflog Cyfartal 2023 a ddaeth i'r casgliad nad oedd unrhyw wahaniaethu systemig rhwng y rhywiau yn y dull o reoli cyflogau.

Mae ein bylchau cyflog rhwng y rhywiau yn dal i fod yn sylweddol is na'r bwlch canolrif cyfartalog cenedlaethol, sef 14.3% a'r bylchau cyflog a adroddir ar gyfer prif ddarlledwyr eraill yn y DU.

	Cymedr 2023/24	Cymedr 2022/23	Canolrif 2023/24	Canolrif 2022/23
Rhywedd	5.4%	4.7%	7.9%	7.3%
Ethnigrwydd	2.8%	2.9%	1.9%	1.8%
Anabledd	5.8%	6.6%	5.5%	5.7%
LHDTC+	6.6%	5.4%	7.2%	5.2%
Economaidd-gymdeithasol	5.6%	–	2.9%	–
Rhan-amser	2.8%	2.6%	3.2%	4.2%

Bylchau cyflog rhwng y rhywiau

Ar hyn o bryd, rydym yn adrodd ar fylchau cyflog rhwng y rhywiau ar sail rhyw deuaidd a gofnodir ar gofnod Yswiriant Gwladol unigolyn. Mae hyn yn golygu ein bod yn adrodd ar 100% o'r boblogaeth sydd o fewn y cwmpas. Mae 48% o gyfanswm y boblogaeth y mae'r adroddiad hwn yn berthnasol iddi yn fenywod ac mae 52% yn ddyinion. Ar draws Grŵp y BBC yn ehangach, mae 50% yn fenywod ac mae 50% yn ddyinion.

Mae ein bwlch cyflog cymedr rhwng y rhywiau bellach yn 5.4% ac mae wedi cynyddu y flwyddyn hon. Mae ein bwlch cyflog canolrif rhwng y rhywiau hefyd wedi cynyddu y flwyddyn hon, ac mae bellach yn 7.9%. Mae hyn yn parhau i fod yn bennaf oherwydd buddsoddiadau penodol mewn cyflogau dros y ddwy flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys ar gyfer talent hanfodol mewn rolau allweddol yn ein meysydd technoleg a chynnyrch, ac ar gyfer cyflogeion mwy hirsefydlog sy'n cael cyflog tuag at waelod eu hystodau cyflog.

Ein bwlch cyflog canolrif rhwng y rhywiau gan gynnwys Gogledd Iwerddon yw 7.8% a'n bwlch cyflog cymedr rhwng y rhywiau gan gynnwys Gogledd Iwerddon yw 5.4%.


	Cymedr	Canolrif
2024	5.4%	7.9%
2023	4.7%	7.3%

Mae'r tabl canlynol yn dangos ein bylchau cyflog rhwng y rhywiau yn ôl bandiau cyflog.

Band	Cymedr	Canolrif
A	1.8%	-2.3%
B	-0.7%	-0.4%
C	4.3%	4.6%
D	3.9%	4.1%
E	1.8%	3.1%
F	-0.8%	0.0%
Uwch-arweinwyr	-0.3%	-5.7%

Mae'r bylchau cyflog negatif yn dangos bod y grŵp lleiafrifol, sef menywod yn yr achos hwn, yn cael cyflog uwch ar gyfartaledd na'r grŵp mwyafrifol.

Mae'r graff canlynol yn dangos cyfran y dynion a'r menywod ym mhob chwarter cyflog. Mae hyn yn adlewyrchu cynrychiolaeth ar draws ein bandiau gyrfa.



Bylchau cyflog ethnigrwydd

Mae 96% o gyflogeion wedi rhannu eu data ethnigrwydd â ni. Mae 18% o gyfanswm y boblogaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn nodi eu bod yn bobl Ddu, Asiaidd neu'n rhan o grŵp ethnig leiafrifol arall (17% ar draws y BBC. Ni chaiff y rhai hynny nad ydynt wedi datgelu eu cynnwys yn y dadansoddiad o'r bwlch cyflog.

Mae'r bwlch rhwng cyflog cymedr fesul awr ein staff Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a'n staff gwyn wedi lleihau o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf. Mae'r bwlch cyflog canolrif wedi cynyddu ychydig o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf. Ein bwlch cyflog ethnigrwydd cymedr cyfredol yw 2.8% a'r bwlch cyflog canolrif yw 1.9%.


	Cymedr	Canolrif
2024	2.8%	1.9%
2023	2.9%	1.8%

Mae'r tabl canlynol yn dangos ein bylchau cyflog ethnigrwydd yn ôl band gyrfa (lle mae gennym fwy nag 20 o gyflogeion Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn y band).

Band	Cymedr	Canolrif
A	-4.3%	-11.7%
B	-1.5%	-1.7%
C	-4.4%	-4.6%
D	-2.7%	-2.4%
E	-2.3%	-3.5%
F	-1.9%	0.5%
Uwch-arweinwyr	-7.7%	-12.6%

Mae'r bylchau cyflog negatif yn dangos bod y grŵp lleiafrifol, sef staff Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn yr achos hwn, yn cael cyflog uwch ar gyfartaledd na'r grŵp mwyafrifol.

Mae'r graff canlynol yn dangos cyfran y staff Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a'r staff gwyn ym mhob chwarter cyflog. Mae hyn yn adlewyrchu cynrychiolaeth ar draws ein bandiau gyrfa.



Mae'r tabl canlynol yn dangos y bylchau cyflog ar gyfer grwpiau ethnig penodol.

	Cymedr	Canolrif
Asiaidd	-0.9%	-0.9%
Du	8.2%	8.3%
Cymysg	6.7%	5.0%
Arall	-3.5%	-6.0%

Bylchau cyflog anabledd

Mae 93% o gyflogeion wedi dweud wrthym p'un a oes ganddynt anabledd ac mae 9% o gyfanswm y boblogaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn wedi cadarnhau eu bod o'r farn bod ganddynt anabledd (9% ar draws Grŵp y BBC yn ehangach hefyd). Mae hyn yn cynnwys pob aelod o staff sydd o'r farn ei fod yn bodloni diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb o anabledd. Ni chaiff y rhai hynny nad ydynt wedi datgelu eu cynnwys yn y dadansoddiad o'r bwlch cyflog.

Mae'r bylchau rhwng cyflog cymedr a chanolrif fesul awr ein staff anabl a'n staff nad ydynt yn anabl wedi lleihau o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf ac mae'r bwlch cyflog cymedr bellach yn 5.8% a'r bwlch cyflog canolrif yn 5.5%.


	Cymedr	Canolrif
2024	5.8%	5.5%
2023	6.6%	5.7%

Mae'r tabl hwn yn dangos ein bylchau cyflog anabledd yn ôl band gyrfa (lle mae gennym fwy nag 20 o gyflogeion ag anabledd yn y band).

Band	Cymedr	Canolrif
A	1.6%	1.9%
B	2.3%	4.6%
C	1.3%	1.9%
D	0.7%	0.7%
E	4.5%	2.4%
F	2.4%	0.8%
Uwch-arweinwyr	-3.4%	-8.4%

Mae'r bylchau cyflog negatif yn dangos bod y grŵp lleiafrifol, sef cyflogeion anabl yn yr achos hwn, yn cael cyflog uwch ar gyfartaledd na'r grŵp mwyafrifol.

Mae'r graff isod yn dangos cyfran y cyflogeion anabl ym mhob chwarter cyflog. Mae hyn yn adlewyrchu cynrychiolaeth ar draws ein bandiau gyrfa.



Adroddiad ar Fwlch Cyflog y BBC 2023/24 – parhad

Bylchau cyflog LHDTC+

Mae 84% o'n cyflogeion wedi datgelu eu data ar gyfer y nodwedd hon. Mae 11% o'n cyflogeion a gynhwysir yn yr adroddiad hwn wedi cadarnhau eu bod yn ystyried eu hunain yn ddeurywiol, hoyw, lesbiaidd neu gyfeiriadedd rhywiol arall (heb gynnwys heterorywiol) (11% ar draws grŵp ehangach y BBC hefyd). Mae'r grŵp LHDTC+ hefyd yn cynnwys unrhyw un sy'n cadarnhau achos o ailbennu rhywedd ni waeth beth fo'i rhywioldeb. Ni chaiff y rhai hynny nad ydynt wedi datgelu eu cynnwys yn y dadansoddiad o'r bwlch cyflog.

Y bwlch y flwyddyn hon rhwng y cyfraddau cymedr fesul awr yw 6.6% a'r bwlch rhwng y cyfraddau canolrif fesul awr yw 7.2%. Mae'r bylchau cyflog LHDTC+ wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn hon o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf.


	Cymedr	Canolrif
2024	6.6%	7.2%
2023	5.4%	5.2%

Mae'r tabl hwn yn dangos ein bylchau cyflog LHDTC+ yn ôl band gyrfa (lle mae gennym fwy nag 20 o gyflogeion sy'n nodi eu bod yn LHDTC+ yn y band):

Band	Cymedr	Canolrif
A	0.2%	4.9%
B	5.2%	6.2%
C	3.5%	4.0%
D	-1.0%	-1.8%
E	-1.3%	-2.6%
F	-1.6%	2.5%
Uwch-arweinwyr	-8.1%	-15.6%

Mae'r bylchau cyflog negatif yn dangos bod y grŵp lleiafrifol, sef staff LHDTC+ yn yr achos hwn, yn cael cyflog uwch ar gyfartaledd na'r grŵp mwyafrifol.

Mae'r graff isod yn dangos cyfran y cyflogeion LHDTC+ ym mhob chwarter cyflog. Mae hyn yn adlewyrchu cynrychiolaeth ar draws ein bandiau gyrfa.



- LHDTC+
- Ddim yn LHDTC+

Bylchau cyflog economaidd-gymdeithasol

Mae 81% o'n cyflogeion wedi datgelu eu data ar gyfer y nodwedd hon. Mae 21% o'n cyflogeion a gynhwysir yn yr adroddiad hwn wedi cadarnhau eu bod yn ystyried eu bod o gefndir economaidd-gymdeithasol is) (21% ar draws Grŵp y BBC yn ehangach hefyd). Ni chaiff y rhai hynny nad ydynt wedi datgelu eu cynnwys yn y dadansoddiad o'r bwlch cyflog.


	Cymedr	Canolrif
2024	5.6%	2.9%

Mae'r tabl hwn yn dangos ein bylchau cyflog Economaidd-gymdeithasol yn ôl band gyrfa (lle mae gennym fwy nag 20 o gyflogeion sy'n nodi eu bod yn dod o gefndir economaidd-gymdeithasol is yn y band):

Band	Cymedr	Canolrif
A	-3.2%	-5.7%
B	-2.6%	-4.0%
C	-0.5%	-0.4%
D	1.4%	2.4%
E	2.5%	2.6%
F	2.3%	1.4%
Uwch-arweinwyr	10.4%	4.6%

Mae'r bylchau cyflog negatif yn dangos bod y grŵp lleiafrifol, sef cyflogeion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn yr achos hwn, yn cael cyflog uwch ar gyfartaledd na'r grŵp mwyafrifol.

Mae'r graff isod yn dangos cyfran y cyflogeion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is ym mhob chwarter cyflog. Mae hyn yn adlewyrchu cynrychiolaeth ar draws ein bandiau gyrfa.



- Lleiafrifol
- Mwyafrifol

Taliadau ychwanegol yn y BBC

Nid oes unrhyw daliadau bonws yn cael eu talu ym maes darlledu cyhoeddus y BBC. Mae'r gofynion adrodd statudol ar gyfer adrodd ar gyflog rhwng y rhywiau yn cynnwys bwlch cyflog rhwng y rhywiau o ran bonysau. Yn unol â'r canllawiau hynny, rydym yn cyfrifo'r ffigurau isod ar sail ein cynllun cydnabyddiaethau a'n dyfarnaliadau gwasanaeth hir, er nad ydym yn ystyried bod y rhain yn daliadau bonws. Mae'r cynllun cydnabyddiaethau ar ffurf talebau yn fodd i wobrwyo staff ym mandiau A i F am berfformiad heb ei ail. Yn ystod y flwyddyn, cafodd 3,339 o staff dalebau o dan y cynllun hwn, a'r swm canolrif oedd £200. Cafodd 242 o staff ddyfarnaliadau gwasanaeth hir, a'r taliad canolrif oedd £4,862.

Mae'r tablau isod yn dangos cyfran y staff ym mhob nodwedd a gafodd ddyfarnaliad o dan y cynllun cydnabyddiaethau neu'r dyfarnaliadau gwasanaeth hir a'r bylchau rhwng y symiau cymedr a chanolrif a gafwyd.

	% y grŵp mwyafrifol a gafodd ddyfarnaliad	% y grŵp lleiafrifol a gafodd ddyfarnaliad
Rhywedd	21.7%	22.4%
Ethnigrwydd	22.5%	21.5%
Anabledd	22.5%	20.6%
LHDTC+	22.9%	23.2%
Economaidd-gymdeithasol	23.0%	24.2%

	Bwlch bonws cymedr	Bwlch bonws canolrif
Rhywedd	17.9%	0.0%
Ethnigrwydd	28.9%	12.5%
Anabledd	1.3%	25.0%
LHDTC+	32.4%	25.0%
Economaidd-gymdeithasol	9.8%	0.0%

Cynaliadwyedd amgylcheddol

Mae Grŵp y BBC yn parhau'n ymrwymedig i gynhyrchu cynnwys a gaiff ei gydnabod yn rhyngwladol sy'n hysbysu ein cynulleidfaoedd am faterion amgylcheddol, gan leihau ein heffeithiau gweithredol. Rydym yn anelu at ragoriaeth o ran cynaliadwyedd, gan fabwysiadu'r safonau uchaf o ran strategaeth amgylcheddol a chyflawniad ar draws ein hallbwn a'n gweithrediadau. Rydym yn parhau i ddilyn ein strategaeth datgarboneiddio fanwl gan ganolbwyntio ar ddileu allyriadau yn eu tarddle – ac yn barhaol – wrth i ni symud tuag at Sero Net. Rydym yn parhau i gydweithio â phartneriaid ac arbenigwyr allanol er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd y safonau ac ansawdd adroddiadau a datgeliadau a ddisgwylir gennym fel busnes cyfrifol.

Byddwn yn cyhoeddi ein Cynllun Trawsnewid yn ddiweddarach yn 2024 i esbonio sut y byddwn yn cyflawni yn erbyn Sero Net a'n hymrwymiad i adrodd yn unol â'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD) a'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â Natur (TNFD). Bydd mwy o fanylion ar rôl ein tair colofn cynaliadwyedd sef O Blaid Natur, Sero Net ac O Blaid Pobl ar y daith.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr uchod, a'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae'r BBC yn ei wneud ar gynaliadwyedd yn: bbc.co.uk/sustainability

Sero Net a Thargedau

Mae ein targedau Sero Net tymor agos, a gymeradwywyd gan y fenter Science Based Targets (SBTi) yn 2021, yn ymrwymo'r BBC i leihau allyriadau nwyon tŷ gwyr o'n gweithrediadau uniongyrchol (Cwmpas 1 a 2) 46% ac o'n cadwyn gwerth (Cwmpas 3) 28% erbyn 2030/31 o linell sylfaen 2019/20.

Er mwyn cyrraedd Safon Sero Net SBTi, gwnaethom gyflwyno ein targedau lleihau allyriadau hirdymor ym mis Chwefror 2024, ac rydym yn disgwyl iddynt gael eu cymeradwyo gan y SBTi yn ddiweddarach yn 2024.

Perfformiad Sero Net yn erbyn y Targedau

Rydym yn gwneud cynnydd sylweddol yn erbyn ein hallyriadau gweithredol uniongyrchol (Cwmpas 1 a 2) ac ar hyn o bryd, mae ein trywydd yn rhagori ar ein targed ar gyfer 2023/24 o -17% gan ddangos gostyngiad o -21%. Cyflawnwyd hyn drwy gyfres wedi'i thargedu o fentrau yn erbyn ein defnydd o danwyddau ffosil a thrydan. Mae'r rhain yn cynnwys uwchraddio a gadael safleoedd, lleihau ein defnydd o nwy a thargedu defnydd o ddiesel yn ein cynrychiadau.

Allyriadau Nwyon Tŷ Gwyr

Pob uned mewn tunelli CO ₂ e	2019/20	2022/23	2023/24	% y Newid ers 2019/20
Cwmpas 1*	20,010	16,721	14,897	-26%
Cwmpas 2 – Yn seiliedig ar y farchnad*	7,014	6,532	6,494	-7%
Cwmpas 2 – Yn seiliedig ar leoliadau*	47,756	32,729	33,813	-29%
Cyfanswm Cwmpas 1 a 2 – Yn seiliedig ar y farchnad*	27,024	23,253	21,391	-21%
Cyfanswm Cwmpas 1 a 2 – Yn seiliedig ar leoliadau*	67,766	49,450	48,710	-28%
Dwyster allyriadau – Cyfanswm Cwmpas 1 a 2 yn seiliedig ar y farchnad* (tCO ₂ e/£m o incwm y Grŵp)	5.5	4.1	4.0	
Cwmpas 3				
Nwyddau a gwasanaethau a brynwyd	160,101	161,548	171,728	+7%
Nwyddau cyfalaf	21,443	28,035	11,783	-45%
Gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thanwydd ac ynni	14,672	14,352	13,920	-5%
Cludo a dosbarthu i fyny'r gadwyn gyflenwi	30,447	61,169	50,117	+65%
Gwastraff a gynhyrchir mewn gweithrediadau	112	117	134	+20%
Teithio ar gyfer busnes	47,407	35,681	42,480	-10%
Cyflogeion yn cymudo	17,011	12,371	12,517	-26%
Asedau ar brydles i fyny'r gadwyn gyflenwi	1,896	1,277	899	-53%
Triniaeth diwedd oes cynhyrchion a werthwyd	21	8	5	-76%
Asedau ar brydles i lawr y gadwyn gyflenwi	3,402	3,071	2,566	-25%
Masnachfreintiau	23,942	26,183	34,538	+44%
Buddsoddiadau	3,415	12,653	11,985	+251%
Cyfanswm Cwmpas 3*	323,869	356,465	352,672	+9%

* Roedd metrigau a ddewiswyd yn ddarostyngedig i sicrwydd cyfyngedig annibynnol gan Deloitte LLP yn 2024 – gellir gweld eu barn ar sicrwydd yn: bbc.com/aboutthebbc/reports/reports/GHGAssurance2024/

Mae setiau data a methodoleg Cwmpas 3 ac allyriadau'r gadwyn gyflenwi yn gwella'n barhaus. Fel rhan o'r broses o fireinio ein data allyriadau Cwmpas 3, gwnaethom ail-gyfrifo ein llinell sylfaen Cwmpas 3 ar gyfer 2019/20, sy'n arferol ac yn arfer gorau, drwy gymhwyso ffactorau allyriadau Exiobase sy'n fwy cydnaws â'n math o fusnes a'n gweithrediadau byd-eang. Darllenwch fwy am y fethodoleg yn yr adran Basis of Reporting yn: bbc.com/aboutthebbc/reports/reports/.

Ar ôl cael dilysiad yn flaenorol ar gyfer ISO safon 14064, rydym bellach wedi cael sicrwydd cyfyngedig ynghylch ISAE 3000/3410 y flwyddyn hon. Mae data a pherfformiad Cwmpas 1, 2 a 3 yn erbyn ein llinell sylfaen wedi'u dangos yn y tablau isod. Gwnaethom ddiweddararu ein hallyriadau blwyddyn sylfaen Cwmpas 1 a 2 er mwyn cywiro rhai gwallau data a gwneud gwelliannau, ers yr ôl troed carbon gwreiddiol. Rydym hefyd wedi creu model llwybr allyriadau hyd at 2030 sy'n rhagfynegi effaith yr ymyriadau a wnawn, ynghyd â ffactorau allanol a all ddylanwadu ar ein gallu i gyflawni ein targedau.

Tabl Cryno Perfformiad Sero Net yn erbyn y Targedau

Mae'r tabl isod yn dangos y cyflawnwyd rhagor o ostyngiadau ar allyriadau Cwmpas 1 a 2 ac, er bod allyriadau Cwmpas 3 uwchlaw'r llinell sylfaen o hyd, maent wedi gostwng ers y flwyddyn ddiwethaf ac rydym yn disgwyl iddynt barhau i ostwng wrth i ni roi ein cynllun ar waith i gyflawni ein Targed ar gyfer Cwmpas 3.

	2019/20	2022/23	% y Newid ers 2019/20	2023/24	% y Newid ers 2019/20
Cwmpas 1 a 2	27,024	23,253	-14%	21,391	-21%
Cwmpas 3	323,869	356,465	10%	352,672	9%
Cyfansymiau	350,893	379,718	8%	374,063	7%

Cynaliadwyedd amgylcheddol – parhad

Er mwyn cyrraedd ein targedau, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ddileu allyriadau, fel yr amlinellir yn ein gwefan Cynaliadwyedd Amgylcheddol yn: bbc.co.uk/sustainability/.

Caiff yr holl gynnwys teledu nad yw'n Newyddion a gomisiynwyd gan BBC Public Service ei fandadu i gyflawni safon diwydiant albert BAFTA ar gyfer cynhyrchu cynaliadwy (gydag eithriadau cyfyngedig). Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i wneuthurwyr rhaglenni gwblhau 'cynllun gweithredu carbon' i leihau allyriadau ac 'ôl troed carbon' i'w mesur. Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd albert yn ffurfiol na fyddai prosesau gwrthbwyo'n cael eu mandadu mwyach o 2 Ionawr 2024 a chynghorodd y BBC gynhyrchwyr i symud cyllideb ac adnoddau i'r gweithgareddau datgarboneiddio yn lle hynny. Ceir rhagor o fanylion yn bbc.co.uk/sustainability/our-plan/.

Ymgysylltu â'n cadwyn gyflenwi

Rydym yn parhau i weithio gyda'n cyflenwyr i leihau allyriadau ein cadwyn gyflenwi, sy'n cyfateb yn fras i 55% o linell sylfaen ein hól troed carbon. Rydym bellach yn nhrydedd flwyddyn rhaglen cadwyn gyflenwi y Prosiect Datgelu Carbon (CDP). Mae CDP yn gweithredu system alluogi fyd-eang i sefydliadau adrodd ar eu heffeithiau amgylcheddol. Yng nghylch CDP 2023, cymerodd mwy na 240 o'n cyflenwyr allweddol ran. Rydym yn parhau i gefnogi cyflenwyr drwy'r broses hon, gan eu hannog i ymuno â ni yn y trawsnewidiad i Sero Net. Defnyddir data CDP i lywio ein mentrau i leihau ein hallyriadau Cwmpas 3.

Rydym yn gofyn i gyflenwyr sydd â chontractau gwerth mwy na £5 miliwn i gael Targedau Seiliedig ar Wyddoniaeth neu dargedau cyfatebol sy'n cyd-fynd ag 1.5 gradd i adrodd ar eu perfformiad amgylcheddol i CDP. Ers mis Ebrill 2023, mae cynaliadwyedd hefyd yn ofyniad cliriad gorfodol drwy ein proses cymeradwyo buddsoddiad ar gyfer buddsoddiadau sydd werth mwy na £500,000.

Y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD) a Llywodraethu

Mae proses adrodd y BBC yn unol â Datgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd y Ddeddf Cwmnïau, sy'n cyd-fynd â'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd. Pedair elfen y Tasglu yw: llywodraethu, strategaeth, rheoli risg a metrigau a thargedau; sy'n cynnwys 11 o ofynion adrodd. Ceir rhagor o wybodaeth yn bbc.co.uk/sustainability/.

Caiff ein risgiau a'n cyfleoedd TCFD eu hadolygu a'u dadansoddi'n flinryddol ag arweinwyr cyllid, cynaliadwyedd, busnes a rheoli risg ym mhob rhan o Grŵp y BBC ar lefel is-adrannol ac is-gwmnïau masnachol drwy gyfres o weithdai a chyfarfodydd.

Y flwyddyn hon, rydym wedi gwella ein dadansoddiadau o senarios sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ers 2022/23 drwy gynnwys ein hymateb strategol a'n camau lliniaru fel rhan o'n gwaith modelu ariannol TCFD, lle y bo'n bosibl.



Astudiaeth achos: Symposiwm ar gynaliadwyedd

Gwnaethom gynnal ein symposiwm cyntaf ar Gynaliadwyedd yn y Radio Theatre yn Broadcasting House, Llundain ym mis Tachwedd 2023. Aeth tua 300 o bobl i'r digwyddiad, a drefnwyd er mwyn pwysleisio pwysigrwydd ymgorffori cynaliadwyedd yn ein diwylliant, sut mae'n cyd-fynd â'n gwerthoedd a phwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth yn fewnol ac o fewn y diwydiant yn ehangach. Agorodd y sesiynau panel drwy archwilio'r heriau a'r cyfleoedd o ran newid yn yr hinsawdd yn fyd-eang, a gadeiriwyd gan Naga Munchetty mewn trafodaeth â Gemma Hayman o BBC Media Action, a Juliet Njeri, BBC World Service Languages. Roedd sesiynau dilynol yn cynnwys arloesedd yn y diwydiant, effeithiau ar fioamrywiaeth a natur, a datblygiadau diwydiant y cyfryngau gan albert BAFTA. Yn y Media Cafe gerllaw, esboniodd 30 o'n cyflenwyr allweddol eu bod yn mynd ati i gefnogi'r BBC ar draws eu gweithrediadau ar gyfer dyfodol cynaliadwy. Mae'r ddelwedd uchod yn ddehongliad gweledol gan artist o'r prif themâu a gododd yn ystod y diwrnod o'r hyn a welsant ac a glywsant. Cafwyd ymateb da i'r digwyddiad, ac mae cynlluniau'n mynd rhagddynt i gynnal ail ddigwyddiad mewn partneriaeth â'n cydweithwyr Caffael.

Archwiliwyd dwy senario sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd y flwyddyn hon: "Sero Net" (cynhesu cyfwerth ag 1.5°C erbyn 2100) a "Polisiau Cyfredol" (cynhesu cyfwerth â 3.5-4.5°C erbyn 2100).

Gwnaethom hefyd werthuso ein risgiau a'n cyfleoedd hinsawdd yn erbyn tri gorwel amser ar gyfer y byrdymor (2023 i 2029), y tymor canolig (2030 i 2039) a'r hirdymor (2040 i 2059). Fodd bynnag, mae ansicrwydd cynhenid yn parhau ym mhob proses i foddelu dadansoddiadau o senarios sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

Dangosodd ein dadansoddiadau fod effeithiau'r risgiau trawsnewid ar eu gwaethaf o dan senario Sero Net, ac y disgwyllir y bydd risgiau ffisegol fel lifogydd yn dod yn fwy amlwg ac yn fwy difrifol yn y tymor hwy o dan y senario Polisiau Cyfredol.

Defnyddiwyd y data diweddaraf ar gyfer y senario, wedi'u llywio gan Rwydwaith Gwyrddhau'r System Ariannol, ac edrychwyd ar gronfeydd data cyhoeddus cydnabyddedig eraill ar yr hinsawdd lle'r oedd unrhyw gyfyngiadau.

Roedd hyn yn cynnwys yr Asiantaeth Ynni Rhyngwladol, ac adnodd Aqueduct Sefydliad Adnoddau'r Byd.

Cynhaliwyd sawl gweithdy gyda rhanddeiliaid mewnol allweddol yn y BBC ac ymgynghorwyr trydydd parti i wella tybiaethau modelu a nodi cyfyngiadau o ran sicrhau cysondeb â chanllawiau TCFD.

Rydym yn parhau i adeiladu ein cydnerthedd yn erbyn risgiau sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd ac yn rhoi cyfleoedd ar waith i sicrhau ein bod mewn sefyllfa dda i ymateb i'r senarios hyn.

TCFD – Tabl canlyniadau dadansoddi senarios

Risg neu gyfle perthnasol	Gorwel amser			Disgrifiad	Yr effaith ariannol bosibl os na chymerir unrhyw gamau i liniaru'r risgiau neu os na chaiff cyfleoedd eu gwireddu	Effaith hyd at 2030		Ymateb strategol
	B	C	H			Polisiau cyfredol (3.5-4.5°C)	Sero Net (1.5°C)	
Risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd								
Costau uwch mewn perthynas â phrisiau carbon, gwrthbwyso a threthiant*				Mae ymrwymadau Sero Net yn y DU ac yn rhyngwladol yn debygol o arwain at gyflymu a gweithredu systemau prisiau carbon gan gynnwys capiau allyriadau â gofynion gwrthbwyso a threthi carbon.	Costau uniongyrchol uwch mewn perthynas ag ôl troed allyriadau'r BBC a chostau anuniongyrchol wrth i gyflenwyr y BBC drosglwyddo costau carbon.			Adolygu amserlen y strategaeth wrthbwyso ac asesu potensial prisiau carbon mewnol i gyflymu gweithgarwch datgarboneiddio, codi arian a pharhau i gyflwyno datblygiadau carbon isel arloesol.
Llai o waith i ddenu a chadw staff a thalent				Bydd strategaeth datgarboneiddio ac enw da'r BBC o ran materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn effeithio ar ein gallu i ddenu cyflogeion i'r BBC a'u cadw.	Costau staff uwch i gymhell a chadw cyflogeion a chostau gweithredu ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyflugi oherwydd cyfraddau gadael uwch.			Sicrhau bod dyhead a gweithgarwch cynaliadwyedd yn cyrraedd safonau arferion arweiniod ac yn cyd-fynd â disgwyliadau'r diwydiant a disgwyliadau cyflogeion.
Mynediad cyfyngedig i gyfalaf*				Yn gynyddol, mae gan ddarparwyr cyfalaf eu hymrwymadau Sero Net eu hunain sy'n arwain at gost cyfalaf uwch i sefydliadau yr ystyrir nad ydynt yn cymryd camau gweithredu digonol mewn perthynas â'r hinsawdd.	Cyfraddau llog uwch mewn perthynas â benthycu cyfalaf, a allai effeithio ar ochr fasnachol y busnes.			Sicrhau y caiff cynnydd yn erbyn targedu ei fonitro o ran perfformiad ac y caiff yr ymyriadau angenrheidiol eu rhoi ar waith er mwyn parhau ar y llwybr hanfodol.
Risg i enw da o wyrddgalchu				Canfyddiad y cyhoedd ynghylch diffyg cysondeb rhwng negeseuon cynnwys cryf a pherfformiad gwael yn erbyn targedau neu ddiffyg cysondeb rhwng cyflenwyr/cyflogeion a strategaeth hinsawdd y BBC.	Colli reffeniw o ganlyniad i ddifrod i enw da'r BBC gan arwain at lai o gyfleoedd i greu partneriaethau wrth i gwsmeriaid symud tuag at gystadleuwyr, yn ogystal â chost uwch yn sgil ymygreitha mewn perthynas â'r hinsawdd.			Sicrhau y caiff cynnydd yn erbyn targedu ei fonitro o ran perfformiad ac y caiff yr ymyriadau angenrheidiol eu rhoi ar waith er mwyn parhau ar y llwybr hanfodol.
Risg o lifogydd yn achosi difrod ac yn tarfu ar wasanaethau				Mae'n debygol y bydd mwy o law a dwysedd digwyddiadau yn cynyddu'r risg o lifogydd, a thrwy hynny, gynyddu'r risg o ddifrod i asedau a seilwaith, yn ogystal â tharfau ar y gallu i ddarparu gwasanaethau.	Costau uwch o ganlyniad i atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw, premiymau yswiriant uwch, yn ogystal â gostyngiad mewn reffeniw o ganlyniad i gyfnodau estynedig o darfu ar wasanaethau.			Sicrhau bod risgiau amlygiad i lifogydd a thymheredd uchel yn cael eu monitro'n rheolaidd gan gynnwys y cydnheredd angenrheidiol.
Cyfleoedd perthnasol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd								
Arbedion o effeithlonrwydd ynni				Mae cyfle i gyflwyno gwelliannau effeithlonrwydd ynni i adeiladau, gweithrediadau ac ymddygiadau'r BBC yn debygol o sicrhau arbedion o ran ynni a chostau.	Costau uniongyrchol is o ddefnydd ynni is ar draws ystadau a gweithrediadau'r BBC ac o symud tuag at fathau o danwydd mwy cynaliadwy a chost effeithiol.			Rhoi rhaglen effeithlonrwydd ynni ac optimeiddio adeiladau ar waith ar draws Grŵp ac ystâd y BBC.
Ymgysylltu â chynulleidfaoedd a chynhyrchu cynnwys ffeithiol				Mae cyfle gan y BBC i arwain wrth gynhyrchu cynnwys ffeithiol drwy ymgysylltu â chynulleidfaoedd, eu hysbysu a'u hysbrydoli drwy ein cynnwys.	Mae gwasanaethau cynnwys ffeithiol y BBC yn apelio at gynulleidfaoedd ehangach a marchnadoedd newydd, gan alluogi cyfleoedd ar gyfer partneriaethau a chyfleoedd ariannu newydd ar draws Grŵp y BBC.			Cynnal profion marchnad o ddewisiadau cynulleidfaoedd a rhoi mesurau carbon ar waith ar draws cynrychiadau a gwasanaethau.
Enw da o ran arweinyddiaeth hinsawdd				Mae gan y BBC gyfle i ddangos arweinyddiaeth hinsawdd yn niwydiant y cyfryngau, drwy strategaeth a thargedau hinsawdd.	Reffeniw uwch wedi'i lywio gan y buddiannau sy'n gysylltiedig ag enw da gan arwain at gynulleidfa ehangach ar gyfer gwasanaethau'r BBC, yn ogystal â mwy o gyfleoedd am bartneriaethau ym mhob rhan o Grŵp y BBC.			Cynnal profion cynulleidfa rheolaidd a sicrhau bod Strategaeth y BBC yn cyrraedd y safonau gweithredol uchaf. Cynnal proses i fesur yr effaith ar yr hinsawdd ar draws cynnwys y BBC.

Pryd y disgwyliar i'r risg/cyfle ddod i'r amlwg

Amcangyfrif o effaith lawn y risg/cyfle

* Yn cynnwys camau lliniaru

Risg isel Cyfle isel

Risg ganolog Cyfle canolog

Risg uchel Cyfle uchel

Cynaliadwyedd amgylcheddol – parhad

Mae Pwyllgor Archwilio a Risg y BBC yn cefnogi ein hymdrechion i gysoni ag argymhellion y TCFD ac mae'n cyflwyno adroddiadau ar y mater i Fwrdd y BBC, sy'n goruchwylio ein risgiau, ein cyfleoedd a'n strategaethau lliniaru o ran yr hinsawdd. Ceir rhagor o fanylion ar sut mae proses adolygiad blynyddol TCFD yn croestorri prosesau'r tîm Rheoli Risgiau a fframwaith risg ehangach y BBC ar dudalen 120 yn adran Prif Risiau yr adroddiad hwn.

Mae'r BBC wedi cyflawni gradd B y Prosiect Datgelu Carbon ar gyfer aeddfedrwydd strategaeth yr hinsawdd yn ystod ail flwyddyn ein cais, sydd yn unol â busnesau yn sectorau'r Cyfryngau, Telathrebu a Gwasanaethau Canolfannau Data. Gwnaethom gynnal adolygiad parodrwydd mewnol yn erbyn fframwaith Cynllun Trawsnewid Llywodraeth y DU ac rydym yn bwriadu cyhoeddi ein Cynllun Trawsnewid yn ddiweddarach yn 2024.

Effaith weithredol

Er mwyn sicrhau bod pob un o'n cynhyrchwyr cynnwys teledu yn gwneud rhaglenni mewn modd cynaliadwy, mae'r BBC yn dal i chwarae rhan weithredol ac amlwg yng Nghonsortium Albert BAFTA a Grŵp Llywio'r Diwydiant Teledu. Mae'r fenter gydweithredol hon, sy'n cynnwys pob rhan o'r diwydiant, yn hyrwyddo camau gweithredu cadarnhaol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ym maes cynhyrchu ffilm a theledu ar draws pob genre, ar y sgrin ac oddi ar y sgrin.

Nodir perfformiad yn erbyn y targedau hyn yn y tabl isod:

Targed	Cynnydd ar gyfer blwyddyn ariannol FY23/24
Cyfrifiad ôl troed carbon Albert o 100% ar draws pob allbwn (gorfodol)	100% ¹
Mae 100% o'r allbwn a gomisiynwyd ers mis Ebrill 2022 yn cyflawni ardystiad cynhyrchu cynaliadwy Albert (gorfodol)	97% ²
% yr holl allbwn sy'n cyflawni ardystiad cynhyrchu cynaliadwy Albert, gan gynnwys comisiynau cyn mis Ebrill 2022	97% ³

- 1 Ar gyfer olion troed Albert, mae 95% wedi'u cwblhau + 5% disgwyliedig
- 2 Ar gyfer ardystiad Albert (gorfodol), mae 91% wedi'u cwblhau + 6% disgwyliedig
- 3 Ar gyfer ardystiad Albert (argymhellwyd), mae 84% wedi'u cwblhau + 13% disgwyliedig

Cynyddodd cyfran y cynrychiadau sydd o fewn y cwmpas a gyflawnodd ardystiad Albert 4% y flwyddyn hon. Ymysg y rhesymau allweddol dros nifer bach o fethiannau mae diffyg tystiolaeth o fesurau cynaliadwyedd, canllawiau mwy llym ynghylch hediadau domestig a'r ffaith bod y cynllun gweithredu carbon yn hwyr yn cael ei lunio. Rydym yn parhau i ddiweddarau ein canllawiau a'n cymorth ar gyfer cynrychiadau i gyflawni ardystiad.

O ran Sain, rydym wedi datblygu ardystiad newydd, EcoAudio, i helpu cynhyrchwyr sain i leihau ôl troed carbon eu gwaith cynhyrchu er mwyn ennill achrediad cynaliadwyedd.

Dyma'r tro cyntaf i hyn gael ei wneud yn y diwydiant ac rydym bellach yn treialu'r dull gyda chyflenwyr sain annibynnol.

Mae allbwn brecwast, yn ystod y dydd a gyda'r nos BBC Radio 5 Live News i gyd wedi cyflawni ardystiad EcoAudio.

O Blaidd Natur

Mae'r BBC yn cydnabod pwysigrwydd integreiddio natur a bioamrywiaeth yn ein strategaeth cynaliadwyedd a'n datgeliadau hinsawdd ehangach. Yn y cyd-destun hwn, rydym wedi bod wrthi'n ymgysylltu â'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â Natur (TNFD), sydd wedi helpu i ddiffinio ein heffeithiau, dibyniaethau, risgiau a chyfleoedd mwyaf perthnasol sy'n gysylltiedig â natur. Rydym ar daith i gyflawni cydymffurfiaeth lawn a chynhelir ein dadansoddiad a'n hadolygiad TNFD blynyddol ochr yn ochr â'n cylch TCFD sy'n canolbwyntio ar yr hinsawdd.

Hefyd, gwnaethom ailddiffinio ein model ôl troed bioamrywiaeth y flwyddyn hon a chynhaliwyd cyfres o weithdai ym mhob rhan o Grŵp y BBC i bennu ein dull o leihau a lliniaru ein heffeithiau ar natur.

Yn unol â'r fframwaith TNFD, gwnaethom asesu pa rai o'n swyddfeydd oedd yn rhyngwynebu â natur, yn enwedig gydag ardaloedd sensitif i bioamrywiaeth ac ardaloedd integreidd isel. Mae rhywfaint o brosiectau adfer natur a chynyddu bioamrywiaeth eisoes ar waith.

Yn ein safle BBC Monitoring ger Nairobi, Kenya, rydym wedi plannu 150 o goed ar ôl gosod storfeydd dŵr yn flaenorol a ddefnyddir ar gyfer y gerddi a chyfleusterau toiled.

O Blaidd Pobl

Mae'r BBC yn hysbysu ac yn addysgu cynulleidfaoedd a staff ar gynaliadwyedd amgylcheddol, ac yn ceisio ysbyrdoli dewisiadau gwyrddach. Fel rhan o ymrwymiad y BBC i'n Haddewid Cynnwys Hinsawdd (gweler y cynnwys amgylcheddol byd-enwog ar dudalen 29), rydym yn mesur effaith ein cynnwys drwy gynnal arolygon ar-lein o'r gynulleidfafa ddwywaith y flwyddyn. Mae'r data diweddaraf wedi dangos bod 46% o oedolion yn y DU o'r farn bod y BBC wedi gwella ei ddealltwriaeth o faterion amgylcheddol, i fyny o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf.

Rydym y cynnal ymchwil fanylach yn erbyn ein teitlau Hanes Naturiol mwyaf. Mae tua 90% o gynulleidfaoedd sy'n ymwbyddol ohonynt yn cytuno y dylem barhau i'w gwneud. Yn 2023/24, gwnaethom archwilio effaith *Wild Isles*, y gyfres ffeithiol â'r cyfraddau uchaf ar y BBC ar gyfer y flwyddyn ariannol. Gweler astudiaeth achos *Wild Isles* ar dudalen 73 yn yr adran ar Bartneriaethau a Mentrau Cydweithredol.

Diwylliant cynaliadwy

Mae ein his-adran Adnoddau Dynol yn cyd-fynd â Gwerthoedd Atebolwydd a Pharch y BBC sy'n cefnogi'r dull gweithredu ar gyfer rhannu ein strategaeth, ein targedau a'n perfformiad mewn ffordd dryloyw.

Mae cydweithwyr Cysylltiadau Mewnol ac Ymgysylltu yn cefnogi'r tîm Cynaliadwyedd ar negeseuon allweddol sy'n cyd-fynd â thri dyddiad allweddol ar y calendr bob blwyddyn, gan gynnwys Diwrnod y Ddaear ym mis Ebrill a'r cyfarfodydd COP Hinsawdd a Natur ym mis Hydref a mis Tachwedd.

Rydym am gyfleu pwysigrwydd rhoi ein strategaeth ar waith a ble rydym yn erbyn ein targedau yn glir.

Mae'r gwaith yn parhau â BBC Academy i sicrhau bod hyfforddiant cynaliadwyedd i staff yn cael blaenoriaeth gan ddarparu cyrsiau gorfodol i newyddiadurwyr Newyddion a chynhyrchwyr a Chomisiynwyr cynnwys mewnol nad ydynt yn gysylltiedig â'r adran Newyddion, yn ogystal â hyfforddiant i dimau gweithredol a chysiau byr i bob aelod arall o staff. Mae mwy na 4,350 o Newyddiadurwyr bellach wedi cwblhau cwrs hyfforddi Reporting Climate Change. Gall pob gwneuthurwr rhaglenni yn y BBC a chyflenwyr allanol weld ein Canllaw Pwnc Cynaliadwyedd Amgylcheddol: bbc.co.uk/sustainabilityguide gyda'r wybodaeth ddiweddaraf yn seiliedig ar y dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael.

Rydym hefyd yn cynnal sesiynau briffio wedi'u targedu ar bynciau penodol, fel yr hinsawdd ac iechyd, ynghyd â digwyddiadau ymgysylltu ar draws y diwydiant fel gwyl undydd flynyddol Climate Creatives gan BBC Academy.

Yn aml, bydd Is-adrannau'r BBC yn creu partneriaeth â sefydliadau allanol i ysgogi camau gweithredu cynaliadwyedd, fel y gwaith a wneir gan BBC Sport gydag Uwchgynhadledd Sport Positive a chyrrff chwaraeon cynaliadwy eraill. Mae BBC Technology yn cefnogi DIMPACT, sef menter gydweithredol rhwng academyddion a chwmnïau'r cyfryngau i gyfrifo allyriadau carbon y cyfryngau digidol.

Rhwng mis Mai a mis Tachwedd 2023, cytunodd BBC Studios a'r London Wildlife Trust ar gyfle gwirfoddoli i gael cyflogion BBC Studios allan ym myd natur. Dysgodd y cyflogion am fioamrywiaeth a helpu i adeiladu clawdd marw er mwyn helpu pryfed a mamaliaid bach i ffynnu ar y safle.

Yn swyddfeydd mwy o faint y BBC, mae Timau Gwyrdd gwirfoddol hefyd yn ymgysylltu â chydweithwyr sy'n cynnal digwyddiadau i staff. Mae Timau Gwyrdd yn Is-adran y Gwledydd, o Aberdeen i Plymouth, yncael eu cefnogi a'u harwain gan y Fforymau Cynaliadwyedd a sefydlwyd.

Y nod yw ysgogi gweithredoedd sy'n gwneud ystyriaethau cynaliadwyedd yn ymddygiadau, penderfyniadau a ffyrddiau gwaith sy'n digwydd fel mater o drefn yn y Gwledydd gan ddefnyddio dangosfwrdd sy'n cynnwys data ar wastraff, hediadau, hyfforddiant ac allyriadau cynrychiadau. Cyflawnwyd gostyngiad o 12% yn lefelau allyriadau hediadau'r Gwledydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn yr un modd, mae Newyddion a Materion Cyfoes wedi cydblethu cynaliadwyedd ar draws y busnes drwy'r fenter News Green Action Plan sydd bellach yn ei ail flwyddyn, gan gwmpasu tua 6,000 o aelodau o staff. Mae tryloywder o ran data yn allweddol er mwyn galluogi timau i wneud yn penderfyniadau datgarboneiddio cywir.

Teithio a llety

Mae gennym egwyddorion cynaliadwyedd sy'n gysylltiedig â theithio yn ein Polisi Treuliau, sy'n cyfeirio staff at y dulliau teithio mwyaf 'effeithlon o ran carbon'.

Dewis trê'n cyn awyren ar gyfer teithiau ar dir mawr y DU, rhannu cerbydau pan fo modd a defnyddio trafniadaeth gyhoeddus yn hytrach na thaccs. Mewn cynrychiadau, rydym wedi bod yn archwilio pryd y gall timau newid o deithiau awyren i drên. O ran Chwaraeon, teithiodd cyfran helaeth o staff, ar y sgrin ac oddi ar y sgrin, i Bencampwriaeth Athletau'r Byd yn Budapest ar drên. Wrth drefnu llety, ac yn unol ag achrediad albert, mae'r system archebu bellach yn dangos a yw gwesty'n defnyddio ynni cwbl adnewyddadwy.

Ynni

Nodir newidiadau i'n defnydd o ynni yn y tabl isod. Cyflawnwyd y gostyngiad yn y defnydd o nwy a thanwydd naturiol i wresogi ein hadeiladau yn bennaf drwy fesurau effeithlonrwydd ynni a thrwy gau safleoedd hŷn a oedd yn llai ynni effeithlon. Cyflawnwyd y gostyngiad yn y defnydd o ddiesel ers 2019/20 drwy wneud rhai newidiadau allweddol. Defnyddiwyd Olew Llysiau Hydrogenaidd (HVO) yn lle diesel mewn nifer o eneraduron symudol a ddefnyddiwyd gan gynrychiadau i fflmio ar leoliad; defnyddiwyd cerbydau petrol a hybrid yn lle'r fflyd diesel hŷn a arferai fod ar brydles a gostyngodd y lefelau diesel hefyd. Defnyddiwyd 130,000 litr o HVO yn 2023/24 ac nid oedd yn cael ei ddefnyddio o gwbl yn 2019/20 sy'n cyfrif am y cynnydd cyflym yng nghyfanswm yr adran 'Arall' ar y tabl. Mae ein trydan adnewyddadwy sy'n cynhyrchu ei hun yn dod o bump o safleoedd y BBC â gosodiadau ffoto-foltäig.

Mae gwneud mwy o ddefnydd o ynni carbon isel yn hanfodol i'n nodau Sero Net gweithredol. Mae BBC Sport yn defnyddio pŵer prif gyflenwad yn lle generaduron symudol ar gyfer digwyddiadau byw lle mae'r cyflenwad yn ddigonol, wedi'i gyfuno â batris pan fydd yn briodol. Mae BBC News hefyd yn defnyddio pŵer prif gyflenwad fel yr opsiwn a ffefrir. Mae BBC Sport hefyd yn treialu technoleg 5G ar gyfer darllediadau allanol ac yn archwilio dulliau cynhyrchu o bell.

Llwyddodd BBC Studios i feithrin dealltwriaeth o'r defnydd o ynni ym meysydd Drama, Comedi a Digwyddiadau. Drwy gasglu data cywir ar yr ynni sy'n ofynnol, gallai cynrychiadau optimeiddio eu defnydd o ynni. Yr haf diwethaf, gan ddefnyddio generadur mesurydd clyfar, llwyddodd wyth cynhyrchiad drama i ddefnyddio llai o eneraduron, gan arbed 58% o danwydd. Cafodd datrysiadau batri hybrid eu treialu hefyd ar safleoedd unedau ar gyfer *EastEnders*, *Silent Witness* ac ail gyfres *Here We Go*, gan leihau'r defnydd o danwydd a dangos prawf cysyniad i'w ddilyn gan gynrychiadau eraill.

Newidiadau o ran y defnydd o ynni

	Uned	2019/20	2022/23	2023/24
Nwy naturiol	kWh	78,564,038	63,385,755	61,841,587
Diesel	litrau	1,213,091	816,466	811,603
Petrol	litrau	142,657	167,510	195,855
Arall	litrau	93,194	86,820	217,509
Gwresogi ardal a stêm	kWh	509,850	442,185	481,982
Cyfanswm y trydan a brynwyd	kWh	180,585,585	159,357,340	154,309,371
Trydan adnewyddadwy a brynwyd	kWh	161,706,340	141,832,984	137,303,863
Trydan adnewyddadwy hunangynhyrchu	kWh	126,619	695,840	836,415

Gwastraff

Ar ôl peilot llwyddiannus gydag *EastEnders*, mae mwy o gynrychiadau BBC Studios yn y DU wedi gweithio gyda menter gymdeithasol leol, Community Wood Recycling, i atal coed a ddefnyddir ar setiau rhag mynd i wastraff, gan arwain at arbed 42 o dunelli o goed rhag mynd i safleoedd tirlenwi neu gael eu llosgi ar draws BBC Studios yn 2023.

Mae safleoedd Grŵp y BBC yng Nghymru a Lloegr wrthi'n ymgymryd ag ardystiad Zero Waste to Landfill gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon, ac mae cynlluniau tebyg ar gyfer safleoedd yr Alban a Gogledd Iwerddon wrthi'n cael eu harchwilio.

i t.29 I ddarllen mwy am raglennu cynaliadwy

Astudiaeth achos: Datgarboneiddio cynrychiadau drama



Mae ein cymorth pwrpasol ar gyfer rhaglenni allweddol wedi datgelu, o'u targedu'n gynnar, y gall ymyriadau cynnar wedi'u targedu â chynrychiadau gael canlyniadau drammatig ar eu hól troed carbon. Er enghraifft, gostyngodd *The Responder* ei ôl troed carbon 69% drwy symud i safleoedd ecogyfeillgar, gan arbed bron i 200 tCO₂e o gymharu â chyfres un. Gwelodd *Blue Lights* ostyngiad o 64% drwy roi'r gorau i ddefnyddio tanwydd diesel gan ddefnyddio HVO mewn generaduron a cherbydau cynhyrchu, ynghyd â defnyddio pŵer y glannau. Gyda gweithredoedd yn cynnwys defnyddio trenau a cherbydau hybrid yn lle hediadau i Baris, arbedodd *Death in Paradise* 634 tCO₂e a gostyngodd ôl troed carbon y gyfres 44%, gan ddangos, ag ymyriadau strategol, y gall cynrychiadau a gaiff eu fflmio dramor wneud gostyngiadau carbon sylweddol o hyd.

Mewn manau eraill, mae'r cyfresi diweddaraf o *Strike* a *Wolf Hall: The Mirror and the Light* wedi bod yn treialu Green Rider Equity – gyda Mark Rylance, Tom Burke a Holliday Grainger i gyd yn cael eu penodi fel cynrychiolwyr cast ac yn ymgysylltu â chydweithwyr drwy gydol y broses gynhyrchu. Yn ystod y broses gynhyrchu, mae'r rhaglenni hyn eisoes wedi cyflwyno mesurau arbed carbon uchelgeisiol.

Cynhaliodd cydweithwyr yn BBC IT Policy and Governance a'r Gwledydd ddiwyddiadau Asset Amnesty, a oedd yn annog cydweithwyr i ddychwelyd cyfarpar technoleg nad oedd eu hangen arnynt mwyach, i'w aildefnyddio yn y BBC neu i'w werthu drwy Ramco (busnes adfer ac aildefnyddio asedau arbenigol). Ers mis Ebrill 2023, cynhaliodd digwyddiadau amnest llwyddiannus yn Llundain, Salford, Glasgow, Belfast, Birmingham, Caerdydd a sawl safle arall yng Nghymru a dau safle BBC Studios, gan gasglu miloedd o asedau (gliniaduron, cyfrifiaduron personol, MacBooks, iPhones, iPads, monitorau, ceblau). Llwyddwyd i aildefnyddio 541 o liniaduron/MacBooks yn y BBC, gan osgoi prynu dyfeisiau newydd rhwng mis Tachwedd 2021 a diwedd Mawrth 2024.

Mae ein cydberthynas â Ramco wedi arwain at adfer ac ailgartrefu miloedd o eitemau, sy'n pwyso mwy na 71 o dunelli, yn hytrach na mynd i ffrydiau gwastraff a lleihau'r costau a'r carbon y byddai hyn wedi'i greu.

Data gwastraff

Ar hyn o bryd, dim ond ar gyfer safleoedd yn y DU mae'r data hyn ar gael, nid ar gyfer swyddfeydd rhyngwladol.

Pob uned mewn tunelli	2019/20	2022/23	2023/24
Gwastraff a ailgylchwyd	1,950	1,020	823
Gwastraff a losgwyd gan adfer ynni	1,176	1,122	1,252
Gwastraff i safleoedd tirlenwi	394	22	20
Treulio anaerobig	222	145	146
Gwastraff TGCh a ailgylchwyd	44	22	24
Cyfanswm gwastraff	3,786	2,331	2,265
Aildefnyddio	0	44	113

Gwaith elusennol



Vernon Kay gyda Pudsey ar ôl gorffen ei Ultra Ultramarathon 115 o filltiroedd o hyd a chodi £6 miliwn i BBC Plant mewn Angen

Ers i Apêl gyntaf y BBC gael ei darlledu ym mis Chwefror 1923, mae cynulleidfaoedd wedi bod yn eithriadol o hael yn eu hymatebion i apeladau elusennol ar yr awyr. Gwelwyd hyn eto y flwyddyn hon, gyda miliynau'n cael ei godi, a fydd o fudd i unigolion, cymunedau a sefydliadau ar draws y DU a'r byd. Rydym yn ddiolchgar iawn i'n cynulleidfaoedd am eu cymorth parhaus.

Y flwyddyn hon, rhoddodd y BBC amser ar yr awyr i 60 o elusennau drwy Apêl Radio 4 a rhaglen *Lifeline* ar BBC One. Caiff elusennau eu dewis ar gyfer yr apeladau mynediad hyn gan Bwyllgor Cynghori ar Apeliadau'r BBC ar ôl proses ceisiadau chwarterol drylwyr. Cafodd amrywiaeth eang o straeon amrywiol o bob cwr o'r DU a'r byd eu hadrodd yn y darllediadau a gellir gweld effaith rhoddion y cynulleidfaoedd yn bbc.co.uk/charityappeals/what-your-money-does.

Yng Ngogledd Iwerddon, cafwyd naw Apêl ar BBC Radio Ulster/Foyle a phedair Apêl ar deledu BBC Northern Ireland. Lluniwyd ffilmiau byr i gyd-fynd â hyn ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol. Gwahoddwyd ceisiadau hefyd ar gyfer slotiau Apêl sydd i ddod. Mae'r Apeliadau darlledu yng Ngogledd Iwerddon yn dal i ganolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o waith elusennau lleol a'u hanghenion cymorth.

Ym mis Rhagfyr, cafodd Apêl Nadolig flynyddol Radio 4 ar y cyd ag Elusen St Martin-in-the-Fields ei darlledu. Mae wedi codi cyfanswm o fwy na £5 miliwn. Mae'r arian hwn yn helpu pobl o bob cwr o'r DU i ddod o hyd i fan diogel i fyw ac i gael gafaal ar y cymorth sydd ei angen arnynt.

Ni chafodd unrhyw apeladau eu lansio ar gyfer y Pwyllgor Argyfwng Trychinebau yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mae arian wedi parhau i ddod i mewn ar gyfer Apêl Daearyn Twrci-Syria a ddarlledwyd ym mis Chwefror 2023 ac roedd wedi codi £159 miliwn erbyn diwedd mis Mawrth 2024.

BBC Plant mewn Angen

Ar hyn o bryd mae elusen y DU y BBC yn ariannu mwy na 1,500 o elusennau a phrosiectau lleol yn y pedair gwlad, gan helpu i wella bywydau 426,000 o blant a phobl ifanc yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig. Cefnogodd cydweithwyr o bob rhan o'r BBC yr Apêl yn 2023, gan rannu'r straeon pwerus hyn ac ysbrydoli'r cyhoedd ledled Prydain i ymateb gan ddangos haelioni eithriadol unwaith eto. Ymhlith y rhaglennu arbennig roedd: *Countryfile Ramble*; *DIY SOS Children in Need Special*; *The Challenge Squad* gyda *The One Show*, *Morning Live* a BBC Radio 2; ac Ultra Ultramarathon Vernon Kay gyda Radio 2. Cyhoeddwyd bod cyfanswm anhygoel o £34 miliwn wedi'i godi ar ddiwedd ymgyrch yr Apêl, ac mae'r ffigur wedi parhau i gynyddu. Ceir rhagor o wybodaeth yn bbc.co.uk/pudsey.

BBC Media Action

Llwyddodd BBC Media Action, sef elusen ryngwladol y BBC, i gyrraedd 100 miliwn o bobl mewn 23 o wledydd incwm isel a chanolig y flwyddyn ddiwethaf, gan gefnogi'r cyfryngau y gellir ymddiried ynddynt sy'n hanfodol i ddemocratiaeth a datblygiad.

Ymysg yr uchafbwyntiau roedd gweithio gyda darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn Wcráin, Moldofa, Georgia ac Armenia i helpu i wrthbrofi camwybodaeth; mentora menywod ifanc mewn newyddiaeth cyn etholiadau Zambia; lansio rhaglennu *Lifeline* ar gyfer cynulleidfaoedd yn Libya yn dilyn llifogydd

100 miliwn

nifer y bobl a gyrhaeddwyd gan BBC Media Action mewn 23 o wledydd incwm isel a chanolig yn 2023/24

426,000

Mae BBC Plant mewn Angen wedi helpu i wella bywydau 426,000 o blant a phobl ifanc dros y flwyddyn ddiwethaf.

trychinebus; a chynnal prosiect cymorth cyfryngau mawr yn Sierra Leone, Bangladesh ac Ethiopia drwy rannu'r hyn a ddysgwyd ar draws ein rhwydweithiau. Lansiodd prosiect cymorth cyfryngau newydd cyffrous yn Ynysoedd Solomon ein proses o ehangu i ranbarth y Môr Tawel. Rydym yn parhau i weithio gyda darlledwyr radio a arweinir gan fenywod yn Affganistan i ddarparu gwybodaeth iechyd gritigol, a gyda newyddiaurwyr a llunwyr cynnwys yn Bangladesh ar adrodd ar effeithiau ac addasiadau hinsawdd lleol. Dysgwch fwy yn bbcmediaaction.org.

Comic Relief

Parhaodd y BBC i roi cymorth eang i Comic Relief. Mae Diwrnod Trwynau Coch 2024 wedi codi mwy na £41 miliwn hyd yma a bydd yr arian a godwyd yn helpu'r sawl sydd ei angen fwyaf yn y DU a ledled y byd.

Ym mlwyddyn olaf Syr Lenny Henry gwelwyd cynnydd eithriadol mewn incwm a sgorau gyda chyfres wych o gyflwynwyr, sgetsys gan gynnwys *The Traitors*, *W1A*, *Mastermind* a mwy, ffilmiau apêl, gwobrau, cefnogwyr, perfformiadau cerddorol, cynnwys byw ar BBC Two, trosfeddiannu cefn llwyfan ar TikTok, moment annisgwyl i werthfawrogi effaith Lenny dros y blynyddoedd, cynnwys o'r archif a ffilm yn codi'r llen ar daith hinsawdd Comic Relief.

Gwnaethom werthfawrogi cymorth gan orsafoedd radio mawr, *The One Show*, *BBC Breakfast*, CBBC, *Blue Peter* a CBeebies. Cododd *Morning Live* a Radio 1 fwy na £1 miliwn ar gyfer Her Pedal Power Mollie King, a denodd ein harchwilwyr yn yr Arctig fwy na £0.7 miliwn. Gallwch ddarllen mwy yn comicrelief.com.

Partneriaethau a mentrau cydweithredol

Mae gan y BBC gannoedd o bartneriaethau – bach a mawr – yn amrywio o sefydliadau diwylliannol rhyngwladol, cyrff diwydiant a phrifysgolion, i elusennau, gwyliau, grwpiau cymunedol, sefydliadau cyfryngau eraill a chwmnïau technoleg byd-eang.

Drwy gydweithio, mae'r BBC a'i bartneriaid yn creu cynnwys uchelgeisiol, gan gyflawni mwy na'r hyn y gallai pob sefydliad ei wneud ar wahân a sicrhau gwerth i gynulleidfaoedd.

Y flwyddyn hon, mae partneriaethau wedi chwarae rôl allweddol yn gwella hygyrchedd i'r diwydiant sgrin; gan alluogi straeon cartref i gael eu hadrodd drwy fuddsoddi mewn talent o Brydain; a chefnogi'r broses o adrodd mewn modd diduedd y gellir ymddiried ynddo yn y DU a ledled y byd.

Dod â phobl ynghyd

Ym mis Mai 2023, denodd Rownd Derfynol Eurovision Song Contest ffigurau uchafbwynt pum munud o 11 miliwn, gyda chyfartaledd o 9.9 miliwn a chyfran o 63% yn ôl data dros nos. Cyflawnodd cynnwys Eurovision ar Deledu'r BBC rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Mai 2023 gyrhaeddiad o 26.3 miliwn ar draws cynulleidfaoedd y DU (yn seiliedig ar gyrhaeddiad tri munud).

Aeth effaith Eurovision Song Contest 2023 ymhell y tu hwnt i'r rhaglenni byw trawiadol. O wyliau diwylliannol, addysgol a chymunedol eithriadol Lerpwl i'r amrywiaeth eang o gynnwys ychwanegol ym mhob rhan o'r BBC i EuroClub a'r Eurovision Village, profodd Eurovision 2023 fod y dywediad 'United by Music' yn wir.

Fel prif ddarlledwr, bu'r BBC yn gweithio gyda'r Darlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus UA:PBC o Wcráin sef enillwyr 2022, yr Undeb Darlledu Ewropeaidd, Cyngor Dinas Lerpwl a Dinas-Ranbarth Lerpwl i greu a chyflawni rhywbeth gwirioneddol arbennig.

Rhoddodd yr arlwy diwylliannol ran ganolog i Wcráin a chynlluniwyd logo calon yn curo'r gystadleuaeth drwy bartneriaeth greadigol rhwng asiantaethau creadigol yn y DU ac Wcráin, a gydlynwyd gan y BBC.

Rhoddodd Eurovision hwb gwerth £54.8 miliwn i economi Dinas-Ranbarth Lerpwl gyda bwytaï, darparwyr llety, siopau, bariau a rhydwethiau trafniadaeth i gyd yn elwa. Ynghyd â chyflwyno gwerth economaidd enfawr i'r ddinas, cafodd balchder y bobl hwb hefyd drwy groesawu'r byd i'w dinas. Bu pum gwerthusiad annibynnol manwl yn astudio effeithiau economaidd, diwylliannol a llesiant y digwyddiad.

Aeth 473,000 o bobl i gyd i ddigwyddiadau Eurovision yn y ddinas, gyda 306,000 o ymwelwyr ychwanegol yn mynd i Lerpwl i fod yn rhan o'r dathliadau.

Gwnaeth Eurovision 2023 waith eithriadol yn rhoi sbotolau ar ddinas Lerpwl, ond teimlwyd ei bresenoldeb ar draws y DU hefyd, gyda sgriniau awyr agored mawr a sinemâu yn darlledu'r gystadleuaeth fel y gallai cymunedau ar hyd a lled y DU gynnal eu partion eu hunain.

Buddsoddi mewn talent a chreadigrwydd cartref

Mae'r BBC wedi dod ynghyd â Sefydliad Ffilm Prydain (BFI), asiantaethau sgrin cenedlaethol, darlledwyr eraill, undebau talent a chwaraewyr allweddol o sectorau ffilm a theledu'r DU i fynd i'r afael â'r heriau systemig i feithrin sgiliau yn y diwydiant. Cynullwyd y Screen Sector Skills Task Force gan y BFI i gytuno ar strategaeth ar draws y sector ar gyfer meithrin sgiliau ar draws y DU, sy'n cyd-fynd ag uchelgais y Llywodraeth ar gyfer twf gwerth £50 biliwn yn Niwydiannau Creadigol y DU erbyn 2030.

Mae'r DU yn ganolfan arloesol sy'n arwain y byd ar gyfer cynhyrchu ffilm a theledu ac er ein bod yn wynebu marchnad fwy anodd na'r hyn a welwyd mewn blynyddoedd diweddar, mae cyfle mawr ar gyfer twf yn y degawd sydd i ddod. Mae'r Tasglu yn cydnabod bod ymrwymiad ar draws y sector i flaenoriaethu sgiliau yn hanfodol i ddatgloi'r potensial hwn.

Mae partneriaeth y BBC gyda National Film and Television School (NFTS) yn parhau i fynd o nerth i nerth. Yn y BATFAs y flwyddyn hon, enillodd y garfan gyntaf o ysgolheigion y BBC, Yasmin Afifi ac Elizabeth Rufai wobr y film fer Brydeinig orau am *Jellyfish and Lobster*.

Astudiaeth achos: *Wild Isles*



Roedd *Wild Isles* gyda Syr David Attenborough yn gyfres nodedig newydd a ddatgelodd y bywyd gwyllt amrywiol a'r cynefinoedd dramatig sy'n bodoli ym Mhrydain ac yn Iwerddon. Roedd partneriaethau'n hanfodol i'r broses greu a gweithredu, gan ehangu'r gyfres y tu hwnt i ddarlledu llinellol.

Roedd Y Brifysgol Agored, y WWF a'r RSPB yn gyd-gynhyrchwyr a helpodd y ffordd newydd hon o weithio i ehangu cyrhaeddiad y gyfres drwy hyrwyddo ar eu llwyfannau, i'w haelodau a'u cynulleidfaoedd. Comisiynodd yr RSPB, y WWF a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol (sydd â 6.8 miliwn o aelodau i gyd) raglen ddogfen arbennig wedi'i hysbrydoli gan *Wild Isles* a oedd ar gael ar iPlayer yn unig fel cynnwys ychwanegol. Lluniodd Y Brifysgol Agored fap o'r rhywogaethau a geir ar draws y DU. Cynhaliodd y WWF a'r RSPB ymgyrch i dynnu sylw at natur a gollir a'r camau y gellid eu cymryd i unioni hyn.

Hefyd, lluniodd sefydliadau fel Scouts, Girlguiding, yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt a Choed Cadw gynnwys a gweithgareddau wedi'u hysbrydoli gan *Wild Isles* ar gyfer eu haelodau (sy'n tua 2 filiwn gyda'i gilydd).

Cymerodd 532 o amgueddfeydd ac orielau ar draws y DU a Gogledd Iwerddon ran yn 'The Wild Escape', gan annog plant i greu gwaith celf wedi'i ysbrydoli gan eu hoff anifail yn eu hamgueddfa leol, dan arweiniad Art Fund a gyda chefnogaeth Arts Council England.

Ar lawr gwlad, casglodd y BBC grŵp o sefydliadau amrywiol a arweinir gan wirfoddolwyr ynghyd i ysgogi eu cynulleidfaoedd i weithredu drwy ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol.

Awgrymodd ymchwil fanwl ac arolygon cynulleidfaoedd fod cysylltiadau cryf a chadarnhaol rhwng gwyllo'r gyfres a chanlyniadau fel:

- cynnydd mewn ymwybyddiaeth o gyflwr presennol byd natur yn y DU
 - ymweliadau ychwanegol â mannau gwyrdd
 - cynnydd mewn ymddygiadau o blaid yr amgylchedd, fel peidio â thorri'r gwair mewn rhai ardaloedd, osgoi mawn a phlannu
- Gellir pwysu a mesur gwerth y cynnydd hwn yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth ar lesiant hunangofnodedig. Ar lefel gymdeithasol yn y DU, amcangyfrifwyd bod cyfanswm y gwerth oherwydd llesiant gwell sy'n gysylltiedig ag ymddygiadau a ysbrydolwyd drwy wyllo *Wild Isles* yn £134.7miliwn.



Partneriaethau a mentrau cydweithredol – parhad

Ym mis Hydref 2023, lluniodd y BBC bartneriaeth ag NFTS a Channel 4 i gyflwyno pythefnos o sesiynau ar-lein am ddim wedi'u hanelu at weithwyr llawrydd sy'n gweithio ar gynyrchiadau wedi'u sgrïptio a heb eu sgrïptio.

Parhaodd y BBC ac NFTS i gynnal hyfforddiant gwerthfawr i fenywod sy'n creu ffilmiau eu hunain gyda chyrsgiau'n cael eu cynnal yng Nghaerdydd, Glasgow, Leeds a Belfast yn 2023. Bu NFTS hefyd yn gweithio gyda BBC Academy i gynnal digwyddiadau Production Unlocked am ddim yng Nghaerdydd, Glasgow, Birmingham a Bryste a bwriedir cynnal sesiwn yn Newcastle ym mis Ebrill.

Lluniodd y BBC bartneriaeth â Screen Alliance North (North East Screen, Liverpool Film Office, Screen Yorkshire a Screen Manchester) fel rhan o wyl *Bring the Drama* y BBC gan gydweithio ar gyfres o ddigwyddiadau Connected Communities yn Hartlepool, Lerpwl a Manceinion ar ddechrau 2024. Nod y gyfres o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb ac ar-lein oedd gwella hygyrchedd i'r diwydiant sgrin a gwella arferion gweithio, gan annog gweithlu mwy amrywiol a chynhwysol.

Mewn camau pellach i wneud ein gweithleoedd a'n cynnwys yn fwy cynhwysol, lansiodd BBC Cymru Siarad Anabledd mewn partneriaeth ag Anabledd Cymru. Bu BBC Wales hefyd yn gweithio gyda Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru er mwyn lansio Canolfan Hyfforddiant Cerddorfa Ieuencid Agored Cymru, gan gynnig cyfleoedd ymgysylltu proffesiynol ar gyfer cerddorion ifanc anabl.

Gan agor y sector cerddorfeidd i dalent newydd, mae Cerddorfeidd y BBC a Gwobrau i Gerddorion Ifanc yn creu partneriaeth ar Exchange, rhaglen fentora sydd â'r nod o godi dyheadau a mynd i'r afael â rhwystrau systemig at yrfaeodd mewn cerddoriaeth glasurol drwy gefnogi pobl ifanc dalentog o deuluoedd incwm isel.

Canfod y gwirionedd

Mae'r Partneriaethau Newyddion Lleol yn gydweithrediad rhwng y BBC a'r diwydiant newyddion rhanbarthol yn y DU i gefnogi gohebu gwasanaeth cyhoeddus, cynnal democratiaeth leol a gwella sgiliau mewn newyddiaduraeth. Mae'n cefnogi newyddiaduraeth mwy na 200 o bartneriaid cyfryngau rhanbarthol sy'n gyfrifol ar y cyd am fwy na 1,100 o frandiau newyddion print, ar-lein a darlledu unigol ar draws y DU. Dros y flwyddyn ddiwethaf, cyflwynodd y Partneriaethau Newyddion Lleol fwy na 60,000 o straeon budd y cyhoedd drwy'r Gwasanaeth Adrodd ar Ddemocratiaeth Leol, gan olygu bod y gwasanaeth wedi cyhoeddi 400,000 o straeon ers ei lansio yn 2018.

Hefyd, cyflwynodd yr Uned Rhannu Data, sy'n cyflwyno newyddiaduraeth ymchwiladol o ansawdd uchel i'r rhwydwaith partneriaeth a'r BBC, wyth ymchwiliad dros y 12 mis diwethaf. Defnyddiwyd y straeon hynny, ar bynciau'n amrywio o'r mynydd o ddyled sydd gan awdurdodau lleol i'r argyfwng mewn gofal cymdeithasol, gan o leiaf 350 o bartneriaid cyfryngau allanol a llu o lwyfannau rhwydwaith a rhanbarthol y BBC.

Mae BBC News yn gweithio mewn partneriaeth â darlledwyr eraill, ac mae'n parhau i gael effaith yn fyd-eang. Parhaodd BBC Media Action, elusen ryngwladol y BBC â'i gwaith â darlledwyr lleol mewn 24 o wledydd, gan gefnogi cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sy'n cyfrannu at waith datblygu a democratiaeth, gan gynnwys sawl gorsaf radio sy'n canolbwyntio ar fenywod ac a arweinir gan fenywod yn Affganistan sy'n dal i weithredu er gwaethaf y cyfyngiadau ar hawliau menywod, a phartneriaid cyfryngau budd cyhoeddus yn Wcráin sy'n parhau i addasu eu gwaith er mwyn aros ar yr awyr a chynnig gwybodaeth ddiudedd y gellir ymddiried ynddi mewn cyfnod o ryfel.

Adelidau incwm masnachol

Dychwelodd *Doctor Who* i'r sgriniau teledu wrth i ddau o gewri'r byd adloniant, y BBC a Disney Branded Television, ddod ynghyd i drawsnewid *Doctor Who* yn fasnachfrait fyd-eang ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU a gweddill y byd.

O dan weledigaeth greadigol a rennir, maent yn cyflwyno'r rhaglen gynhenid Brydeinig hon i genedlaethau newydd ar raddfa nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen wrth i'r cydweithrediad newydd weld Disney+ yn dod yn gartref i gyfresi newydd o *Doctor Who* y tu allan i'r DU ac Iwerddon. Daeth y partneriaid ynghyd o dan weledigaeth gadarn Russell T Davies a dychwelodd, gyda'r rhaglen yn cael ei chynhyrchu yng Nghymru gan Bad Wolf gyda BBC Studios Production.

Partneriaethau a mentrau cydweithredol ar draws y BBC yn 2023/24

Maes y BBC	Nifer y Partneriaid
Cynnwys	266
Prif Grŵp Gweithredu	31
Materion Corfforaethol	7
Technoleg	45
Newyddion a Materion Cyfoes	5
Y Gwledydd (cyfanswm)	91
<i>Lloegr</i>	55
<i>Yr Alban</i>	16
<i>Cymru</i>	9
<i>Gogledd Iwerddon</i>	2
<i>Y Gwledydd (cyffredinol)</i>	9
Cyfanswm	445



Astudiaeth achos: 500 Words



Dychwelodd 500 Words i'r BBC yn 2023 a denodd y gystadleuaeth ysgrifennu i blant 5-11 oed fwy na 44,000 o gynigion.

Lansiwyd y gystadleuaeth ar Ddiwrnod Llyfr y Byd 2023 gyda rownd derfynol fawreddog yn cael ei darlledu ar Ddiwrnod Llyfr y Byd 2024. Cafodd ei chyflwyno drwy Lwyfan BBC Teach BBC Education, gan gydweithio â'r partneriaid darlledu BBC Breakfast a The One Show.

Bu'r BBC hefyd yn gweithio gyda nifer enfawr o bartneriaid a gynigiodd eu sgiliau, eu harbenigedd a'u creadigrwydd i wella maint ac uchelgais pob agwedd ar y gystadleuaeth glodwiw o awgrymiadau ac ysbrydoliaeth ar ysgrifennu straeon i feirniadu'r awduron a gyrhaeddodd y rhestr fer a rhoi gwobrau i'r enillwyr.

Mae'r ysgrifennu creadigol gan blant a gyflwynwyd i'r gystadleuaeth hefyd wedi'i ddadansoddi gan Oxford University Press (OUP), sydd wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â BBC 500 Words ers mwy na deg mlynedd i greu cyfres o adroddiadau ar iaith plant.

Ychwanegwyd y straeon at Oxford Children's Corpus, un o gronfeydd data mwyaf y byd o iaith ysgrifenedig plant yn Saesneg, sy'n cynnwys mwy na hanner biliwn o eiriau, ac a ddefnyddir yn rheolaidd i lywio gwaith ymchwil ar iaith ehangach OUP.

Mae BBC Commercial yn cefnogi'r BBC drwy gynhyrchu incwm ar gyfer Grŵp y BBC. Mae ei weithrediadau yn cynyddu gwerth byd-eang eiddo deallusol y BBC – ei frandiau, ei straeon a'i ddarllediadau – i'r eithaf, gan ariannu cynnwys nodedig o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd y DU, a hyrwyddo ansawdd a chreadigrwydd y BBC ar lwyfan rhyngwladol.

Prif gangen fasnachol BBC Commercial yw BBC Studios, sy'n cynnwys Content Studio, sy'n creu ac yn gwerthu rhaglenni i gynulleidfaoedd yn y DU a chynulleidfaoedd rhyngwladol, a Global Media & Streaming, portffolio o sianelau llinellol, gwasanaethau digidol a gwasanaethau uniongyrchol i'r defnyddiwr, sy'n cyrraedd cynulleidfaoedd byd-eang lle bynnag y bônt.

Mae BBC Studios yn chwarae rôl allweddol wrth gefnogi strategaeth Gwerth i Bawb newydd y BBC. Mae BBC.com yn arddangos gweithgarwch y BBC i gyflwyno'r gwirionedd i gynulleidfaoedd byd-eang heb agenda, mae ei dimau a'i labeli cynhyrchu yn adrodd straeon Prydeinig clodwiw, ac mae ei dîm Adloniant Byd-eang yn dod â phobl ynghyd, drwy ddigwyddiadau fel Eurovision, a straeon cymhellol gan frandiau poblogaidd fel *Dancing with the Stars*.

Mae'r adran hon yn nodi cerrig milltir allweddol ar gyfer gweithrediadau masnachol y BBC yn ystod y flwyddyn ariannol, ei berfformiad yn erbyn nodau strategol y BBC, uchafbwyntiau allweddol o ran cynnwys yn y DU a ledled y byd, gwaith ar newid diwylliant a'r rhagolwg ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan gynnwys amodau'r farchnad a chynnwys sydd ar ddod.

Bwrdd Masnachol y BBC sy'n goruchwyllo'r broses o gyflawni uchelgeisiau masnachol y Gorfforaeth. Mae'n adrodd i Fwrdd y BBC ar y broses o gyflawni amcanion BBC Commercial, yn unol â strategaeth fasnachol gyffredinol y BBC.

Cadeirir y Bwrdd Masnachol gan Syr Damon Buffini, Dirprwy Gadeirydd Bwrdd y BBC, ac mae'n cynnwys mwyafrif o chwe aelod anweithredol, ynghyd â thri aelod gweithredol.

t.76

Adolygiad y Prif Swyddog Gweithredol

t.77

Adolygiad strategol

Morfil cefngrwm oddi ar arfordir Ynys Vancouver, *Planet Earth III*, a greëyd gan Uned Hanes Naturiol BBC Studios



GWEITHREDIADAU MASNACHOL

ADOLYGIAD PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL BBC COMMERCIAL



“Roedd 2023/24 yn flwyddyn o fuddsoddiad sylweddol mewn twf cynaliadwy ar gyfer Grŵp Masnachol y BBC, gan gyflawni gwerthiannau o £1.9 biliwn (2022/23: £2.1 biliwn) mewn marchnad anodd.”

Gwnaethom gyfres o gaffaeliadau strategol allweddol: ym maes ffrydio, gan gynnwys, yn fwyaf nodedig, cymryd perchnogaeth lwyr dros BritBox International, y gwasanaeth ffrydio digidol proffidiol sy'n tyfu'n gyflym, sy'n creu ac yn bodloni galw am raglennu Prydeinig y tu allan i'r DU.

Gwnaethom hefyd ehangu ein hól troed cynhyrchu rhyngwladol drwy gaffaeliadau newydd yn Sgandinafia, Sbaen ac Awstralia yn fuan ar ôl diwedd y flwyddyn.

Gwnaethom uwchraddio BBC.com a lansio ap rhyngwladol newydd, gan ei gwneud yn haws cael gafael ar gynnwys BBC News y tu allan i'r DU; buddsoddi mewn gwasanaethau presennol yng ngwasanaeth ffrydio byw UKTV, UKTV Play, gan gynyddu nifer yr ymweliadau â gwerth ariannol bron 50% yn 2023; a chreu is-adran sain newydd ar ôl diwedd y flwyddyn, gan agor y farchnad fasnachol i fformatau radio poblogaidd y BBC.

Ymysg cyflenwad ein Content Studio o gynnwys o'r radd flaenaf roedd ail gyfres *Time*, *Planet Earth III*, *The Famous Five*, *The 1% Club*, *Einstein and the Bomb*, Eurovision a'r darllediad o'r Coroni yn ystod y flwyddyn.

Ni oedd y cynhyrchydd a enillodd y nifer mwyaf o wobrau yn y DU unwaith eto, yn ogystal â dosbarthwr mwyaf blaenllaw y DU.

Aeth poblogrwydd *Bluey* drwy'r to yn fyd-eang, ac yn ôl data Nielsen, dyma'r rhaglen a gafodd ei ffrydio fwyaf ond un yn yr UD mewn unrhyw genre yn 2023. Cyrhaeddodd y brand llwyddiannus i blant gynulleidfaoedd mewn 140 o diriogaethau yn sgil lansio gêm, profiadau trochol, llyfrau a nwyddau eraill, gan hybu gwerthiannau ar gyfer cynhyrchion i ddefnyddwyr.

Dathlodd *Doctor Who* 60 mlynedd gyda thair pennod arbennig ar gyfer y Nadolig a *Doctor* newydd, sef Ncuti Gatwa, wrth i'r gyfres gael ei darlledu am y tro cyntaf ar Disney+.

Ochr yn ochr â'i wasanaeth ffrydio am ddim, perfformiodd rhwydwaith UKTV yn dda, gan gynyddu ei gyfran o'r gynulleidfa fasnachol mewn marchnad hysbysebu feddal, a chyrrhaeddodd nifer y sianelau rhyngwladol a ariennir drwy hysbysebion (FAST) 36, gan gynnwys Sianel BBC News am y tro cyntaf.

Cafodd BBC Studios ei gynnwys yn rhestr glodwiw Glassdoor o'r 50 o leoedd gorau i weithio ynddynt yn y DU yn 2024, a dyma'r cwmni teledu uchaf yn y rhestr, gan ddangos ein ffocws ar ddatblygu diwylliant arloesol cryf sy'n blaenoriaethu creadigrwydd fel rhan allweddol o'n strategaeth.

Wrth edrych i'r dyfodol, ein huchelgais yw dyblu ein gwerthiannau a'n helw yn 2021/22 erbyn 2027/28, a chyflawni ein mandad i sicrhau gwerth hirdymor cynaliadwy i'r BBC a chefnogi ei strategaeth gyffredinol o sicrhau gwerth i gynulleidfaoedd y DU.

Mae'r nod hwn wedi'i ategu gan ein cyflenwad cymhellol sy'n tyfu'n gyflym o gynnwys creadigol, camau diweddar i gyfuno ein llwybrau marchnata, a'r broses barhaus o gyflawni buddsoddiadau arfaethedig mewn twf.

Tom Fussell
Prif Swyddog Gweithredol,
BBC Commercial
10 Gorffennaf 2024

Adolygiad strategol – BBC Commercial

Adolygiad ariannol

Sicrhaodd BBC Commercial brif werthiannau o £1.9 biliwn (2022/23: £2.1 biliwn), gydag EBITDA o £199 miliwn (2022/23: £252 miliwn). Y diffyg gweithredu statudol yw £56 miliwn (2023: gwarged o £106 miliwn).

Sicrhaodd BBC Studios, fel y brif gangen fasnachol, werthiannau o £1.8 biliwn (2022/23: £2.1 biliwn) yn erbyn cefndir o amodau gweithredu heriol iawn, ac roedd y marchnadoedd comisiynu a gwerthu gofod hysbysebu meddal, yn ogystal â'r broses o gyflwyno refereniw ar gyfer partneriaethau sawl blwyddyn a roddodd hwb i werthiannau 2022/23, yn sail i'r newidiadau yn y prif ffigurau ariannol o un flwyddyn i'r llall. Fel busnes byd-eang amrywiol sydd â chyflenwad cryf o gynnwys a chydberthnasau â brandiau byd-eang fel Disney, roedd gwerthiannau cryf ar gyfer UKTV a chynhyrchion i ddefnyddwyr – yn arbennig *Bluey* – yn uchafbwynt.

Perfformiad yn ôl math o fusnes

	Gwerthiannau £m		EBITDA £m	
	23/24	22/23	23/24	22/23
Content Studio	1,354	1,612	114	146
Global Media & Streaming	549	535	85	107
Addasiadau'r Grŵp	(66)	(57)	3	(1)
Cyfanswm BBC Studios	1,837	2,090	202	252
Cyfanswm BBC Commercial	1,859	2,115	199	252

EBITDA yw'r dull anstatudol o fesur perfformiad ariannol a ddefnyddir gan y Grŵp Masnachol i asesu perfformiad ar sail gyfarwydd o un flwyddyn i'r llall. Ni ddylid ystyried ei fod yn ddarlun cyflawn o berfformiad ariannol y Grŵp Masnachol, mae'r cysoniad i'r diffyg gweithredu statudol i'w weld yn adolygiad y Prif Swyddog Gweithredu.

Roedd EBITDA o £202 miliwn (2022/23: £252 miliwn) ar gyfer BBC Studios yn is o un flwyddyn i'r llall, gan adlewyrchu'r cytundebau eithriadol dros sawl blwyddyn yn ystod y flwyddyn flaenorol y cyfeiriwyd atynt uchod, a'r farchnad gwerthu gofod hysbysebu feddalach. Fel y nodwyd yn rhagolwg adroddiad y flwyddyn ddiwethaf, roedd EBITDA hefyd yn is ar ôl gwneud buddsoddiadau strategol yn y busnes i gefnogi twf cynaliadwy hirdymor, yn bennaf yn UKTV Play a BBC.com.

Cafodd hyn ei ystyried yn ennill o waredu £202 miliwn yn dilyn caffael y 50% arall o BritBox International; mae hyn yn cynrychioli'r newid i gyfrif am y busnes fel is-gwmni, yn hytrach na menter ar y cyd, nawr ei fod dan berchnogaeth lwyf.

Content Studio

Mae'r Content Studio yn creu amrywiaeth eang o gynnwys o ansawdd uchel sy'n boblogaidd ymhlith cynulleidfaoedd ym mhob cwr o'r byd, sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn dod â phobl ynghyd.

Mae'n cwmpasu rhaglennu a wneir ar draws y genres Cynnwys wedi'i Sgriptio, Ffeithiol, Adloniant Byd-eang a Phlant a Theulu; masnachfreintiau byd-eang, gan gynnwys *Dancing With The Stars*, *Doctor Who* a *Bluey*; a chanolfannau cynhyrchu ledled y byd, ar gyfer amrywiaeth eang o gwsmeriaid byd-eang,

yn ogystal â chyllido, dosbarthu a thrwyddedu cynnwys a fformatau ar sail fyd-eang.

Cafodd saith o'r deg rhaglen mwyaf poblogaidd yn y DU yn 2023 eu creu gan BBC Studios. Roedd y rhain yn cynnwys Coroni Ei Fawrhydi Y Brenin ac Ei Mawrhydi Y Frenhines Gydweiddog, gyda'r gwasanaeth yn cael ei wyluo gan gynulleidfa gyfartalog o 14.6 miliwn, *Coronation Concert* ac Eurovision Song Contest, a chawsant eu darlledu gan y BBC i wylwyr ledled y byd.

Fel y cwmni cynhyrchu mwyaf llwyddiannus yn y DU, enillodd y busnes 123 o wobrau a chafodd ei enwebu 401 o weithiau am greadigrwydd a chreffft. Daeth i'r brig fel y dosbarthwr gorau yn y DU yn arolwg Broadcast yn 2023, ac yn ôl Pact, roedd yn cyfrif am 42% o holl allforion teledu y DU yn fyd-eang, wrth i raglennu hanes naturiol nodedig ddominyddu'r pum rhaglen mwyaf llwyddiannus o ran gwerthiannau cynnwys yn y flwyddyn ariannol.

Conglfaen creadigrwydd yn y BBC

Roedd uchafbwyntiau'r BBC o ran cynnwys yn cyrraedd cynulleidfaoedd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys trydedd gyfres *Planet Earth*, a gafodd ei darlledu mewn mwy na 100 o diriogaethau ledled y byd, ac ychydig cyn diwedd y flwyddyn, cafodd *Mammals* ei darlledu ar BBC One.


Creodd Uned Rhaglenni Dogfen BBC Studios *Sarah Everard: The Search for Justice*, a ystyriodd y ffordd yr ymdriniodd Heddlu'r Met â'r achos, a chyfres ddogfen *Uncanny*, lle bu'r cyflwynydd Danny Robins yn archwilio straeon bywyd go iawn am brofiadau goruwchnaturiol, yn dilyn podlediad llwyddiannus BBC Radio 4 o'r un enw.

Yn ystod y flwyddyn, unodd y sefydliad dri maes o'i fusnes fformatau i greu is-adran Adloniant Byd-eang newydd, yn cynnwys fformatau a brandiau poblogaidd BBC Studios yn y DU ac yn rhyngwladol, drwy ei rwydwaith o ganolfannau cynhyrchu yn yr UD, Ffrainc, yr Almaen, y gwledydd Nordig, Sbaen, India, Awstralia a De Affrica.

Mae Adloniant Byd-eang hefyd yn cynnwys timau Digwyddiadau Byw arbenigol BBC Studios, a bu'n flwyddyn brysur iddynt wrth iddynt arwain darllediadau'r Coroni a'r Cyngerdd, Eurovision a darllediadau byw o Glastonbury, lle perfformiodd Elton John yn fyw am y tro olaf erioed yn y DU ar y noson olaf, gan ddenu cynulleidfa dros nos fwyaf erioed yr ŵyl, a chynulleidfa o 7.6 miliwn ar ei huchaf ar BBC One.

O ran cynnwys wedi'i sgriptio, creodd BBC Studios ail gyfres *Time* gan Jimmy McGovern ar gyfer BBC One, lle gwelwyd Bella Ramsey, Jodie Whittaker a Tamara Lawrence yn portredu'r system gyfreithiol ym Mhrydain, gan dderbyn canmoliaeth fawr.

Enillodd y comedi *Black Ops*, gan BBC Studio Comedy Productions ar gyfer BBC One wobrau yn syth, a dychwelodd *Here We Go*, gydag Alison Steadman a Katherine Parkinson, am ail dymor a phennod arbennig ar gyfer y Nadolig ar BBC One. Y tu ôl i'r llenni, fel rhan o fenter BBC Studios i ddatgarboneiddio datrysiadau pŵer, treialodd y tîm cynhyrchu bŵer batri hybrid, a ddarparodd wersi i'w dysgu ar gyfer cynrychiadau wedi'u sgriptio eraill.



Gbemisola Ikumelo a Hammed Animashaun yn *Black Ops* a enillodd wobwr BAFTA

Gweithrediadau masnachol

Adolygiad strategol – BBC Commercial – parhad



The Famous Five gan Moonage Pictures, un o'r cwmnïau annibynnol y mae BBC Studios wedi buddsoddi ynddynt

Bu'n flwyddyn arbennig o dda ar gyfer Plant a Theulu. Yn ogystal â llwyddiant *Bluey*, dathlodd *Blue Peter* 65 blynedd ym mis Hydref 2023, ochr yn ochr â 60 mlynedd ers cyflwyno'r bathodyn clodwiw. Cafodd fersiwn arbennig o *Twelfth Night* ei recordio ar gyfer CBeebies yn Shakespeare's Globe fel rhan o ymgyrch i wneud gwaith Shakespeare yn hygyrch i bawb, a'i darlledu cyn diwedd y flwyddyn, a chafodd y ddrama am dyfu i fyny *Phoenix Rise* ei hailgomisiynu'n syth ar ôl iddi gael ei darlledu ar iPlayer yn 2023.

Cynnwys cymhellol ar gyfer cynulleidfaoedd byd-eang

Rhan greiddiol o gylch gwaith y Content Studio yw ateb y galw rhyngwladol am gynnwys gan gyrraedd safonau uchel y BBC o ran creadigrwydd ac ansawdd, a chyflwyno talent a straeon cartref i gynulleidfaoedd ledled y byd, drwy ei ddosbarthiad o fformatau, rhaglenni gorffenedig a chanolfannau cynhyrchu lleol.

Er mai'r BBC oedd prif gomisiynydd ei gynnwys o hyd yn 2023/24, daeth 72% o werthiannau Content Studios BBC Studios o gomisiynau heblaw'r BBC. Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, creodd Content Studio raglenni ar gyfer Netflix, Amazon Prime Video, Disney+ a llawer o bartneriaid cyfryngau lleol a rhanbarthol, gan gynnwys ABC, NBC, National Geographic a ZDF.

O ran cynnwys wedi'i sgrïptio, cynhyrchodd Clerkenwell Films, un o labeli cynhyrchu BBC Studios, *Truelove* ar gyfer Channel 4, sef drama am heneiddio a hunanladdiad â chymorth, yn cynnwys Lindsay Duncan; creodd Sid Gentle ail gyfres y comedi am archarwyr *Extraordinary* ar gyfer Disney+; creodd

Lookout Point gyfres antur *Renegade Nell*, a ysgrifennwyd gan Sally Wainwright, hefyd ar gyfer Disney+, a chreodd Moonage Pictures, cwmni annibynnol y buddsoddwyd ynddo, gyfres Guy Ritchie, *The Gentlemen*, sef teitl byd-eang mwyaf poblogaidd Netflix ym mis Mawrth 2024.

Cafodd ail gyfres *Prehistoric Planet*, cyfres nodedig arloesol am ddeinosoriaid gan Uned Hanes Naturiol BBC Studios sydd wedi ennill sawl gwobr, ei darlledu yn ystod y flwyddyn ar AppleTV+. Creodd Uned Gwyddoniaeth BBC Studios drama ddogfen *Einstein and the Bomb* ar gyfer Netflix, gan ddefnyddio deunydd archifol a geiriau Einstein ei hun i archwilio cydberthynas y gwyddonydd â Hitler, yr Almaen a'r bom atom.

Mae rhaglen ddogfen *Wrestlers*, a grëwyd gan LA Productions BBC Studios ar gyfer Netflix, wedi cael ei henwebu ar gyfer Gwobr Rockie BANFF a Gwobr Independent Spirit. Cafodd cyfres ddiweddaraf *Life Below Zero*, sydd wedi ennill sawl gwobr Emmy, ei darlledu ar National Geographic a Disney+ yn ystod hydref 2023.

Creodd BBC Studios Productions India *Wedding.con* ar gyfer Amazon Prime Video, gan dynnu sylw at straeon bywyd go iawn am briodferched yn cael eu twyllo gan y diwydiant paru, ac yn Awstralia, mae BBC Studios yn cynhyrchu neu'n cyd-gynhyrchu *Top Gear* ar gyfer Paramount+, *The Office* ar gyfer Prime Video, *Return to Paradise* – sy'n deillio o *Death in Paradise* ar gyfer The ABC a *Ray Martin: The Last Goodbye* ar gyfer SBS.

Fersiwn yr Unol Daleithiau o *Ghosts* ar gyfer CBS, a gynhyrchwyd gan LA Productions BBC Studios a Lionsgate, oedd y comedi darlledu newydd mwyaf poblogaidd yn yr UD pan gafodd ei lansio yn 2021 ac mae wedi cael ei ailgomisiynu am bedwerydd tymor. Yn anarferol, cafodd fersiwn yr UD a fersiwn y DU o *Ghosts* eu darlledu yn olynol yn yr UD a'r DU drwy gytundeb rhwng CBS a BBC Studios, a bu'r ddwy gyfres yn llwyddiannus ar BBC iPlayer yn y DU.

Ehangodd BBC Studios ei gydberthynas â ZDF ym maes drama, gan gydgynhyrchu addasiad ffilm nodweddd drama premiwm o *The Famous Five* a sicrhau cynwerthiannau, yn ogystal ag adnewyddu partneriaethau ffeithiol gyda ZDF ac eraill, er mwyn helpu i gefnogi rhaglenni nodedig hanes naturiol a gwyddoniaeth nawr ac yn y dyfodol.

Perfformiodd cyfres ryngwladol Content Studio o frandiau blaenllaw yn dda. Arweiniodd cyfres boblogaidd *Bluey* y twf mewn gwerthiannau ar gyfer cynhyrchion i ddefnyddwyr wrth i'w phoblogrwydd gynyddu'n fyd-eang. Mae'r gyfres bellach yn cael ei darlledu a'i ffrydio mewn 140 o wledydd, ac mae cynhyrchion trwyddedig bellach ar gael mewn mwy na 50 o wledydd.

Mae *Bluey* wedi ennill llu o wobrau, gan gynnwys gwobr BAFTA, Emmy a gwobr Academi Celfyddydau'r Teledu a'r Sinema Awstralia (AACTA) am y Rhaglen Orau i Blant bum gwaith yn olynol.

Y gyfres fwyaf poblogaidd i blant

ar deledu'r UD ac Awstralia yw *Bluey*

140

Nifer y gwledydd ledled y byd sydd wedi darlledu *Bluey*

Roedd gweithgarwch proffil uchel y brand yn cynnwys ail ymddangosiad ym Mharêd Diolchgarwch Macy's; lansio gêm fideo *Bluey* ar bob un o'r prif lwyfannau chwarae gemau; ac ail-greu cartref *Bluey* yn Queensland yn LA a Chicago gan gynnig profiad trochol i ymwelwyr, sef profiad y partner CAMP a werthodd gyflymaf erioed. Mae sioe lwyfan *Bluey's Big Play* ar daith yn y DU ac Iwerddon tan fis Medi 2024, ac mae hefyd yn ehangu i Ewrop yn ogystal ag Abu Dhabi a Singapore; a bydd profiad trochol *Bluey's World* yn agor yn Brisbane ym mis Tachwedd 2024.

Yn y cyfamser, mae cyfres *Bluey Book Reads*, sy'n cynnwys Kylie a Dannii Minogue, Tom Daley a Romesh Ranganathan, wedi cael ei gwyllo mwy na 17 miliwn o weithiau ar sianel YouTube *Bluey* ers ei lansio ym mis Chwefror 2024.

O ran brand BBC Earth, ochr yn ochr â llwyddiant lansiad *Planet Earth III* yn Tsieina, cynhaliwyd arddangosfa luniau Life at Extremes BBC Earth yn Shenzhen. Yn y DU, rhoddodd profiad trochol BBC Earth Experience gyfle i gynulleidfaoedd o bob oedran brofi'r byd naturiol mewn ffordd newydd ac unigryw.

Mae cyfres boblogaidd *Bluey* bellach yn cael ei darlledu a'i ffrydio mewn 140 o wledydd, ac mae cynhyrchion trwyddedig bellach ar gael mewn mwy na 50 o wledydd.

Enillodd yr atyniad, a agorodd ei ddrysau yn Llundain yn 2023, wobr PETA am y Profiad Gorau, yn ogystal â gwobr Aur yng Ngwobrau Dylunio Muse 2024, cyn symud i Melbourne yn ddiweddarach y flwyddyn honno. Lansiodd Minecraft Education fyd *Planet Earth III*, ac yn ddiweddarach yn 2024 bydd cyfres o gyngherddau byw yn seiliedig ar *Planet Earth III* yn cael eu cynnal yn Stadiwm Wembley yn Llundain ac ym Manceinion.

Dathlodd *Doctor Who* 60 mlynedd mewn steil gyda thair pennod arbennig yn aduno David Tennant a Catherine Tate, a phartneriaeth gyda British Airways. Wrth i'r gyfres gael ei darlledu am y tro cyntaf ar Disney+, croesawyd Ncuti Gatwa fel *Doctor* newydd sbon a darlledwyd pennod arbennig ar gyfer y Nadolig, sef y rhaglen wedi'i sgrriptio a wylwyd fwyaf ar Ddydd Nadolig yn y DU.

Mewn manau eraill ar gyfer y brand, agorodd arddangosfa addysgol deithiol 'Doctor Who: Worlds of Wonder', yn cynnwys wyth parth trochol yn cyfuno bydoedd a chymeriadau o'r gyfres â gwyddoniaeth bywyd go iawn, yn y DU a bydd yn symud i Seland Newydd yn ddiweddarach yn 2024.

Mae poblogrwydd masnachfrait *Dancing with the Stars* yn parhau, wrth i gyfres y DU (sef *Strictly Come Dancing*) ddatlu 20 mlynedd ym mis Mai 2024, a mwy na 60 o drwyddedau ledled y byd. Gwylwyd brand cyfryngau moduro mwyaf y byd, *Top Gear*, gyfanswm o 515 miliwn o weithiau ar draws y cyfryngau cymdeithasol yn 2023. Mae wedi cael ei ddarlledu mewn 150 o diriogaethau ac mae 11 o fformatau lleol wedi'u creu, gan gynnwys yn Awstralia, America, y Ffindir a Ffrainc dros oes y brand.


Ym mis Tachwedd y flwyddyn ddiwethaf, penderfynodd y BBC orffwys fersiwn y DU o *Top Gear* hyd y gellir rhagweld. Nid yw'r bwch hwn yn effeithio ar unrhyw weithgarwch *Top Gear* arall, gan gynnwys fformatau rhyngwladol, digidol, cylchgronau a thrwyddedu.

O ran fformatau, yn ystod y flwyddyn ariannol, ehangodd rhaglen gwis newydd BBC Studios, *The 1% Club*, i ddeg tiriogaeth, gyda fersiynau yn Ffrainc, yr Almaen ac Awstralia wedi'u creu gan BBC Studios Productions yn lleol. Mae fersiwn y DU, sy'n cael ei chreu gan drydydd parti ar gyfer ITV, wedi bod yn llwyddiant ac mae pedwaredd gyfres wedi cael ei chomisïynu.



Bluey, sydd wedi ennill sawl gwobr, a gynhyrwyd gan Ludo Studio

Astudiaeth achos: Buddsoddi yn y genhedlaeth nesaf o dalent



Mae gan BBC Studios amrywiaeth eang o fentrau i gefnogi a datblygu talent newydd yn y diwydiant, yn amrywio o brentisiaethau i gynlluniau ysgrifennu.

Mae rhaglen flaenllaw blwyddyn o hyd Accelerator ar gyfer Cynhyrchwyr Cynorthwyl yn cefnogi talent lefel ganol ar draws y DU o amrywiaeth eang o gefndiroedd. Mae mwy na 40 o unigolion wedi dod drwy'r drysau ac yn gwneud eu marc yn y diwydiant, ac mae tri unigolyn graddedig wedi dod i'r brig ym menter Hot Shots cylchgrawn Broadcast a dau wedi'u dewis i fod yn rhan o raglen One To Watch Edinburgh TV Festival 2023. Mae rhaglenni hyfforddiant sgriptio yn cynnwys cynllun Writer Spotlight ar gyfer ysgrifennwyr comedi a drama; Writers Studio: Soap (*EastEnders a Casualty*); a Writers Studio: Cosy Crime ar gyfer BBC Studios Drama Productions, yn ogystal â'r Academi Hyfforddiant newydd River City, a grëwyd mewn partneriaeth â Screen Scotland.

Mae Creators in Residence TalentWorks BBC Studios yn cynnig lleoliadau â thâl i dalent newydd gydag unedau a labeli cynhyrchu BBC Studios a chwmiâu annibynnol partner. Cyhoeddwyd pedair rhaglen Creators in Residence newydd ym mis Hydref, yn cynnwys lleoliadau yn BBC Studios Productions Factual Entertainment, BBC Studios Productions Kids & Family, Clerkenwell Films a Voltage TV, ac ymunodd 40 o brentisiaid Gyrfaoedd Cynnar ym mis Medi 2023 a 2024 i ddilyn prentisiaethau â thâl ym maes cynhyrchu ac yn y pencadlys.

Creodd Project Songbird – buddsoddiad o £1 filiwn gan yr Uned Hanes Naturiol dros gyfnod o dair blynedd i feithrin, amrywio a denu talent cynhyrchu newydd ledled y byd – ysgoloriaethau wedi'u hariannu'n llawn ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol sy'n astudio MA Creu Ffilmiau Bywyd Gwylt ym Mhrifysgol Gorllewin Lloegr (UWE Bryste), gan feithrin partneriaeth 12 mlynedd lwyddiannus.

Buddsoddi mewn talent greadigol fyd-eang

Fel rhan o'i strategaeth gyffredinol o fuddsoddi mewn twf cynaliadwy, mae'r Content Studio yn ehangu ei allu cynhyrchu byd-eang i weithio law yn llaw ag amrywiaeth eang o arbenigwyr creadigol mewn tiriogaethau ledled y byd, gan helpu i greu'r genhedlaeth nesaf o raglenni poblogaidd ar gyfer partneriaid a chynulleidfaoedd byd-eang.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth y busnes dri chaffaeliad strategol y tu allan i'r DU er mwyn datblygu ei rwydwaith o ganolfannau cynhyrchu. Mewn ymateb i'r awydd cynyddol am gynnwys y BBC yn Sgandinafia, ym mis Mehefin 2023, prynodd y busnes y cwmni cynhyrchu adloniant ffeithiol a chynnwys wedi'i sgriptio llwyddiannus STV, er mwyn creu canolfan gynhyrchu ranbarthol, a chafodd y cwmni wedyn ei ailfrandio yn BBC Studios Nordic Productions.

Ychydig cyn diwedd y flwyddyn, cyhoeddwyd bod rhwydwaith cynhyrchu Adloniant Byd-eang BBC Studios wedi caffael cwmni cynhyrchu teledu a ffilm yn Sbaen, Brutal Media, a gaiff ei gwblhau ar ôl diwedd y flwyddyn. Bydd y label newydd yn parhau i ddatblygu a marchnata ei syniadau gwreiddiol yn Sbaen, yn ogystal â chynhyrchu addasiadau lleol o fformatau wedi'u sgriptio a heb eu sgriptio yng nghatalog BBC Studios.

Yn yr un modd, cadarnhawyd ym mis Mawrth 2024 fod Werner Film Productions wedi'i gaffael, sef cwmni yn Awstralia sy'n arbenigo mewn cynnwys wedi'i sgriptio, a chartref cyfres lwyddiannus *The Newsreader* a'r ddrama syrffrio boblogaidd ar Netflix i bobl ifanc yn eu harddegau, *Surviving Summer*, a gaiff ei gwblhau ar ôl diwedd y flwyddyn. Roedd hwn yn fuddsoddiad sylweddol yn y diwydiannau creadigol sy'n ffynnu yn y rhanbarth.

Yn y DU, prynodd Content Studio hefyd 25% o gwmni annibynnol fformatau heb eu sgriptio Mettlemouse, a arweinir gan gyn-swyddog gweithredol Lime Pictures, Sarah Tyekiff, a lofnododd gytundeb datblygu gyda chwmiâu annibynnol cynnwys ffeithiol ac ymchwiliadau llwyddiannus Forest, a arweinir gan Jeremy Lee a Mobeen Azhar. Lansiodd BBC Studios Drama Productions label newydd, sef River Pictures, a leolir yn Lerpwl a Llundain.

2il

y gyfres sydd wedi'i ffrydio fwyaf ond un yn yr UD mewn unrhyw genre yw *Bluey*

3.5 miliwn

nifer y bobl a welodd *Bluey* yn cymryd rhan ym Mharêd Diolchgarwch Macy's ar y strydoedd yn Efrog Newydd yn 2023, a chafodd y digwyddiad ei wyllo gan 50 miliwn o wylwyr ar y teledu.





Astudiaeth achos: BBC.com newydd



Mewn oes o dwyllwbyodaeth, mae'r angen am newyddion diduedd y gellir ymddiried ynddo heb agenda yn fwy nag erioed. Ym mis Tachwedd 2023, lansiodd BBC Studios BBC.com wedi'i huwchraddio ac ap y BBC yn yr UD, a gyflwynwyd yn fyd-eang ym mis Mawrth 2024. Nod ailwampio'r wefan yw trawsnewid y ffordd y mae cynulleidfaoedd y tu allan i'r DU yn cael gafael ar newyddion a chynnwys ffeithiol y gellir ymddiried ynddynt y BBC.

Gyda thudalen gartref newydd, adrannau newydd, mwy o fideos, mwy o ddarllediadau byw, a chylchlythyrau newydd, mae'r wefan a'r ap bellach yn cynnig profiad unedig a chyson i ymwelwyr ac arlwy masnachol mwy premiwm a chynaliadwy i bartneriaid hysbysebu.

Yn dilyn tair blynedd o gydweithio dwys â thimau ar draws y gwasanaeth cyhoeddus a rhannau masnachol Grŵp y BBC i greu cynnyrch wedi'i symleiddio yn barod i'w ddatblygu yn y dyfodol, gwelwyd cynnydd ar unwaith yn nifer yr ymweliadau â'r safle, yn enwedig ym marchnad allweddol Gogledd America lle mae nifer yr ymwelwyr unigryw wythnosol wedi cynyddu 7%. Mae ap newydd y BBC wedi'i lawrlwytho 350,000 o weithiau erbyn hyn, ac mae nifer y cofrestrïadau â BBC.com wedi dyblu bron.

Cyfleusterau cynhyrchu o'r radd flaenaf

Bu 2023/24 yn flwyddyn heriol i gyfleusterau cynhyrchu, wrth i gomisiynau newydd arafu a rhaglenni sefydledig gael eu hoedi. Er bod hyn wedi'i wrthbwyso'n rhannol gan berfformiadau cryfach ar gyfer cynrychiadau drama a mentrau busnes newydd yn BBC Studioworks, un o is-gwmnïau masnachol y BBC sy'n darparu gwasanaethau ôl-gynhyrchu a stiwdios i bob un o'r prif ddarlledwyr teledu a chwmnïau cynhyrchu, cafodd effaith uniongyrchol ar werthiannau ac elw, ac aeth y busnes ati i ailstrwythuro, gan gwblhau'r broses honno ar ôl diwedd y flwyddyn.

Ymhlith y cleientiaid â chynnwys wrth wraidd amserlenni teledu y DU roedd *EastEnders*, *Loose Women*, *Lorraine* a *This Morning*, ynghyd â *The Graham Norton Show* a *Saturday Night Takeaway*. Roedd cynrychiadau newydd yn cynnwys yr e-Uwch-gyngheiriau gyda *Whisper*.

Y tu hwnt i'r llwyfan, ymysg credydau ôl-gynhyrchu BBC Studioworks roedd *EastEnders* a *Strictly Come Dancing*. Am yr ail flwyddyn yn olynol, enillodd Television Centre Studio sgôr 'Da law'n' yng Nghynllun Safon Cynaliadwyedd Stiwdio Albert BAFTA yn 2023/24, ochr yn ochr â Stiwdio Kelvin Hall yn Glasgow. Buddsodwyd mewn gwaith i feithrin talent leol ac ymgysylltu â chymunedau drwy raglenni allgymorth addysgol, gan greu pwyntiau mynediad newydd i'r diwydiant ar gyfer darpar weithwyr proffesiynol.

Global Media & Streaming

Mae Global Media & Streaming yn cynnwys pob sianel, gwasanaethau ffrydio, digidol ac uniongyrchol i'r defnyddiwr: darlledwr UKTV yn y DU, sianelau rhyngwladol â brand y BBC a weithredir gan BBC Studios, BritBox International, BBC.com a gweithgareddau ffrydio eraill.

Torrodd UKTV sawl record wrth ddatblygu ei wasanaeth ffrydio am ddim, UKTV Play, a gwelwyd nifer y gwylwyr yn cynyddu 56% ac ystadegau defnyddwyr allweddol yn cynyddu o un flwyddyn i'r llall bob mis yn 2023 gyda theitlau fel *Annika*, *Sister Boniface Mysteries*, *Signora Volpe*, a *Bangers and Cash: Restoring Classics*, gan helpu i ysgogi twf. Cynyddodd y rhwydwaith hefyd ei gyfran o'r lefelau gwyllo darlledwyr ar gyfer y rhwydwaith saith sianel i bron 5%, a chynyddodd ei gyfran o effeithiau masnachol neu SOCI i'r lefel uchaf erioed, sef 8.81%.

Yn ystod y flwyddyn, lansiodd UKTV bedair sianel deledu am ddim a gefnogir gan hysbysebion (FAST). Mae UKTV Play Heroes, UKTV Play Laughs, UKTV Play Full Throttle ac UKTV Play Uncovered bellach ar gael ar Samsung TV Plus, Amazon Freevee, Pluto TV a Virgin Media. Yn ddiweddarach yn 2024, bydd UKTV Play yn symud i U, a sianelu llinellol y busnes y gellir eu gwyllo am ddim fydd U&Dave, U&DRAMA, U&W ac U&YESTERDAY.

Ym mis Hydref 2023, cyhoeddodd UKTV gynlluniau i neilltuo gwerth £1 filiwn o amser ar yr awyr i annog gwylwyr i wneud dewisiadau ffordd o fyw mwy cynaliadwy fel rhan o ymgyrch blwyddyn o hyd Everyday Sustainability, a grëwyd ar y cyd â WRAP, corff anllwydoraethol rhyngwladol sy'n gweithredu ar newid hinsawdd,

a dengys gwaith dadansoddi fod yr ymgyrch yn annog cynulleidfaoedd i newid eu hymddygiad.

Mae BBC Studios yn buddsoddi'n weithredol mewn gwasanaethau digidol ac uniongyrchol i'r defnyddiwr presennol a newydd, ac fel rhan o gytundeb strategol bwysig ychydig cyn diwedd y flwyddyn, cymerodd y busnes berchnogaeth lwydros BritBox International, drwy brynu cyfran 50% ITV ohono am £272 miliwn.

Bellach, BritBox International, a lanswyd saith mlynedd yn ôl, yw prif wasanaeth ffrydio arbenigol Prydain, sy'n darparu cynnwys o ansawdd uchel i Ogledd America a marchnadoedd dethol, gyda 3.8 miliwn o danysgrifwyr ledled y byd. Mae perchnogaeth lwydros yn cyd-fynd â strategaeth BBC Studios o fuddsoddi mewn twf cynaliadwy, ac mae'r gwasanaeth yn broffidiol ac yn cynnig cyfle i ehangu yn y dyfodol.

Mae BBC.com, sef llwyfan newyddion digidol byd-eang BBC Studios, yn cyrraedd 120 miliwn o ddefnyddwyr ledled y byd bob mis ar gyfartaledd. Ar ôl buddsoddiad sylweddol, ail-lanswyd y wefan ac ap y BBC yn fyd-eang i gynnig adroddiadau mwy lleol a phersonol, mwy o gynnwys nodwedd, a gallu newydd i weithio mewn partneriaeth er mwyn meithrin cyberthynas gryfach â darllenwyr a phartneriaid masnachol (gweler yr astudiaeth achos). Cynyddodd BBC Select, sef gwasanaeth ffrydio rhaglenni dogfen heb hysbysebion premiwm y BBC yng Ngogledd America, ei sylfaen tanygrifwyr 40% dros y flwyddyn.

Yn rhyngwladol, cynyddodd nifer y sianeli FAST a gaiff eu rhedeg gan y busnes i 36, ac ymhlith y lansïadau allweddol roedd Sianel BBC News yn yr UD ar ddiwedd y flwyddyn, a arweiniodd at fwy na dyblu cynulleidfifa'r sianel yn y farchnad. Lanswyd sianel FAST Top Gear ledled Sbaen, y gwledydd Nordig, yr Almaen, Awstria, y Swistir, Ffrainc a'r Eidal (gyda Pluto TV), y Dwyrain Canol (gyda MBC) a'r Iseldiroedd, Lwcsembwrg a Gwlad Belg (gyda Samsung).

Lanswyd sianel linellol newydd BBC Nordics – sy'n cyfuno BBC Brit a BBC Earth ochr yn ochr â chynnwys ffordd o fyw newydd – a gwasanaeth ar alw ategol Nordics+ yn y diriogaeth ym mis Ebrill 2023, fel rhan o gytundeb cario pum mlynedd â Multichoice yn Ne Affrica ar gyfer sianelau llinellol, ac adnewyddwyd cytundeb gwerthu gofod hysbysebu â Talpa yn yr Iseldiroedd.

Yn y cyfamser, ar ôl symud gweithgarwch cynhyrchu sain ffeithiol, adloniant a drama dewisol y BBC i BBC Studios ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r busnes yn creu gweithrediad sain aml-genre sy'n ffynnu a fydd yn parhau i greu rhaglenni o ansawdd uchel ar gyfer cynulleidfaoedd y BBC, yn ogystal â'r farchnad sain fyd-eang, gan adeiladu ar y cydberthnasau llwyddiannus sydd ar waith ag Audible a Spotify.

Lanswyd BBC Podcast Premium, gwasanaeth sain sydd ar gael mewn mwy na 160 o wledydd, ar Apple Podcasts ac Amazon Music, gan olygu bod podlediadau'r BBC – yn cynnwys y podlediad poblogaidd *Americast* a phodlediad BBC Global News – ar gael y tu allan i'r DU am y tro cyntaf erioed.

Gweithrediadau masnachol

Adolygiad strategol – BBC Commercial – parhad

Diwylliant

Mae datblygu diwylliant cryf o berfformiad uchel lle y gall y syniadau gorau ffynnu yn allweddol i dwf cynaliadwy hirdymor y busnes, ac mae'r cynllun Empower People yn canolbwyntio ar bum maes allweddol: arwain, tyfu, symleiddio, perthyn a ffynnu. Mae'n blaenoriaethu dysgu gweithredol a datblygiad gyrfa, cynhwysiant a thegwch ym mhob rhan o brosesau recriwtio a chyflogi, a symleiddio prosesau bob dydd i greu'r amodau gorau posibl i lwyddo.

Mae'r gwaith hwn yn ennill cydnabyddiaeth. Yn gynnar yn 2024, cafodd BBC Studios ei enwi yn rhestr Glassdoor o'r 50 o leoedd gorau i weithio ynddynt – yr unig gwmni teledu i ymddangos yn y rhestr – ac yn yr arolwg staff diweddaraf, dywedodd 89% o'r staff eu bod yn falch o weithio i BBC Studios, a dywedodd 85% y byddent yn argymhell y cwmni fel lle gwych i weithio ynddo.

Mae amrywiaeth o fentrau datblygu talent a chreffft bellach ar waith, gan gynnwys rhaglen Accelerator ar gyfer Cynhyrchwyr Cynorthwyol, sy'n cynnig contractau hyfforddiant blwyddyn o hyd yn BBC Studios Productions (gweler yr astudiaeth achos), ac mae Atodlen Cynhwysiant BBC Studios Productions yn sicrhau bod o leiaf 20% o'r timau chynhyrchu a'r dalent ar y sgrin ar bob comisiwn newydd yn dod o gefndir treftadaeth ethnig amrywiol, yn meddu ar brofiad bywyd o anabledd, neu'n dod o gefndir incwm isel. Mae'r Adduned yn sicrhau bod arweinwyr yn atebol am sicrhau amgylchedd cynhyrchu diogel a chynhwysol i bawb. Cafodd y dull hwn, i annog a chefnogi timau creu rhaglenni i herio ymddygiad a newid diwylliant y diwydiant, ei ymgorffori gan Academi Sgrin Llundain, coleg hyfforddiant arbenigol i'r rheini sy'n dechrau gyrfa ym maes ffilm a theledu, sydd wedi seilio ei Hadduned ar y fenter.

BBC Studios yw'r sefydliad mwyaf tryloyw yn sector cyfryngau'r DU am ddatgelu'n wirfoddol y bylchau cyflog ar gyfer nodweddion gwarchoddedig: rhywedd, ethnigrwydd, anabledd a LHDTC+, ac o 2024, ar gyfer cefndiroedd economaidd-gymdeithasol is.

Mae'r busnes yn parhau i roi cynaliadwyedd wrth wraidd popeth a wna, ac mae'n arwain y byd o ran gweithredu'n gynaliadwy ar y sgrin ac oddi arni.

Mae gwaith yn parhau ym maes teithio, gwastraff, adeiladau yn ogystal â gwaith gyda chyflenwyr a thrwyddedeion BBC Studios i ysgogi newid cynaliadwy ar draws y busnes. Mae'n helpu i gyflawni strategaeth Sero Net Grŵp y BBC, sy'n seiliedig ar wyddoniaeth.

Yn 2023/24, roedd 98% o gynyrchiadau BBC Studios yn y DU ar y trywydd iawn i sicrhau ardystiad Albert BAFTA, gyda rhai ohonynt, fel Eurovision, yn arloesi datrysiadau newydd ar gyfer y diwydiant. Gwelwyd cyfeiriadau at newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth yn *Rip Off Britain*; *Silent Witness*; *Father Brown*; *JoJo and GranGran*; ac mewn cyfres o olygfeydd byd natur yn ystod *Coronation Concert*. Mae BBC Studios yn parhau i gefnogi newid cynaliadwy'r diwydiant.

Rhagolwg

Wrth edrych i'r dyfodol, mae'r amodau masnachol allanol yn parhau i fod yn heriol, yn rhannol oherwydd y galw comisiynu arafach ac ansicrwydd parhaus yn y marchnadoedd hysbysebu.

Ymhlith uchafbwyntiau'r cynnwys sydd ar ddod mae *Asia* gan yr Uned Hanes Naturiol, sy'n adrodd stori'r cyfandir mwyaf ar y Ddaear drwy ei fyd natur a'i dirluniau, yn ogystal â *Solar System*, cydgyhyrchiad gan yr Uned Gwyddoniaeth a PBS, sy'n taflu goleuni ar y planedau a'r lleuadau sy'n cylchdroi o amgylch y Ddaear.



Coronation Concert a gynhaliwyd yn nhir Castell Windsor

O ran cynnwys wedi'i sgriptio, creodd Firebird Pictures, un o labeli cynhyrchu BBC Studios Production *The Jetty*, drama antur gan yr ysgrifennydd Cat Jones sy'n cynnwys Jenna Coleman, a chreodd Clerkenwell Films, sydd hefyd yn un o labeli cynhyrchu BBC Studios, y gyfres lwyddiannus *Baby Reindeer* ar gyfer Netflix. Cafodd y gyfres dirgelwch chwe rhan, *A Good Girl's Guide To Murder*, a grëwyd gan Moonage, un o gwmnïau annibynnol y buddsoddiwyd ynddo BBC Studios, ac sy'n seiliedig ar nofelau Holly Jackson i oedolion ifanc, ei darlledu ar BBC Three a Netflix ar ôl diwedd y flwyddyn. Daw River Pictures, un o labeli cynhyrchu drama BBC Studios â *Kidnapped: The Chloe Ayling Story* i'r sgrin, sef drama ffeithiol chwe rhan gan ysgrifennydd *Killing Eve*, Georgia Lester, sy'n dilyn y stori wir am lathruddiad Chloe yn yr Eidal yn 2017, ac mae ail gyfres o *Sherwood* gan House Productions ar ddod, a nawfed gyfres, a'r un olaf, o *Inside No.9* gan BBC Studios Comedy Productions a ddarlledwyd ar ôl diwedd y flwyddyn.

Ceir hefyd gyfres gomedi newydd *Spent*, a grëwyd gan Various Artists Ltd, cwmni annibynnol y mae BBC Studios wedi buddsoddi ynddo, ar gyfer BBC Two, a ysgrifennwyd gan Michelle de Swarte sydd hefyd yn chwarae'r brif ran, a bydd drama gomedi newydd gan Steven Moffat, *Douglas is Cancelled*, sy'n cynnwys Hugh Bonneville ac a grëwyd gan Hartswood Films ar gyfer ITVX, yn cael ei dosbarthu'n rhyngwladol gan BBC Studios.

Mae'r farchnad hysbysebu yn parhau i fod yn heriol i Global Media & Streaming, ond mae portffolio cadarn o sianelau mewn tiriogaethau sy'n ffafrio'r llinellol, ochr yn ochr â BritBox International o dan berchenogaeth lwyer a thwf UKTV o ran cyfran linellol a chynulleidfaoedd dal i fyny yn golygu bod y busnes mewn sefyllfa dda i sicrhau twf organig cynaliadwy.

Mae'r busnes wedi sicrhau cyfleusterau cyllido hircymor ffafriol er mwyn ei alluogi i fenthycu er mwyn cefnogi'r twf hwn, a fydd yn cynnwys caffaeliadau dethol a fydd yn cyd-fynd â gwerthoedd a diwylliant y busnes, y gwaith parhaus o ehangu gwasanaethau uniongyrchol i ddefnyddiwr a arweinir gan ddata ynghyd â gweithrediadau cynhyrchu, fel rhan o'r uchelgais i ddyblu'r busnes erbyn 2027/28 a sicrhau enillion cynaliadwy hirdymor i'r BBC.



Inside No. 9 a wnaed gan BBC Studios Comedy Productions, a enillodd wobwr BAFTA

Mae'r adran hon yn edrych yn fanwl ar rôl Bwrdd y BBC ac mae'n cynnwys adroddiadau gan is-bwyllgorau dirprwyedig y Bwrdd. Mae'r adran hefyd yn manylu ar ein dull cyffredinol o ymdrin â llywodraethu corfforaethol, ein sefyllfa reoleiddiol a chadarnhad o ddyletswyddau'r Bwrdd mewn perthynas â'r Adroddiad Blynyddol.

t.84

Bwrdd y BBC

t.88Adroddiad
cydnabyddiaeth**t.96**

Datgeliadau cyflogau

t.104Adroddiad y Pwyllgor
Archwilio a Risg**t.122**Adroddiad y Bwrdd
Masnachol**t.123**Adroddiad y Pwyllgor
Canllawiau a Safonau
Golygyddol

Canolfan Ddarlledu Newydd BBC Cymru Wales yng Nghaerdydd



LLYWODRAETHU

CYFLWYNO EIN BWRDD



Dr Samir Shah CBE
Cadeirydd



Tim Davie CBE
Cyfarwyddwr
Cyffredinol a Phrif
Olygydd



Shumeet Banerji
Cyfarwyddwr
anweithredol



Syr Damon Buffini
Dirprwy Gadeirydd



Syr Robbie Gibb
Cyfarwyddwr
anweithredol
Aelod Lloegr



Muriel Gray
Cyfarwyddwr
anweithredol
Aelod yr Alban



Chris Jones
Cyfarwyddwr
anweithredol



Charlotte Moore
Prif Swyddog
Cynnwys



Michael Plaut OBE
Cyfarwyddwr
anweithredol
Aelod Cymru



**Syr Nicholas Serota
CA**
Uwch-
gyfarwyddwr
Annibynnol



**Michael Smyth CBE
CB (Anrh)**
Cyfarwyddwr
anweithredol
Aelod Gogledd
Iwerddon



Marinella Soldi
Cyfarwyddwr
anweithredol



Leigh Tavaziva
Y Prif Swyddog
Gweithredu



Deborah Turness
Prif Swyddog
Gweithredol,
Newyddion a
Materion Cyfoes y
BBC

Mae'r Bwrdd wedi'i sefydlu o dan delerau Siarter Frenhinol a Chytundeb y BBC. Mae'n gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus, fel y'u nodir yn y Siarter a'r Cytundeb.

Mae'r Siarter yn amlinellu cyfrifoldebau'r Bwrdd, ei aelodaeth a'r gofyniad am nifer o Bwyllgorau i gefnogi ei waith. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am arfer holl swyddogaethau'r BBC mewn modd priodol, effeithiol ac annibynnol. Mae'n pennu cyfeiriad strategol y gorfforaeth ac yn cymeradwyo'r cylch gwaith creadigol a'r cyllidebau ar gyfer gwasanaethau'r BBC.

Caiff y Bwrdd ei gadeirio gan Samir Shah ac mae'n cynnwys hyd at ddeg cyfarwyddwr anweithredol, gan gynnwys y Cadeirydd, a phedwar cyfarwyddwr gweithredol, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol. Caiff y Cadeirydd a chyfarwyddwyr anweithredol y pedair gwlad eu penodi gan EF Y Brenin, ar sail argymhelliaid Gweinidogion ar draws y DU. Caiff aelodau eraill y Bwrdd eu penodi gan y BBC, drwy Bwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'r Bwrdd. Ystyrir bod yr aelodau anweithredol yn annibynnol at ddibenion llywodraethu corfforaethol da. Gall yr holl gyfarwyddwyr fanteisio ar gyngor Ysgrifennydd y Cwmni, Phil Harrold, sy'n gyfrifol am gynghori'r bwrdd ar yr holl faterion llywodraethu.

Gellir darllen bywgraffiadau llawn holl aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys eu rolau eraill, ar wefan y BBC: [bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard](https://www.bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard).

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i nifer o is-bwyllgorau. Mae'n ofynnol iddo gael Pwyllgor Cydnabyddiaeth, Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a Phwyllgor Archwilio a Risg. Caiff gwaith y pwyllgorau hyn ei ategu gan waith nifer o bwyllgorau eraill, a sefydlwyd gan y Bwrdd – mae'r rhain yn cynnwys y Pwyllgor Masnachu Teg, y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol, a phwyllgorau ar gyfer pob un o bedair gwlad y DU. Mae'r Bwrdd Masnachol yn goruchwyllo is-gwmnïau masnachol y BBC ar ran y Bwrdd.

Mae'r adran hon yn cynnwys adroddiadau gan y pwyllgorau hynny, sy'n cynnwys cyfarwyddwyr anweithredol yn bennaf, ac a gadeirir ganddynt, fel sy'n ofynnol gan y Siarter. Mae'r tudalennau hyn yn dangos aelodaeth y Bwrdd ar 10 Gorffennaf 2024, pan lofnodwyd yr adroddiad hwn.

Yn ystod y flwyddyn, bu nifer o newidiadau i aelodaeth y Bwrdd. Gadawodd Ian Hargreaves y Bwrdd ar ddiwedd cyfnod ei benodiad, ar 2 Ebrill 2023. Gadawodd Shirley Garrood y Bwrdd hefyd ar ddiwedd cyfnod ei phenodiad, ar 2 Gorffennaf 2023. Ymddiswyddodd Richard Sharp o'r Bwrdd ar 28 Ebrill 2023 a

gadawodd y Bwrdd ar 27 Mehefin. Cymerodd Elan Closs Stephens rôl Cadeirydd Dros Dro ar yr adeg honno.

Penodwyd Michael Smyth i'r Bwrdd fel aelod ar gyfer Gogledd Iwerddon ar 20 Gorffennaf 2023 a phenodwyd Chris Jones fel cyfarwyddwr anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ar 24 Gorffennaf. Penodwyd Marinella Soldi i'r Bwrdd ar 11 Medi 2023.

Penodwyd Samir Shah fel Cadeirydd y Bwrdd ym mis Chwefror 2024, yn dilyn proses dan arweiniad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Dechreuodd yn y rôl ar 4 Mawrth 2024, a bryd hynny, ymddiswyddodd Elan Closs Stephens o'i rolau fel Cadeirydd Dros Dro ac aelod ar gyfer Cymru a gadawodd y Bwrdd.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, penodwyd Robbie Gibb am ail gyfnod ar 7 Mai 2024 a phenodwyd Michael Plaut fel yr aelod ar gyfer Cymru, gan ymuno â'r Bwrdd o 1 Mehefin 2024.

Rhoddir manylion am bresenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y Bwrdd ac is-bwyllgorau ar dudalen 103.

Ein strwythur llywodraethu

Strwythur y BBC yn 2023/24

Gweithrediadau masnachol y BBC

Y Bwrdd

Cadeirydd: Samir Shah

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am sicrhau ein bod yn cyflawni ein henhadaeth a'n dibenion cyhoeddus. Gwna hyn drwy bennu: y cyfeiriad strategol ar gyfer y BBC; y cylch gwaith creadigol ar gyfer allbwn a gwasanaethau golygyddol a chreadigol y BBC; cyllideb y BBC; a fframwaith ar gyfer asesu perfformiad. Rhaid i'r Bwrdd gynnal a diogelu annibyniaeth y BBC a gwneud ei benderfyniadau er budd y cyhoedd. Mae'n gyfrifol am ein holl weithgareddau, gan gynnwys y gwasanaethau a ariennir yn gyhoeddus, a'n gweithgareddau masnachol yn y DU a ledled y byd. Ceir manylion yr aelodaeth ar dudalen 84.

Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu

Cadeirydd: Samir Shah

Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu sy'n gyfrifol am wneud penodiadau i'r Bwrdd a'i bwyllgorau. Mae hefyd yn ystyried ac yn adolygu annibyniaeth aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys unrhyw wrthdaro buddiannau, ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â Chod Ymarfer y Bwrdd. Gweler tudalen 103.

Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Cadeirydd: Robbie Gibb

Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth sy'n gyfrifol am y strategaeth gwobrwyo a chydabyddiaeth ar draws Grŵp y BBC. Mae'n goruchwyllo'r trefniadau cydnabyddiaeth ar gyfer aelodau gweithredol o'r Bwrdd ac aelodau o'r Pwyllgor Gweithredol. Mae'n monitro ac yn cymeradwyo adroddiadau allweddol ar faterion yn ymwneud ag amrywiaeth a chyflogau. Gweler tudalen 88.

Y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol

Cadeirydd: Nicholas Serota

Mae'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol yn gyfrifol am ddatblygu a sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau golygyddol y BBC. Mae'n sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â'i fframwaith cwynion ac â Chod Darleddu Ofcom. Mae hefyd yn asesu perfformiad allbwn y BBC yn erbyn y canllawiau golygyddol, yn benodol mewn perthynas â didueddrwydd dyledus a chywirdeb. Gweler tudalen 123.

Y Bwrdd Masnachol

Cadeirydd: Damon Buffini

BBC Commercial Limited (y Bwrdd Masnachol) sy'n goruchwyllo'r broses o gyflawni uchelgeisiau masnachol y Gorfforaeth. Mae'r adrodd i Fwrdd y BBC ar y broses o gyflawni amcanion BBC Studios, yn unol â strategaeth fasnachol ar-lein y BBC ac ar BBC Studioworks. Gweler tudalen 122.

Y Pwyllgor Archwilio a Risg

Cadeirydd: Chris Jones

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn gyfrifol am adolygu a goruchwyllo prosesau rheolaeth fewnol a rheoli risg y BBC, gan gynnwys y risgiau allweddol hynny y mae'r gorfforaeth yn eu hwynebu. Mae'n goruchwyllo gwaith swyddogaeth Archwilio Mewnol y BBC ac yn monitro prosiectau allweddol a risgiau gweithredol ar ran y Bwrdd. Gweler tudalen 104.

Y Pwyllgor Masnachu Teg

Cadeirydd: Muriel Gray

Mae'r Pwyllgor Masnachu Teg yn cynorthwyo'r Bwrdd i fodloni gofynion rheoleiddio masnachu a gwahanu Ofcom, fel y'u nodir yn ei Fframwaith Gweithredu. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn cwmpasu pob mater a all effeithio ar gydymffurfiaeth y BBC â gofynion masnachu a gwahanu Ofcom. Gweler tudalen 127.

Pwyllgorau'r Gwledydd

Cadeirydd: Aelodau gwledydd y Bwrdd

Y Pwyllgorau ar gyfer Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban sy'n gyfrifol am gynghori'r Bwrdd ar berfformiad y BBC ym mhob un o'r gwledydd hynny. Maent yn asesu a yw'r BBC yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd ym mhob gwlad a'r modd y mae'n cyflawni'r ymrwymadau a nodir yn y Cynllun Blynyddol. Gweler tudalen 125.

Cyfarwyddwr Cyffredinol

Cyfarwyddwr Cyffredinol, Tim Davie

Y Cyfarwyddwr Cyffredinol yw Prif Swyddog Gweithredol y BBC a'i Brif Olygydd. Ef yw arweinydd golygyddol, gweithredol a chreadigol y BBC, gyda chyfrifoldeb am y gweithlu byd-eang, gan ddarparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd ar draws teledu, radio ac ar-lein.

Y Pwyllgor Gweithredol

Caiff ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Tim Davie

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn gyfrifol am reolaeth y BBC o ddydd i ddydd. Mae'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau'r BBC yn unol â'r strategaeth y cytunwyd arni gan y Bwrdd, ynghyd â phob agwedd ar reoli gweithredol. Y Pwyllgor yw'r prif grŵp ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth weithredol a chreadigol o fewn y BBC ac mae'n adolygu perfformiad cynulleidfaoedd ac allbwn, ynghyd â goruchwyllo cyllid a gweithrediadau.

Pwyllgor Gweithredol Studios

Cadeirydd: Tom Fussell

Un o bwyllgorau Bwrdd BBC Studios Limited yw Pwyllgor Gweithredol BBC Studios, is-gwmni dan berchenogaeth llawn BBC Commercial Limited – sy'n gyfrifol am oruchwyllo grŵp BBC Studios. Pwyllgor Gweithredol BBC Studios sydd ag awdurdod o ddydd i ddydd ac ef yw corff cymeradwyo grŵp BBC Studios. Y pwyllgor sy'n cyflawni'r canlyniadau masnachol fel sy'n ofynnol, neu fel y dirprwyir, gan Fwrdd Masnachol y BBC.

Y Pwyllgor Gweithrediadau

Cadeirydd: Leigh Tavaziva

Y Pwyllgor Gweithrediadau sy'n sicrhau y caiff blaenoriaethau strategol y BBC eu cyflawni. Yn benodol, mae'n cwmpasu: y broses o weithredu, cydlynu a chyflawni prosiectau strategol allweddol ar draws y BBC; rheoli risgiau, archwilio mewnol a gweithgareddau sicrwydd; y broses o adolygu a chymeradwyo polisïau ar draws y BBC ar faterion gweithredol; a chydymffurfiaeth â rhwymedigaethau ariannol, rheoleiddiol a gweithredol.

Y Grŵp Arweinyddiaeth Ddigidol

Cadeirydd: Storm Fagan

Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth Ddigidol yn adolygu'r cynnydd a wneir tuag at weithredu Amcanion a Chanlyniadau Allweddol ar draws y BBC ac mae'n goruchwyllo gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag aeddfedrwydd digidol. Sefydlwyd y Grŵp yn 2020 ac mae'n goruchwyllo map ffordd cynhyrchion ac arferion gwaith digidol yn gyntaf ar draws y BBC, wrth gefnogi strategaeth Gwerth i Bawb.

Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf

Cyd-gadeiryddion: Oscar Thewlis, Zara Tso

Sefydlwyd Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf yn 2017 fel is-bwyllgor ffurfiol o'r Pwyllgor Gweithredol. Mae'n cyflawni swyddogaeth gynghori ar gyfer y Pwyllgor Gweithredol, yn benodol i ystyried yr heriau sy'n wynebu'r BBC o safbwynt cynulleidfaoedd iau. Gweler tudalen 87.

Llywodraethu

Adroddiad cydymffurfiaeth gorfforaethol a llywodraethu

Cydymffurfiwn ag arferion gorau llywodraethu corfforaethol

Diffinnir fframwaith llywodraethu corfforaethol y BBC yn ei Siarter a'r Cytundeb Fframwaith cysylltiedig. Mae'r Siarter a'r Cytundeb ar gael ar wefan y BBC yn bbc.com/aboutthebbc/governance/charter.

Mae Siarter y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ystyried egwyddorion llywodraethu corfforaethol da a dderbynnir yn gyffredinol. Er nad yw'r BBC yn gwmni rhestredig, mae wedi dewis cymhwyso arferion gorau a dilyn darpariaethau Rheolau Rhestru'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol a Chod Llywodraethu Corfforaethol 2018 y DU ("y Cod"), lle y bo hynny'n briodol. Mae hyn yn cyrraedd y safonau llywodraethu sy'n gymwys i gwmnïau a restrir ar farchnad stoc reoleiddiedig yr UE.

Adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd

Yn ystod 2023, cynhaliwyd Adolygiad allanol o Effeithiolrwydd y Bwrdd, a oedd yn canolbwyntio'n benodol y flwyddyn hon ar adolygiad o Bwyllgorau'r Bwrdd. Cynhaliwyd yr adolygiad gan Christopher Saul Associates yn ystod rhan gyntaf 2023 ac roedd yn cynnwys cyfweiliadau ag aelodau'r Bwrdd a rhanddeiliaid allweddol, holiadur ar berfformiad y Bwrdd ac archwiliad o sgiliau pob aelod. Cyflwynwyd yr adolygiad i'r Bwrdd ym mis Ebrill 2023, a thrafodwyd y canfyddiadau ymhellach ym mis Medi 2023.

Ystyriodd yr adolygiad sut y gellid defnyddio Pwyllgorau'r Bwrdd i ysgafnhau'r pwysau ar agendâu'r Bwrdd. Yn gyffredinol, er na nododd yr adolygiad bynciau perthnasol ar yr agenda y gellid eu trosglwyddo'n hawdd i'r Pwyllgorau, cytunwyd y byddai'n werth gwneud rhai newidiadau i rolau'r Pwyllgorau a fyddai'n rhannu'r llwyth gwaith cyffredinol yn fwy cyfartal ac yn rhoi ffocws ychwanegol ar bynciau penodol.

Ym mis Hydref 2023, cytunodd y Bwrdd ar gyfres o gamau gweithredu yn deillio o argymhellion yr adolygiad, gan gynnwys:

- cyflwyno cyfleoedd trafod ac ymgysylltu creadigol ychwanegol fel rhan o gyfarfodydd y Bwrdd;
- cynyddu nifer y sesiynau briffio ad hoc ychwanegol ar bynciau allweddol a gynigir i aelodau'r Bwrdd;
- cyflwyno pedwerydd cyfarfod blynyddol o Bwyllgorau'r Gwledydd, wedi'i gynnal ar ffurf sesiwn ar y cyd rhwng pob Pwyllgor er mwyn gallu trafod a rhannu arfer gorau ar draws yr ardaloedd;
- ehangu cylch gwaith y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu i gynnwys materion llywodraethu ehangach a threfniadau cynllunio olyniaeth y Bwrdd;
- ehangu cylch gwaith y Pwyllgor Cydnabyddiaeth i ganolbwyntio ar bynciau ehangach sy'n ymwneud â phobl a thalent, gan gynnwys ymrwymïadau Amrywiaeth a Chynhwysiant y BBC;

- ystyried y ffordd orau o gydbwysio llwyth gwaith y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Masnachu Teg, o ystyried y pwysau ar agendâu a'r ymrwymiad amser sy'n ofynnol gan gyfarwyddwyr anweithredol.

Rhoddwyd pob un o'r argymhellion hyn ar waith yn ystod y flwyddyn, ac ystyriodd y Bwrdd gynnig ym mis Mehefin 2024 i gysoni swyddogaethau'r Pwyllgor Masnachu Teg â'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Caiff y cynllun hwn ei gadarnhau a'i roi ar waith ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod haf 2024.

Darpariaethau'r Cod Corfforaethol

Mae nifer o elfennau o'r Cod nad ydynt yn briodol i amgylchiadau'r BBC neu lle mae cydymffurfiaeth â Siarter neu Gytundeb y BBC yn drech na nhw.

Mae hyn yn ymwneud â'r canlynol:

- darpariaeth 3, 4, 36 a 37, mewn perthynas ag ymgysylltu â chyfranddalwyr a chyd-fynd â'u buddiannau, nad ydynt yn gymwys, o ystyried nad oes gan y BBC gyfranddalwyr yn yr un modd ag sydd gan gwmni. Fodd bynnag, mae gan y BBC amrywiaeth eang o fesurau ar waith i sicrhau ei fod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol a'r cyhoedd (gweler tudalen 48 am ragor o wybodaeth am sut rydym yn gwneud hyn)
- darpariaeth 5, materion a nodir yn adran 172 o Ddeddf Cwmnïau 2006, sy'n berthnasol i gwmnïau yn unig ac y mae dibenion cyhoeddus y BBC, fel y'u disgrifir yn y Siarter, yn drech na nhw
- darpariaeth 18, aelodaeth o'r Bwrdd, a lywodraethir gan erthyglau'r Siarter, ynghyd â darpariaethau 33 a 34, lle caiff cyflogau'r Cadeirydd a'r cyfarwyddwyr anweithredol eu pennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
- darpariaeth 25 a 26, y dull o benodi neu ailbenodi'r archwilydd allanol, a lywodraethir ac a bennir gan gymal 55 o'r Cytundeb

Yn ogystal, penodwyd cyngorwyr cydnabyddiaeth allanol i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn 2022/23, o ystyried nad oedd Cadeirydd y Pwyllgor wedi gwasanaethu'n flaenorol am gyfnod o 12 mis ar Bwyllgor o'r fath.

Fodd bynnag, mae'r BBC wedi cydymffurfio'n llawn â gofynion llywodraethu corfforaethol y Siarter a'r Cytundeb yn ogystal â chydymffurfio'n llawn ag elfennau gweddilliol y Cod.

Cost cydymffurfio

Er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol y mae'r BBC yn ddarostyngedig iddi fel darlledwr a chorff cyhoeddus, yn 2023/24 aethom i gostau cydymffurfio amcangyfrifedig o £20 miliwn (2022/23: £19 miliwn). Mae'r ffigur hwn yn cynnwys ffi'r BBC i Ofcom, sef £9 miliwn.

Rheoleidd-dra

Rhaid i'r broses o reoli holl adnoddau'r BBC fod yn unol â darpariaethau'r Siarter, y Cytundeb Fframwaith a chytundebau eraill a wna'r BBC â Gweinidogion y Llywodraeth. Ystyrir bod trafodion sy'n cyflawni'r dibenion a fwriadwyd ac sy'n unol ag awdurdodau perthnasol yn rhai 'rheolaidd'; caiff y rhai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf hyn eu hystyried yn 'afreolaidd'. Ymddrinnir â thrafodion twyllodrus a chosbau ariannol neu ddirwyon fel rhai 'afreolaidd'. Yn ogystal ag adolygiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o reoleidd-dra (fel archwilwyr allanol, ar ran y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol), cynhaliodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygiad o fframwaith cydymffurfio â rheoleidd-dra'r BBC, gan gynnwys y prosesau, y rheolaethau a'r systemau sicrwydd sydd ar waith i reoli'r risg i reoleidd-dra mewn meysydd yr asesiad eu bod yn wynebu'r risg fwyaf o afreoleidd-dra. Gwnaeth cwmpas yr adolygiad ystyried y defnydd priodol o ffi'r drwydded, yr asesiad o newidiadau perthnasol, gweithredu o fewn terfynau benthyca a'r risg o dwyll. Ni nodwyd unrhyw eithriadau perthnasol o ganlyniad i'r adolygiad hwn ac nid yw'r rheolwyr yn ymwybodol o unrhyw drafodion y gellid eu hystyried yn afreolaidd.

Mae Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y DU (CMA) wrthi ar hyn o bryd yn cynnal dau ymchwiliad i weithgareddau prynu'r BBC. Mae'r BBC yn cydweithredu ag ymholiadau'r Awdurdod mewn perthynas â'r ddau ymchwiliad. Ceir rhagor o fanylion yn nodyn H4 ar dudalen 243.

Pwyllgor Gweithredol

Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cadeirio Pwyllgor Gweithredol, sy'n gyfrifol am redeg y BBC o ddydd i ddydd.

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau'r BBC yn unol â'r strategaeth y cytunwyd arni gan y Bwrdd, ac am bob agwedd ar reoli gweithredol.

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn goruchwyllo prosiectau strategol allweddol a chynigion o bwys i'r sefydliad cyfan. Mae'n cael adroddiadau rheolaidd ar gynulleidfaeoedd a pherfformiad ariannol, yn ogystal â goruchwyllo polisiâu a materion gweithredol y BBC cyfan. Mae gwybodaeth am drefniadau cydnabyddiaeth y Pwyllgor Gweithredol yn 2023/24 ar gael yn yr adroddiad Cydnabyddiaeth ar dudalen 93.

Ni fu unrhyw newidiadau i aelodaeth y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

Mae manylion llawn aelodaeth y Pwyllgor Gweithredol ar gael yn: bbc.com/aboutthebbc/whoware/exco. Mae'r tudalennau hyn yn dangos aelodaeth y Pwyllgor Gweithredol ym mis Gorffennaf 2024.



Tim Davie CBE
Cyfarwyddwr
Cyffredinol a Phrif
Olygydd



Kerris Bright
Prif Swyddog
Cwsmeriaid



Alan Dickson
Prif Swyddog Ariannol



Tom Fussell
Prif Swyddog
Gweithredol, BBC
Studios



Alice Macandrew
Cyfarwyddwr Materion
Corfforaethol y Grŵp



Charlotte Moore
Prif Swyddog
Cynnwys



Uzair Qadeer
Prif Swyddog Pobl



Gautam Rangarajan
Cyfarwyddwr
Strategaeth a
Pherfformiad y Grŵp



Rhodri Talfan Davies
Cyfarwyddwr y
Gwledydd



Leigh Tavaziva
Prif Swyddog
Gweithredu



Deborah Turness
Prif Swyddog
Gweithredol BBC
News and Current
Affairs

Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf

Sefydlwyd Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf y BBC gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar ddiwedd 2017 gyda'r nod o gynghori Pwyllgor Gweithredol ac Uwch-arweinwyr y BBC a sicrhau bod llais a syniadau pobl iau yn cael eu clywed ar lefel weithredol. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys 15-20 o aelodau iau o'r staff o bob rhan o'r sefydliad am gyfnod o 12-18 mis. Yn 2023/24, datblygodd y Pwyllgor gynigion ar wella llythrennedd data cynulleidfaeoedd o fewn timau cynnwys, ehangu arlwy gemau ar-lein y BBC, a datblygu strwythurau mewnlol ar gyfer cyfathrebu â staff a gwaith tîm.

Cymerodd aelodau'r pwyllgor hefyd ran mewn trafodaethau a oedd yn gysylltiedig ag adolygiad John Hardie o ganllawiau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol,

Yr aelodau ar gyfer 2023/24 yw:

Zara Tso (Cyd-gadeirydd)
*Comisiynydd Cynorthwyol,
BBC Radio 1 a 1Xtra*

Oscar Thewlis (Cyd-gadeirydd)
*Uwch-wyddonydd Data,
Gwybodaeth am Fusnes Adnoddau Dynol*

Joel Mitchell
*Uwch-gynhyrchydd, BBC Radio 5 live a
Chyflwynydd/Cynhyrchydd, BBC Local*

Shanequa Paris
Uwch-newyddiadurwr, Newsround

Mairead Anderson
*Swyddog Gweithredol Cyfryngau
Cymdeithasol, BBC Three*

Laura Bankart
*Uwch-gynllunydd Marchnata a
Chynulleidfaeoedd, Newyddion a Chwaraeon*

Lizzie Halliwell
Newyddiadurwr, BBC Radio 5 live Breakfast

Sebastian Ward
Peiriannydd, Ymchwil a Datblygu

Grace Jasper
Rheolwr Ymchwil i'r Gynulleidfa, Radio'r BBC

Lucy Fleming
Marchnata Creadigol, Gogledd Iwerddon

Carmella Osborne-Brown
Uwch-gynllunydd, TV Social

Lynne Egwuekwe
*Ymchwilydd Dylunio,
Newyddion, Chwaraeon Byw a'r Tywydd*

Maria Zaccaro
*Uwch-newyddiadurwr,
BBC South Investigates*

Rob Makepeace
*Newyddiadurwr Chwaraeon,
BBC Radio Lincolnshire*

Hannah Gelbart
*Prif Gyflwynydd, Podlediad Global Youth:
What in the World*

Shazia Ali
Newyddiadurwr, BBC Cymru

Llywodraethu

Adroddiad cydnabyddiaeth

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ar gyfer 2023/24, sy'n nodi gwybodaeth am gydnabyddiaeth y Bwrdd a'r pwyllgor gweithredol. Mae hefyd yn cynnwys yr adroddiad ar ddatgeliadau cyflog sy'n ofynnol gan Siarter y BBC, a gaiff ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor.

Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth bum gwaith, a gwnaethom hefyd gyfarfod â'r Bwrdd Gweithredol all-lein yn ôl yr angen. Ymunodd Muriel Gray a Damon Buffini â mi fel aelodau'r Pwyllgor. Ymunodd Damon â ni'n ffurfiol ym mis Medi 2023 ac mae'n ychwanegu dealltwriaeth bwysig i'n gwaith diolch i'w rôl fel Cadeirydd y Bwrdd Masnachol. Gadawodd Richard Sharp y Pwyllgor pan ymddiswyddodd o'r Bwrdd ym mis Mehefin 2023.

Cefnogwyd ein gwaith gan Uzair Qadeer, Prif Swyddog Pobl y Grŵp, y timau Adnoddau Dynol a Gwobrwyo o fewn sefydliadau BBC Public Service and Commercial, yn ogystal â chyfraniadau gan PwC, gan weithredu fel cyngorwyr cydnabyddiaeth annibynnol i'r Pwyllgor. Hoffwn ddiolch i bob un ohonynt am eu cymorth yn ystod y flwyddyn.

Gwnaethom gymeradwyo'r strategaeth wobwyo tair blynedd ddiweddaraf ym mis Mai 2023, a oedd yn cynnwys egwyddorion cyflog wedi'u diweddarau sy'n symlach, yn fwy cymhellol ac yn fwy perthnasol i gyd-destun ac uchelgais presennol y sefydliad. Mae'r egwyddorion gwobrwyo newydd yn Deg, Clir a Chystadleuol ac fe'u nodir yn fanylach ar dudalen 89.

Cynhaliwyd adolygiad o gyflog y Pwyllgor Gweithredol ym mis Awst 2023 a chytunwyd ar godiadau yn unol â'n dull ar gyfer rheoli cyflogau uwch-arweinwyr ehangach gan adlewyrchu cyfraniad unigol a'r sefyllfa yn erbyn dulliau meincnodi allanol. Roedd y buddsoddiad yng nghyflogau'r pwyllgor gweithredol yn is fel canran na'r buddsoddiad ehangach yng nghyflogau cyflogaion.

O ran BBC Studios, cymeradwyodd y Pwyllgor yr eitemau canlynol yn ystod y flwyddyn:

- Yr alldro o dan gynllun Bonws Cwmni Studios 2022/23, gan adlewyrchu perfformiad ariannol cadarn mewn marchnad heriol.
- Y targedau ar gyfer cynllun Bonws Cwmni Studios 2023/24.
- Cyflwyno cynllun cymell daliadau hidymor (LTIP) i'r swyddogion uchaf yn yr endidau masnachol er mwyn sicrhau ffocws ar yr amcanion tymor hwy a'r gallu parhaus i ddenu, cadw ac ymgysylltu â thalent hanfodol.
- Mesurau a thargedau ar gyfer dyfarniad LTIP 2023-2026 sy'n adlewyrchu'r Cynllun Ystod Hir yn ogystal â chyfraniadau i'r sefydliad Gwasanaeth Cyhoeddus ac ymrwymadau o dan ein strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Rydym yn cefnogi'r ffocws parhaus ar amrywiaeth a chynhwysiant ac mae'n bleser gennym nodi cynnydd da yn erbyn targedau cynrychiolaeth y cynllun 50:20:12:25.

Rydym wedi monitro bylchau cyflog drwy adroddiadau rheolaidd gan y rheolwyr. Mae'r bylchau hyn yn deillio'n bennaf o hyd o niferoedd staff ar wahanol lefelau ac o fewn teuluoedd swydd gwahanol ym mhob rhan o'r sefydliad. Mae'n galonogol nodi er bod y bylchau cyflog cyffredinol rhwng y rhywiau wedi cynyddu y flwyddyn hon, nad oes bylchau cyflog mawr yn ôl bandiau swyddi a bod y bylchau cyffredinol yn parhau islaw lefelau'r DU a diwydiant y cyfryngau. Rydym wedi gofyn am sicrwydd manwl gan y Bwrdd Gweithredol, ac wedi cael sicrwydd o'r fath, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw broblemau sylfaenol o ran tegwch cyflogau yn gysylltiedig â ffigurau'r BBC ac rydym yn ffyddiog bod prosesau craffu gofalus ar waith ar gyfer yr holl benderfyniadau cyflog a wneir fel rhan o'r prosesau llywodraethu rheolaidd.

Rydym yn cael adroddiadau rheolaidd gan reolwyr ar niferoedd o gyflogaion cyfwerth ag amser llawn, a oedd yn gymharol sefydlog y flwyddyn hon. Rydym hefyd wedi monitro costau cyflogau cyffredinol, a thaliadau diswyddo, fel rhan o'n busnes rheolaidd. Y flwyddyn hon, yn dilyn adolygiad effeithiolrwydd allanol y Bwrdd, gwnaethom hefyd gytuno y dylid diwygio cylch gorchwyl y Pwyllgor i ganolbwyntio ar faterion ehangach sy'n ymwneud â phobl, gan gynnwys cyflawni'r ymrwymadau amrywiaeth a chynhwysiant.

Ar y cyfan, rwy'n hyderus bod yr adroddiad blynyddol hwn yn dangos bod cyflogau yn y BBC yn cael eu rheoli'n dda a'u bod yn unol â normau'r farchnad, a bod materion ehangach sy'n ymwneud â phobl yn cael sylw a ffocws priodol o hyd a bod adnoddau priodol yn cael eu neilltuo iddynt. Edrychaf ymlaen at barhau i oruchwylio'r broses o ddatblygu strategaeth gwobrwyo a phrosesau pobl y BBC yn 2024/25.

Robbie Gibb

Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth
10 Gorffennaf 2024

Mae'r adroddiad hwn yn nodi polisi cydnabyddiaeth y BBC ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol ac uwch-arweinwyr ac yn rhoi manylion am y gydnabyddiaeth flynyddol a dderbyniwyd gan aelodau o Fwrdd y BBC a'r Pwyllgor Gweithredol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Mae hyn yn cynnwys ein datgeliad blynyddol o gyflogau fel sy'n ofynnol gan Siarter y BBC.

Fe'i paratowyd gan ystyried gofyniad Rheoliadau Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 (fel y'u diwygiwyd) a'r Rheolau Rhestru lle bo'r darpariaethau datgelu hyn yn berthnasol i'r BBC. Archwiliwyd yr adrannau ar bensiynau a chydabyddiaeth a dderbyniwyd gan Fwrdd a Phwyllgor Gweithredol y BBC gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, archwilwyr statudol y BBC.

Cyfansoddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a'r ffordd y mae'n gweithredu

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd, ers 1 Ebrill 2017, wedi bod yn gyfrifol am bennu'r strategaeth cydnabyddiaeth i Grŵp y BBC ac am bob agwedd ar gydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol y Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd. Ei aelodau yw'r cyfarwyddwyr anweithredol Robbie Gibb (Cadeirydd), Muriel Gray a Damon Buffini, a ymunodd â'r Pwyllgor ym mis Medi 2023. Roedd Richard Sharp yn aelod o'r Pwyllgor hyd nes iddo ymddiswyddo fel Cadeirydd y BBC ym mis Mehefin 2023.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cael cyngor arbenigol gan gynghorwyr proffesiynol allanol ar rai materion, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud ag arfer y farchnad. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd cyngor annibynnol gan Willis Towers Watson ar faterion yn ymwneud â chydabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol ac o bryd i'w gilydd ar ffurf asesiadau o'r farchnad, a gan PwC ar gynllun cymhelliant mewn perthynas â'n his-gwmnïau masnachol ac fel cynghorwyr annibynnol i'r Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn sicrhau bod cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol yn gyson â diben a gwerthoedd y BBC. Mae'n sicrhau bod ein trefniadau'n dryloyw ac yn hawdd eu deall, a bod lefelau cydnabyddiaeth yn gymesur â chyfraniad.

Caiff adroddiad gan reolwyr ar gyflogau a nifer staff ei adolygu bob chwarter gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Mae pwyllgorau cymeradwyo is-adrannol ac uwch-arweinwyr yn adolygu ac yn cymeradwyo unrhyw geisiadau eithriadol am addasiadau cyflogau, nifer ychwanegol o staff a diswyddiadau anghytundebol.

Aelodaeth y Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol

At ddibenion yr adroddiad hwn, cyfarwyddwyr gweithredol yw'r rhai sy'n aelodau o'r Bwrdd ynghyd â'r aelodau eraill o'r Pwyllgor Gweithredol.

Mae Bwrdd y BBC yn cynnwys 14 o aelodau, gyda mwyafrif o gyfarwyddwyr anweithredol. Penodwyd y Cadeirydd a phedwar o'r aelodau anweithredol gan y Brenin mewn Cyngor ar argymhelliad Gweinidogion, gydag un aelod yn cynrychioli pob un o bedair gwlad y DU. Llenwyd swydd yr aelod ar gyfer Gogledd Iwerddon y flwyddyn hon, am y tro cyntaf, a phenodwyd aelod newydd ar gyfer Cymru ym mis Mai 2024.

Mae Bwrdd y BBC yn penodi pum aelod anweithredol arall drwy ei Bwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu. Mae pedwar cyfarwyddwr gweithredol ar y Bwrdd, gan gynnwys Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, sef prif swyddog gweithredol a phrif olygydd y Gorfforaeth. Ceir rhagor o fanylion am aelodaeth y Bwrdd ar dudalen 84.

Cefnogir Bwrdd y BBC gan y Pwyllgor Gweithredol, sy'n gyfrifol am arweinyddiaeth weithredol y Gorfforaeth. Ceir manylion am lefelau cydnabyddiaeth yr 11 cyfarwyddwr gweithredol ar dudalen 93. Ceir manylion am aelodaeth y Pwyllgor Gweithredol ar dudalen 87.

Egwyddorion Cyflogau'r BBC

Mae gennym fframwaith cydnabyddiaeth sefydledig sy'n cynnwys ein Hegwyddorion Gwobrwo ac sy'n ein helpu i wneud penderfyniadau cyson am gyflogau ym mhob rhan o'r sefydliad. Mae ein Hegwyddorion Gwobrwo yn sicrhau ein bod yn cynnal ein ffocws ar gyflogau teg ac yn sicrhau bod trefniadau gwobrwo yn y BBC yn cael eu deall a'u cyfleu mewn ffordd dryloyw, yn ogystal â chydwyso'r angen i gynnig gwobrau sy'n cystadlu â'r farchnad â gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded.

1. Teg: Rydym yn ymrwymedig i gyflogau teg ym mhob rhan o'r BBC, gan gydnabod y gwahaniaethau yn y gwaith a wnawn ac yn y marchnadoedd talent rydym yn gweithredu o'u mewn. Rydym yn sicrhau y gellir cyfiawnhau pob penderfyniad gwobrwo. Mae cyfrifoldeb cyfreithiol arnom mewn perthynas â'n pobl o ran cyflog cyfartal. Rydym yn ymrwymedig i gynnal lefel uchel o dryloywder mewn perthynas â chyflog er mwyn parhau i feithrin ymddiriedaeth ymhlith ein pobl.
2. Clir: Mae ein cynnig gwobrwo yn syml ac yn hawdd i'w deall. Rydym yn dilyn polisiâu a phrosesau cyson wrth wneud penderfyniadau am gyflogau. Rydym yn gosod disgwyliadau perfformiad clir ac yn cydnabod y rhai hynny sy'n gwneud gwaith eithriadol.

3. Cystadleuol: Rydym yn cymharu ein dull yn rheolaidd yn erbyn dulliau'r farchnad er mwyn sicrhau bod ein holl ddarpariaeth wobrwyo yn gystadleuol, gan bwysu a mesur hynny yn erbyn yr angen i reoli costau'n ofalus. Rydym yn hyblyg ac yn ymatebol. Mae hyn yn ein galluogi i ddenu ac i gadw'r dalent sydd ei hangen arnom i greu'r cynnwys a'r gwasanaethau gorau i'n cynulleidfaoedd.

Polisi Cydnabyddiaeth Uwch-arweinwyr

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn ymrwymedig i bennu cyflog priodol i gyfarwyddwyr gweithredol sy'n denu, yn cymell ac yn cadw'r bobl orau i arwain y BBC a sicrhau gwerth i dalwyr ffi'r drwydded. Mae egwyddorion gwobrwo'r BBC yn gymwys i'r holl staff, cyfarwyddwyr gweithredol ac uwch-arweinwyr ym mhob rhan o Grŵp y BBC.

Wrth bennu polisi'r BBC ar gyflogau, mae'r Pwyllgor yn ystyried darpariaethau arferion gorau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU yn llawn.

Nid oes gan gyfarwyddwyr gweithredol nac uwch-arweinwyr yr hawl i gael y codiad cyflog blynyddol y cytunwyd arno â'r Cyd-undebau ac nid oes ganddynt hawl awtomatig i gael unrhyw fath o gynyddran flynyddol na thaliad datblygiad. Dim ond y Pwyllgor Cydnabyddiaeth all wneud penderfyniadau ar gyflogau cyfarwyddwyr gweithredol a chaiff penderfyniadau ar gyflogau uwch-arweinwyr eu hadolygu gan Bwyllgor Eithriadau'r Uwch-arweinwyr er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch.

Llywodraethu

Adroddiad cydnabyddiaeth – parhad

Elfen	Diben a'i chysylltiad â'r strategaeth	Gweithrediad	Y cyfle mwyaf
Cyflog sylfaenol	<p>Ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol, diffinnir cyflog sylfaenol drwy gyfeirio at ganolrif y farchnad wedi'i ddisgowntio ar gyfer cyfanswm cydnabyddiaeth uniongyrchol (cyflog, bonws blynyddol a chymhelliant hirdymor blynyddol).</p> <p>Ar gyfer uwch-arweinwyr, caiff ystodau cyflog swydd eu llywio gan benderfyniadau cyflog canllaw cyfanswm arian parod (cyflog sylfaenol, lwfansau a bonws targed) targed canolrifol ar y farchnad. Disgwylir y bydd hyn yn arwain at bennu cydnabyddiaeth is na'r farchnad gan mai dim ond grŵp bach iawn o'n huwch-swyddogion gweithredol yn ein hendidau masnachol a gaiff gynniig cymhellion hirdymor.</p> <p>Ni chaiff unrhyw un ei dalu ar lefel sy'n is na'r isafswm ystod cyflog swydd ar gyfer ei rôl, ac mae'r holl ystodau cyflog yn dryloyw i weithlu ehangach y BBC.</p>	<p>Defnyddir y ffactorau canlynol i bennu lefel y cyflog sylfaenol a bennir ar gyfer cyfarwyddwr gweithredol neu uwch-arweinydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • graddfa a chymhlethdod y rôl • gwybodaeth, sgiliau a phrofiad • perfformiad a chyfraniad • ffactorau'r farchnad a fforddiadwyedd <p>Caiff cyflogau eu hadolygu'n flynyddol, gyda chodiadau yn weithredol o 1 Awst. Cytunir ar gyllideb ac fe'i dosberthir yn unol â'r ffactorau uchod.</p> <p>Caiff ystodau cyflog swydd ar gyfer uwch-arweinwyr eu hadolygu'n flynyddol a'u diweddarau yn ôl yr angen.</p>	<p>Dim uchafswm cyflog nac uchafswm cynnydd penodedig i gyfarwyddwyr gweithredol.</p> <p>Mae ystodau cyflog swydd uwch-arweinwyr yn cynnwys isafswm ac uchafswm; lle mae unigolyn uwchlaw uchafswm ei ystod cyflog am resymau etifeddol neu fasnachol yna ni fydd ei gyflog yn cynyddu ymhellach.</p>
Tâl Amrywiadwy	<p>Mae arweinwyr sydd wedi'u cyflogi ym musnesau masnachol y BBC yn gymwys i gael bonws blynyddol ar sail perfformiad. Caiff bonysau o'r fath eu hariannu'n gyfan gwbl gan y busnesau masnachol yn hytrach na ffi'r drwydded. Mae'n cynniig gwobr am gyflawni nodau strategol byrdymor a thwf mewn elw. Mae nifer cyfyngedig o'r arweinwyr uchaf yn y busnes masnachol yn gymwys ar gyfer cynllun cymhelliad hirdymor y mae ei daliadau yn gysylltiedig â chyflawni amcanion strategol i'r busnes masnachol.</p>	<p>Nid oes gan gyfarwyddwyr gweithredol nac uwch-arweinwyr yn y Gwasanaeth Cyhoeddus yr hawl i gael taliad bonws ar sail perfformiad.</p> <p>Mae taliadau bonws o fewn busnesau masnachol y BBC yn amodol ar gyrraedd targedau yn seiliedig ar elw a pherfformiad unigol.</p> <p>Mae taliadau o dan y cynllun cymhelliad hirdymor yn y busnes masnachol yn gysylltiedig â chyflawni targedau ariannol ac anariannol hirdymor.</p>	<p>Nid oes unrhyw gyfarwyddwr gweithredol yn y Gwasanaeth Cyhoeddus wedi cael bonws ers 2008.</p> <p>Ar gyfer 2023/24, cymerodd un cyfarwyddwr gweithredol – Prif Swyddog Gweithredol BBC Studios – ran mewn cynllun bonws. Mae gan y cynllun cymhelliant ar gyfer y Prif Swyddog Gweithredol fonws targed o 60% ac uchafswm o 90% o'r cyflog sylfaenol.</p> <p>Mae Prif Swyddog Gweithredol BBC Studios hefyd yn gymwys ar gyfer y cynllun cymhelliad hirdymor. Yr uchafswm taliad o dan y cynllun hwn ar ôl tair blynedd yw 100% o'r cyflog sylfaenol.</p>
Buddiannau – Pensiwn	<p>Cynigir pensiynau yn unol â'r trefniadau pensiwn a gynigir i holl gyflogeion y BBC.</p> <p>Yn ogystal â phensiynau, darperir yswiriant bywyd yn unol â'r trefniadau a ddarperir ar gyfer holl gyflogeion y BBC.</p>	<p>Gall cyfarwyddwyr gweithredol ac uwch-arweinwyr ddewis ymuno â chynllun cyfraniadau diffiniedig y BBC, sef LifePlan.</p> <p>Mae cynllun buddiannau diffiniedig y BBC wedi'i gau i staff newydd sy'n ymuno.</p> <p>Trefnir yswiriant bywyd yn achos marwolaeth mewn swydd o bedair gwaith eu cyflog sylfaenol i gyfarwyddwyr gweithredol.</p>	<p>Mae'r polisi cyfredol yn darparu cynllun cyfraniadau diffiniedig heb gap cyflog, ac uchafswm cyfraniad o 10% o gyflog gan y cyflogwr.</p> <p>Mae aelodau presennol o gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig yn destun cap ar lefel yr uchafswm cyflog ar gyfer eu cynllun pensiwn neu'n destun cap mewn twf mewn cyflog pensiynadwy.</p>
Buddiannau – Cludiant/teithio	<p>Dim ond i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cadeirydd y cynigir buddiannau teithio.</p>	<p>Mae defnydd o gar a gyrrwr ar gael i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cadeirydd fel hawl gytundebol ond nid oes ganddynt hawl i lwfans car personol na lwfans tanwydd. Mae rhai uwch-arweinwyr yn parhau i gael lwfans car etifeddol ers i'r buddiannau ceir gael eu dileu yn 2012.</p>	<p>Nid oes unrhyw uchafswm penodedig yn gysylltiedig â'r lwfans car etifeddol, gan mai budd hanesyddol ydoedd, nad yw wedi cael ei gynniig i staff newydd sy'n ymuno ers 2012.</p>
Buddiannau – Yswiriant Meddygol Preifat	<p>Ym mis Ebrill 2011, gwnaeth y BBC ddileu budd gofal iechyd preifat i bob cyfarwyddwr gweithredol ac uwch-reolwr newydd a chysoni â threfniadau i holl gyflogeion y BBC.</p> <p>Yn dilyn ymgynghoriad, cytunwyd i ddileu budd yswiriant meddygol preifat i gyfarwyddwyr gweithredol ac uwch-arweinwyr o 1 Ebrill 2019.</p>	<p>Mae un cyfarwyddwr gweithredol yn cael lwfans etifeddol yn lle yswiriant meddygol preifat.</p>	<p>Budd hanesyddol â gwerth penodedig ydyw.</p>

Efen	Diben a'i chysylltiad â'r strategaeth	Gweithrediad	Y cyfle mwyaf
Contractau cyflogaeth a diswyddo	Mae contractau cyflogaeth cyfarwyddwr gweithredol yn cynnwys cyfnod rhybudd o chwe mis ar y mwyaf, ond gellir eu terfynu'n gynt am reswm penodol.	Nid oes hawl gytundebol i unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol os terfynir contract yn gynnar oni bai ei fod yn cael ei derfynu ar sail diswyddo.	Os caiff swydd cyfarwyddwr gweithredol ei dileu, mae ganddo hawl i gael taliadau sy'n hafal i fis y flwyddyn hyd at uchafswm taliad o £150,000.
Cydnabyddiaeth arall	Nid oes unrhyw hawl i unrhyw gydnabyddiaeth arall, felly ni chafwyd unrhyw daliadau o'r fath yn ystod y flwyddyn.	Os cynigir unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol, rhoddir ystyriaeth lawn i'r risg i enw da'r BBC a byddai angen i unrhyw daliad o'r fath gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth cyn gweithredu.	Nid oes unrhyw uchafswm penodedig.

Pensiwn

Mae cyfarwyddwr gweithredol a ymunodd â'r BBC cyn 1 Rhagfyr 2010 yn gymwys i barhau i fod yn rhan o Gynllun Pensiwn y BBC ("y Cynllun"), sy'n darparu buddiannau pensiwn ar sail buddiannau diffiniedig. Mae cyfarwyddwr gweithredol a ymunodd â'r BBC ar neu ar ôl 1 Rhagfyr 2010 yn gymwys i ymuno â LifePlan, sef trefniant cyfraniad diffiniedig y BBC. Mae'r BBC yn talu cyfraniadau cyfatebol i LifePlan am gyfraniadau cyflogeion o 5%. Caiff cyfraniadau cyflogeion rhwng 6% a 7% eu cyfateb ynghyd ag 1% ychwanegol. Mae cyfraniadau cyflogeion o 8% neu fwy yn cael y cyfraniad cyflogwr uchaf o 10%. Nid oes unrhyw uchafswm cyflog pensynadwy i'r rhai sy'n cyfrannu at LifePlan.

Caiff cyfarwyddwr gweithredol sy'n penderfynu peidio ag ymuno â LifePlan neu nad ydynt eisoes yn aelod presennol o'r Cynllun, yn amodol ar fodloni'r meini prawf perthnasol, eu cofrestru'n awtomatig â'r Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST). Talodd y BBC 3% a thalodd cyflogeion 5% o enillion cymwys i NEST yn 2023/24 yn unol â gofynion statudol. Gall unigolion ddewis ymeithrio o hyn.

Caiff trefniadau pensiwn cyfarwyddwr gweithredol eu hadolygu a'u diwygio mewn ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth neu ddatblygiadau tebyg.

Rhoddir nodweddion trefniadau pensiwn y BBC y mae ein cyfarwyddwr gweithredol yn rhan ohonynt ochr yn ochr â chyflogeion eraill y BBC yn y tabl isod.

Mae manylion Cynllun Pensiwn y BBC ar gael yn bbc.co.uk/mypension/.

Cynllun Pensiwn Buddiannau Diffiniedig y BBC

Cynllun	Hen fuddiannau	Buddiannau newydd	CAB 2006	CAB 2011	Cyfraniad diffiniedig LifePlan	Cyfraniad diffiniedig (trefniant cofrestru awtomatig) Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST)
Dyddiad y caewyd	30 Medi 1996	31 Hydref 2006	30 Tachwedd 2010	1 Ionawr 2012	Yn agored i bob cyflogai cymwys	Yn agored i bob cyflogai cymwys
Croniad	60fed cronriad	60fed cronriad	1.67% o groniad Wedi'i addasu yn unol â chwyddiant	1.67% o groniad Wedi'i addasu yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr	Bydd y BBC yn cyfrannu uchafswm o 10% o gyflog os bydd cyflogai yn cyfrannu 8% gyda graddfa symud is.	Bydd y BBC yn cyfrannu 3% o enillion cymwys (2023/24)
Cyflog	Pensiynadwy terfynol	Pensiynadwy terfynol	Enillion wedi'u hailbriso cyfartaledd gyrfa	Enillion wedi'u hailbriso cyfartaledd gyrfa		
Oedran pensynadwy arferol	60	60	65	65	Dd/G	Dd/G
Cap ar enillion	Wedi ymuno cyn 1 Mehefin 1989, heb ei gapio, wedi'i gapio fel arall ar £205,200	Wedi'i gapio ar £205,200	Wedi'i gapio ar £205,200	Wedi'i gapio ar £181,200	Heb ei gapio	Isafswm enillion £6,240 y.f. Uchafswm enillion £50,270 y.f. (2023/24)
Twf mewn cyflog pensynadwy cyn i'r cap ar enillion gael ei gymhwys	Wedi'i gyfyngu ar 1% y.f.	Wedi'i gyfyngu ar 1% y.f.	Wedi'i gyfyngu ar 1% y.f.	Dim cyfyngiad	Dd/G	Dd/G
Cyfraniad cyflogai (% o gyflog pensynadwy)	7.50%	7.50%	4%	6%	Isafswm cyfraniad y cyflogai yw 5%	5% o enillion cymwys (2023/24)

Cydnabyddiaeth flynyddol Bwrdd y BBC a'r Pwyllgor Gweithredol – manylion cydnabyddiaeth a dderbyniwyd

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion llawn y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan holl aelodau Bwrdd y BBC ar gyfer 2023/24.

Ceir manylion Cadeiryddion pob un o wahanol bwyllgorau'r BBC ar dudalen 85. Mae pob Cadeirydd yn cael £5,000 y flwyddyn yn ychwanegol at eu ffioedd sylfaenol. Cynhwysir y ffioedd hyn yn y tabl isod. Dangosir yr holl ffioedd yn pro-rata lle y bo'n briodol.

Llywodraethu

Adroddiad cydnabyddiaeth – parhad

Bwrdd y BBC (archwiliedig)

Manylion y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd (gwerthoedd mewn £000oedd)

	Nodyn	Dyddiad dechrau cyfnod y penodiad	Dyddiad gorffen cyfnod y penodiad	Blwyddyn	Cyflog sylfaenol ¹	Buddiannau trethadwy ²	Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn	Ar sail perfformiad	Cyfanswm
Cyfarwyddwyr anweithredol									
Samir Shah	3	04/03/2024	03/03/2028	2023/24 2022/23	£12 £0	£1 £0	£0 £0	£0 £0	£13 £0
Richard Sharp	4	16/02/2021	27/06/2023	2023/24 2022/23	£39 £160	£3 £12	£0 £0	£0 £0	£42 £172
Shumeet Banerji		07/01/2022	31/12/2025	2023/24 2022/23	£33 £33	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£33 £33
Damon Buffini		01/01/2022	31/12/2025	2023/24 2022/23	£38 £38	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£38 £38
Shirley Garrood	5	03/07/2019	02/07/2023	2023/24 2022/23	£10 £38	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£10 £38
Robbie Gibb	6	07/05/2021	06/05/2028	2023/24 2022/23	£43 £43	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£43 £43
Muriel Gray		03/01/2022	02/01/2026	2023/24 2022/23	£38 £38	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£38 £38
Ian Hargreaves	7	03/04/2020	02/04/2023	2023/24 2022/23	£1 £38	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£1 £38
Nicholas Serota	8	03/04/2017	02/04/2025	2023/24 2022/23	£38 £38	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£38 £38
Elan Closs Stephens	9	20/07/2017	19/01/2024	2023/24 2022/23	£119 £43	£7 £0	£0 £0	£0 £0	£126 £43
Michael Smyth	10	20/07/2023	19/07/2027	2023/24 2022/23	£27 £0	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£27 £0
Marinella Soldi	11	11/09/2023	10/09/2026	2023/24 2022/23	£18 £0	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£18 £0
Chris Jones	12	24/07/2023	23/07/2027	2023/24 2022/23	£26 £0	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£26 £0
Cyfanswm cyfarwyddwyr anweithredol				2023/24 2022/23	£442 £469	£11 £12	£0 £0	£0 £0	£453 £481
Cyfarwyddwyr gweithredol									
Tim Davie	13	01/09/2020	Dd/G	2023/24 2022/23	£525 £525	£2 £3	£0 £0	£0 £0	£527 £528
Charlotte Moore	14	01/09/2020	31/08/2024	2023/24 2022/23	£468 £442	£2 £2	£0 £29	£0 £0	£470 £473
Leigh Tavaziva	15	01/02/2021	31/01/2025	2023/24 2022/23	£442 £417	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£442 £417
Deborah Turness	16	05/09/2022	04/09/2024	2023/24 2022/23	£413 £233	£0 £0	£1 £0	£0 £0	£414 £233
Cyfanswm cyfarwyddwyr gweithredol				2023/24 2022/23	£1,848 £1,617	£4 £5	£1 £29	£0 £0	£1,853 £1,651
Cyfanswm y Bwrdd				2023/24 2022/23	£2,290 £2,086	£15 £17	£1 £29	£0 £0	£2,306 £2,132

1 Caiff y ffoedd eu dangos ar sail pro-rata lle gwnaeth yr aelodau adael neu ymuno yn ystod y flwyddyn

2 Buddiannau trethadwy: lwfans car, yswiriant meddygol preifat/lwfans etifeddol a threuliau trethadwy eraill. Mae car â gyrrwr ar gael i'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol at ddibenion busnes yn unig

3 Penodwyd Samir Shah fel Cadeirydd ar 4 Mawrth 2024 ac felly ni chafodd unrhyw gydnabyddiaeth yn 2022/23

4 Ymddiswyddodd Richard Sharp o'i rôl fel Cadeirydd ar 28 Ebrill 2023 a gadawodd y BBC ar 27 Mehefin 2023. Cafodd ffi o £160,000 y flwyddyn, a bennwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, fel Cadeirydd Bwrdd y BBC. Rhoddodd y BBC ei ffoedd ar ôl Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a didyniadau angenrheidiol eraill i elusen, gan ddefnyddio cynllun rhoi drwy'r gyflogres y BBC

5 Ymddiswyddodd Shirley Garrood o'r Bwrdd a gadawodd y BBC ar 2 Gorffennaf 2023

6 Penodwyd Robbie Gibb am ail gyfnod a ddechreuodd ar 7 Mai 2024

7 Ymddiswyddodd Ian Hargreaves o'r Bwrdd a gadawodd y BBC ar 2 Ebrill 2023. Derbyniodd £211 yn 2023/24

8 Penodwyd Nicholas Serota am ail gyfnod a ddechreuodd ar 3 Ebrill 2021

9 Penodwyd Elan Closs Stephens fel Cadeirydd dros dro o 28 Mehefin 2023 a gadawodd y Bwrdd ar 3 Mawrth 2024, pan gafodd y Cadeirydd newydd ei benodi

10 Ymunodd Michael Smyth â'r Bwrdd ar 20 Gorffennaf 2023 ac felly ni chafodd unrhyw gydnabyddiaeth yn 2022/23

11 Ymunodd Marinella Soldi â'r Bwrdd ar 11 Medi 2023 ac felly ni chafodd unrhyw gydnabyddiaeth yn 2022/23

12 Ymunodd Chris Jones â'r Bwrdd ar 24 Gorffennaf 2023 ac felly ni chafodd unrhyw gydnabyddiaeth yn 2022/23

13 Dewisodd Tim Davie beidio â bod yn aelod gweithredol o adran CAB 2011 yn 2021 ac nid yw'n cyfrannu at drefniant pensiwn y BBC ar hyn o bryd

14 Penodwyd Charlotte Moore am ail gyfnod a ddechreuodd ar 1 Medi 2022. Mae'n aelod o Gynllun Pensiwn y BBC a nodir ffigurau pensiwn o £dim ar gyfer 2023/24; gweler t93.

15 Penodwyd Leigh Tavaziva am ail gyfnod a ddechreuodd ar 1 Chwefror 2023

16 Ymunodd Deborah Turness â'r Bwrdd ar 5 Medi 2022. Mae'n aelod o gynllun pensiwn NEST ac mae'r ffigurau pensiwn yn gysylltiedig â chyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer 2023/24

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion llawn y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan holl aelodau Pwyllgor Gweithredol y BBC ar gyfer 2023/24, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r gydnabyddiaeth i'r aelodau a ddangosir isod yn ymwneud â'u cyfnod o wasanaeth ar y Pwyllgor Gweithredol yn unig.

Aelodau Pwyllgor Gweithredol y BBC (archwiliedig) Manylion y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd (gwerthoedd mewn £000oedd)

	Nodyn	Dyddiad y'i penodwyd i'r Pwyllgor	Blwyddyn	Cyflog sylfaenol ¹	Buddiannau trethadwy	Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn ²	Ar sail perfformiad	Cyfanswm
Tim Davie	3	01/11/2012	2023/24 2022/23	£525 £525	£2 £3	£0 £0	£0 £0	£527 £528
Charlotte Moore		06/07/2016	2023/24 2022/23	£468 £442	£2 £2	£0 £29	£0 £0	£470 £473
Leigh Tavaziva		01/02/2021	2023/24 2022/23	£442 £417	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£442 £417
Kerris Bright	4	18/06/2018	2023/24 2022/23	£380 £367	£0 £0	£4 £0	£0 £0	£384 £367
Tom Fussell	5	01/09/2020	2023/24 2022/23	£465 £450	£0 £0	£0 £0	£309 £388	£774 £838
Jonathan Munro	6	28/01/2022	2023/24 2022/23	£0 £142	£0 £0	£0 £14	£0 £0	£0 £156
Gautam Rangarajan		01/06/2018	2023/24 2022/23	£248 £217	£0 £0	£12 £47	£0 £0	£260 £264
June Sarpong	7	01/11/2019	2023/24 2022/23	£0 £36	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£0 £36
Rhodri Talfan Davies		01/01/2021	2023/24 2022/23	£293 £279	£0 £0	£11 £48	£0 £0	£304 £327
Alan Dickson	8	17/12/2022	2023/24 2022/23	£310 £87	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£310 £87
Deborah Turness	9	05/09/2022	2023/24 2022/23	£413 £233	£0 £0	£1 £0	£0 £0	£414 £233
Uzair Qadeer	10	27/02/2023	2023/24 2022/23	£339 £29	£0 £22	£0 £0	£0 £0	£339 £51
Alice Macandrew	11	30/01/2023	2023/24 2022/23	£303 £51	£0 £0	£28 £0	£0 £0	£331 £51
Cyfanswm y Pwyllgor Gweithredol			2023/24 2022/23	£4,186 £3,275	£4 £27	£56 £138	£309 £388	£4,555 £3,828

1 Caiff cyflog sylfaenol ei ddangos ar sail pro-rata lle gwnaeth yr aelodau adael neu ymuno yn ystod y flwyddyn

2 Gwneir cyfraniadau pensiwn cyflogion fel arfer drwy drefniant aberthu cyflog fel cyfraniad y cyflogwr, gyda gostyngiad cyfatebol mewn cyflog. Nid yw cyflogau sylfaenol cyfarwyddwyr gweithredol wedi'u haddasu i adlewyrchu effaith y cyflog a aberthir er mwyn ei gwneud yn bosibl i gymharu â blynyddoedd blaenorol cyn i'r trefniant aberthu cyflog gael ei gyflwyno. Yn gyffredinol, cyfrifir y ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn fel 20 gwaith y cynnydd yn y pensiwn cronodig dros y flwyddyn yn glir o chwyddiant, llai cyfraniadau buddiannau diffiniedig y cyfarwyddwyr, ynghyd â chyfraniadau diffiniedig y cyflogwr. Ar gyfer aelodau Cynllun Pensiwn y BBC, dangosir hyn yn fanwl yn y tabl hawliadau posibl pensiwn buddiannau diffiniedig

3 Dewisodd Tim Davie beidio â bod yn aelod gweithredol o adran CAB 2011 yn 2021 ac nid yw'n cyfrannu at drefniant pensiwn y BBC ar hyn o bryd

4 Mae Kerris Bright yn aelod o gynllun pensiwn LifePlan ac mae'r ffigurau pensiwn yn gysylltiedig â chyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer 2023/24

5 Ariennir rôl Tom Fussell yn gyfan gwbl gan refferniw masnachol y BBC ac nid yw ffrif drwydded yn talu amdani nac yn ei chymorthdal. Telir unrhyw fonws yn amodol ar gyflawni targedau perfformiad. Telir dwy ran o dair o'r bonws yn fuan ar ôl diwedd blwyddyn ariannol 2023/24, gydag un rhan o dair wedi'i gohirio am hyd at dair blynedd

6 Penodwyd Jonathan Munro yn Gyfarwyddwr Interim Newyddion a Materion Cyfoes y BBC ac ymunodd â'r Pwyllgor Gweithredol ar 28 Ionawr 2022. Ymddiswyddodd o'r Pwyllgor Gweithredol ar 5 Medi 2022 pan ymunodd Deborah Turness â'r BBC fel Prif Swyddog Gweithredol Newyddion

7 Ymddiswyddodd June Sarpong o'r Pwyllgor Gweithredol a gadawodd y BBC ar 30 Medi 2022 ac felly ni chafodd unrhyw gydnabyddiaeth yn 2023/24

8 Penodwyd Alan Dickson yn Brif Swyddog Ariannol ac ymunodd â'r Pwyllgor Gweithredol ar 17 Rhagfyr 2022. Mae'n aelod o Gynllun Pensiwn y BBC a nodir ffigurau pensiwn o £dim ar gyfer 2023/24 fel y manylir yn y tabl ar t.93

9 Penodwyd Deborah Turness yn Brif Swyddog Gweithredol Newyddion ac ymunodd â'r Pwyllgor Gweithredol ar 5 Medi 2022. Mae'n aelod o gynllun pensiwn NEST ac mae'r ffigurau pensiwn yn gysylltiedig â chyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer 2023/24

10 Penodwyd Uzair Qadeer yn Brif Swyddog Pobl ac ymunodd â'r Pwyllgor Gweithredol ar 27 Chwefror 2023. Mae'r buddiannau ar gyfer 2022/23 yn ymwneud â phegyn adleoli y cytunwyd arno. Mae'r cyflog sylfaenol yn cynnwys cyflog a aberthwyd ar gyfer buddiannau hyblyg

11 Penodwyd Alice Macandrew yn Gyfarwyddwr Materion Corfforaethol y Grŵp ac ymunodd â'r Pwyllgor Gweithredol ar 30 Ionawr 2023. Mae'n aelod o gynllun pensiwn LifePlan ac mae'r ffigurau pensiwn yn gysylltiedig â chyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer 2023/24

Llywodraethu

Adroddiad cydnabyddiaeth – parhad

Cyfanswm cydnabyddiaeth y Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol (archwiliedig)

Cyfanswm y gydnabyddiaeth (gwerthoedd mewn £000oedd)	2023/24	2022/23
Cyfanswm y Pwyllgor Gweithredol (gan gynnwys cyfarwyddwyr gweithredol y Bwrdd)	£4,555	£3,828
Cyfarwyddwyr anweithredol y Bwrdd	£453	£481
Cyfanswm cydnabyddiaeth flynyddol	£5,008	£4,309

Hawliadau posibl pensiwn buddiannau diffiniedig (gwerthoedd mewn £000oedd)

	Oedran ar 31 Mawrth 2024	Adran	Pensiwn a gronwyd 31 Mawrth 2024 (neu ar adeg ymddeol/ gadael y Bwrdd/ Pwyllgor Gweithredol os yw hynny'n gynt)	Pensiwn a gronwyd 1 Ebrill 2023 (neu ar adeg ymuno â'r Bwrdd/ Pwyllgor Gweithredol os ar ôl hynny)	Cyfraniadau buddiannau diffiniedig cyfarwyddwyr (drwy drefniant aberthu cyflog) 2023/24	Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn
			Buddiannau			
Charlotte Moore	55	newydd	46	43	12	0
Gautam Rangarajan	52	CAB 2011	33	29	11	12
Rhodri Talfan Davies	53	CAB 2011	34	30	11	11
			Hen			
Alan Dickson	56	fuddiannau	36	35	6	0

Cyflog cymharol drwy'r BBC cyfan

Cytunodd y Pwyllgor, o 2021/22, y byddai cymhareb enillion y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r cyfarwyddwyr gweithredol i gyflog chwarter isaf, canolig ac uchaf cyflogeion darlledu cyhoeddus y BBC yn cael ei datgelu'n wirfoddol bob blwyddyn. Mae hyn yn sicrhau bod datgeliad y BBC yn unol â chwmnïau rhestredig sy'n cyhoeddi cymhareb cyflog eu Prif Swyddog Gweithredol o gymharu â chyflogeion y DU o dan Reoliadau Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig eu Maint (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 ("Rheoliadau").

Mae'r cwmni wedi dewis Opsiwn A i nodi cyflogeion ar y chwarter isaf, canolig ac uchaf a'u priod gyflogau a buddiannau, gan gynnwys cyfraniadau pensiwn, oherwydd y cydnabyddir mai dyna'r dull mwyaf cywir i'w ddefnyddio a'r hyn a ystyrir fel arfer fel yr arfer gorau. Mae pob un o gyflogeion darlledu cyhoeddus llawn amser y DU ar ddiwedd y flwyddyn ariannol wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiadau, a chaiff y cyflogeion eu sgorio yn seiliedig ar eu cydnabyddiaeth ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023/24 ar 31 Mawrth.

Mae'r tabl isod yn nodi cyfanswm gwerth y cyflogau a buddiannau a dderbyniwyd gan gyflogeion a nodwyd yn y chwarter isaf, canolig ac uchaf yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24.

2023/24	25ain Canradd	50fed Canradd	75ain Canradd
Cyfanswm y Cyflogau a'r Buddiannau	£45,061	£59,058	£75,784
Cyflog	£41,577	£52,397	£64,854

Cymhareb y Cyfarwyddwr Cyffredinol

Mae'r gymhareb cyflogau (a gyfrifwyd gan ddefnyddio cyfanswm cyflogau a buddiannau) yn gymharol gyson â'r flwyddyn flaenorol.

Blwyddyn	Cymhareb cyflog 25ain canradd	Cymhareb cyflog ganolrifol	Cymhareb cyflog 75ain canradd
2024	11.7:1	8.9:1	7.0:1
2023	12.1:1	9.2:1	7.0:1

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r newidiadau i gyflog y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer 2023/24 o gymharu â'r newid yng nghyflogau canolrifol y BBC cyfan dros yr un cyfnod.

	2023/24 (gwerthoedd mewn £000oedd)	Newid ers 2022/23
Cyflog y Cyfarwyddwr Cyffredinol	525	0%
Cyflog canolrifol y BBC cyfan	52	6.3%

Nid yw'r cyfrifiad o gyflog ar draws y BBC cyfan yn cynnwys cyfraniadau pensiwn na chyflog y Pwyllgor Gweithredol.

Mae'r ybiaethau data a gynhyswyd yn ein hadroddiadau fel a ganlyn:

Elfen	Disgrifiad
Cyflog	Rydym wedi defnyddio'r cyfwerth ag amser llawn, ar ddiwedd y flwyddyn, fel y ffigur cyflogau i sgorio ein cyflogaion. Mae symiau cyflog sylfaenol hefyd yn cynnwys unrhyw gynnydd mewn lwfansau a lwfansau dros dro ar gyfer ymlyniadau o fewn adrannau/rolau eraill yn y sefydliad. Mae hyn yn cynnwys ystod o lwfansau lleoliad a lwfansau ar sail rôl ar sail pro rata ar gyfer cydweithwyr rhan amser.
Cyfanswm y cyflogau a'r buddiannau	Yn ogystal â'r cyflog fel y'i diffinnir uchod, mae hyn yn cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr.

Taliadau diswyddo

Ni thalwyd unrhyw daliadau diswyddo i gyfarwyddwyr gweithredol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024.

Buddiannau allanol

Drwy gytundeb ymlaen llaw gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, gall aelodau Gweithredol y BBC ddal swyddi cyfarwyddwyr allanol â chydabyddiaeth. Dylai prif ddiben swydd cyfarwyddwr allanol ymwneud â chefnogi datblygiad personol a datblygiad gyrfa a thrwy hynny gyfrannu at y BBC.

Gall yr unigolyn gadw cydnabyddiaeth sy'n deillio o swyddi cyfarwyddwyr allanol, ond rhaid cymeradwyo hynny'n ffurfiol. Gall cyfarwyddwyr gweithredol hefyd ddal swyddi na thelir cydnabyddiaeth mewn perthynas â hwy y tu allan i'r BBC. Ni chaniateir mwy na dau ddiwrnod y mis i gyflawni'r holl ddyletswyddau allanol.

Busnesau masnachol y BBC

Yn ystod 2023/24, roedd gan y BBC staff a gyflogwyd gan dri phrif is-gwmni masnachol:

- BBC Studios (gan gynnwys BBC Global News)
- BBC Studioworks
- UKTV

Mae cydnabyddiaeth yn yr is-gwmnïau masnachol yn ddarostyngedig i brosesau llywodraethu a chymeradwyo'r BBC. Mae polisi cydnabyddiaeth yr is-gwmnïau yn cynnwys darparu bonws blynyddol sydd ar gael i staff cymwys, gan gynnwys cyfarwyddwyr, ac mae'n amrywio rhwng endidau masnachol. Caiff cost lawn cyflog sylfaenol a chymelldaliadau ei hunanariannu gan refferniw masnachol pob is-gwmni ac ni chânt eu cymorthalu drwy ffi'r drwydded.

Cynllun Bonws Cwmni BBC Studios

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn goruchwyllo'r ffordd y mae Cynllun Bonws Cwmni BBC Studios wedi'i lunio a'i alldro. Roedd dau fesur allweddol ar gyfer y cwmni yn rhan o gynllun 2023/24 i uwch-arweinwyr, ynghyd â pherfformiad unigol wedi'u pwysoli fel a ganlyn:

- EBITDA, wedi'i bwysoli 60%
- Mynegai Arweinyddiaeth, wedi'i bwysoli 10%
- perfformiad unigol, wedi'i bwysoli 30%

Mae elfen o ohirio yn perthyn i'r bonws, gydag un rhan o dair yn cael ei gohirio am hyd at dair blynedd, i'r cyfranwyr sydd yn y swyddi uchaf yn unig.

Cynllun Cymhelliad Hirdymor BBC Studios

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn goruchwyllo'r ffordd y mae Cynllun Cymhelliad Hirdymor BBC Studios, a lanswyd y llynedd, wedi'i lunio a'i alldro. Mae'r Cynllun wedi'i gyfyngu i ryw 25 o'r arweinwyr masnachol uchaf yn yr endidau masnachol, gan gynnwys Prif Swyddog Gweithredol BBC Studios. Mae'n gynllun tair blynedd, a gwneir dyfarniad amodol ar ddechrau'r cyfnod perfformiad tair blynedd. Bydd cyfran y dyfarniad i'w freinio ar ôl tair blynedd yn dibynnu ar berfformiad yn ystod y cyfnod hwnnw yn erbyn cyfres o dargedau diffiniedig. Roedd dau fesur ariannol yn rhan o ddyfarniad 2023 (i'w freinio ym mis Mawrth 2026) ynghyd â mesur anariannol wedi'u pwysoli fel a ganlyn:

- llif arian parod rhydd, wedi'i bwysoli 60%
- elw gan Eiddo Deallusol Newydd y BBC, wedi'i bwysoli 30%
- cynrychiolaeth amrywiaeth, wedi'i phwysoli 10%

Ceir lefel sylfaenol hefyd o ran Cyfanswm yr Elw Masnachol sydd ei angen i'r BBC er mwyn breinio'r dyfarniad.

Canlyniadau 2023/24

Ar gyfer 2023/24, cyflawnodd y mesur ariannol (EBITDA) berfformiad a oedd ychydig yn uwch na'r targed. Roedd canlyniad y mesur arwain (Mynegai Arweinyddiaeth) hanner ffordd rhwng lefel y trothwy ar gyfer taliadau a'r targed. O ganlyniad i'r cyfuniad o ganlyniadau'r Cwmni a pherfformiad personol, gwnaed dyfarniad bonws o 66.5% (£309,456) i Brif Swyddog Gweithredol BBC Studios mewn perthynas â pherfformiad yn ystod y flwyddyn. Caiff un rhan o dair o gyfanswm y taliad hwn ei gohirio am dair blynedd. Derbyniodd hefyd ddyfarniad o £43,125 wedi'i ohirio o fonws 2022/23.

Llywodraethu

Datgeliadau cyflogau

Adroddiad gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth y BBC ar y bobl a gafodd eu talu dros £178,000 o refeniw ffi'r drwydded yn ystod y flwyddyn ariannol

Mae'n ofynnol i'r BBC gyhoeddi yn yr Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon restr o'r unigolion hynny, ar yr awyr ac oddi ar yr awyr, sy'n cael mwy na £178,000 o refeniw ffi'r drwydded yn ystod y flwyddyn, gan adlewyrchu taliadau ar gyfer gwasanaethau yn ystod y flwyddyn a thelerau cytundebol. O dan y Siarter, dim ond y symiau a dalwyd yn ystod y flwyddyn i'r unigolion hyn, wedi'u nodi mewn bandiau, y mae'n ofynnol i ni eu cyhoeddi. Rydym yn mynd y tu hwnt i'r gofyniad hwnnw drwy gyhoeddi mwy o fanylion am ymrwymadau rhaglen unigolion sy'n ymddangos ar yr awyr.

Caiff y datgeliad ei gyfrifo a'i gyhoeddi yn yr un ffordd ag mewn blyneddol blaenorol. Diwygiwyd y trothwy ar gyfer datgeliadau, o dan delerau Siarter Frenhinol y BBC, o £150,000 i £178,000 yn 2022/23, er mwyn cydnabod effaith chwyddiant cyflogau dros amser. Yn y cyfamser, rydym yn parhau i weithredu mewn marchnadoedd lle mae'r gystadleuaeth am dalent a chyfraddau chwyddiant cyflogau cyffredinol yn arwain at heriau sylweddol.

Yn y datgeliadau ar gyfer uwch-swyddogion gweithredol, roedd canran y menywod a ddatgelwyd ar lefel o 48% o hyd, yn unol â'r flwyddyn flaenorol.

Menywod yw 37% o'r unigolion sydd wedi'u cynnwys yn y datgeliadau ar yr awyr, sef gostyngiad bach o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r niferoedd ar gyfer datgeliadau ar yr awyr yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn sgil nifer o ffactorau fel unigolion sy'n ymuno, unigolion sy'n gadael, faint o gynnwys Chwaraeon a geir mewn blwyddyn, a newidiadau i'r amserlenni Radio a Newyddion.

Tablau cyflog talent ar yr awyr

Dangosir yr unigolion ar y rhestr hon fesul categori: Newyddion, Radio, Chwaraeon, a chyflwynwyr sy'n gweithio'n rheolaidd ar draws sawl rhan o'r BBC, gan gynnwys Teledu. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys taliadau o refeniw ffi'r drwydded yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024, heb gynnwys unrhyw beth y gellir ailgodi tâl amdano, symiau a dalwyd na buddsoddiadau mewn rhaglenni a wnaed gan ein hendidau masnachol – er enghraifft BBC Studios. Hefyd, nid ydynt yn cynnwys taliadau a wnaed gan gynhyrchwyr annibynnol, breindaliadau, ffioedd ailddarlledu, symiau adenilladwy cytundebol a symiau adenilladwy eraill, na threuliau. Mae ymrwymadau rhaglenni yn adlewyrchu'r prif ymrwymadau cytundebol ar gyfer y cyflog a gafwyd yn ystod y flwyddyn, ac maent wedi'u datgan i'r 10 rhaglen agosaf yn gyffredinol. Mae'r rhain wedi'u datgelu'n gyson ar gyfer pob prif raglen neu genre. Ni chaiff penodau unigol eu cynnwys, oni fydd hyn yn cyfrif am ran sylweddol o waith unigolyn. Mae'n bosibl y bydd ymrwymadau rhaglen yn newid yn ystod y flwyddyn, er enghraifft, er mwyn adlewyrchu newidiadau i raglennu neu argaeledd unigolyn.

Talent ar yr awyr

Prif raglen	Enw	Ymrwymiadau rhaglen	Cyflog
Newyddion a Materion			
Cyfoes			
<i>Today</i>	Nick Robinson	Tua 140 o ddiwrnodau cyflwyno Podlediad <i>Political Thinking</i> <i>The Today Podcast</i>	£345,000 - £349,999
	Mishal Husain	Tua 140 o ddiwrnodau cyflwyno Tua 20 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One <i>Today Debates</i> ar gyfer BBC Radio 4 a phrosiectau eraill	£340,000 - £344,999
	Justin Webb	Tua 140 o ddiwrnodau cyflwyno Podlediad <i>Americast</i>	£320,000 - £324,999
	Amol Rajan	Tua 80 o ddiwrnodau cyflwyno <i>Amol Rajan Interviews</i> <i>Rethink</i> Radio 4 <i>The Today Podcast</i>	£310,000 - £314,999
	Martha Kearney	Tua 100 o ddiwrnodau cyflwyno	£225,000 - £229,999
<i>World at One</i>	Sarah Montague	Tua 180 o raglenni Cyflenwi ar <i>HARDtalk</i>	£245,000 - £249,999
<i>PM</i>	Evan Davis	Tua 200 o raglenni <i>The Bottom Line</i> ar BBC Radio 4	£290,000 - £294,999
<i>BBC News at Six and BBC News at Ten</i>	Huw Edwards	Tua 160 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One Rhaglenni Newyddion Arbennig Rhaglenni Etholiad Arbennig Rhaglennu teledu arall	£475,000 - £479,999
	Sophie Raworth	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One	£325,000 - £329,999
<i>BBC News at One, BBC News at Six and BBC News at Ten</i>	Clive Myrie	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One Lleoliadau rhyngwladol	£310,000 - £314,999
	Reeta Chakrabarti	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One	£270,000 - £274,999
	Jane Hill	Tua 135 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One	£178,000 - £184,999
<i>Question Time BBC News at Six and BBC News at Ten</i>	Fiona Bruce	Tua 40 o benodau o Question Time diwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One	£405,000 - £409,999
<i>Newsnight</i>	Victoria Derbyshire	Tua 110 o ddiwrnodau cyflwyno Podlediad <i>UkraineCast</i>	£295,000 - £299,999
	Kirsty Wark	Tua 95 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer <i>Newsnight</i> <i>Start the Week</i> Radio 4 Rhaglen ddogfen <i>Lives well Lived</i> <i>Archive on Four</i>	£250,000 - £254,999
<i>BBC Breakfast</i>	Jon Kay	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno a gohebu ychwanegol ar gyfer <i>BBC Breakfast</i> <i>Pick of the Week</i> BBC Radio 4 <i>Saturday Live</i> BBC Radio 4 Podlediad <i>Fairy Meadow</i> BBC Radio 4	£225,000 - £229,999
	Sally Nugent	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno Gwaith ar bodlediadau	£195,000 - £199,999
	Charlie Stayt	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno	£190,000 - £194,999
<i>Sunday with Laura Kuenssberg</i>	Laura Kuenssberg	Tua 40 o raglenni ar ddydd Sul Cyfres ddogfen	£325,000 - £329,999
<i>HARDtalk</i>	Stephen Sackur	Cyfweliadau <i>HARDtalk</i>	£200,000 - £204,999
BBC News Channel	Ben Thompson	Cyflwyno i BBC Business Cyflwyno <i>BBC Breakfast</i> Cyflenwi fel cyflwynydd ar Sianel BBC News	£225,000 - £229,999
	Matthew Amroliwala	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno	£195,000 - £199,999

Llywodraethu

Datgeliadau cyflogau – parhad

Prif raglen	Enw	Ymrwymadau rhaglen	Cyflog
Newyddion a Materion			
Cyfoes – parhad			
BBC News Channel – parhad	Christian Fraser	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno Cyflenwi ar <i>Newsnight</i>	£195,000 - £199,999
	Lucy Hockings	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno	£190,000 - £194,999
	Ben Brown	Tua 210 o ddiwrnodau cyflwyno ar Sianel BBC News a <i>BBC News at One</i>	£185,000 - £189,999
	Maryam Moshiri	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno	£185,000 - £189,999
Golygyddion a gohebwyd ar yr awyr	Ros Atkins	Golygydd Dadansoddi <i>The Media Show</i>	£290,000 - £294,999
	Faisal Islam	Golygydd Economaidd Cyflenwi ar <i>Newsnight</i>	£260,000 - £264,999
	Chris Mason	Golygydd Gwleidyddol	£260,000 - £264,999
	Simon Jack	Golygydd Busnes Cyflenwi ar <i>Today</i> BBC Radio 4 Podlediadau	£240,000 - £244,999
	Jeremy Bowen	Golygydd Rhyngwladol	£240,000 - £244,999
	Katya Adler	Golygydd Ewrop Podlediad <i>The Global Story</i>	£230,000 - £234,999
	Fergal Keane	Gohebydd Arbennig	£225,000 - £229,999
	Sarah Smith	Golygydd Gogledd America	£225,000 - £229,999
	Lyse Doucet	Prif Ohebydd Rhyngwladol	£205,000 - £209,999
	Mark Easton	Golygydd Cartref	£205,000 - £209,999
	Orla Guerin	Uwch-ohebydd Rhyngwladol	£195,000 - £199,999
	Jonny Dymond	Gohebydd Brenhinol <i>The World This Weekend</i> ar BBC Radio 4 <i>The World at One</i> ar BBC Radio 4 <i>World Questions</i>	£195,000 - £199,999
	John Simpson	Golygydd Materion y Byd <i>Unspun World with John Simpson</i>	£190,000 - £194,999
Radio			
BBC Radio 1	Greg James	Tua 220 o benodau o <i>Radio 1 Breakfast Show</i>	£415,000 - £419,999
BBC Radio 2	Zoe Ball	Tua 200 o benodau o <i>The Zoe Ball Breakfast Show</i>	£950,000 - £954,999
	Vernon Kay	Tua 180 o benodau o'r rhaglen ganol bore Tua 50 o benodau o <i>Dance Sounds of the 90s</i>	£320,000 - £324,999
	Scott Mills	Tua 225 o benodau o'r rhaglen ddechrau'r prynhawn	£315,000 - £319,999
	Sara Cox	Tua 230 o benodau o'r rhaglen min nos	£315,000 - £319,999
	Jeremy Vine	Tua 225 o benodau o'r rhaglen amser cinio	£285,000 - £289,999
	Jo Whiley	Tua 180 o benodau o'r rhaglen gyda'r nos	£245,000 - £249,999
	Trevor Nelson	Tua 185 o benodau o <i>Rhythm Nation</i> Tua 45 o raglenni ar BBC Radio 1Xtra	£235,000 - £239,999
	Steve Wright	Tua 50 o benodau o <i>Sunday Love Songs</i> Tua 25 o benodau o <i>Pick of the Pops</i> Cyflenwi ar BBC Radio 2	£205,000 - £209,999
	Gary Davies	Tua 50 o benodau o <i>Sounds of the 80s</i> Tua 50 o benodau o raglen ganol bore Radio 2 Cyflenwi ar tua 30 o raglenni ar Radio 2	£200,000 - £204,999
	Owain Wyn Evans	Tua 230 o benodau o'r rhaglen frecwest gynnar Raglenni a digwyddiadau ychwanegol ar gyfer BBC Radio 2	£200,000 - £204,999

Prif raglen	Enw	Ymrwymadau rhaglen	Cyflog
Radio – parhad			
BBC Radio 5 live	Nicky Campbell	Tua 230 o benodau o <i>Nicky Campbell Show</i> Tua 20 o benodau o <i>Different</i>	£295,000 - £299,999
	Rachel Burden	Tua 190 o benodau o <i>5 Live Breakfast Show</i> Tua 10 o benodau o <i>BBC Breakfast Panorama</i>	£220,000 - £224,999
	Rick Edwards	Tua 250 o benodau o <i>5 Live Breakfast Show</i> Tua 30 o benodau o <i>Fighting Talk</i>	£215,000 - £219,999
BBC Radio 6 Music	Lauren Laverne	Tua 205 o benodau o <i>6 Music Breakfast Show</i> Tua 40 o benodau o <i>Desert Island Discs</i> ar Radio 4	£395,000 - £399,999
	Craig Charles	Tua 205 o benodau o raglen 6 Music yn ystod yr wythnos Tua 50 o benodau o <i>Funk & Soul</i> 6 Music	£185,000 - £189,999
Sport			
Pêl-droed	Gary Lineker	<i>Match of the Day: Uwch Gyngyrair Lloegr, Cwpan FA;</i> <i>Sports Personality of the Year</i>	£1,350,000 - £1,354,999
	Alan Shearer	<i>Match of the Day: Uwch Gyngyrair Lloegr, Cwpan FA</i>	£380,000 - £384,999
	Alex Scott	<i>Football Focus, Cyngyrair Pêl-droed Uwch y Menywod, Cwpan y Byd y Menywod 2023, Sports Personality of the Year</i>	£220,000 - £224,999
Criced	Jonathan Agnew	Criced Teledu a Radio (Prawf, un diwrnod ac ugain pelawd); Gohebydd Criced y BBC	£190,000 - £194,999
Tennis	John McEnroe	Wimbledon	£195,000 - £199,999
Gwahanol gampau	Mark Chapman	Tua 120 o benodau o BBC Radio 5 live Sport <i>Match of the Day 2</i> Cwpan Her	£260,000 - £264,999
	Chris Sutton	BBC Radio 5 live Sport, <i>606, Football Focus, Final Score</i>	£190,000 - £194,999

Genres gwahanol a theledu

Mae nifer bach o unigolion sydd â chydberthnasau aml-flwyddyn â chomisiynu'r BBC eisoes. Nid yw taliadau gan BBC Studios wedi eu cynnwys yn y datgeliad, ac efallai y cânt daliadau gan gynhyrchwyr annibynnol hefyd. Yn yr adran hon, rydym hefyd yn cynnwys cyflwynwyr sy'n treulio bron i 50% o'u hamser mewn mwy nag un maes o blith Teledu, Radio, Newyddion a Chwaraeon.

Principal programme	Name	Programme commitments	Pay
Radio a Theledu	Stephen Nolan	<i>The Nolan Show</i> ar Radio Ulster <i>Nolan Live</i> ar BBC One (Gogledd Iwerddon) <i>Stephen Nolan Show</i> BBC Radio 5 live	£405,000 - £409,999
	Naga Munchetty	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno <i>BBC Breakfast</i> Tua 140 o raglenni <i>Naga Munchetty Shows</i> ar BBC Radio 5 live <i>Panorama</i>	£345,000 - £349,999
	Tina Daheley	<i>The Zoe Ball Breakfast Show</i> Radio 2 Cyflenwi ar gyfer Jeremy Vine Bwletinau Newyddion BBC One <i>BBC Breakfast</i>	£270,000 - £274,999
Radio a Chwaraeon	Jason Mohammad	BBC Radio Wales (Llun-Mercher) <i>Final Score</i> <i>Good Morning Sunday</i> BBC Radio 2	£245,000 - £249,999
Teledu	Louis Theroux	Ffi gan y BBC am amrywiaeth o raglenni a chyfresi	£200,000 - £204,999

Llywodraethu

Datgeliadau cyflogau – parhad

Uwch-swyddogion gweithredol

Rydym yn cyhoeddi cyflog a threuliau pob uwch-arweinydd sy'n ennill dros £178,000 yng ngwasanaethau cyhoeddus y BBC ar ein gwefan. O dan delerau ein Siarter, mae'n rhaid i ni gyhoeddi adroddiad gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth sy'n rhestru holl uwch-swyddogion gweithredol y BBC y talwyd mwy na £178,000 iddynt am wasanaethau o refferniw ffi'r drwydded yn ystod y flwyddyn ariannol, a nodir mewn bandiau cyflog. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw beth y gellir ailgodi tâl amdano na symiau a dalwyd o'n hendidau masnachol.

Cyflog	Enw	Rôl
Cyfarwyddwr Cyffredinol		
£525,000 - £529,999	Tim Davie	Cyfarwyddwr Cyffredinol
Pwyllgor Gweithredol		
£470,000 - £474,999	Charlotte Moore	Prif Swyddog Cynnwys
£440,000 - £444,999	Leigh Tavaziva	Prif Swyddog Gweithredu'r Grŵp
£410,000 - £414,999	Deborah Turness	Prif Swyddog Gweithredol Newyddion a Materion Cyfoes
£375,000 - £379,999	Kerris Bright	Prif Swyddog Cwsmeriaid
£330,000 - £334,999	Uzair Qadeer	Prif Swyddog Pobl
£310,000 - £314,999	Alan Dickson	Prif Swyddog Ariannol
£300,000 - £304,999	Alice Macandrew	Cyfarwyddwr y Grŵp, Materion Corfforaethol
£290,000 - £294,999	Rhodri Talfan Davies	Cyfarwyddwr y Gwledydd
£245,000 - £249,999	Gautam Rangarajan	Cyfarwyddwr Strategaeth a Pherfformiad y Grŵp
Swyddogaethau Corfforaethol		
£330,000 - £334,999	Sarah Jones	Cwnsler Cyfreithiol y Grŵp
£305,000 - £309,999	Jo Sherlock	Cyfarwyddwr Hawliau a Masnachol y Grŵp
£245,000 - £249,999	Balram Veliath	Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd
£235,000 - £239,999	Shirley Cameron	Cyfarwyddwr Rheoli Refeniw a Chwsmeriaid
	John Shield	Cyfarwyddwr Cyfathrebu
£230,000 - £234,999	Eddy Datubo	Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Thrawsnewid
£225,000 - £229,999	Peter Ranyard	Cyfarwyddwr Cyfreithiol Corfforaethol
£220,000 - £224,999	Chinny Okolidoh	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Amrywiaeth a Chynhwysiant
£205,000 - £209,999	Irene Asare	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Newyddion
	Phil Harrold	Ysgrifennydd y Cwmni a'r Pennaeth Staff
	Kieran Clifton	Cyfarwyddwr Dosbarthu a Datblygu Busnes
£200,000 - £204,999	Peter Johnston	Cyfarwyddwr Cwynion Golygyddol ac Adolygiadau
	Claude Sarfo	Cyfarwyddwr Cyllid, Newyddion a Materion Cyfoes
£195,000 - £199,999	Sarah Gregory	Cyfarwyddwr Profiad Pobl a Dirprwy Brif Swyddog Pobl
	David Jordan	Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol
£190,000 - £194,999	Andrew Kaczor	Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau, Grŵp y Prif Swyddog Gweithredu
	Nick Wilcox	Cyfarwyddwr Cyfreithiol
	Sophie Garnham	Cyfarwyddwr Hawliau Masnachol a Materion Busnes
	Rhona Burns	Cyfarwyddwr Cyllid, Cynllunio a Dealltwriaeth Ariannol
	Alan Bainbridge	Cyfarwyddwr y Gweithle
£185,000 - £189,999	Sarah Burns	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
	Natasha Wojciechowski	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Swyddogaethau Corfforaethol
£178,000 - £184,999	Simon Morrissey	Cyfarwyddwr Cyfreithiol
	Richard Luckraft	Partner Busnes Cyllid Treth Gorfforaethol Dros Dro
	Sam Carrier	Cyfarwyddwr Cyllid, Trawsnewid a Gweithrediadau
Grŵp Technoleg a Grŵp Cynnyrch		
£330,000 - £334,999	Storm Fagan	Prif Swyddog Cynhyrchion
£325,000 - £329,999	Peter O'Kane	Prif Swyddog Technoleg
£255,000 - £259,999	Sinead Greenaway	Cyfarwyddwr Darlledu a Thechnoleg Defnyddwyr Terfynol
£225,000 - £229,999	Helen Rabe	Prif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth
£220,000 - £224,999	Jatin Aythora	Cyfarwyddwr Ymchwil a Datblygu
£205,000 - £209,999	Ellie Runcie	Prif Swyddog Dylunio
£190,000 - £194,999	Richard Cooper	Cyfarwyddwr Dosbarthu Digidol
	Monika Turska	Cyfarwyddwr Rheoli Cynnyrch

Cyflog	Enw	Rôl
Grŵp Technoleg a Grŵp Cynnyrch – parhad		
£185,000 - £189,999	Adam Tilley	Pennaeth Gweithrediadau Swyddogaeth Data
	Amit Ajmera	Prif Beiriannydd Systemau
	Anna Murcar	Cyfarwyddwr Cynhyrchion a Systemau
	Pete Kowalczyk	Uwch-ddylunydd Cynnwys
£178,000 - £184,999	Omar Habbal	Cyfarwyddwr Gweithrediadau Cynhyrchion
Marchnata a Chynulleidfaoedd		
£200,000 - £204,999	Paul Davies	Cyfarwyddwr Marchnata a Chynulleidfaoedd
	Nick North	Cyfarwyddwr Cynulleidfaoedd
£190,000 - £194,999	Justin Bairamian	Cyfarwyddwr BBC Creative
Y Gwledydd		
£185,000 - £189,999	Sarah Calcott	Prif Swyddog Gweithredu
£178,000 - £184,999	Steve Carson	Cyfarwyddwr y Gwledydd
Cynnwys		
£290,000 - £294,999	Lindsay Salt	Cyfarwyddwr Comisiynu (Drama)
	Kate Phillips	Cyfarwyddwr Comisiynu
£255,000 - £259,999	Dan McGolpin	Cyfarwyddwr iPlayer a'r Sianelau
£245,000 - £249,999	Fiona Campbell	Rheolydd Sianel
	Patricia Hidalgo	Cyfarwyddwr Children's ac Education
£240,000 - £244,999	Barbara Slater	Cyfarwyddwr Chwaraeon
£225,000 - £229,999	Graham Ellis	Rheolydd BBC Audio
	Jon Petrie	Cyfarwyddwr Comisiynu
£215,000 - £219,999	Lucy Richer	Uwch-olygydd Comisiynu (Drama)
	Lorna Clarke	Cyfarwyddwr Comisiynu, Radio
	Mohit Bakaya	Cyfarwyddwr Comisiynu, Radio
£210,000 - £214,999	Jonathan Wall	Cyfarwyddwr Comisiynu, Radio
	Jo McClellan	Golygydd Comisiynu (Drama)
£205,000 - £209,999	Gaynor Holmes	Golygydd Comisiynu (Drama)
£200,000 - £204,999	Eva Yates	Cyfarwyddwr Comisiynu
£195,000 - £199,999	Heidi Dawson	Rheolydd Radio
	David Pembrey	Prif Swyddog Gweithredu, Cynnwys
	Clare Sillery	Uwch-bennaeth Comisiynu Ffeithiol
	Lindsay Currie	Pennaeth Rheoli Sianelau
	Philip Bernie	Pennaeth Cynnwys Chwaraeon / Cyfarwyddwr Dros Dro (o fis Chwefror 2024)
£190,000 - £194,999	Sam Jackson	Rheolydd Radio
£185,000 - £189,999	Rob Unsworth	Golygydd Sianel
	Catherine Catton	Uwch-bennaeth Comisiynu Ffeithiol
	Rebecca Ferguson	Golygydd Comisiynu Drama
£178,000 - £184,999	Kalpna Patel-Knight	Uwch-bennaeth Comisiynu Adloniant
	Suzy Klein	Uwch-bennaeth Comisiynu Ffeithiol
	Jack Bootle	Uwch-bennaeth Comisiynu
Newyddion a Materion Cyfoes		
£285,000 - £289,999	Jonathan Munro	Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol Newyddion a Chyfarwyddwr Newyddiaduraeth
£215,000 - £219,999	John McAndrew	Cyfarwyddwr Rhaglenni Newyddion
	Naja Nielsen	Uwch-reolydd Newyddion
	Liliane Landor	Uwch-reolydd Newyddion
£200,000 - £204,999	Richard Burgess	Cyfarwyddwr Cynnwys Newyddion
£195,000 - £199,999	Sam Taylor	Prif Swyddog Gweithredu
£185,000 - £189,999	Joanna Carr	Rheolydd Newyddion
Cyn-aelodau o Staff		
£235,000 - £239,999	Andy Baker	Cyfarwyddwr Gweithrediadau Technoleg

Llywodraethu

Barn y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar ddatgeliadau cyflog

Adroddiad Sicrwydd Annibynnol i Fwrdd y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, gan gydnabod bod y Senedd hefyd yn dibynnu ar Gyfrifon ac Adroddiad y Grŵp

Rwyf wedi cynnal gweithdrefnau sicrwydd annibynnol ar y datgeliadau sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (BBC) sy'n deillio o'r gofyniad o dan y Siarter Frenhinol i'r BBC barhau (y Siarter Frenhinol) i gyhoeddi enwau holl uwch swyddogion gweithredol y BBC y talwyd mwy na £178,000 iddynt o refferniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol honno; ac enwau holl staff eraill y BBC y talwyd mwy na £178,000 iddynt o refferniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol honno a nodir mewn bandiau cyflog ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

Mae'r datgeliadau hyn yn cynnwys y Datgeliadau Cyflog fel y'u nodir ar dudalennau 96 i 101 o Adroddiad Blynyddol y BBC (y deunydd pwnc) (y "Datgeliadau Cyflog").

Cyflawnir fy ngwaith yn unol ag Ymrwymadau Sicrwydd Heblaw am Archwiliadau neu Adolygiadau o Wybodaeth Ariannol Hanesyddol y Safonau Rhyngwladol ar Ymrwymadau Sicrwydd (ISAE) 3000.

Priod gyfrifoldebau Bwrdd y BBC a'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Ar gyfer y flwyddyn adrodd a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, roedd Bwrdd y BBC yn gyfrifol am gyhoeddi'r wybodaeth sy'n ofynnol gan y Siarter Frenhinol fel a ganlyn:

- enwau holl uwch swyddogion gweithredol y BBC y talwyd mwy na £178,000 iddynt o refferniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol honno; ac
- enwau holl staff eraill y BBC y talwyd mwy na £178,000 iddynt o refferniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol honno a nodir mewn bandiau cyflog ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

Rwyf yn gyfrifol am roi barn ynghylch a yw'r deunydd pwnc, ym mhob ffordd berthnasol, yn gyflawn ac yn gywir ac wedi'i baratoi'n briodol yn unol â'r sail a nodir ynddo.

Wrth gynnal y gwaith hwn, mae fy staff a minnau wedi cydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019 y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwyf yn annibynnol ar y BBC yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm gweithdrefnau. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Mae fy staff a minnau wedi cymhwyso Safon Ryngwladol ar Reoli Ansawdd 1 ac yn unol â hynny, rydym yn cynnal system gynhwysfawr o reoli ansawdd gan gynnwys polisiau a gweithdrefnau sydd wedi'u dogfennu ar gydymffurfiaeth â gofynion moesegol, safonau proffesiynol a gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol.

Fy null gweithredu

Rwyf wedi cyflawni ymrwymiad sicrwydd rhesymol fel y'i diffinnir yn ISAE 3000. Ymrwymiad sicrwydd rhesymol yw cyflawni'r cyfryw weithdrefnau er mwyn cael gwybodaeth ac esboniadau sy'n angenrheidiol, yn fy marn i, er mwyn mynegi barn o ran p'un a yw'r Datgeliadau Cyflog (y deunydd pwnc), ym mhob ffordd berthnasol, yn gyflawn ac yn gywir ac wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r sail a nodir ynddynt.

Roedd fy ngwaith yn cynnwys:

- Deall y broses a fabwysiadwyd gan y BBC er mwyn llunio'r Datgeliadau Cyflog, yn enwedig cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth a ddefnyddiwyd;
- Profi cyflawnrwydd y datgeliadau, gan gynnwys:
 - Croesgyfeirio at fy ngweithdrefnau archwilio ar gyfer Grŵp y BBC sy'n ymwneud â chyflogres a gwariant;
 - Cymharu â'r flwyddyn flaenorol a'm dealltwriaeth o'r BBC;
 - Adolygu unigolion a dalwyd yn y mis dilynol sydd wedi cael eu talu yn agos at y trothwy datgelu yn 2023/24;
- Cysoni datgeliadau staff â slipiau cyflog neu, lle nad yw staff yn cael eu talu drwy gyflogres y BBC, cysoni gwariant â thystiolaeth arall megis contractau;
- Cysoni'r gwariant fesul unigolyn y talwyd mwy na £178,000 iddynt o refferniw Ffi'r Drwydded â'r bandiau cyflog priodol;
- Adolygu'r sylwebaeth ategol er mwyn sicrhau rhesymoldeb ac eglurder o ran y sail datgelu.

Cyfyngiadau annatod

Mae fy ngweithdrefnau sicrwydd wedi'u cynllunio er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol. Amcan ymrwymiad sicrwydd rhesymol yw lleihau risg ymrwymiad i lefel dderbyniol o isel o dan amgylchiadau'r ymrwymiad fel sail ar gyfer gallu mynegi fy nghasgliad mewn ffordd gadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw'n dileu'r risg hon yn llwyr. Wrth baratoi'r datgeliadau, mae'n ofynnol i Fwrdd y BBC roi barn ar nifer o bethau, sy'n cyflwyno elfen o risg yn ei hanfod.

Mae fy ngwaith wedi'i gynnal er mwyn i mi allu hysbysu Bwrdd y BBC a'r Senedd o'r materion hynny y mae'n ofynnol i mi eu hysbysu amdanynt yn yr adroddiad hwn ac nid at unrhyw ddiben arall.

Barn

Yn seiliedig ar ganlyniadau fy ngweithdrefnau, yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r Datgeliadau Cyflog a gynhwysir ar dudalennau 96 i 101 yn gyflawn ac yn gywir ac wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r sail a nodir ynddynt. Lluniwyd y farn hon ar sail y materion a amlinellir mewn manau eraill o'r adroddiad sicrwydd annibynnol hwn.

Gareth Davies

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

157-197 Buckingham Palace Road
Llundain
SW1W 9SP

12 Gorffennaf 2024

Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu

Penodiadau i'r Bwrdd

Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'r Bwrdd sy'n gyfrifol am wneud argymhellion ynglŷn â phenodi aelodau i'r Bwrdd (ac eithrio'r Cadeirydd ac aelodau'r gwledydd) a Phwyllgorau'r Bwrdd.

Rhaid i'r Pwyllgor gael mwyafrif o aelodau anweithredol y Bwrdd a rhaid iddo gael ei gadeirio gan Cadeirydd Bwrdd y BBC. Gan gynnwys y Cadeirydd, rhaid i'r Pwyllgor gynnwys o leiaf bedwar aelod anweithredol. Rhaid i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol hefyd fod yn aelod o'r Pwyllgor. Y flwyddyn hon cadeiriwyd y Pwyllgor gan Richard Sharp, Elan Closs Stephens (fel Cadeirydd dros dro) ac, o fis Mawrth 2024, gan Samir Shah. Ymysg aelodau anweithredol y Pwyllgor roedd yr uwch-gyfarwyddwr annibynnol, Nicholas Serota, Damon Buffini a Shirley Garrood, a ddisodlwyd gan Muriel Gray ar ôl i'w chyfnod ddod i ben ar 2 Gorffennaf 2023.

Y flwyddyn hon, cyfarfu'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu llawn chwe gwaith. Cyfarfu aelodau anweithredol y Pwyllgor heb y Cadeirydd ar y pryd, Richard Sharp, unwaith hefyd fel rhan o'u hadolygiad o'i ddatganiadau o fuddiannau personol yn ystod ei gyfnod yn y BBC. Cyhoeddwyd yr adolygiad hwnnw ar 11 Mai 2023. Cynigiodd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu nifer o argymhellion a gododd o'r adolygiad, a fabwysiadwyd gan y Bwrdd ar 10 Mai 2023 ac a oedd yn cynnwys y newidiadau canlynol i God Ymddygiad y Bwrdd, a roddwyd i gyd ar waith yn ystod y flwyddyn:

- dylid rhoi mwy o sylw i ddatgelu buddiannau personol a phroffesiynol perthnasol ar ddechrau cyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau, gyda disgwyl y byddai lefel uchel o ddatgelu buddiannau gan aelodau'r Bwrdd;
- dylid asesu Cod Ymarfer a Chanllawiau'r Bwrdd er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon clir fel y dylid ystyried cydberthnasau personol a gwleidyddol ynghyd â chydberthnasau proffesiynol neu ariannol i'w datgelu, gan gynnwys wrth i unigolion gael eu penodi i rolau, a gan gynnwys pan fydd canfyddiad y gallai gwrthdaro ddigwydd ynghyd â gwrthdaro gwirioneddol;
- dylai fod proses gliriach o nodi cyfarfodydd rhwng aelodau'r Bwrdd ac uwch-ffigwrau gwleidyddol – gan gynnwys digwyddiadau cymdeithasol – ar y dyddiadur a hysbysu'r BBC a swyddogion amdanynt ac y cymerir cofnodion ohonynt.

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am adolygu achosion o ddatgelu buddiannau personol ac annibyniaeth aelodau'r Bwrdd, a gynhaliwyd ganddo ym mis Medi 2023.

Y Pwyllgor sydd hefyd yn gyfrifol am oruchwylio materion goruchwylio yn ymwneud â gweithrediad y Bwrdd a'i is-bwyllgorau. Fel rhan o'r rôl hon, mae'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn comisiynu adolygiad gwerthuso blynyddol o weithrediad Bwrdd y BBC a'i is-bwyllgorau. Y flwyddyn hon, comisiynydd y Pwyllgor adolygiad gan Christopher Saul, ar effeithiolrwydd y Bwrdd gan ganolbwyntio'n benodol ar is-bwyllgorau. Roedd y gwaith hwn hefyd yn cynnwys adolygiad sgiliau o aelodaeth y Bwrdd a rôl y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cynllunio olyniaeth. Trafodwyd canfyddiadau'r adolygiad â'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf ac, o ganlyniad, lluniodd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu gynllun gweithredu a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Medi. Ceir rhagor o wybodaeth am yr adolygiad ar dudalen 86.

Y flwyddyn hon, arweiniodd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu y broses o recriwtio dau aelod anweithredol newydd i'r Bwrdd: Chris Jones, fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, a Marinella Soldi. Cefnogwyd y broses hon gan yr ymgynghorwyr recriwtio annibynnol Odgers Berndtson.

Samir Shah

Cadeirydd
10 Gorffennaf 2024

Ebr 23-Maw 24	Bwrdd	Pwyllgor Archwilio a Risg	Pwyllgor Masnachu Teg	Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu	Pwyllgor Cydnabyddiaeth	Canllawiau a Safonau Golygyddol	Pwyllgor y Gwledydd – Lloegr	Pwyllgor y Gwledydd – yr Alban	Pwyllgor y Gwledydd – Cymru	Pwyllgor y Gwledydd – G. Iwerddon
Nifer y cyfarfodydd ar gyfer y cyfnod	10	7	3	6	5	7	4**	4**	4**	4**
Aelodau anweithredol										
Samir Shah*	1 o 1			1 o 1						
Richard Sharp*	3 o 3			2 o 2	2 o 2			1 o 1		
Elan Closs Stephens*	9 o 9	5 o 6		5 o 5				2 o 3	4	3
Shumeet Banerji	10	7								
Damon Buffini	10			0 o 3	2 o 2					
Shirley Garrood*	3 o 3	3 o 3		1 o 2						
Robbie Gibb	9				5	7	4			
Muriel Gray	9		3	2 o 3	5			4		
Chris Jones*	5 o 6	4 o 4	2 o 2							
Nicholas Serota	10			6		7	3			3
Michael Smyth*	7 o 7								3 o 3	3 o 3
Marinella Soldi*	5 o 5									
Aelodau gweithredol										
Tim Davie	10			6		6				
Charlotte Moore	8									
Leigh Tavaziva	10		3							
Deborah Turness	8					6				

Nid yw'r tabl hwn yn cynnwys sesiynau Bwrdd anffurfiol na busnes a gynhaliwyd all-lein.

* Gadawodd Richard Sharp y Bwrdd ar 26 Mehefin 2023, gadawodd Shirley Garrood y Bwrdd ar 2 Gorffennaf 2023, ymunodd Michael Smyth â'r Bwrdd ar 20 Gorffennaf 2023, ymunodd Chris Jones â'r Bwrdd ar 24 Gorffennaf 2023, ymunodd Marinella Soldi â'r Bwrdd ar 11 Medi 2023, gadawodd Elan Closs Stephens y Bwrdd ar 3 Mawrth 2024, ymunodd Samir Shah â'r Bwrdd ar 4 Mawrth 2024.

** Ym mis Rhagfyr 2023, cynhaliwyd cyfarfod ar y cyd o bwyllgor y pedair Gwlad yng Nghaerdydd. Ystyrir hyn yn gyfarfod llawn o bob Pwyllgor

Llywodraethu

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol Pwyllgor Archwilio a Risg y BBC (y Pwyllgor) ar gyfer 2023/24.

Dechreuodd fy mhenodiad ar Fwrdd y BBC ar 24 Gorffennaf 2023 a chadeiriais fy nghyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor ym mis Medi 2023. Rwy'n ddiolchgar i'm rhagflaenydd, Shirley Garrood am fy mrrifio'n llawn cyn i mi gymryd fy nghyfrifoldebau fel cadeirydd ac am lywio'r Pwyllgor yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn pan oedd hi'n Gadeirydd ei hun. Hoffwn hefyd ddiolch i'm cydweithydd Shumeet Banerji, am weithredu fel Cadeirydd dros dro am y cyfnod byr cyn fy mhenodiad ynghyd â bod yn aelod o'r Pwyllgor drwy gydol y flwyddyn, ac i Elan Closs Stephens am barhau i fod yn aelod o'r Pwyllgor i sicrhau rhagor o barhad nes iddi ymddeol fel Cadeirydd dros dro y BBC.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi bod yn goruchwyllo'r agweddau perthnasol ar drefniadau llywodraethu corfforaethol y BBC, yn enwedig o ran adroddiadau ariannol, rheolaeth fewnol a rheoli risg. Isod rwyf wedi nodi prif weithgareddau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, a gaiff ei gwmpasu'n fanylach yn yr adroddiad:

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon: mae'r Pwyllgor wedi adolygu Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC, gan fynd ati i herio'r rheolwyr mewn ffordd adeiladol ar eu dyfarniadau a'u hamcangyfrifon allweddol, ynghyd â'r modd y mae'r rheolwyr wedi sicrhau bod y cyfrifon yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Goruchwyllo'r archwilwyr allanol: goruchwylwyd cydberthynas y BBC â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol gan y Pwyllgor gan gynnwys adolygu ei gynllun archwilio, adolygu ei asesiad o risg archwilio, cwblhau ei archwiliad a monitro'r broses o weithredu argymhellion i reolwyr sy'n codi o'i waith.

Effeithiolrwydd rheolaethau mewnol: adolygodd y Pwyllgor effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol y BBC, ar ran y Bwrdd. Adolygodd y Pwyllgor ganfyddiadau o weithgarwch sicrwydd annibynnol a heriodd adroddiadau gan y rheolwyr.

Rheoli risg: roedd y Pwyllgor wedi goruchwyllo fframwaith risg y BBC ar ran y Bwrdd. Cafwyd diweddariadau penodol ar risg seiber, gan gynnwys ymatebion i achos diweddar o dorri rheolau data yn y BBC mewn perthynas ag aelodau Cynllun Pensiwn y BBC. Cynhaliwyd archwiliad manwl ar bynciau risg rhyngwladol gan gynnwys aistrwythuro gweithrediadau yn India, trefniadau diogelwch staff mewn amgylcheddau gelyniaethus a diogelwch a'r broses o dynnu ein staff a'u teuluoedd o Gaza.

Archwiliad Mewnol: cymeradwyodd y Pwyllgor y cynllun blynyddol a chafodd adroddiadau archwilio. Mae cwblhau camau gweithredu'r Archwiliad Mewnol wedi bod yn faes rheoli ac o ffocws gan y Pwyllgor, ac roedd camau gweithredu heb eu cyflawni ar eu lefel isaf ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i adolygu effeithiolrwydd yr Archwiliad Mewnol.

Chwythu'r chwiban: Cafwyd adroddiadau ar statws honiadau chwythu'r chwiban a chanlyniadau ymchwiliadau. Nododd y Pwyllgor yr heriau o ran cwblhau ymchwiliadau o fewn yr amserlenni disgwylidiedig ac ystyriodd yr achosion sylfaenol a sut y gallem fynd i'r afael â nhw.

Yn ogystal â'r eitemau sefydlog a nodwyd uchod, mae'r agenda wedi parhau i adlewyrchu materion cyfredol a materion blaenoriaeth y mae angen eu goruchwyllo ac sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Mae hyn wedi cynnwys cynaliadwyedd, prosiectau allweddol, caffael BritBox International ac ymatebion y BBC i newidiadau sydd ar ddod yn UK Corporate Governance.

Rôl y Pwyllgor

Cylch gwaith y Pwyllgor yw adolygu a goruchwyllo agweddau perthnasol ar drefniadau llywodraethu corfforaethol y BBC, yn enwedig o ran adroddiadau ariannol, rheolaeth fewnol a rheoli risg. Er mwyn cael y sicrwydd hwn, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am adolygu a goruchwyllo'r canlynol:

- uniondeb adroddiadau ariannol, gan gynnwys dyfarniadau rheolwyr mewn perthynas ag Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC a datganiadau cysylltiedig;
- effeithiolrwydd fframwaith rheolaeth fewnol a rheoli risg Grŵp y BBC;
- y risgiau gweithredol a chydymffurfiaeth allweddol a wynebir gan Grŵp y BBC a'r camau a gymerir i liniaru'r risgiau hynny i lefel dderbyniol;
- gwaith swyddogaeth Archwilio Mewnol y BBC, ei adnoddau a'i effeithiolrwydd;
- cwmpas archwilio arfaethedig yr archwilwyr allanol, gan sicrhau nad oes unrhyw gyfyngiadau anghyfiawn yn cael eu gwneud a bod eu gwaith yn cael ei gwblhau;
- annibyniaeth yr archwilydd allanol, ei weithdrefnau rheoli ansawdd a'r camau a gymerir gan yr archwilydd i ymateb i newidiadau i ofynion rheoleiddol a gofynion eraill.

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg yn nodi cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn fanylach. Mae'r Cylch Gorchwyl ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan: downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/whoweare/bbcboard/auditandrisk/arc-tor-dec-2022.pdf

Aelodaeth o'r Pwyllgor

Fel arfer, mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol, y mae'n rhaid bod un ohonynt yn meddu ar brofiad ariannol diweddar a pherthnasol. Yr aelodau a wasanaethodd yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24 oedd:

- Shirley Garrood (Cadeirydd y Pwyllgor, daeth ei chyfnod i ben ar 2 Gorffennaf 2023)
- Chris Jones (Cadeirydd y Pwyllgor, a benodwyd ar 24 Gorffennaf 2023)
- Shumeet Banerji (a benodwyd ym mis Ionawr 2022)
- Elan Closs Stephens (a benodwyd ym mis Ebrill 2022, daeth ei chyfnod i ben ar 3 Mawrth 2024)

Ar ôl diwedd y flwyddyn, cytunodd y Bwrdd y byddai Michael Plaut yn ymuno â'r Pwyllgor fel aelod o 1 Medi 2024. Yn ystod y cyfnod byr rhwng yr adeg y daeth cyfnod Shirley Garrood i ben a dechrau penodiad Chris Jones, gweithredodd Shumeet Banerji fel Cadeirydd y Pwyllgor dros dro.

Mae gan Shirley Garrood a Chris Jones, Cadeiryddion y Pwyllgor yn ystod 2023/24, brofiad ariannol sylweddol, diweddar a pherthnasol. At hynny, mae pob aelod a wasanaethodd ar y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn yn unigolion sy'n dal neu sydd wedi dal uwch-swyddi mewn sefydliadau o faint tebyg ac sy'n meddu ar y profiad a'r sgiliau i gyflawni eu cyfrifoldebau. Lle y bo'n briodol, ategir sgiliau a phrofiadau aelodau gan gyngor gan weithwyr proffesiynol mewnol ac allanol.

Caiff Cadeirydd Bwrdd y BBC, y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Prif Swyddog Gweithredu'r Grŵp, Prif Swyddog Ariannol y Grŵp a'r Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd, ynghyd ag uwch-gynrychiolwyr o'r tîm Archwilio Mewnol, Rheoli Risg a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, fel archwilwyr allanol y BBC, eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd. Yn ogystal, mae Ian Griffiths, un o Gyfarwyddwyr anweithredol Bwrdd Masnachol y BBC, sy'n gyfrifol am oruchwyllo uchelgeisiau BBC Commercial yn mynychu fel arsylwr. Mynychodd Cadeirydd newydd y BBC, Samir Shah, y Pwyllgor ym mis Mawrth 2024.

Mae'r Pwyllgor yn asesu ei effeithiolrwydd ei hun yn rheolaidd. Yn 2022/23, bu gwaith y Pwyllgor yn rhan o'r adolygiad allanol o effeithiolrwydd Bwrdd y BBC. Cafodd y canfyddiadau a'r argymhellion eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn 2023/24. Hefyd adolygodd y Pwyllgor ei glych gorchwyl ym mis Rhagfyr 2023, a chyflwynwyd newidiadau y cytunwyd arnynt gan Fwrdd y BBC i'r broses o oruchwyllo risg – dylai'r Pwyllgor Archwilio a Risg barhau i oruchwyllo pob risg ond gan edrych yn fanylach ar risgiau gweithredol, gyda Bwrdd y BBC yn goruchwyllo'r risgiau strategol allweddol.

Cyfarfodydd y Pwyllgor

Cyfarfu'r Pwyllgor chwe gwaith yn ystod 2023/24, ar adegau allweddol yn y calendr adrodd, risg ac archwilio. Roedd un o'r cyfarfodydd wedi'i neilltuo ar gyfer risgiau gyda'r is-gwmni Masnachol.

Mae cofnodion o'r cyfarfodydd ar gael i Fwrdd y BBC a chyhoeddir cofnodion cryno ar wefan y BBC: bbc.co.uk/aboutthebbc/whoweare/bbcboard/auditandrisk. At hynny, mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i Fwrdd y BBC ar ôl pob cyfarfod ar unrhyw faterion lle y mae angen cymryd camau neu wella perfformiad.

Cyfarfu'r Pwyllgor yn breifat â'r Archwilwyr Mewnol a'r archwilwyr allanol yn ystod y flwyddyn, heb fod unrhyw reolwyr yn bresennol.

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

Adolygodd y Pwyllgor ddatganiadau ariannol y BBC. Wrth wneud hynny, gwnaeth y canlynol:

- ystyried y busnes gweithredol a'r datganiadau hyfywed;
- trafod a herio papurau a gyflwynwyd gan reolwyr ar y meysydd risg sy'n gysylltiedig ag adrodd ariannol. Roedd hyn yn cynnwys meysydd lle mae dyfarniadau ac amcangyfrifon ariannol sylweddol wedi dylanwadu ar y datganiadau ariannol;
- ystyried y risg o gam-ddatgan perthnasol oherwydd twyll a gwall. Cyflwynodd y rheolwyr bapurau ar weithrediad ac effeithiolrwydd rheolaethau cysylltiedig;
- asesu p'un a yw'r cyfrifon yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ar y cyfan;
- ceisio sicrwydd gan y rheolwyr ar gydymffurfiaeth â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU ac esboniad am unrhyw ddisgwyliadau;
- adolygu a herio'r rheolwyr ar gysondeb cyfrifon y BBC a gyflwynwyd.

Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y datganiadau ariannol yn adlewyrchu'r dyfarniadau sylweddol a'r amcangyfrifon allweddol, o ran y symiau a nodwyd a'r datgeliadau. Roedd y Pwyllgor hefyd yn fodlon bod y tybiaethau allweddol a ddefnyddiwyd i bennu gwerth asedau a rhwymedigaethau wedi bod yn destun prosesau craffu a herio priodol, a'u bod yn ddigon cadarn. Rydym yn argymhell y cyfrifon i'r Bwrdd i'w cymeradwyo.

Cafodd y meysydd allweddol canlynol o farn a'r amcangyfrif eu hystyried gan y Pwyllgor. Mae'r datganiadau ariannol a'r nodiadau ategol yn rhoi rhagor o fanylion.

Cydnabod Incwm: Mae risg gynhenid na chaiff incwm ei gydnabod yn unol â safonau adrodd ariannol. Y casgliadau sy'n ymwneud â chydnabod incwm masnachol yw'r rhai mwyaf cymhleth. Caiff refereniw ffi'r drwydded ei drin fel incwm grant gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar y sail y caiff symiau sy'n dderbyniadwy gan dalwyr ffi'r drwydded eu talu i'r BBC.

Ni welwyd unrhyw newidiadau sylweddol i gontractau refereniw masnachol yn ystod 2023/24. Cadarnhaodd y rheolwyr hefyd fod pob contract newydd yn cael ei asesu yn erbyn IFRS15 – Refereniw o Gontractau â Chwsmeriaid. Diweddarwyd y Pwyllgor ar y contractau mwyaf sylweddol a'r dulliau lliniaru sydd ar waith, a chadarnhaodd y rheolwyr fod hyfforddiant ar gyfer ardaloedd busnes perthnasol ac adolygiadau rheolaidd o gontractau refereniw perthnasol yn mynd rhagddo.

Pensiwn a Thybiaethau Actiwaraid: Gall newidiadau yn y tybiaethau a ddefnyddir i gyfrifo prisiad IAS 19 o gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig y BBC arwain at newidiadau sylweddol i ddatganiadau a ddatgelir. Mae angen llunio barn ar y tybiaethau ynghylch cyfradd ddisgowntio, cyfradd chwyddiant a chyfraddau marwoldeb.

Mae'r tybiaethau a ddefnyddiwyd ar gyfer y prisiad cyfrifyddu diweddaraf wedi'u pennu gan y rheolwyr, yn seiliedig ar argymhellion actiwariaid annibynnol ac ystyrir eu bod o fewn amrediad derbynol.

Nododd y Pwyllgor y defnydd o arbenigwyr annibynnol, y defnydd o ddadansoddiadau sensitifwydd a senario i bennu'r tybiaethau mwyaf priodol, a'r adroddiadau i'r Pwyllgor ar faterion cynllun pensiwn gan gynnwys tybiaethau, dyfarniadau ac amcangyfrifon allweddol.

Prydlesau: Mae ystâd y BBC yn cynnwys safleoedd rhydd-ddaliadol yn ogystal â safleoedd a ddelir o dan brydlesau. Gall natur gymhleth safleoedd yBBC ac amodau cytundebol trefniadau prydlesau olygu bod angen llunio barn o dan IFRS16 Prydlesau. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y ffordd y cafodd y safleoedd brydleswyd eu trin yn y datganiadau ariannol yn gyson â bwriad rheolwyr.

Cyfnewidiadau Llif Arian Parod: Mae cyfnewidiadau datrys llif arian parod yn newid taliadau rhent sy'n gysylltiedig â chwyddiant y BBC ar gyfer Broadcasting House Llundain ("LBH") yn broffil llif arian parod mwy gwastad hyd at 2045. Mae angen amcangyfrifon i gyfrifo eu gwerth teg. Cafodd y Pwyllgor ei friffio ar y tybiaethau a ddefnyddiwyd i gyfrifo eu gwerth teg a nodwyd bod tîm Cyllid Corfforaethol y BBC yn adolygu'r model prisio bob blwyddyn.

Cyfuno: mae cyfuno sefydliad rhyngwladol mawr yn arwain at risg gynhenid o gamdatganiadau. Gall fod angen llunio barn ar y broses o ddsbarthu buddsoddiadau fel rhai atodol, cysylltiol neu fenter ar y cyd.

Mae LBH yn eiddo i Daunus Limited. Mae gan y BBC fuddiant o 20% yn y cwmni hwn, sydd â'r diben penodol o gadw'r safle buddsoddi hwn am incwm rhenti a geir gan y BBC. Mae'r buddsoddiad yn gymhleth ac, felly, mae angen llunio barn wrth ei ddsbarthu fel menter ar y cyd.

Cadarnhaodd y rheolwyr i'r Pwyllgor fod adolygiadau manwl yn cael eu darparu dros fodolau cyfuno a meysydd o farn. Roedd y broses gyfuno hefyd yn destun i adolygiad Archwilio Mewnol yn 2023/24, a darparwyd sicrwydd cyfyngedig.

Cyfrifyddu Asedau Rhaglenni: Defnyddir barn sylweddol yn y methodolegau prisiad cyfrifyddu ar gyfer asedau rhaglenni. Hefyd mae newidiadau yn y ffordd y mae gwylwyr yn defnyddio cynnwys y BBC (BBC iPlayer yn erbyn gwyllo llinellol) yn ychwanegu risgiau o ran amseriad rhyddhau'r asedau hyn i'r datganiad incwm.

Cafodd y Pwyllgor ddiweddiad ar yr adolygiad cydnabod gwariant blynyddol, gan nodi ei fod yn dal i fod yn briodol ar y cyfan i barhau i gydnabod costau pan fydd cynnwys ar gael am y tro cyntaf i gynulleidfaeodd ar y prif sianelau llinellol ar gyfer 2023/24.

Cadarnhaodd y rheolwyr i'r Pwyllgor, ynghyd â'r adolygiad blynyddol, y caiff rhestr eiddo flynyddol ei llunio ar 31 Mawrth bob blwyddyn i sicrhau, pan fydd rhaglenni eisoes ar iPlayer, ei bod yn briodol o hyd i'w cadw ar y fantolen yn seiliedig ar dueddiadau defnydd cynulleidfaeodd.

Caffaeliadau: Y trafodyn mwyaf arwyddocaol oedd caffael cyfran 50% ITV o BritBox International, gyda'r BBC yn cymryd perchnogaeth lawn am gyfanswm ystyriaeth o £272 miliwn. Diweddarwyd y Pwyllgor ar ganlyniad y model prisio a gweithgarwch diwydrwydd dyladwy, gyda chanfyddiadau'n cael eu hymgorffori i gynllun integreiddio BritBox International BBC Commercial.

Fel rhan o'r adolygiad o'r datganiadau ariannol, ystyriodd y Pwyllgor y materion canlynol hefyd.

Risg Camddatganiad: Cafodd y Pwyllgor gadarnhad gan y rheolwyr nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau perthnasol na chamddatganiadau nad oeddent yn berthnasol a wnaed yn fwriadol neu mewn camgymeriad er mwyn rhoi darlun penodol.

Materion Trethiant: Cafodd y Pwyllgor y diweddaraf ar ad-daliad CThEF oherwydd newid yn y modd y caiff treth ei chymhwyso i hawliau archif. Rhwng 2009 a 2021, codwyd treth ar y BBC yn erbyn ffioedd sy'n gysylltiedig â'r asedau sefydlog anniriaethol yn Archif Hawliau'r BBC. Ers hynny, mae CThEF wedi nodi y gellir gwrthbwysio gwariant darlledu yn erbyn y ffioedd. Mae'r colledion sy'n codi o gyfrifiant treth yr Archif Hawliau wedi'u pennu yn erbyn elw Grŵp y DU, sydd wedi arwain at ad-daliad o dreth gorfforaethol o £137 miliwn ar draws y blynyddoedd hyn. Cofnodwyd hyn fel addasiad untro y flwyddyn hon.

Darpariaethau a Rhwymedigaethau Wrth Gefn: Cafodd y Pwyllgor adroddiadau ar faterion a allai arwain at gydnabod rhwymedigaethau posibl eraill a thrafododd lefel y darpariaethau, lle y bo'n briodol, â rheolwyr. Cadarnhaodd y rheolwyr eu bod wedi defnyddio dull cyson o nodi, cydnabod a rhyddhau darpariaethau ym mhob rhan o Grŵp y BBC. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar lefel y darpariaethau a gariwyd a'r hyn a ddatgelwyd mewn perthynas â'r darpariaethau hynny.

Mae'r Pwyllgor wedi cael ei ddiweddarau ar ymchwiliad sifil yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) i ymddygiad gwrthystaddeuol honedig gan y BBC a busnesau cyfryngau eraill. Mae un ymchwiliad yn ymwneud â defnyddio gweithwyr llawrydd, cyflogeion a chwmnïau ar gyfer cynhyrchu, a darlledu cynnwys teledu yn y DU. Mae ymchwiliad arall yn ymwneud â chynhyrchu a darlledu cynnwys chwaraeon yn y DU.

Cyfeirir at rwymedigaeth amodol yn y nodiadau i'r adroddiad blynyddol a chyfrifon sy'n nodi rhagor o fanylion ar natur a graddau'r rhwymedigaethau.

Llywodraethu

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg – parhad

Fel y nodwyd y flwyddyn ddiwethaf, nodwyd rhwymedigaeth wrth gefn bosibl ar ôl dechrau arwng treth llywodraeth India ar weithgareddau'r BBC yn India ym mis Chwefror 2023. Mae'r BBC wedi cydweithredu'n llawn â phob cais a wnaed iddo, gan gynnwys ceisiadau am ddogfennau a gwybodaeth, a bydd yn parhau i wneud hynny, wedi'i gefnogi gan ei gynghorwyr cyfreithiol a threth allanol.

Adroddiad Blynyddol Ehangach: Adolygodd y Pwyllgor ddatganiadau ariannol y Grŵp a'u lle yn yr adroddiad blynyddol ehangach. Er mwyn cynorthwyo'r adolygiad hwn, ystyriwyd adroddiadau gan reolwyr, Archwilio Mewnol a'r archwilwyr allanol, yn cwmpasu'r canlynol:

- ansawdd a derbynoldeb polisiâu cyfrifyddu, gan gynnwys eu cydymffurfiaeth â safonau cyfrifyddu;
- cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol;
- eglurder datgeliadau a'u cydymffurfiaeth â gofynion adrodd perthnasol;
- cywirdeb profion data a datganiadau allweddol yn adran flaen yr adroddiad;
- a yw'r Adroddiad Blynyddol cyfan yn rhoi'r wybodaeth ddibynadwy sydd ei hangen i asesu perfformiad a strategaeth y BBC.

Goruchwyllo'r Archwilwyr Allanol

O dan Siarter Frenhinol a Chytundeb 2016, mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, a thrwy hynny'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol y mae'n bennaeth arni, wedi'i benodi'n archwilydd statudol y BBC am gyfnod y Siarter. Goruchwyliodd y Pwyllgor y berthynas â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, gan gynnwys cwmpas ei gwaith, ei dulliau gweithredu a'i hannibyniaeth. Ymhlith y meysydd y canolbwyntiodd y Pwyllgor arnynt yn ystod y flwyddyn mae'r canlynol:

- proses y BBC o roi argymhellion archwiliad allanol 2022/23 ar waith. Ystyriodd y Pwyllgor hefyd unrhyw oblygiadau o adolygiad ansawdd y Cyngor Adrodd Ariannol o'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol;
- adolygiad ffurfiol a gynhaliwyd gan y Pwyllgor o effeithiolrwydd archwiliad allanol 2022/23;
- y broses archwilio allanol, gan gynnwys gofynion adrodd rheoleidd-dra a phriodoldeb;
- asesiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o feysydd o risg neu farn archwilio. Ar gyfer 2023/24, roedd hyn yn gyson â'r meysydd o risg a barn a nodwyd gan y rheolwyr;
- ansawdd yr archwiliad gan gynnwys adroddiad cwblhau yr archwilydd, canfyddiadau'r archwiliad a llythyr y rheolwyr; a
- digonolrwydd her yr archwilydd allanol i'r rheolwyr. Caiff adolygiad o berfformiad yr archwilydd allanol ynghylch cyfrifon 2023/24 ei drefnu ar gyfer hydref 2024.

Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian o weithgareddau'r BBC nad ydynt yn rhai golygyddol. Yn ystod 2023/24, cwblhaodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ei hadolygiad

o Raglen Across the UK y BBC. Adolygodd y Pwyllgor ymateb y BBC i'r adolygiad hwn a bydd yn goruchwyllo'r broses o olrhain camau gwella a'u rhoi ar waith.

Adolygodd a chadarnhaodd y Pwyllgor ddarpariaethau'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth ar gyfer astudiaethau gwerth am arian y Swyddfa Archwilio Genedlaethol sy'n diogelu annibyniaeth olygyddol a chynnwys y BBC a chadarnhaodd ddigonolrwydd mesurau diogelu'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol i osgoi unrhyw fygythiadau i annibyniaeth sy'n codi yn ystod yr archwiliad allanol a'r astudiaethau gwerth am arian.

Arweinyddiaeth yr archwiliad allanol: Mae'r Pwyllgor wedi nodi hyd arweinyddiaeth yr archwiliad allanol, i sicrhau cydbwysedd addas rhwng deall y BBC a chael safbwynt ffres. Mae arweinydd presennol yr archwiliad allanol wedi bod yn ei swydd ers tair blynedd.

Gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio:

Fel un o'r mesurau i ddiogelu annibyniaeth yr archwiliad allanol, mae'r Pwyllgor wedi datblygu polisi'r BBC ar gomisiynu'r archwilwyr allanol i ddarparu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio, ac yn ei oruchwyllo. Nid yw'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn darparu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio. Er gwaethaf hyn, ni fyddai'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cael ei hystyried ar gyfer gwaith a allai beryglu ei gallu i roi barn annibynnol ar ddatganiadau ariannol y BBC. Mae'n rhaid cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Pwyllgor cyn recriwtio aelod o staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i unrhyw swydd uwch-reolwr yn y BBC.

Effeithiolrwydd rheolaethau mewnol

Adolygodd y Pwyllgor effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y BBC, ar ran y Bwrdd. Er mwyn gwneud yr asesiad hwn, dibynnodd y Pwyllgor yn bennaf ar ganfyddiadau'r gweithgarwch sicrwydd a'r her i adroddiad a sylwadau'r rheolwyr.

Ymhlith y meysydd penodol eraill a ystyriwyd yn ystod y flwyddyn roedd:

- cadarnhad i'r Bwrdd gan aelodau'r Pwyllgor Gweithredol ynghylch rheolaethau yn eu meysydd busnes;
- y themâu a'r canfyddiadau o weithgarwch Archwilio Mewnol. Caiff crynodeb o weithgarwch Archwilio Mewnol, sy'n nodi tueddiadau ac achosion sylfaenol, ei gyflwyno'n flynyddol;
- craffu ar agwedd ac ymateb y rheolwyr i ganfyddiadau sicrwydd proffil uchel neu gritigol;
- cynnydd ar gwblhau camau archwilio. Yn ystod 2023/24, nododd y Pwyllgor ostyngiad yn nifer y camau oedd heb eu cwblhau, o ganlyniad i ffocws cynyddol gan Bwyllgor Gweithrediadau'r BBC;
- canlyniadau archwilio allanol, a chanfyddiadau rheoli fel y nodir yn llythyr rheoli'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol;
- canlyniad astudiaethau gwerth am arian y Swyddfa Archwilio Genedlaethol;

- adroddiadau gan reolwyr gweithredol ar feysydd rheolaeth allweddol. Mae hyn wedi cynnwys diweddariadau ar weithgarwch sicrwydd seiber a gymerwyd gan dîm Diogelu Gwybodaeth y BBC a diweddariadau cynnydd ar brosiect rheolaethau ICOM (rheolaethau, goruchwyllo a monitro rhyngwladol);
- adroddiadau ar chwythu'r chwiban ynghyd â'r systemau sydd ar waith i leihau achosion o driniaeth anghyfiawn a'u hatal; ac
- adolygiadau rheolaidd o gynnydd prosiectau allweddol a ddarparwyd gan Swyddfa Drawsnewid y BBC, a chanlyniadau sicrwydd prosiect. Hefyd, adolygodd y Pwyllgor ddedoliad o brosiectau yn fanylach.

Mae'n ofynnol i'r BBC roi egwyddorion llywodraethu corfforaethol da a dderbynnir yn gyffredinol ar waith ac felly mae'n dewis cydymffurfio ag egwyddorion Cod Llywodraethu'r DU, oni fydd hyn yn mynd yn groes i un o ofynion y Siarter. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau gan reolwyr ar fentrau a gynlluniwyd i weithredu gofynion adrodd a goruchwyllo ychwanegol, lle y bo'n berthnasol, i gynnal cydymffurfiaeth â'r Cod yn y dyfodol.

Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y gweithgarwch sicrwydd a rheoli risg, a gefnogir gan y wybodaeth a gyflwynwyd gan reolwyr, a'r ymatebion a gafwyd i gwestiynau ac ymholiadau pellach, yn ddigonol i'r Bwrdd asesu bod effeithiolrwydd cyffredinol rheolaethau mewnol a gweithgarwch rheoli risg yn ddigonol.

Er mwyn cefnogi'r asesiad hwn, mae'r Pwyllgor wedi cyfeirio at yr adroddiad blynyddol a barn tîm Archwilio Mewnol y BBC, a'r themâu a nodir yn eu hadroddiad y mae angen eu gwella.

Rheoli risg a chydymffurfiaeth

Ystyriodd y Pwyllgor effeithiolrwydd y fframwaith rheoli risg yn y BBC. Roedd yn arfer y ddyletswydd hon bob chwarter drwy:

- adolygu adroddiadau a herio'r rheolwyr mewn perthynas â'r prif risgiau gweithredol ac o ran cydymffurfiaeth a wynebir gan y BBC;
- craffu ar ansawdd yr adroddiadau risg, y trefniadau llywodraethu ar gyfer adrodd am risgiau a metrigau risg mewn meysydd risg allweddol;
- cael papurau ar risgiau sy'n dod i'r amlwg sydd â'r potensial i effeithio ar y BBC ac archwilio'n fanwl i bynciau risg fel diogelwch gwybodaeth, cynaliadwydd a rolau risg uchel; ac
- ystyried awydd y BBC i gymryd risgiau mewn meysydd risg allweddol, gan nodi a herio'r rheolwyr ar risgiau sy'n dod i'r amlwg y tu hwnt i'r awydd i gymryd risgiau a chamau i unioni risgiau lle y bo angen. Mae Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar waith ac yn cael eu defnyddio i galibradu perfformiad risg yn erbyn y disgwyliadau.

Cyflwynwyd diweddariad rheolaidd ar reoli risg Seiber i'r Pwyllgor gan y Prif Swyddog Technoleg. Roedd hyn yn cwmpasu newidiadau i statws risgiau seiber, ymatebion i ddigwyddiadau (gan gynnwys ymatebion i'r achos o ddatgelu data heb ganiatâd), bygythiadau sy'n dod i'r amlwg a chanlyniadau gwaith sicrwydd arbenigol.

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau ar brosiect ICOM y BBC, gan nodi cynnydd a heriau, ac ailstrwythuro gweithrediadau yn India. Gwnaethom hefyd adolygu ein trefniadau ar gyfer diogelwch ein staff mewn ardaloedd daearyddol anodd ac, yn benodol, cawsom y diweddaraaf ar ddiogelwch a'r broses o gael ein staff a'u teuluoedd allan o Gaza.

Cafodd y Pwyllgor bapur ar gaffaeliad BBC Commercial o gyfran 50% ITV yn BritBox International, gan roi perchnogaeth lawn i'r BBC. Diweddaryd y Pwyllgor a thrafododd y driniaeth gyfrifyddu a chanfyddiadau diwydrwydd dyledus.

Cafod y Pwyllgor hefyd ddangosfwrdd cydymffurfiaeth ym mhob cyfarfod a nododd y cynnydd mewn adrodd am gydymffurfiaeth a'r defnydd o ddangosyddion perfformiad allweddol yn y maes hwn. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud argymhellion er mwyn gwella'r broses o adrodd ar risgiau ymhellach, a roddir ar waith yn ystod 2024/25.

Am ragor o fanylion ar risgiau'r BBC, gweler yr adroddiad ar y Prif Risgiau ar dudalen 108.

Archwilio Mewnol

Parhaodd swyddogaeth Archwilio a Sicrwydd y BBC â'i llinell adrodd annibynnol i Gadeirydd y Pwyllgor a chynhaliodd raglen o archwiliadau mewnol yn unol â'r prif risgiau a wynebier gan y BBC. Mae gwaith y tîm yn eitem reolaidd ar agenda pob cyfarfod. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi:

- cymeradwyo'r cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan sicrhau ei fod yn seiliedig ar risg ac yn taro cydbwysedd rhwng rhoi sicrwydd ynghylch prosesau busnes craidd a meysydd o her strategol;
- monitro'r broses o gwblhau'r cynllun presennol, adolygu a chymeradwyo newidiadau ac atgyfeiriadau. Cwblhawyd 39 o adolygiadau archwilio ac wyth adolygiad sicrwydd prosiect fel rhan o gynllun seiliedig ar risg, a chodwyd mwy na 140 o gamau gwella (2022/23: Cwblhawyd 41 o adolygiadau archwilio ac wyth adolygiad prosiect, gyda nifer tebyg o gamau gweithredu'n cael eu codi).
- monitro'r broses o gwblhau camau gweithredu y cytunwyd arnynt. Roedd hwn yn faes ffocws i'r rheolwyr a'r Pwyllgor, ac mae camau gweithredu heb eu cyflawni ar eu lefel isaf. Yn y cyfarfod ym mis Mawrth 2024, roedd dau gam gweithredu heb eu cyflawni y disgwyliar iddynt fod wedi'u cyflawni erbyn mis Gorffennaf 2024;
- ystyried canfyddiadau gweithgarwch archwilio, gan ganolbwyntio ar archwiliadau â chanlyniadau anfodddhaol a chamau gweithredu rheolwyr y cytunwyd arnynt i fynd i'r afael â'r rhain;
- ystyried gofynion yr Archwilwyr Mewnol o ran adnoddau a'u gallu.

Yn unol ag arferion da, cynhaliwyd asesiad annibynnol o effeithiolrwydd y swyddogaeth Archwilio Mewnol yn ystod y pum mlynedd diwethaf, a rhoddwyd yr argymhellion ar waith. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn a ellir cynnal asesiad annibynnol arall yn ystod 2024/25.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i fonitro strwythur y swyddogaeth Archwilio Mewnol a gweithrediad y model adnoddau presennol, gyda'r rhan fwyaf o'r archwiliadau yn cael eu cynnal gan gyd-ffynhonnell trydydd parti. Trefnir i broses ail-gaffael gwasanaethau cyd-ffynhonnell gael ei chynnal yn 2024/25. Gofynnodd y Pwyllgor a ellid asesu'r model gweithredu cyn unrhyw broses ail-gaffael. Cynhaliwyd adolygiad allanol o fodel gweithredu Archwiliad Mewnol y BBC yn ystod y flwyddyn fel rhan o'r asesiad hwn. Cymeradwyodd y Pwyllgor y broses o ailddyrranu cyfran o'r gyllideb a wariwyd ar wasanaethau cyd-ffynhonnell er mwyn atgyfnerthu'r tîm mewnol ymhellach, ynghyd â rhai newidiadau strwythurol i wella effeithlonrwydd Archwilio Mewnol.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol a'r Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd, yn rheolaidd y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor.

Datgeliadau i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ('ICO')

Ym mis Mehefin 2023, effeithiodd gwendid yn ei feddalwedd ar is-gontractiwr trydydd parti (darparwr gwasanaethau'r gyflogres).

Arweiniodd hyn at achos o dorri rheolau data, a adroddwyd i'r ICO. Adroddwyd hyn fel digwyddiad ôl-fantolen yng nghyfrifon 2022/23. Ni chymerwyd unrhyw gamau gan yr ICO ac ni chafwyd unrhyw effaith ariannol berthnasol.

Ym mis Mai 2024, cafwyd mynediad heb awdurdod i lwyfan a ddefnyddir gan y BBC lle cafwyd mynediad i ffeiliau gan gynnwys ffeiliau yn cynnwys gwybodaeth bersonol am rai o aelodau Cynllun Pensiwn y BBC. Hysbyswyd yr ICO am hyn. Diweddaryd y Pwyllgor ar y digwyddiad gan gynnwys ymchwiliadau ar yr achos sylfaenol, camau lliniaru uniongyrchol a chynlluniau ar gyfer ymarfer gwersi a ddysgwyd.

Chwythu'r chwiban

Cafwyd adroddiadau ar statws honiadau chwythu'r chwiban a chanlyniadau ymchwiliadau. Nododd y Pwyllgor yr heriau o ran cwblhau ymchwiliadau o fewn yr amserlenni disgwyliedig ac ystyriodd yr achosion sylfaenol ynghyd â sut y gallem fynd i'r afael â nhw.

O 2024/25 bydd y Pwyllgor yn cefnogi'r uwch-gyfarwyddwr annibynnol sy'n goruchwilio'r broses chwythu'r chwiban drwy oruchwilio uniondeb, annibyniaeth ac effeithiolrwydd polisiâu a gweithdrefnau chwythu'r chwiban y BBC. Bydd yn parhau i fonitro effeithiolrwydd y fframwaith chwythu'r chwiban, gan gynnwys themâu ac amseroldeb cwblhau ymchwiliadau. Caiff canlyniad ymchwiliadau penodol ei adolygu gan Bwyllgor Gweithredol y BBC neu ei enwebai, ac ar gyfer materion arbennig o sensitif, Bwrdd y BBC.

Cynaliadwyedd

Cafwyd diweddariadau ar adroddiadau cynaliadwyedd, gan gynnwys safonau gorfodol a safonau arferion gorau. Heriodd y Pwyllgor ddigonolrwydd adrodd a phenderfynodd o'i wirfodd i ehangu a gwella datgeliad Adrodd Symlach ar Ynni a Charbon y DU i weddill Grŵp y BBC. Ymgysylltwyd â thrydydd parti i roi sicrwydd ar allyriadau carbon ar gyfer 2023/24.

Prosiectau allweddol

Parhaodd y Pwyllgor i oruchwilio cyfansoddiad a pherfformiad portffolio prosiectau allweddol y BBC a chafodd adroddiadau sicrwydd ar risgiau cyflawni prosiectau. Cynhaliwyd archwiliadau manylach ar brosiectau penodol, gan gynnwys prosiect adeiladu Eastbank ac E20 (set *EastEnders*). Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ar brosiect allanol i'r broses fusnes sy'n trosglwyddo prosesau cyllid a symudwyd dramor i ddarparwr newydd. Hefyd, trafododd y Pwyllgor a heriodd y rheolwyr ar eu cynlluniau i fynd i'r afael â materion o ran y gwaith uwchraddio TG sy'n rhan o Drwyddedu Teledu sydd ar ei hôl hi.

Yn gryno, rwy'n fodlon bod yr agendâu ar gyfer y flwyddyn hon wedi bod yn ystyriol ac yn unol â diben y Pwyllgor. Rwyf hefyd yn fodlon bod y Pwyllgor wedi meddu ar y sgiliau a'r cymorth addas i gyflawni ei ddyletswyddau'n briodol.

Gan edrych i'r dyfodol, i 2024/25 a thu hwnt, rydym yn disgwyl cadw'r ffocws ar weithgarwch craidd y Pwyllgor, parhau i nodi a gweithredu gwelliannau i ffyrdd y Pwyllgor o weithio a sicrhau bod yr agenda'n parhau i fod yn gyfredol ac yn berthnasol. Bydd cyd-destun ehangach adnewyddiad Siarter 2027, cynlluniau arbed a newidiadau llywodraethu corfforaethol yn fframio llawer o waith y Pwyllgor. Hefyd, bydd materion penodol risgiau gweithredu rhyngwladol, seiberddiogelwch ac ail-dendro gwasanaethau cyd-ffynhonnell Archwilio Mewnol yn cael eu cynnwys ar yr agendâu.

Chris Jones

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg
10 Gorffennaf 2024

Llywodraethu Ein prif risgiau

Mae risgiau yn effeithio ar allu'r BBC i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Siarter a'i ddibenion cyhoeddus. Nod ein dull o reoli risg yw cefnogi'r gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau strategol a'n hamcanion gweithredol.

Rheoli risg yn y BBC yn 2023/24

Bu'n flwyddyn heriol o safbwynt geowleidyddol, economaidd ac anwadalrwydd cymdeithasol. Wynebodd y BBC risgiau a heriau sylweddol yn sgil y rhyfel parhaus yn Wcráin a'r gwrthdaro yn Israel a Gaza ac, yn y DU, yn sgil amodau economaidd anodd a'r lefelau uchaf o weithredu diwydiannol ers yr 1980au.

Mae'r risg i ddiogelwch a diogeledd ein staff a'n newyddiadurwyr sy'n gohebu ar wrthdaro byd-eang yn hollbwysig i ni o hyd. Mae cynnydd mewn gweithgarwch protestwyr wedi arwain at risgiau uwch i'n safleoedd. Rydym yn parhau i wynebu pwysau ariannol sylweddol gan fod ffi'r drwydded wedi'i rhewi am ddwy flynedd ac er y cytunwyd ar setliad newydd yn ystod y flwyddyn, mae'r lefelau chwyddiant a chost cynhyrchu wedi cynyddu'r straen ariannol ar y busnes. Mae hyn ar adeg pan fydd y busnes yn wynebu newid a thrawsnewid sylweddol.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom wynebu nifer o risgiau gan gynnwys risgiau seiberddiogelwch gan gyflenwyr trydydd parti. Cawsom nifer o ddigwyddiadau proffil uchel hefyd yn ymwneud â rhai o'n cyflwynwyr ar yr awyr. Cyfeiriwch at adroddiad y Prif Swyddog Gweithredu ar dudalen 51 i gael rhagor o fanylion ar y meysydd hyn

Gyda'r newid mewn technoleg yn cyflymu a'r ymdeimlad o anwadalrwydd ac ansicrwydd o'n cwrmpas yn cynyddu, mae'r dirwedd cyfryngau yn y dyfodol yn parhau i newid yn gyflym. Yn y cyd-destun hwn, mae'r BBC wedi pennu'n glir y rôl unigryw sydd ganddo yn y byd h.y. bydd BBC y dyfodol yn gwneud y canlynol:

1. Canfod y gwirionedd heb unrhyw agenda, drwy ohebu'n ddi-ofn ac yn deg.
2. Cefnogi'r prosesau adrodd straen cartref gorau drwy fuddsoddi mewn talent a chreadigrwydd o Brydain.
3. Dod â phobl ynghyd drwy gysylltu pawb â chynnwys na ellir ei golli.

Bydd angen i BBC y dyfodol fod yn symlach ac yn fwy ystywyth. Rydym yn parhau i drawsnewid y sefydliad i fod mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, gan reoli'r risgiau a'r heriau sy'n ein hwynebu.

Dull y BBC o reoli risg

Rydym yn rheoli risgiau drwy bennu safonau a gofynion ar gyfer y prif risgiau a wynebir gan y busnes. Mae'r rhain yn helpu i ddiffinio graddau'r risg rydym yn barod i'w chymryd (ein hawydd i gymryd risgiau) yn ein busnes, cyfrifoldebau rheolwyr allweddol a threfniadau llywodraethu gweithgareddau rheoli risg.

Mae ein fframwaith rheoli risg gorfforaethol wedi'i ddyfynio i helpu'r busnes i reoli risgiau strategol sy'n deillio o'n blaenoriaethau strategol, risgiau gweithredol sy'n deillio o'n gweithrediadau busnes o ddydd i ddydd a risgiau o ran cydymffurfiaeth sy'n deillio o'r angen i fodloni gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.

1. Sut rydym yn rheoli risg

Mae ein dull o reoli risg yn helpu i sicrhau y caiff risgiau strategol, gweithredol a chydymffurfiaeth gorfforaethol ac is-adrannol allweddol eu nodi, eu hasesu a'u rheoli'n briodol.

Tacsonomeg risgiau corfforaethol: Mae'r BBC wedi datblygu tacsonomeg risgiau corfforaethol er mwyn helpu'r busnes i nodi risgiau strategol, gweithredol, ac o ran cydymffurfiaeth. Mae'r dacsonomeg yn helpu i sicrhau cyflawnrwydd wrth nodi risgiau ac yn hwyluso prosesau cydgasglu a chysondeb o fewn ein hadroddiadau ar risg.

Awydd i gymryd risg a metrigau risg:

Cytunwyd ar ddatganiadau awydd i gymryd risg ansoddol ar gyfer meysydd risg gweithredol allweddol. Mae metrigau a thargedau risg meintiol ar waith ar gyfer meysydd risg gweithredol a chydymffurfiaeth. Caiff cynnydd a pherfformiad yn erbyn targedau o'r fath eu monitro a'u hadrodd i Bwyllgor Archwilio a Risg y BBC yn chwarterol.

Cofrestrau risg isadrannau a swyddogaethau:

Mae isadrannau a swyddogaethau yn cynnal cofrestrau risg lleol. Caiff pob risg ei neilltuo i berchennog risg, sy'n gyfrifol am reoli'r risg, mesurau lliniaru a rheolaethau o ddydd i ddydd. Caiff cofrestrau risg eu cael adroddiad risg bob chwarter, sy'n ystyried awydd y BBC i gymryd risgiau mawr, awydd i gymryd risgiau mewn meysydd risg allweddol, gan nodi a herio'r rheolwyr ar risgiau sy'n dod i'r amlwg y tu hwnt i'r awydd i gymryd risgiau a chamau i unioni risgiau lle y bo angen; risgiau sy'n dod i'r amlwg a statws camau gweithredu rheolwyr.

Llywodraethu ac adrodd ar risg: Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn helpu Bwrdd y BBC i oruchwylio trefniadau llywodraethu corfforaethol, yn enwedig o ran adroddiadau ariannol, rheolaeth fewnol a rheoli risg. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cael adroddiad risg bob chwarter, sy'n ystyried awydd y BBC i gymryd risgiau mawr, awydd i gymryd risgiau mewn meysydd risg allweddol, gan nodi a herio'r rheolwyr ar risgiau sy'n dod i'r amlwg y tu hwnt i'r awydd i gymryd risgiau a chamau i unioni risgiau lle y bo angen; risgiau sy'n dod i'r amlwg a statws camau gweithredu rheolwyr.

Yn 2023, gwnaethom symleiddio ein dull o oruchwylio ein risgiau allweddol. Mae'r Bwrdd yn goruchwylio risgiau strategol, ac mae Pwyllgor Gweithredol y BBC yn gyfrifol am reoli risgiau strategol.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn goruchwylio risgiau gweithredol a chydymffurfiaeth, gan gynnwys goruchwylio prosiectau allweddol. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd yn monitro statws camau gweithredu rheolwyr ynghylch risgiau strategol.

Mae'r Pwyllgor Gweithrediadau, sy'n un o is-bwyllgorau'r Pwyllgor Gweithredol, wedi dirprwyo awdurdod ar fonitro gweithgareddau gweithredol allweddol yn ogystal â gweithgareddau allweddol o ran risg, cydymffurfiaeth a phrosiectau, gan gynnwys gwella rheolaethau mewnol, goruchwylio gweithgareddau unioni a chynnal archwiliadau dwfn o feysydd risg penodol.

Archwiliadau dwfn o risg

Mae archwiliadau dwfn yn ein galluogi i gael trafodaeth fanylach am feysydd risg penodol wrth i berchnogion risg gyflwyno trosolwg o'r risg, statws presennol y risg a gweithgareddau lliniaru.

Ymysg yr archwiliadau dwfn ar risg a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Gweithrediadau roedd seiberddiogelwch, gan gynnwys sesiynau dadfrifio ar yr holl ddigwyddiadau seiber a oedd y gysylltiedig â thrydydd parti, diogelwch newyddion risg uchel, News International Controls, hygyrched digidol, risg amlygrwydd a diogelwch digwyddiadau'r BBC. Cynhaliodd y Pwyllgor Gweithrediadau hefyd adolygiadau o brosiectau allweddol, gan gynnwys cynaliadwyedd/Sero Net, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Across the UK (prosiect i symud gwariant ar raglenni a chynhyrchu i rannau eraill o'r DU), East Bank (adleoli o stiwdios cerddoriaeth fyw presennol y BBC i Stratford, Dwyrain Llundain), ailddatblygiad Stiwdios Elstree, trawsnewidiad Broadcasting House Belfast, *Eurovision Song Contest 2023* a'r Model Gweithredu Gwerth i Bawb (rhaglen i arbed costau).

Cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio a Risg 'archwiliadau dwfn' penodol o feysydd blaenoriaeth yn ystod y flwyddyn. Am ragor o fanylion ar archwiliadau dwfn y Pwyllgor Archwilio a Risg, gweler adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg ar dudalen 104.

Gwelliannau a wnaed yn 2023/24:

Yn 2023, gwnaethom gynnydd sylweddol wrth wella ein prosesau a'n gweithdrefnau rheoli risg.

Ymgorffori risgiau strategol: Mae argymhellion a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol i wella ein prosesau risg strategol wedi'u rhoi ar waith. Mae'r Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd wedi nodi'r prif risgiau strategol sy'n wynebu'r BBC. Trafodwyd dangosfwrdd risg strategol yn amlinellu perchnogion risg, perfformiad risg a gweithgarwch rheoli a gynlluniwyd gan y Bwrdd. Bydd y Bwrdd yn adolygu'r dangosfwrdd risg strategol bob chwe mis.

Yn seiliedig ar yr uchod, rydym wedi cynyddu ein datgeliadau o brif risgiau strategol o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Datblygu metrigau risg: Cynlluniwyd metrigau risg ar gyfer meysydd risg strategol, gan gynnwys y trawsnewidiad digidol a chystadleuaeth am dalent ar yr awyr. Caiff y metrigau eu monitro bob chwarter yn y dyfodol. Mae ein tîm Diogelu Gwybodaeth wedi adolygu a diweddarau metrigau risg seiber i roi dealltwriaeth well i ni o'n sefyllfa o ran risg seiber.

Diwygio awydd i gymryd risgiau ar gyfer risgiau gweithredol: Gwnaethom ddiwygio ein dull o bennu ein hawydd i gymryd risgiau ar gyfer meysydd risg gweithredol yn ystod y flwyddyn. Adolygodd ac ailsefydlodd y Pwyllgor Gweithrediadau yr awydd i gymryd risgiau ar gyfer diogelwch Newyddion Risg Uchel, Diogelu; Diogelwch; Parhad Busnes; Diogelwch Corfforaethol; Diogelu Data a Cheisiadau am Wybodaeth. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystyried risgiau gweithredol sydd y tu hwnt i'r awydd i gymryd risgiau a chefnogi camau gweithredu'r rheolwyr.

Gweithgarwch sicrwydd ail linell: Rydym wedi dechrau rhaglen o adolygiadau sicrwydd ail linell mewn nifer o feysydd fel Diogelwch; Diogelu; a Chydymffurfiaeth. Hysbyswyd y Pwyllgor Gweithrediadau am y canfyddiadau o'r adolygiadau hyn a arweiniodd at weithgarwch unioni ym mhob rhan o'r BBC, gan ysgogi gwelliannau yn ein hamgylchedd rheoli.

Blaenoriaethau ar gyfer 2024/25: Rhoi Gofynion Cod Llywodraethu Corfforaethol Cyngor Adrodd Ariannol y DU ar waith: Ar ôl cyhoeddi Cod Llywodraethu Corfforaethol diwygiedig y DU ym mis Ionawr 2024, rydym yn sefydlu tîm prosiect i roi'r newidiadau gan y Cyngor Adrodd Ariannol ar waith, y mae'r mwyaf arwyddocaol ohonynt mewn perthynas â rheoli risg a rheolaethau mewnol. Bydd y cod yn gymwys i flynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2025 gyda'r ddarpariaeth rheoli risg a rheolaethau mewnol yn dod i rym o 1 Ionawr 2026.

Diwygio awydd i gymryd risgiau ar gyfer risgiau gweithredol: Caiff ein hawydd i gymryd risgiau ar gyfer risgiau technoleg a risgiau seiber ei adolygu a'i ddiweddarau i gynnwys adolygiad o feysydd trethiant risg technoleg, gan gefnogi metrigau a thargedau risg.

Risgiau sy'n dod i'r amlwg
Bygythiadau annisgwyl a all ddatblygu yw risgiau sy'n dod i'r amlwg, neu fygythiadau sy'n bodoli eisoes ond y mae'n anodd meintoli eu heffeithiau. Cânt eu hystyried dros gyfnodau byrdymor, tymor canolig a thymor hwy.

Mae'r tîm Rheoli Risgiau Corfforaethol, ar y cyd ag isadrannau, y tîm Strategaeth a Pherfformiad a thimau eraill o arbenigwyr pwnc, yn sganio'r amgylchedd mewnol ac allanol er mwyn nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg i'r BBC.

Caiff risgiau sy'n dod i'r amlwg eu categoreiddio'n rhai allanol/yn y farchnad, gwleidyddol, cyfreithiol a rheoleiddiol, gweithredol a thechnoleg. Caiff risgiau o'r fath eu monitro a'u holrhain drwy ein fframwaith risg presennol.

Rydym yn disgwyl i Ddeallusrwydd Artiffisial fod yn darfwr cynyddol yn sector y cyfryngau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Rydym wedi gweld datblygiadau amlwg mewn deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol – sy'n defnyddio deallusrwydd artiffisial i greu cynnwys newydd, fel testun, sain neu fideo. Mae deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn debygol o gyflwyno cyfleoedd o ran sut rydym yn gweithio a sut rydym yn cynhyrchu ein cynnwys. Rydym yn cynnal nifer o dreialon arloesedd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol ym mhob rhan o'r BBC a fydd yn nodi ble y gellir cael cynulleidfaoedd a gwerth gweithredol gwirioneddol. Rydym yn archwilio amrywiaeth o feysydd, o gyfieithu ac ailfformatio cynnwys i nodweddion hygyrchedd newydd, dysgu wedi'i deilwra o fewn BBC Bitesize a dulliau cynhyrchiol staff, ynghyd â bwriad i ddatblygu rhai o'r arbrofion hyn ymhellach yn ystod 2024/25.

Mae deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn cyflwyno risgiau a heriau, am ei bod yn lleihau cost a chymhlethdod cynhyrchu ymhellach ar gyfer newydd-ddyfodiaid gan gynyddu cystadleuaeth neu'r risg o gael ein disodli ymhellach. Mae deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol hefyd yn codi cyfres o gwestiynau eang e.e. ynghylch cywirdeb a hawlfraint, gyda nifer o achosion cyfreithiol proffil uchel ynghylch crafu data a thori ar hawlfraint yn dal i weithio eu ffordd drwy'r llysoedd. Nid yw'r effaith ar brosesau chwilio – sydd mor bwysig i lawer o gynhyrchwyr – yn glir, ond gallai arwain at ostyngiad mewn traffig drwy chwilio. Mae pryderon critigol hefyd ynghylch twyllwbyodaeth. Gallai delweddau, clipiau sain a fideos a grëwyd neu a addaswyd drwy ddeallusrwydd artiffisial ddod yn fwy cyffredin yn y byrdymor a'r hirdymor.

Ymysg y meysydd eraill o risg sy'n dod i'r amlwg mae ansicrwydd yr amgylchedd geowleidyddol ac effaith gysylltiedig unrhyw waethygiad pellach yn y gwrthdaro presennol yn Ewrop neu'r Dwyrain Canol mewn perthynas â masnach, y gadwyn gyflenwi ac effaith newidiadau rheoleiddiol disgwyltiedig, gyda Deddf y Cyfryngau newydd.

Asesu effeithiolrwydd rheoli risg a rheolaeth fewnol


Mae'r Bwrdd yn defnyddio'r dulliau uchod, ynghyd â gwaith archwilio a sicrhau mewnol ac allanol, a gwaith y Pwyllgor Archwilio a Risg i'w helpu i asesu effeithiolrwydd y system o reoli risg a rheolaeth fewnol ym mhob rhan o'r BBC er mwyn asesu bod y lefel gyffredinol yn ddigonol.

Llywodraethu

Ein prif risgiau – parhad

2. Ein fframwaith risg

Mae gennym broses pedwar cam i helpu'r busnes i reoli risgiau o fewn ein gweithgareddau o ddydd i ddydd.



1. Nodi

- Caiff risgiau corfforaethol eu nodi a'u hasesu gan y Pwyllgor Gweithrediadau a chaiff perchenogion risg eu neilltuo i bob risg.
- Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn darparu mewnbwn yn ystod yr adolygiad blynyddol o'r prif risgiau.
- Caiff risgiau ar lefel is-adrannol eu nodi drwy ystyried ffactorau sydd â'r potensial mwyaf i effeithio ar strategaeth ac amcanion Is-adrannol.
- Caiff risgiau sy'n dod i'r amlwg eu nodi gan y tîm Rheoli Risgiau Corfforaethol, ar y cyd â'r tîm Strategaeth a Pherfformiad a thimau eraill o arbenigwyr pwnc, drwy sganio meysydd o ddiddordeb, bygythiadau a chyfleoedd sydd i ddod.

3. Rheoli

Rydym yn defnyddio model tair llinell amddiffyn i reoli risgiau:

- Mae perchnogion risg yn yr Is-adrannau a'r swyddogaethau yn rheoli'r risgiau ac yn sicrhau y caiff mesurau lliniaru a rheolaethau eu rhoi ar waith yn effeithiol.
- Mae perchnogion risg, ar y cyd â'r Pwyllgor Gweithredol yn nodi'r awydd i gymryd risgiau mewn meysydd risg gweithredol.
- Mae'r tîm Rheoli Risgiau Corfforaethol yn monitro'r risgiau, gan gynnwys a ydynt o fewn yr awydd i gymryd risgiau neu y tu hwnt iddo.
- Mae'r swyddogaeth Archwilio a Sicrwydd yn rhoi sicrwydd annibynnol ynghylch risgiau busnes allweddol, fel y bo'n briodol ac yn seiliedig ar ei chynllun archwilio.

2. Dadansoddi

- Rydym yn dadansoddi'r tebygolrwydd y bydd pob risg a nodwyd yn crisialu o ystyried y mesurau lliniaru sydd ar waith.
- Rydym yn asesu effaith bosibl materion ariannol, materion cyfreithiol a rheoleiddiol, materion gweithredol ac iechyd adiogelwch.
- Ar y cyd, mae'r dadansoddiad hwn yn ein galluogi i bennu a oes angen rhoi mesurau lliniaru ychwanegol ar waith o ystyried ein hawydd i gymryd risgiau.

4. Monitro ac adrodd

- Mae'r timau arwain Is-adrannol yn adolygu risgiau a rheolaethau lliniaru Is-adrannol.
- Caiff y Pwyllgor Gweithrediadau ddangosfwrdd risgiau gweithredol a'r risgiau o ran cydymffurfiaeth bob mis.
- Caiff y Pwyllgor Gweithredol grynodedb risg bob chwarter gyda dangosfyrddau risgiau gweithredol a risgiau o ran cydymffurfiaeth.
- Caiff y Pwyllgor Archwilio a Risg adroddiad risg bob chwarter yn cwmpasu meysydd risgiau gweithredol, risgiau o ran cydymffurfiaeth a risgiau sy'n dod i'r amlwg ynghyd â diweddariad statws o gamau gweithredu'r rheolwyr er mwyn rheoli risgiau strategol. Cynhelir archwiliadau dwfn o risg mewn meysydd penodol fel sy'n ofynnol.
- Caiff y Bwrdd adroddiad diweddaru risg chwarterol ar risgiau gweithredol a risgiau o ran cydymffurfiaeth. Caiff y Bwrdd ddangosfwrdd risgiau strategol bob chwe mis hefyd.

3. Ein prif risgiau

Mae'r Bwrdd wedi cynnal asesiad o'r prif risgiau a wynebir gan y Grŵp, gan gynnwys y rheini a fyddai'n peryglu ei fodel busnes a'i berfformiad yn y dyfodol.

Ystyrir effaith y risgiau hyn wrth ddatblygu datganiad y BBC ynghylch hyfywedd. Mae'r prif risgiau ac ansicrwydd a wynebir gan y Grŵp wedi'u nodi isod:

Allwedd dosbarthiad risg:

- Risg strategol
- Risg weithredol

Allwedd dibenion cyhoeddus:

- 1 Darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch.
- 2 Cynorthwyo pobl o bob oedran i ddysgu.
- 3 Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau.
- 4 Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r DU ac, wrth wneud hynny, gefnogi'r economi creadigol ar draws y DU.
- 5 Adlewyrchu'r DU, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd.

Blaenoriaethau strategol allweddol:

- A Canfod y gwirionedd heb unrhyw agenda
- B Cefnogi'r proseau adrodd straeon cartref gorau
- C Dod â phobl yngyd
- D Cyflymu trawsnewidiad y BBC

Allwedd i newidiadau risg:

- Mae risg wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn
- Mae risg wedi aros yn sefydlog yn ystod y flwyddyn
- Mae risg wedi lleihau yn ystod y flwyddyn

Strategol

1. Ein sefyllfa ariannol

Risg: Anallu i gyflawni ein canlyniadau disgwylidig o ganlyniad i gyfyngiadau ariannol sy'n deillio o'r canlynol:

- Lefelau casglu ffi'r drwydded is o ganlyniad i gyfraddau osgoi talu uwch, newidiadau demograffig yn effeithio ar niferoedd cartrefi neu gynulleidfaoedd yn 'optio allan' o'n cynnwys.
- Anallu i reoli costau cynhyrchu a gweinyddol yn llwyddiannus.
- Methiant i gyflawni'r buddiannau masnachol disgwylidig drwy ein hendidau masnachol

Effaith bosibl: Llai o gynnwys a chynhyrchion a/neu lai o fuddsoddiad yn ein hamcanion strategol (gan gynnwys ein llwyfannau digidol), a fyddai'n debygol o gael effaith andwyol ar ein gallu i gyrraedd cynulleidfaoedd.

Perchennog risg: **Prif Swyddog Ariannol**

Cyfeiriad 2023/24: ▲

Dibenion cyhoeddus: 1 2 3 4 5

Blaenoriaethau strategol: A B C D

Gweithgareddau 2023/24 a gynhaliwyd a mesurau lliniaru allweddol:

- Monitro cyfraddau casglu ffi'r drwydded a chyfraddau osgoi talu yn agos, gan gynnwys gostyngiad yng nghyfraddau twf cartrefi a newidiadau o ran defnydd cynulleidfaoedd o'r cyfryngau.
- Cyllidebu cadarn er mwyn sicrhau bod gwariant yn cael ei flaenoriaethu i gyflawni uchelgeisiau strategol y BBC a nodi/sicrhau arbedion er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau.
- Monitro cyfamodau dyledion masnachol (gwirioneddol a rhagamcanol) yn chwarterol.
- Rheolaethau cadarn dros wariant ar orbenion a chynnydd mewn chwyddiant er mwyn sicrhau y cânt eu cadw mor isel â phosibl; blaenoriaethu gwariant ar gynnwys a gwasanaethau.
- Adolygiadau busnes gweithredol a hyfywedd blynyddol i asesu sefydlogrwydd ariannol parhaus.
- Craffu ar sefyllfa ariannol y BBC, hyblygrwydd o ran arian parod a bod y pwyntiau uchod wedi digwydd ar lefel y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a Risg, y Bwrdd Masnachol, y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Gweithrediadau.
- Adroddiadau rheolaidd i randdeiliaid allanol gan gynnwys Ofcom, yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ymddiriedolwyr y pensiwn.

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2024/25:

Eir i'r afael ag effaith andwyol pwysau o ran chwyddiant a reffeniwr drwydded ar ein cadwyn gyflenwi drwy wneud y canlynol:

- Cyflwyno rhaglen arbedion newydd hyd at 2027/28.
- Rheoli chwyddiant yn agos

Metrigau risg allweddol:

- Cyfraddau casglu ar gyfer reffeniwr ffi'r drwydded.
- Cyflawni rhaglenni arbedion
- Adrodd a rhagolygon ar hyblygrwydd o ran arian parod
- Metrigau ar berfformiad endidau masnachol gan gynnwys gwerthiannau, EBITDA
- Cydymffurfiaeth â lefelau dyledion yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
- Perfformiad cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig y BBC.

Llywodraethu

Ein prif risgiau – parhad

2. Didueddrwydd

Risg: Methiant i ddarparu unrhyw newyddion a chynnwys arall sy'n briodol ddiuedd, yn briodol gywir ac yr ymddiriedir ynddo.

Effaith bosibl: Dirywiad ymddiriedaeth yn y BBC. Gall achosion difrifol o dorri rheolau arwain at ddirwyon gan Ofcom.

Perchennog risg: Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol y BBC

Cyfeiriad 2023/24: ▲

Dibenion cyhoeddus: 1 2 3 4 5

Blaenoriaethau strategol: A B

Gweithgareddau 2023/24 a gynhaliwyd a mesurau lliniaru allweddol:

- Safonau cynnwys, achosion difrifol o dorri'r safonau golygyddol, cwynion a gadarnhawyd a chydymffurfiaeth â Chod Ofcom a drafodwyd yn y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol (EGSC) a Bwrdd y BBC
- Rhoddodd EGSC y diweddaraf ar y broses o gyflawni'r cynllun gweithredu ar Ddiueddrwydd a chynllun gweithredu Serota
- Trafododd EGSC effaith digwyddiadau ar sgorau didueddrwydd. Caiff sgorau eu monitro gan EGSC
- Parhaodd y broses o gyflwyno a monitro'r gwaith o gwblhau hyfforddiant didueddrwydd
- Rhaid i gynnwys y BBC ar unrhyw lwyfan gydymffurfio â'r Canllawiau Golygyddol. Mae'r Canllawiau Golygyddol yn cymhwysio didueddrwydd a chywirdeb priodol i bob cynnwys, gan fynd ymhellach na gofyniad Cod Darlledu Ofcom
- Rhaglen Adolygiadau Thematig ac Adolygiadau o Gynnwys ar waith a hysbyswyd y Bwrdd ac EGSC am hyn
- Atgyfnerthu'r tîm polisi golygyddol, gan ganolbwyntio'n benodol ar newyddion a materion cyfoes a chynnwys ffeithiol
- Mae cwynion ynghylch didueddrwydd yn destun prosesau dyfarnu'r Uned Cwynion Gweithredol (ECU) ac Ofcom. Adroddir am achosion o dorri canllawiau hyd at, ac yn cynnwys, lefel y Bwrdd. Hysbysir y Bwrdd am achosion difrifol o dorri'r safonau golygyddol hefyd

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2024/25:

Eir i'r afael â'r risg i ddiueddrwydd drwy:

- Rhaglen bellach o Adolygiadau Thematig ac Adolygiadau o Gynnwys
- Canllawiau etholiad pwrpasol cyn Etholiad Cyffredinol y DU ei alw
- Atgyfnerthu BBC Verify, tîm a brand, gan ddefnyddio adnoddau a thechnegau i ymchwilio, cyrchu a dilysu gwybodaeth, fideos a delweddau
- Mwy o rôl i EGSC o ran goruchwyllo cwynion. Cynghorydd penodol o EGSC a all edrych ar faterion yn gyflym ar ran EGSC
- Cyngor 24/7 o adran Polisi Golygyddol y BBC
- Bydd hyfforddiant ar ddiueddrwydd yn parhau

Metrigau risg allweddol:

- Lefelau cwblhau hyfforddiant ar ddiueddrwydd
- Arolwg olrhain didueddrwydd
- Dysgu gwersi o unrhyw gwynion a gadarnhawyd
- Rheoli materion didueddrwydd a allai fod yn anodd drwy drafodaeth reolaidd ym Mhwyllgor Safonau Golygyddol a Chwynion y Bwrdd Gweithredol ac EGSC y Bwrdd
- Arolwg staff

3. Risg trawsnewidiad digidol

Risg: Anallu i effeithio ar drawsnewidiad digidol y BBC (pobl, proses, technoleg) i greu BBC digidol yn gyntaf ac i ddiwallu anghenion newidiol ein cynulleidfaoedd.

Effaith bosibl: Ni all cynulleidfaoedd gael gwerth digonol o'n cynigion ar-lein, gan achosi i'r BBC golli cyfran o'r farchnad i ddarparwyr SVOD eraill.

Perchennog risg: Prif Swyddog Gweithredu'r Grŵp

Cyfeiriad 2023/24: ▲

Dibenion cyhoeddus: 1 3

Blaenoriaethau strategol: B C D

Gweithgareddau 2023/24 a gynhaliwyd a mesurau lliniaru allweddol:

- Strategaeth digidol yn gyntaf, yn seiliedig ar fap trywydd a thargedau, i gynyddu aeddfedrwydd digidol y BBC, yn unol â strategaeth Gwerth i Bawb y BBC
- Datblygu ein gallu i greu cynhyrchion, gan ganolbwyntio ar gynnyg profiad wedi'i deilwra i ddefnyddwyr y tu hwnt i fewngofnodi
- Buddsoddi mewn technoleg i symleiddio'r strwythur presennol ac ategu un llwyfan modiwlaid
- Uwchsgilio arweinwyr er mwyn ennyn hyder yn yr amgylchedd digidol.
- Gwella galluoedd rheoli, llywodraethu ac olrhain data'r BBC ac integreiddio mwy o ddata
- Lansio ap newydd BBC News sy'n cynnig profiad gwell i ddefnyddwyr.
- Lansio ap symudol newydd iPlayer
- Datblygu metrigau risg digidol newydd i fesur cyflymder trawsnewidiad digidol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gweithredol
- Symleiddio a chysoni adnoddau golygyddol a llwyfannau cyffredin

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2024/25:

Mynd ati i wella profiadau defnyddwyr yn unol â'r gystadleuaeth drwy wneud y canlynol:

- Gwella'r cynhyrchion digidol a gynigir, gan gynnwys profiad dyfeisiau symudol a theledu
- Datblygu ystwythder mentrau, ffyrdd o weithio, a darparu adnoddau i bob aelod o staff sy'n ymwneud â'r trawsnewidiad digidol
- Rheoli cyflymder y newid digidol gan y Grŵp Arweinyddiaeth Ddigidol, gan gynnwys rhoi'r metrigau risg digidol ar waith
- Datblygu map ffordd digidol integredig unigol y BBC, gan flaenoriaethu datblygu gallu integredig cyn mapiau ffordd gwasanaeth annibynnol
- Pennu blaenoriaethau strategol ym mhob rhan o'r BBC i sicrhau trawsnewidiad digidol cyflymach drwy ein Hamcanion Grŵp a'n dull Canlyniadau Allweddol
- Sefydlu Strategaeth Data Grŵp y BBC

Metrigau risg allweddol:

- Nifer y defnyddwyr sy'n mewngofnodi bob wythnos ar llwyfannau digidol y BBC
- % o gynulleidfaf'r BBC sy'n defnyddio llwyfannau digidol y BBC
- Yr amser y mae'n ei gymryd i gyflwyno cynhyrchion arfaethedig newydd i'r farchnad

4. Gwerth i gynulleidfaoedd

Risg: Na all y BBC barhau i fod yn berthnasol, cyflawni gwerth i'w holl gynulleidfaoedd a diogelu ei frand a'i enw da.

Effaith bosibl: Bod effaith y gynulleidfa'n lleihau ac na all y BBC gyflawni cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus cystal drwy ddefnydd cyffredinol.

<i>Perchennog risg:</i>	Y Cyfarwyddwr Strategaeth a Pherfformiad
<i>Cyfeiriad 2023/24:</i>	▲
<i>Dibenion cyhoeddus:</i>	1 2 3 4 5
<i>Blaenoriaethau strategol:</i>	A B C D

Gweithgareddau 2023/24 a gynhaliwyd a mesurau lliniaru allweddol:

- Cyflawni blwyddyn eithriadol o gynnwys effaith uchel, gan gynnwys saith allan o ddeg o'r darllediadau a wylwyd fwyaf yn y DU o blith yr holl ddarlledwyr a ffrydwyr
- Sicrhau buddsoddiad ychwanegol mewn cynnwys a chynnyrch i gefnogi'r strategaeth
- Cyflawni rhaglen eang o sioeau teithiol i reolwyr ar y strategaeth Gwerth i Bawb, y metrigau allweddol a dealltwriaeth o'r gynulleidfa
- Parhau i ganolbwyntio ar lefel arweinyddiaeth ar werth, metrigau a thargedau cynulleidfaoedd
- Bob chwarter, caiff y broses o gyflawni'r strategaeth ei chwmpasu mewn adroddiadau perfformiad i Fwrdd a Phwyllgor Gweithredol y BBC

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2024/25:

- Mae'r gystadleuaeth fyd-eang yn parhau i gynyddu, yn enwedig ar-lein. Mae'r farchnad fideo hefyd yn parhau i newid, gyda chryn ansicrwydd ar gyfer llwybrau yn y dyfodol o ran comisiynu cynnwys, chwyddiant a chyd-gynhyrchu.
- Ail-flaenoriaethu er mwyn rhyddhau mwy o fuddsoddiad mewn cynnwys effaith uchel a chynhyrchion ar-lein.
- Rhannu strategaeth Gwerth i Bawb ddiwygiedig y BBC yn eang h.y. Canfod y Gwirionedd, Cefnogi Prosesau Adrodd Straeon Cartref a Dod â Phobl Ynghyd
- Buddsoddiad sylweddol mewn cynnwys effaith uchel, gan gynnwys blwyddyn sylweddol o chwaraeon, ac wrth ddatblygu ein galluedd ar-lein i gefnogi ein cynhyrchion.

Metrigau risg allweddol:

- Byddwn yn parhau i ddefnyddio cerdyn sgorio cynulleidfaoedd ar draws y BBC fel ein dangosydd risg allweddol, gan gynnwys twf digidol, cyrhaeddiad cyffredinol ac ehangder metrigau ymgysylltu a mesurau o ran enw da

5. Cyflymder prosesau tarfu digidol allanol, newidiadau mewn modelau diwydiant, cryfder darparwyr SVOD/cewri technoleg

Risg: Anallu i gystadlu â chystadleuwyr "technoleg fawr" byd-eang.

Effaith bosibl: Mae lefelau cynulleidfaoedd yn gostwng am fod cynulleidfaoedd yn defnyddio gwasanaethau amgen, gan leihau gwerth gwasanaeth cyhoeddus y BBC.

<i>Perchennog risg:</i>	Y Cyfarwyddwr Strategaeth a Pherfformiad
<i>Cyfeiriad 2023/24:</i>	▲
<i>Dibenion cyhoeddus:</i>	1 2 3 4 5
<i>Blaenoriaethau strategol:</i>	B C D

Gweithgareddau 2023/24 a gynhaliwyd a mesurau lliniaru allweddol:

- Parhau i roi strategaeth Gwerth i Bawb ar waith i fuddsoddi mewn cynnwys fideo premiwm a phortffolio gwasanaeth digidol, a nodi cyllid ychwanegol ar gyfer y ddau faes
- Datblygu cynlluniau tymor hwy i gefnogi newid strategol i alluogi twf digidol tymor hwy ar wasanaethau sy'n eiddo i'r BBC ac a weithredir ganddo, a chefnogi'r ecoleg darlledu cyhoeddus ehangach
- Datblygu a chyflwyno nifer o dreialon deallusrwydd artifffisial cynhyrchol i archwilio'r posibilrwydd o gefnogi cenhadaeth y BBC, tra'n ymateb i risgiau cymdeithasol posibl deallusrwydd artifffisial cynhyrchol
- Cyflawni rhaglen eang o sioeau teithiol i reolwyr ar gyd-destun y farchnad a strategaeth Gwerth i Bawb
- Bob chwarter, caiff datblygiad y farchnad a'r broses o gyflawni'r strategaeth eu chwmpasu mewn adroddiadau perfformiad i Fwrdd a Phwyllgor Gweithredol y BBC

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2024/25:

- Mae darparwyr SVOD byd-eang yn parhau i wynebu heriau yn yr amgylchedd macroeconomaidd ac felly'n canolbwyntio ar broffidioldeb. Yn ddiweddar, mae nifer o ddarparwyr SVOD wedi ail-lunio eu haenau tanysgrifio, gan gynnwys cyflwyno haenau a gefnogir gan hysbysebion a phrisiau uwch er mwyn ysgogi cynnydd mewn Refeniw Cyfartalog Fesul Defnyddiwr (ARPU). Ni wyddys beth fydd effaith hirdymor y newidiadau hyn ar barodrwydd defnyddwyr i dalu.
- Cyflwyno prosiectau deallusrwydd artifffisial yn fwy eang, yn dibynnu ar ganlyniadau ein treialon mewnol
- Cyflwyno prosiectau deallusrwydd artifffisial yn fwy eang, yn dibynnu ar ganlyniadau ein cynlluniau peilot mewnol.

Metrigau risg allweddol:

- Mae cerdyn sgorio cynulleidfaoedd ar draws y BBC yn dangos dangosyddion risg allweddol, gan gynnwys twf digidol cynhyrchion BBC Ar-lein, cwmpas ac ehangder cyffredinol metrigau ymgysylltu, defnyddwyr sydd wedi mewngofnodi a chyrhaeddiad ar-lein
- Argaeledd, perfformiad ac ymateb y gynulleidfa i gynhyrchion ar-lein y BBC
- Cyflwyno map ffordd cynhyrchion ym mhob rhan o'r BBC.

Llywodraethu

Ein prif risgiau – parhad

6. Y cyflenwad o raglenni a'r gystadleuaeth am dalent ar yr awyr

Risg: Anallu i gynhyrchu rhaglenni sy'n bodloni'r farchnad newidiol a gofynion cynulleidfaoedd a denu a chadw talent ar yr awyr hanfodol.

Effaith bosibl: Lleihau gwerth cyffredinol i'n cynulleidfaoedd gyda phosibilrwydd o ddirywiad mewn perfformiad cynulleidfaoedd.

Perchennog risg: Y Prif Swyddog Cynnwys

Cyfeiriad 2023/24: ➤

Dibenion cyhoeddus: 2 3 4 5

Blaenoriaethau strategol: B D

Gweithgareddau 2023/24 a gynhaliwyd a mesurau lliniaru allweddol:

Mae'r amgylchedd macroeconomaidd yn effeithio ar y farchnad greadigol ac mae llawer o bwysau o hyd ar eiddo deallusol/talent sy'n diffinio perfformiad. Mae gallu'r BBC i ddenu a chadw talent allweddol yn heriol o hyd, fodd bynnag, dangosir ein cryder cyffredinol drwy gadw enwau eraill proffil uchel a datblygu sêr newydd.

- Ymgysylltu'n gynyddol â'r sector i sicrhau ein bod yn parhau i fod yn gystadleuol ar gyfer y syniadau gorau, ynghyd ag ysgogi'r sail gyflenwi greadigol ehangach yn y DU
- Gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i gefnogi buddsoddiad yn ein cynnig o ran cynnwys
- Twf eiddo deallusol ein Grŵp fel rhan o gynllun BBC Studios
- Dull cystadleuol ac effeithiol o gontractio talent
- Amrywiaeth o fentrau i feithrin a chefnogi talent newydd
- Canolbwyntio ar adnewyddu cytundebau a datblygu talent ar gyfer y dyfodol a llif talent olynol ar draws y BBC

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2024/25:

Rydym yn bwriadu parhau i ganolbwyntio ar ein gweithgareddau presennol fel y nodwyd uchod, ynghyd â mwy o gydweithio â'r sector, telerau masnachol a chynyddu effaith ein mentrau. Caiff hyn ei ategu gan fetrigau gwell i fonitro ein sefyllfa o ran risg â dangoswyr arweiniol a rhai sydd ar ei hôl hi.

Metrigau risg allweddol:

- Targedau cyflenwi rhaglenni, gan gynnwys Across the UK
- Adborth gan gyflenwyr a gwybodaeth am weithio gydag adran gomisiynu'r BBC
- Buddsoddiad gan drydydd partïon yn ategu cyllid rhaglenni
- Talent yn gadael a chwyddiant

7. Cynulleidfaoedd Newyddion Rhyngwladol

Risg: Anallu i gyrraedd a dosbarthu cynnwys BBC News i gynulleidfaoedd byd-eang oherwydd cyfyngiadau'r farchnad ac ansicrwydd o ran cyllid sy'n peri risg i gyflawni cyrhaeddiad cynulleidfaoedd ar lwyfannau'r BBC.

Effaith bosibl: Cynyddu gwariant ac arloesedd gan gystadleuwyr (gan gynnwys cyfryngau a noddir gan y wladwriaeth a llwyfannau technolegol yn newid algorithmau er mwyn dadflaenoriaethu cyrhaeddiad a defnydd newyddion), ynghyd â heriau cyllidebol y BBC creu pwysau tuag i lawr ar gyrhaeddiad byd-eang BBC News a'i gyfran o'r farchnad.

Perchennog risg: Prif Swyddog Gweithredol Newyddion a Materion Cyfoes y BBC

Cyfeiriad 2023/24: ▲

Diben cyhoeddus: 5

Blaenoriaethau strategol: A

Gweithgareddau 2023/24 a gynhaliwyd a mesurau lliniaru allweddol:

- Rhoi cynlluniau ar waith i drawsnewid BBC World Service i fod yn ddigidol yn gyntaf, gan gynnwys ffyrdd newydd o weithio
- Datblygu strategaeth fyd-eang, gan gynnwys cynlluniau i ysgogi twf ar bbc.com, a manteisio ar dechnolegau newydd (gan gynnwys deallusrwydd artiffisial) i drawsnewid y cynnig newyddion ar gyfer cynulleidfaoedd yn fyd-eang, ni waeth beth fo'r iaith na'r llwyfan
- lansio ap byd-eang newydd Saesneg, sy'n haws ei ddefnyddio ac yn fwy perthnasol yn bersonol, er mwyn ysgogi twf
- Rhoddodd Bwrdd y BBC sesiwn frifffio ar drawsnewid BBC World Service i fod yn ddigidol yn gyntaf, gan gynnwys cyflawni arbedion ffi'r drwydded

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2024/25:

- Risg y daw cystadleurydd BBC World Service dan fwy o bwysau, wrth i wariant cystadleuwyr gynyddu, ac wrth i effeithiau arbedion ffi'r drwydded gael eu teimlo
- Sefydlu proses i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar gyllid (yn weithredol o 2025/26) i alluogi BBC World Service i ddatblygu ei gyrhaeddiad digidol. Rhagwelir y bydd penderfyniadau anodd angen ei gwneud rhwng cyrhaeddiad byd-eang a phwysau ariannol
- Datblygu technolegau deallusrwydd artiffisial ymhellach er mwyn ychwanegu gwerth i newyddiaduraeth, a sicrhau y gellir cyflwyno cynnig digidol craidd yn fyd-eang yn y pen draw

Metrigau risg allweddol:

- Cyrhaeddiad ar lwyfannau digidol sy'n eiddo i'r BBC a arferai fod yn y DU
- Cyfran o gyfanswm cyrhaeddiad y BBC a arferai fod yn y DU o lwyfannau sy'n eiddo i'r BBC

8 . Newid sefydliadol

Risg: Mae graddau'r newid sefydliadol a diwylliannol sydd ar waith yn peri risg y caiff y sefydliad ei roi dan bwysau gweithredol sylweddol.

Mae hyn wedi'i hategu gan broses drawsnewid gyflymach ym mhob un o ls-adrannau'r BBC, gan gyflwyno mentrau eofn a hirsefydledig ac arloesi strwythurol, er mwyn creu sefydliad symlach a mwy darbodus.

Effaith bosibl: Effaith ar gynhyrchiant, llesiant, cysylltiadau gwell o bosibl â chyflogeion a heriau cyfreithiol, a mwy o bosibilrwydd y bydd gweithredu diwydiannol.

Perchennog risg: Y Prif Swyddog Pobl

Cyfeiriad 2023/24: >

Dibenion cyhoeddus: 1 2 3 4 5

Blaenoriaethau strategol: C D

Gweithgareddau 2023/24 a gynhaliwyd a mesurau lliniaru allweddol:

- Dulliau cyfathrebu effeithiol â'r staff, gyda gweithgarwch ymgysylltu yn cael ei fonitro drwy arolygon staff
- Ffordd agored ac effeithiol o weithio gyda'r undebau
- Arolwg ymgysylltu â chyflogeion
- Rhoi'r pwys mwyaf ar lesiant staff y BBC drwy greu amgylchedd diogel, sy'n ymrwymedig i weithio hybrid
- Llinell gymorth chwythu'r chwiban ar waith fel bod modd rhoi gwybod am bryderon ymddygiadol, gan gynnal ymchwiliadau lle y bo'n briodol
- Gweithio i lunio a diweddarau cynlluniau parhad busnes gweithredol lleol
- Cydgysylltu gweithgareddau newid er mwyn atal nifer o risgiau cysylltiadau diwydiannol rhag codi ar yr un pryd yn yr un lle
- Ymgysylltiad parhaus gan reolwyr pobl ar strategaeth Gwerth i Bawb
- Mwy o gyfathrebu i adrodd straeon integredig am waith a darpariaeth yr adran adnoddau dynol o dan fantell profiad cyflogeion

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2024/25:

- Ceisio defnyddio diswyddiadau gwirfoddol lle bynnag y bo'n bosibl i ail-gydbwyso gofynion staffio a mentrau posibl i wella lefelau derbyni diswyddiadau gwirfoddol
- Adolygu prosesau ailstrwythuro a diswyddo i wella profiad cyflogeion ac effeithiolrwydd y broses weithredu
- Manteisio ar dechnoleg i sicrhau y caiff cyflogeion eu cynnwys ac y gallant ganolbwyntio ar waith cynhyrchiol

Metrigau risg allweddol:

- Canlyniadau Arolygon Boddhad Cyflogeion
- Argaeledd adnoddau llesiant
- Monitro'r llinell gymorth chwythu'r chwiban
- Cyfraddau cwblhau cyrsiau hyfforddi
- Diwrnodau a gollwyd o ganlyniad i weithredu diwydiannol

9. Denu a chadw talent sefydliadol

Risg: Mae'r BBC yn methu denu a chadw'r dalent oddi ar yr awyr a'r staff sydd ei angen arno i gyflawni ei strategaeth Gwerth i Bawb.

Effaith bosibl: Anallu i gadw staff allweddol mewn meysydd blaenoriaeth uchel gan achosi risg i'r broses o gyflawni ein targedau amrywiaeth a chynhwysiant a rhannau o'n strategaeth Gwerth i Bawb.

Perchennog risg: Y Prif Swyddog Pobl

Cyfeiriad 2023/24: >

Dibenion cyhoeddus: 1 2 3 4 5

Blaenoriaethau strategol: C D

Gweithgareddau 2023/24 a gynhaliwyd a mesurau lliniaru allweddol:

- Rhoi system a phrosesau recriwtio a chynefino gwell ar waith.
- Cyflwyno technoleg marchnata cysylltiadau ag ymgeiswyr er mwyn adeiladu cronfeydd talent
- Parhau i gyflawni rhaglen prentisiaethau graidd y BBC
- Ehangu'r mynegai arweinyddiaeth ac adborth 360 yn seiliedig ar Werthoedd y BBC i'r holl Uwch-arweinwyr ac arweinwyr tîm band F
- Parhau â dull myConversation o ymdrin â pherfformiad a datblygiad staff, gan ganolbwyntio ar nodau a'r cysylltiad â'r strategaeth, ehangu cyfleoedd gyrfa a datblygiad drwy dreialon symudedd newydd
- Cynnal yr adolygiad blynyddol o gyflogau
- Cynnig cyfleoedd twf drwy Hot Shoes, 80/20 a sawl rhaglen Datblygu Arwain Menter
- Lansiwyd dangosfwrdd Arweinwyr Tîm newydd i roi data ar y gweithlu i'r holl arweinwyr tîm, gan gynnwys rhai a ymunodd, a symudodd ac a adawodd a chynrychiolaeth o'r adran Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Cefnogi rhydwethiau staff i sicrhau bod gan gyflogeion gymunedau ymgysylltu a diddordeb

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2024/25:

- Cyflwyno cysylltiad agosach o lawer rhwng datblygiad cyflog a myConversation, pennu nodau a Gwerthoedd y BBC i sicrhau perfformiad uchel a pharhaus
- Parhau â'r ymgrych brandio cyflogwyr sy'n canolbwyntio ar anabledau ar draws y BBC ar gyfer talent fyddar, anabl a niwroamrywiol
- Cyflwyno cynllun cyfweld hyderus o ran anabled.
- Parhau i ddenu talent anabl drwy'r rhaglen Extend, gyda rolau wedi'u clustnodi ym mhob ls-adran
- Parhau â'n gwaith i gyflawni Safon Aur ar gyfer Cynhwysiant – gan greu diwylliant cynhwysol sy'n denu ac yn cadw talent amrywiol
- Cyflwyno rhaglen datblygu arweinwyr newydd er mwyn nodi disgwyliadau cyson a chymorth ar gyfer arweinwyr tîm hyd at uwch-arweinwyr
- Ffocws penodol parhaus ar ymdrechion Amrywiaeth a Chynhwysiant gydag ymdrech tuag at berthyn i ymgysylltu â phob aelod o staff ni waeth pwy ydynt.

Metrigau risg allweddol:

- Cyfraddau cadw cyflogeion, trosiant a rheswm dros adael'
- Pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, anabled, rhywedd, LHDTG+ ac Amrywiaeth Economaidd-gymdeithasol isel yn cael eu cynrychioli mewn rolau arwain ac ymhlith yr holl staff
- Targedau Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'u hymgorffori yn y Mynegai Uwch-arweinwyr
- Canlyniadau Arolygon Boddhad Cyflogeion

Llywodraethu

Ein prif risgiau – parhad

Risgiau gweithredol

1. Rolau Newyddion iechyd, diogelwch, diogelu, diogeledd a risg uchel

Risg: Methiant i ddiogelu iechyd, diogelwch, diogelu, diogeledd a llesiant ein pobl, ein cyfranwyr a'n hymwelwyr, gan gynnwys y rheini y mae gennym ddyletswydd gofal drostynt.

Effaith bosibl: Methiant yn ein gallu i ofalu am iechyd corfforol a/neu iechyd meddwl ein pobl, newyddiadurwyr, cyfranwyr ac ymwelwyr.

Perchennog risg: **Cyfarwyddwr Diogelwch, Diogeledd a Chydnherthedd**

Cyfeiriad 2023/24: ➤

Gweithgareddau 2023/24 a gynhaliwyd a mesurau lliniaru allweddol:

- Lansio llwyfan cofnodi digwyddiadau ar gyfer cofnodi pryderon ynghylch materion diogelu
- Cyflwyno Rhwydwaith Cymorth Cymheiriaid newydd a modiwlau hyfforddiant iechyd meddwl i hyrwyddo diogelwch seicolegol yn y gweithlu
- Lansio gwaith sicrwydd ar draws y BBC ar gyfer gweithgareddau diogelu a diogelwch
- Parhau i gefnogi gweithrediadau casglu newyddion yn Wcráin a hwylo'r broses o gael staff y BBC yn ddiogel allan o Gaza
- Mae polisiâu a gweithdrefnau ar waith ar gyfer materion risg uchel, diogelwch a diogelu, gan gynnwys rhestrau gwirio i'w dilyn wrth ymgysylltu â chwmnïau cynhyrchu annibynnol
- Mae proses asesu risg ar waith ar gyfer rolau risg uchel, gweithgareddau diogelwch a diogelu
- Cyrsiau hyfforddi ac ymwybyddiaeth ar gyfer diogelwch a diogelu. Hyfforddiant arbenigol ar gyfer staff sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau Newyddion risg uchel neu'n eu goruchwyllo
- Cymorth arbenigol ychwanegol ar gyfer timau sy'n gweithredu mewn tiriogaethau Risg Uchel

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2024/25:

- Rheoli diogelwch a diogeledd mewn digwyddiadau a chynyrchiadau yn y DU, gan gynnwys rhoi darpariaethau ar waith o dan Gyfraith Martyn (Diogelu Safleoedd – Bil Terfysgaeth)
- Ymgorffori arferion diogelu ym mhob Is-adran, gan gynnwys adolygu proses gwirio cofnodion troseddol a phrosesau llywodraethu cysylltiedig
- Rhoi system rheoli diogelwch byd-eang newydd ar waith
- Adolygu a diwygio canllawiau A-Z (gan gynnwys cyflwyno prosesau llywodraethu ffurfiol)

Metrigau risg allweddol:

- Cyfraddau cwblhau hyfforddiant
- Nifer y digwyddiadau adroddadwy RIDDOR, gan gynnwys digwyddiadau fu bron â digwydd
- Nifer y digwyddiadau difrifol
- Nifer y pryderon diogelu a godwyd
- Lefelau diffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod ymweliadau sicrwydd ac arolygiadau
- Camau agored ar gyfer gwella sy'n deillio o'r ymweliadau sicrwydd a'r arolygiadau

2. Cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau rhyngwladol

Risg: Methiant swyddfeydd a gweithrediadau rhyngwladol y BBC i gydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau, polisiâu mewnol a safonau eraill.

Effaith bosibl: Gallai diffyg cydymffurfio arwain at ymchwiliadau posibl, cosbau a rhwymedigaethau ariannol, colli ymddiriedaeth a niwed i enw da.

Perchennog risg: **Y Prif Swyddog Gweithredu – BBC News**

Cyfeiriad 2023/24: ➤

Gweithgareddau 2023/24 a gynhaliwyd a mesurau lliniaru allweddol:

- Trafodwyd y risg hon a'r cynllun cysylltiedig â Bwrdd y BBC, Pwyllgor Archwilio a Risg y BBC, Pwyllgor Gweithrediadau'r BBC a Bwrdd Newyddion y BBC
- Cynhaliwyd adolygiad o strwythurau gweithredu a threth ar gyfer endidau BBC News tramor gan gynnwys endid India
- Atgyfnerthwyd rheolaethau ariannol ar gyfer prosesau allweddol
- Sefydlwyd proses i lywodraethu risg is-adrannol BBC News er mwyn adolygu a thrin risg weithredol
- Datblygwyd cyfres o weithredoedd i leihau amlygiad i risg ar gyfer lleoliadau rhyngwladol, a dechreuwyd ar y gwaith
- Rhoddwyd cynllun ailstrwythuro ar waith er mwyn cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau perchnogaeth dramor lleol yn India

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2024/25:

- Datblygu strwythur gweithredu byd-eang cynaliadwy hirdymor i gyd-fynd â'n huchelgeisiau byd-eang
- Gwella swyddogaeth Ysgrifenyddiaeth y Cwmni i gwmpasu endidau tramor ar gyfer Newyddion a Materion Cyfoes, gan gyd-fynd â phrosesau llywodraethu corfforaethol ehangach
- Gwella canllawiau awdurdodaeth benodol i sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â safonau Corfforaethol
- Cyflwyno cofrestrau risg ar lefel rhanbarthol i reoli materion cydymffurfiaeth a nodwyd
- Cwblhau'r broses o gyflwyno camau gweithredu i leihau risg ar gyfer lleoliadau rhyngwladol

Metrigau risg allweddol:

- Lefelau cwblhau hyfforddiant gorfodol
- Achosion yn ymwneud â threth a diweddariadau ar achosion sy'n mynd rhagddynt
- Statws risgiau agored ac a dderbynnir
- Argymhellion Archwiliadau Mewnol agored

3. Diogelu data

Risg: Methiant i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol ac i ddiogelu'r data personol a broseswyd ac yr ymdriniwyd â nhw gan y BBC yn ddigonol.

Effaith bosibl: Niwed i enw da, colli ymddiriedaeth yn y BBC, camau cyfreithiol, talu iawndal, dirwyon neu gosbau eraill gan y rheoleiddiwr (ICO).

Perchennog risg: Swyddog Diogelu Data

Cyfeiriad 2023/24: ➔

Gweithgareddau 2023/24 a gynhaliwyd a mesurau lliniaru allweddol:

- Gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol mewn ymateb i achos o dorri rheolau data gan drydydd parti. Ymysg y gweithgareddau allweddol roedd cydgysylltu â gwerthwyr trydydd parti, darparwyr gwasanaethau allanol a rheoleiddwyr, gan gefnogi'r staff a'r meysydd busnes yr effeithir arnynt
- Datblygu Fframwaith Cydymffurfiaeth a Sicrwydd Diogelu Data
- Cynllunio a chyflwyno hyfforddiant diogelu data uwch i roi fframweithiau, prosesau a dulliau priodol i gynrychiolwyr diogelu data
- Sefydlodd a gweithredolodd y Pwyllgor Llywodraethu Data sawl is-grŵp sy'n gysylltiedig â phreifatrwydd, gan gynnwys Cwcis/e-Breifatrwydd a'r Cod Plant

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2024/25:

- Cyflwyno Fframwaith Cydymffurfiaeth a Sicrwydd Diogelu Data newydd
- Cyflwyno Fframwaith Rheoli Risg Trydydd Parti i gyflenwyr sy'n prosesu data personol.
- Cynllunio a chyflwyno hyfforddiant Diogelu Data uwch gwell sy'n benodol i rolau
- Cyflwyno system rheoli achosion electronig ar gyfer rheoli achosion o dorri rheolau data, ceisiadau gwrthrych am wybodaeth a chwynion diogelu data

Metrigau risg allweddol:

- Nifer yr achosion o dorri rheolau data yr hysbyswyd yr ICO amdanynt
- % y Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth hwyr
- Nifer y gweithgareddau sicrwydd ail linell a gwblhawyd
- Monitro dyddiadau poblogaidd posibl i gyflwyno ceisiadau gwrthrych am wybodaeth yn y dyfodol
- Cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol

4. Tirwedd seiberddiogelwch

Risg: Methiant i atal digwyddiad seiber, fel ymosodiad meddalwedd wystlo ar y BBC, a/neu gyflenwr trydydd parti allweddol.

Effaith bosibl: Peryglu argaeledd, uniondeb a chyfrinachedd gwybodaeth y BBC (gan gynnwys data personol a data sensitif arall)

Perchennog risg: Y Prif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth

Cyfeiriad 2023/24: ▲

Gweithgareddau 2023/24 a gynhaliwyd a mesurau lliniaru allweddol:

- Cyflwyno digwyddiadau proffil uchel yn llwyddiannus e.e. Coroni Ei Fawrhydi Y Brenin ac Ei Mawrhydi Y Frenhines Gydweddog, ac Eurovision Song Contest
- Cynnig ymateb cynhwysfawr mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol i reoli'r achos o dorri rheolau data gan drydydd parti
- Trafodwyd bygythiadau seiber lefel uchaf i'r BBC ym Mhwyllgor Archwilio a Risg y BBC
- Cynhaliwyd ymarfer seiber gan y Pwyllgor Gweithredol i gefnogi ein gweithdrefnau ymateb drwy reoli digwyddiadau. Mae'r camau nesaf a'r argymhellion yn cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd
- Monitro ein tirwedd bygythiadau, wedi'i ategu gan asesiadau a phroffion bygythiadau seiber ar draws systemau mewnol a thrydydd parti
- Rheoli gwendidau er mwyn canfod a rheoli bygythiadau a dileu gwendidau i ystâd y BBC
- Cyrsiau hyfforddi gorfodol ar Ddiogelu Data a Seiberddiogelwch ar gyfer pob aelod o staff y BBC
- Ymarfer ein cynlluniau ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau diogelwch er mwyn profi effeithiolrwydd ein fframwaith rheoli digwyddiadau corfforaethol ar gyfer senarios penodol
- Defnyddio ein proses adolygu ar ôl digwyddiadau i wella arferion gorau yn fewnol ymhellach a gyda'n partneriaid trydydd parti

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2024/25:

- Rhoi cynlluniau parodrwydd ar waith mewn ymateb i broffil risg seiber uwch y flwyddyn hon, gan gynnwys parodrwydd i gefnogi ein darllediadau o'r etholiad
- Defnyddio arbenigedd trydydd parti annibynnol i wella ein haeddfedrwydd risg seiber
- Ein hymgyrch diogelu gwybodaeth staff barhaus i godi ymwybyddiaeth o seiberddiogelwch personol

Metrigau risg allweddol:

- Nifer y digwyddiadau seiber, eu math a'u difrifoldeb
- Cymhwysio rheoliadau diogeled allweddol sy'n cwmpasu asedau a systemau gwybodaeth critigol
- Statws gwaith rheoli patsys diogeledd
- Statws derbyn risg weddilliol
- Cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol
- Canfyddiadau adolygu sicrwydd allanol

Llywodraethu

Ein prif risgiau – parhad

5. Cadernid technoleg

Risg: Anallu i ddarparu gwasanaeth darlledu cadarn ar draws pob un o'n sianelau dosbarthu.

Effaith bosibl: Gallai gyfaddawdu ein hallbwn i'n cynulleidfaoedd a'n rhwymedigaethau i gynnal cadernid ein systemau darlledu a'n rhydwaiith.

Perchennog risg: **Y Prif Swyddog Technoleg**

Cyfeiriad 2023/24: ➔

Gweithgareddau 2023/24 a gynhaliwyd a mesurau lliniaru allweddol:

- Caiff perfformiad gweithredol ac argaeledd gwasanaethau ar gyfer cynulleidfaoedd, gan gynnwys unrhyw ddiwyddiadau technoleg a champau gweithredu cysylltiedig sy'n ofynnol, eu hadolygu bob wythnos gan y tîm Arwain Gweithrediadau Technoleg a Chyhyrnyrch
- Mae Pwyllgor Gweithrediadau'r BBC yn goruchwyllo perfformiad gweithredol yn rheolaidd ac yn uwchgyfeirio unrhyw faterion perthnasol a senarios risg penodol
- Mae systemau, gwasanaethau a seilwaith ategol y BBC yn gadarn, gan sicrhau nad oes unrhyw bwyntiau methu unigol yn ein systemau allweddol. Mae'r dull aml-haenog hwn yn elfen graidd o allu'r BBC i barhau i weithredu
- Caiff perfformiad gweithredol gwasanaethau darlledu a'n gwasanaethau ar-lein ei fonitro'n barhaus gan ddefnyddio amrywiaeth o fetrigau. Mae targedau ar gyfer ein gwasanaethau allweddol yn rhan o'n trefniadau cytundebol â phartneriaid allweddol
- Datblygu mapiau ffordd technoleg yn barhaus a chynnal prosiectau diwygio technoleg wedi'u targedu
- Ymysg y rhaglenni gwaith i wella ein cydnherthedd mae rhoi datrysiadau cwmwl ar waith ar gyfer ystad SAP a storffeydd archif Grŵp y BBC
- Mae cynlluniau parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb wedi'u hymarfer yn dda ar waith gan gynnwys ymarfer ar gyfer gwydnwch darlledu a gynhelir â rhanddeiliaid allweddol

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2024/25:

- Buddsoddiad parhaus wedi'i dargedu i ariannu rhaglenni mawr e.e. uwchraddio systemau a seilwaith i gynnal uniondeb gweithredol a lliniaru risgiau ynghyd â buddsoddiad strategol mewn gallu digidol
- Parhau i ymarfer ein cynlluniau parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb i gefnogi ein parodwydd mewn ymateb i senarios risg perthnasol

Metrigau risg allweddol:

- Argaeledd, cywirdeb ac ansawdd gwasanaethau
- Nifer y digwyddiadau, a'u difrifoldeb
- Perfformiad yn erbyn targedau mewnol a chytundebol y cytunwyd arnynt
- Monitro yn erbyn cytundebau lefel gwasanaeth cyflenwyr trydydd parti allweddol

6. Risg trawnewidiad

Risg: Y risg nad yw cynlluniau trawsnewid y BBC yn ymateb yn ddigonol ac yn ddigon cyflym, i ddiwallu anghenion newidiol cynulleidfaoedd a'r amgylchedd allanol.

Effaith bosibl: Anallu i gyflwyno cyfleoedd i greu gwerth sy'n effeithio ar y cynnig i gynulleidfaoedd a'r effaith ar ein cynaliadwyedd ariannol

Perchennog risg: **Prif Swyddog Gweithredu'r Grŵp**

Cyfeiriad 2023/24: ▲

Gweithgareddau 2023/24 a gynhaliwyd a mesurau lliniaru allweddol:

- Trafodwyd a chytunwyd ar y strategaeth trawsnewid a'r cydrannau â Phwyllgor Gweithredol y BBC a Bwrdd y BBC
- Cynhaliwyd prosesau manwl i fonitro'r prosiectau trawsnewid gan Bwyllgor Gweithredol y BBC yn y meysydd canlynol: digidol a thechnoleg; datblygu sefydliadol; cynnwys a chynulleidfaoedd; reffeni, ailstrwythuro, ail-fuddsoddi; safleoedd ac ôl troed carbon
- Cyflwynwyd adroddiad misol ar y portffolio trawsnewid llawn i Bwyllgor Gweithredol y BBC
- Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn goruchwyllo ac yn craffu ar brosiectau allweddol

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2024/25:

- Cwblhau prosiectau trawsnewid a ffrydiau gwaith cysylltiedig gan gynnwys y gofynion cyllid perthnasol
- Er mwyn sicrhau bod ein hagenda trawsnewid yn llwyddiannus, mae sicrhau digon o gefnogaeth ac ymgysylltiad ar draws y BBC yn un maes ffocws
- Goresgyn rhwystrau diwylliannol er mwyn gwella'r gallu i newid ar draws y sefydliad
- Gwella arweinyddiaeth a gallu i newid er mwyn sicrhau'r newid sy'n ofynnol ar gyfer twf a chynaliadwyedd yn y dyfodol
- Parhau i ganolbwyntio ar gyflawni buddiannau

Metrigau risg allweddol:

- Nifer y prosiectau â statws 'Coch'
- Prosiectau sydd mewn perygl o fethu a chyflawni'r llinellau amser arfaethedig
- Amlygiad ariannol ar gyfer prosiectau â risg gyllidebol
- Prosiectau sydd mewn perygl o fethu â chyflawni buddiannau na chyflawni cerrig milltir

7. Risg cyflenwyr trydydd parti

Risg: Mae'r BBC yn dibynnu ar ddarparu nwyddau a gwasanaethau gan gyflenwyr trydydd parti. Mae risg gynhenid o fethiant gan un neu fwy o gyflenwyr allweddol y BBC.

Effaith bosibl: Mae cyflenwyr allweddol y BBC yn darparu gwasanaethau sy'n cwmpasu casglu ffi'r drwydded, cysylltiad â chynulleidfaoedd, TG menter a gwasanaethau darlledu. Gallai'r risg o fethiant gan un o gyflenwyr allweddol y BBC effeithio ar allbwn y BBC i gwsmeriaid.

Perchennog risg: Caffael Cyfarwyddwyr

Cyfeiriad 2023/24: ➤

Gweithgareddau 2023/24 a gynhaliwyd a mesurau lliniaru allweddol:

- Mewn ymateb i amgylchedd macroeconomaidd/geowleidyddol gelyniaethus a digwyddiadau diweddar gyda chyflenwyr, dechreuwyd adolygu rheolaethau rheoli contractau (gan gynnwys rheoli risg)
- Dechreuwyd hyfforddi unigolion sy'n gyfrifol am reoli contractau allweddol y BBC a bydd y gwaith hwn yn parhau

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2024/25:

- Adolygu risgiau a wynebwr gan gyflenwyr allweddol ac asesu risg allanoli
- Sefydlu fframwaith trydydd parti/safonau llywodraethu i liniaru bygythiadau i weithrediadau a data'r BBC a gyflwynir gan ymosodiadau seiber ar gyflenwyr
- Ailddosbarthu/segmentu ecosystem BBC Supplier a rhoi strategaethau a rheolaethau trin priodol ar waith, gan liniaru risgiau y bydd gwasanaethau cyflenwyr yn methu a lliniaru risgiau i brosiectau allweddol y BBC
- Caiff dull ar draws y fenter i fonitro ac adrodd ar risgiau ei sefydlu, gan gynnwys camau i wella cydnerthedd ar gyfer digwyddiadau macroeconomaidd a geowleidyddol.

Metrigau risg allweddol:

- % y cyflenwyr Haen 1 a 2 sy'n perfformio yn erbyn CLGau cytundebol
- % y cyflenwyr Haen 1 a 2 sydd â rheolaethau priodol ar waith

8. Risg olygyddol

Risg: Cynnwys nad yw'n cydymffurfio â Chanllawiau Golygyddol y BBC.

Effaith bosibl: Torri safonau a all arwain at golli ymddiriedaeth yn y BBC a niwed i enw da. Gallai achos difrifol o dorri safonau arwain at ddirwyon gan Ofcom.

Perchennog risg: Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol y BBC

Cyfeiriad 2023/24: ➤

Gweithgareddau 2023/24 a gynhaliwyd a mesurau lliniaru allweddol:

- Trafodir safonau cynnwys a risg olygyddol ym mhob Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol y BBC (EGSC)
- Canllawiau golygyddol a chanllawiau penodol ategol wedi'u cynnal gan y tîm Polisi Golygyddol
- Gweithredu cyfres symlach o weithdrefnau carlam ar gyfer ymdrin â chwynion a hunanymchwiliadau
- Gweithdrefnau i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Ofcom, wedi'u hategu gan adroddiadau a gwaith monitro
- Mae polisi chwythu'r chwiban golygyddol ar waith ac ar gael i bob aelod o staff
- Rhoi gwybod i Bwyllgor Archwilio a Risg y BBC a'r EGSC am gwynion a datgeliadau chwythu'r chwiban
- Lansio canllawiau cyfryngau cymdeithasol a chanllawiau deallusrwydd artifisial newydd
- Caiff cydymffurfiaeth â chanllawiau cyfryngau cymdeithasol ei monitro ym Mhwyllgor Safonau Golygyddol a Chwynion y Bwrdd Gweithredol (ESCC)

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2024/25:

- Cyhoeddir Canllawiau Golygyddol diwygiedig yn 2024, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus
- Caiff canllawiau golygyddol eu diweddarau i adlewyrchu'r canllawiau newydd
- Orlhain cwynion, canlyniadau ymchwiliadau a datgeliadau chwythu'r chwiban er mwyn nodi unrhyw dueddiadau neu bwyntiau dysgu y tu hwnt i'r materion a godwyd
- Mwy o rôl i EGSC o ran goruchwyllo cwynion
- Cynghorydd penodol o EGSC a all edrych ar faterion yn gyflym ar ran EGSC

Metrigau risg allweddol:

- Cwynion a gadarnhawyd.
- Achosion difrifol o dorri'r safonau golygyddol
- Penderfyniadau Ofcom

Llywodraethu

Ein prif risgiau – parhad

9. Cynaliadwyedd amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd

Risg: Methiant i gyrraedd y lefelau datgarboneiddio sydd wedi'u pennu gennym yn ein targedau Sero Net dyfodol agos ar gyfer 2030 neu i gyflawni'r uchelgeisiau o ran cynnwys a nodir yn ein Haddewid Cynnwys Hinsawdd.

Effaith bosibl: Canfyddiadau negyddol ymhlith y cyhoedd, cynulleidfaoedd, talent a chyflogeion yn y meysydd hyn o ganlyniad i'r canlynol:

- Methu â chyflawni ein Hymrwymiadau Sero Net a Chynnwys Hinsawdd
- Methu â chyrraedd y lefelau o ymyriadau amgylcheddol a ddangosir gan ddarlledwyr eraill

Perchennog risg: **Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd y Grŵp**

Cyfeiriad 2023/24: **>**

Gweithgareddau 2023/24 a gynhaliwyd a mesurau lliniaru allweddol:

- Mae cynaliadwyedd y rhaglen Sero Net wedi'i ddsbarthu'n brosiect allweddol gyda threfniadau llywodraethu, targedau ac adroddiadau wedi'u dogfennu
- Cymeradwywyd strategaeth Cynaliadwyedd Grŵp y BBC, a datblygwyd targedau seiliedig ar wyddoniaeth ar gyfer Cwmpas 1 a 2 a Chwmpas 3
- Hyfforddiant ar gynaliadwyedd ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2024/25:

Cefnogi'r broses o roi'r cynllun ar waith yn gyson yn yr isadrannau drwy wneud y canlynol:

- Datblygu a rhannu'r strategaethau O Blaid Pobl i gyd-fynd ag uchelgeisiau Sero Net y BBC
- Buddsoddiad parhaus mewn newidiadau seilwaith eiddo yn y cynllun datgarboneiddio gan gynnwys gosod pypiau gwres i roi'r gorau i ddefnyddio nwy mewn safleoedd allweddol
- Adolygu a rhesymoli ein strategaeth eiddo yn y DU
- Datblygu llwyfan cyfrifyddu ac adrodd ar garbon sy'n casglu data carbon i lawr i lefel adrannol gan sicrhau perchnogaeth glir, atebolrwydd ac olrhain newid yn erbyn y targedau
- Cyflawni ardystiad Zero Waste to Landfill gan Ymddiriedolaeth Garbon Cymru a Lloegr

Metrigau risg allweddol:

- Targedau allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr Cwmpas 1 a 2 a 3
- Cyfraddau cwblhau hyfforddiant ar gynaliadwyedd
- Cyflawni targedau ar gyfer lleihau allyriadau teithio
- Nifer o gynyrchiadau ag ardystiadau Albert (sefydliad y diwydiant sgrin ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol)
- Cyrhaeddiad cynnwys a straeon cynaliadwyedd
- Olrhain nifer y cyflenwyr sy'n cyflawni'r Prosiect Datgelu Carbon a Thargedau sy'n Seiliedig ar Wyddoniaeth a datblygu o ddata sy'n seiliedig ar wariant i fetrigau defnydd

Ceir rhagor o fanylion am ein gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd yn y tudalennau ar gynaliadwyedd amgylcheddol o dudalen 67.

Datganiad ynghylch hyfywedd

Yn unol â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU, mae Bwrdd y BBC wedi asesu rhagolygon y Gorfforaeth dros gyfnod hwy na'r 12 mis sy'n ofynnol o dan y ddarpariaeth 'Busnes Gweithredol'.

Ystyriodd Bwrdd y BBC y cynllun tair blynedd ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2027 ac, fel blynyddoedd blaenorol, cymeradwywyd cyllideb 2024/25. Ystyrir bod gorwel tair blynedd yn briodol gan fod hyn yn unol â phroses gyllidebu a chynllunio'r BBC. Mae'r cynllun tair blynedd yn ystyried llifau arian parod yn ogystal â'r cyfamodau ariannol a chyfleusterau credyd.

Y tybiaethau allweddol sy'n sail i'r cynllun tair blynedd, a'r rhagolwg cysylltiedig o lifau arian parod, yw setliad ffi'r drwydded sy'n pennu'r paramedrau ariannol ar gyfer y BBC rhwng 2024/25 a 2027/28 a'r Siarter a'r Cytundeb sy'n diogelu ffi'r drwydded tan 2027, ynghyd â thybiaethau cwmpas ffi'r drwydded. Yn dilyn asesiad risg manwl o'n cynlluniau arbedion, rydym wedi asesu bod lefel uwch o risg yn gysylltiedig â rhai prosiectau trawsnewid ym mlynnyddoedd pellach y cynllun. O ganlyniad, byddwn yn rhoi prosesau goruchwyllo a ffocws gweithredol ychwanegol ar waith mewn perthynas â'r meysydd hyn. Mae rheolwyr y BBC wedi rhoi mwy o brofion straen ariannol a dadansoddiad o sensitifrwydd ar waith yn ein harferion cynllunio ariannol, gyda threfniadau llywodraethu a chymorth ychwanegol gan y Bwrdd. Caiff adroddiadau chwarterol eu paratoi ar reoli arian parod, cynnydd arbedion ac olrhain risgiau er mwyn sicrhau bod prosesau lliniaru risgiau yn flaenoriaeth allweddol. Mae'r broses hon yn rhoi mwy o amlygrwydd i ragamcanion arian parod blynyddoedd i ddod.

Yn ogystal â'r broses gyllidebu, cynhaliwyd asesiad cadarn o'r prif risgiau a wynebir gan y Gorfforaeth, fel y'u disgrifir yn ein prif risgiau, gan gynnwys y rhai a fyddai'n peryglu ei model busnes, perfformiad yn y dyfodol, solfedd neu hylifedd. Ar gyfer 2024/25, mae'r farchnad cyfryngau sy'n newid yn barhaus, y gofyniad i'r BBC drawsnewid er mwyn galluogi ei strategaeth Gwerth i Bawb a chynnal parodrwydd i dalu ffi'r drwydded yn gofyn am brosesau rheoli llym er mwyn cyflawni dibenion y BBC gyda'r cyllid sydd ar gael. O ganlyniad, cynhaliwyd profion straen ariannol ychwanegol a dadansoddiad o sensitifrwydd gennym, a oedd yn ystyried incwm mewn perygl yn ogystal â'n hymateb i gytundeb pris diweddar ffi'r drwydded.

Cynhaliwyd dadansoddiad o sensitifrwydd mewn perthynas â'r llif arian parod er mwyn modelu'r effeithiau posibl pe bai'r prif risgiau yn codi mewn gwirionedd, yn unigol neu ar y cyd. Cyfrifwyd y gofyniad benthycu uchaf drwy fodelu cyfuniad o risgiau difrifol ond credadwy (gweler y tabl), ond, a chan gynnwys mesurau lliniaru, arhosodd y llifau arian parod o fewn y terfyn benthycu drwy gydol y cyfnod tair blynedd.

Gan ystyried sefyllfa arian parod bresennol Grŵp y BBC, y prif risgiau a'r dadansoddiad o sensitifrwydd a nodir uchod, mae gan y Bwrdd ddisgwyliad rhesymol y bydd y Gorfforaeth yn gallu parhau i weithredu a bodloni ei rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus dros gyfnod tair blynedd yr asesiad.

Risg	Senario a fodelwyd	Mesurau lliniaru a fodelwyd
Newid ym Methodoleg Pris Ffi'r Drwydded	Newidiwyd Methodoleg Pris Mis Ebrill 2024, cytunir ar gadarnhad o unrhyw newidiadau i ddull prasio yn ystod hydref 2024 ac mae rhagolygon y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn lleihau. Modelwyd – newid o'r cyfartaledd 12 mis i gyfradd ar y pryd.	Rydym wedi archwilio nifer o fesurau lliniaru lefel uchel, gan gyd-fynd â'r broses o gyflawni strategaeth Gwerth i Bawb y BBC a gan sicrhau'r adenillion mwyaf o fuddsoddiad. Byddai hyn yn rhoi blaenoriaeth i weithgarwch nad yw'n ymwneud â chynulleidfaoedd fel cyfyngu ar a/neu oedi gwariant cyfalaf ac oedi gwariant ailstrwythuro, ynghyd ag archwilio cynigion masnachol amgen. Yn y pen draw, gallai mentrau gynnwys rhannu mwy o gynnwys rhwng gwasanaethau, gan leihau'r gwariant cyffredinol ar gynnwys a newid y cymysgedd genre.
Symudiad negyddol yn y cyfraddau treiddio teledu a/neu'r cyfraddau osgoi talu ffi'r drwydded	Gallai newidiadau yn ymddygiad cynulleidfaoedd, gostyngiad yn y cyfraddau treiddio teledu yn cyflymu, yr amgylchedd economaidd presennol a lefel y cynnydd mewn prisiau effeithio ar gyfraddau adnewyddu a phrynu trwyddedau. Modelwyd – gostyngiad yn y cyfraddau treiddio teledu a chyfraddau osgoi talu ffi'r drwydded uwchlaw'r cyfraddau sydd wedi'u cynnwys yn y rhagolygon.	
Risg arbedion	Modelwyd – effaith cynlluniau arbedion heb eu cyflawni'n llawn.	

Llywodraethu

Adroddiad y Bwrdd Masnachol

Y flwyddyn hon, rydym wedi gweld cynnydd cryf yn erbyn nodau strategol ar gyfer BBC Commercial wrth i'r busnes fuddsoddi'n helaeth mewn twf, gyda'r uchelgais o ddyblu'r busnes erbyn 2028.

Ynghyd â dod â chynulleidfaoedd yn y DU a ledled y byd ynghyd gyda digwyddiadau fel y Coroni, atgyfnerthodd ei lwybrau marchnata digidol ac adeiladwyd ar bartneriaethau hirdymor â brandiau byd-eang o ansawdd uchel fel Apple a Disney.

Mae'r busnes yn cwmpasu holl weithrediadau masnachol Grŵp y BBC, y mae BBC Studios yn brif gangen fasnachol iddynt, gan gynnwys y Content Studio, sianelau a gwasanaethau ffrydio. Mae BBC Commercial yn allweddol i strategaeth gyffredinol y BBC, yn enwedig ei arbenigedd clodwiw o ran adrodd y straeon cartref gorau, sydd wrth wraidd cynlluniau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol i flaenoriaethu cynulleidfaoedd wrth gyflawni ei heriau presennol.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r Bwrdd Masnachol wedi bod drwy lawer o newidiadau, gan ehangu ei brofiad er mwyn recriwtio unigolion â chefnidroedd digidol a byd-eang lefel uwch. Mae'r newidiadau hynny bellach wedi'u sefydlu, ac mae gennym Fwrdd o gyfarwyddwyr anweithredol awyddus, gwybodys a gweithredol sy'n goruchwyllo gweithrediadau masnachol y BBC.

Gwnaethom gyfarfod 11 gwaith yn ystod y flwyddyn: saith cyfarfod a drefnwyd a phedwar cyfarfod ychwanegol. Ystyriodd y Bwrdd strategaeth llwybrau marchnata BBC Studios, ei strategaeth ystod hir, cynlluniau ariannol a mentrau twf eraill. Lluniodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, fel yr archwilydd allanol, adroddiadau cynllunio gwaith archwilio ac adroddiadau ar adeg cwblhau i ni eu hystyried, a chynhaliodd Pwyllgor Archwilio a Risg y BBC ei sesiwn flynyddol ar faterion rheoli a llywodraethu.

Mae BBC Studios yn fusnes byd-eang amrywiol sydd â chyflenwad cryf o gynnwys, gyda gwerthiannau da ar gyfer UKTV a chynhyrchion i ddefnyddwyr – a arweinir gan y gyfres boblogaidd byd-eang, *Bluey* – yn erbyn cefndir heriol o ran amodau'r farchnad, gyda marchnadoedd hysbysebu a chomisiynu meddal yn achosi ansicrwydd ac yn effeithio ar werthiannau cyffredinol.

Arweiniodd buddsoddiad mewn twf organig ar gyfer gwasanaeth dal i fyny UKTV, sef UKTV Play, at hwb o 56% yn nifer y gwylwyr, a gwnaeth lansio BBC.com ac ap newydd y BBC hwyluso mynediad i gynulleidfaoedd a hysbysebwydr dramor.

Yn ogystal â'r buddsoddiad organig hwn, gwnaethom gymeradwyo'r penderfyniad i gymryd perchnogaeth lawn o BritBox International ym mis Mawrth, gan gaffael cyfran 50% ITV am £272 miliwn, sy'n cynnwys £255 miliwn am ecwiti a gaffaelwyd a thaliad ychwanegol o £17 miliwn am ddyled ITV a ddelir gyda BritBox International. Mae hwn yn fusnes proffidiol sy'n cynnig arlwy

uniongyrchol i ddefnyddwyr ac mae'n tyfu'n gyflym, gan ddarparu cynnwys wedi'i sgrïptio i Ogledd America a marchnadoedd dethol, sydd wedi tyfu 25% o un flwyddyn i'r llall, gan gyflawni twf refeniw cryf ac mae ganddo lawer o botensial i ddatblygu ymhellach.

Mae'n ategu portffolio sydd eisoes yn bodoli sy'n cynnwys BBC.com, BBC Select, sef gwasanaeth ffrydio rhaglenni dogfen heb hysbysebion premiwm y BBC yng Ngogledd America, a BBC Podcast Premium, sef gwasanaeth sain sydd ar gael mewn mwy na 160 o wledydd.

Yn ogystal â hyn, gwnaethom ystyried a chymeradwyo cyfres o gaffaeliadau allweddol er mwyn meithrin galluogrwydd cynhyrchu ledled y byd, gan ychwanegu arbenigedd creadigol dawnus yn Sbaen, Awstralia a Sgandinafia.

Ymhlith yr uchafbwyntiau o ran cynnwys roedd darllediadau o Eurovision, a gyrhaeddodd 162 miliwn o bobl yn fyd-eang dros dair rhaglen fyw, rhaglenni arbennig *Doctor Who*, trydedd gyfres *Planet Earth* gan Uned Hanes Naturiol BBC Studios a chyfres o raglenni newydd, ffurf hir o *The Famous Five* ar gyfer y BBC a ZDF, a grëwyd gan gwmni annibynnol Moonage Pictures y buddsoddiwyd ynddo gan BBC Studios.

Roedd y gwerthiannau yn £1,859 miliwn (2023: £2,115 miliwn) yn erbyn amodau marchnad heriol a'r broses o gyflwyno refeniw ar gyfer partneriaethau sawl blwyddyn a roddodd hwb i werthiannau 2022/23, ac roedd EBITDA yn £199 miliwn (2023: £252 miliwn) ar ôl buddsoddi yn y mentrau twf a grybwyllwyd uchod. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom dalu dididend arian parod o £198 miliwn i Grŵp y BBC, ac rydym wedi datgan y caiff £88 miliwn ei dalu yn ystod y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Cynyddodd y gweithgarwch buddsoddi ddyled net BBC Commercial ac eithrio prydesau i £327 miliwn. Mae'r Bwrdd yn cefnogi strategaeth BBC Commercial i geisio cyfleoedd i fuddsoddi ymhellach wrth sicrhau enillion arian parod i'r BBC.

Gan edrych tua'r dyfodol, mae chyflenwad cryf o gomisiynau sydd wedi'u cymeradwyo ar ddod, sy'n arwydd cadarn o iechyd creadigol y busnes. Mae amodau'r farchnad yn anodd o hyd, o ran galw arafach am gynnwys newydd ac ansicrwydd yn y farchnad hysbysebu, ond bydd arallgyfeirio'r gweithrediadau masnachol, ynghyd â'r buddsoddiad a wnaed mewn twf yn y dyfodol dros y 12 mis diwethaf, yn parhau i sicrhau y gall y busnes ymateb yn hyblyg i heriau a chyfleoedd allanol wrth iddynt godi. .

Syr Damon Buffini

Cadeirydd y Bwrdd Masnachol a Dirprwy Gadeirydd y BBC
10 Gorffennaf 2024

Aelodaeth Bwrdd Masnachol y BBC

Mae BBC Commercial Limited (y 'Bwrdd Masnachol') yn cynnwys deg cyfarwyddwr, y mae saith yn anweithredol:

- Syr Damon Buffini (Cadeirydd)
- Gunjan Bhow
- Mai Fyfield
- Ian Griffiths
- Claire Hungate
- Gary Newman
- Bhav Singh

Gyda thri chyfarwyddwr gweithredol Grŵp y BBC::

- Tom Fussell (Prif Swyddog Gweithredol, BBC Commercial)
- Lorraine Burgess (Prif Swyddog Ariannol, BBC Commercial)
- Leigh Tavaziva (Prif Swyddog Gweithredu, BBC)

Anthony Corriette yw Ysgrifennydd y Cwmni Masnachol

Mae bywgraffiadau llawn holl aelodau'r Bwrdd Masnachol, gan gynnwys eu rolau eraill, i'w gweld ar wefan y BBC: bbc.com/aboutthebbc/howweare/commercial

Adroddiad y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol

Rôl y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol yw sicrhau bod y BBC yn cyrraedd y safonau a benwyd gan y Bwrdd yn ei Ganllawiau Golygyddol a'i fod yn atebol i dalwyr ffi'r drwydded drwy ei broses gwynion. Mae'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol yn adrodd i'r Bwrdd ar risgiau golygyddol ac yn rhoi unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Bwrdd ynghylch safonau golygyddol ar waith. Mae'n gweithredu fel y rhyngwyneb rhwng y BBC ac Ofcom mewn perthynas â safonau golygyddol ac mae bellach yn cyfarfod ag Ofcom bob chwe mis. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn monitro cynnydd y BBC mewn perthynas â'r ymrwymyadau a wnaed yn Adolygiad Serota a'r Cynllun Didueddwydd. Mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth hanfodol i'r BBC a bu'n destun trafodaeth ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol yn ystod y flwyddyn. Cynhaliodd tîm Archwilio Mewnol y BBC adolygiad trwyadl o brosesau gweithredu gan gadarnhau bod pob ymrwymiad wedi cael ei roi ar waith a chynghori ar ddulliau monitro parhaus.

Atgyfnerthwyd rôl y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol er mwyn cynyddu ei oruchwyliaeth o'r broses gwynion a rhoddydd adnoddau ymchwilio ychwanegol i'r Pwyllgor a'i gynghorwyr golygyddol allanol. Trafodwyd argymhellion yr Adolygiad Tymor Canolig yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol ac ag Ofcom, a chytunwyd ar gamau gweithredu. Yn ystod y flwyddyn, gwnaed newid strwythurol i wahanu'r broses o reoli safonau golygyddol cyn ac ar ôl darlledu, gan sicrhau bod llinell adrodd uniongyrchol ar gwynion golygyddol i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol fel Prif Olygydd.

Polisi Golygyddol

Y flwyddyn hon, cafodd y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol adroddiadau rheolaidd ar yr adolygiad o Ganllawiau Golygyddol y BBC a chytunodd ar y dull gweithredu y dylid ei ddefnyddio, gan gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus. Hefyd, adolygodd y Pwyllgor ddiweddiadau i ganllawiau golygyddol y BBC ar y defnydd o ddeallusrwydd artifisial ac ar newidiadau i bolisi cyfryngau cymdeithasol, a'r broses o'i roi ar waith, yn dilyn Adolygiad Hardie. Trafododd y Pwyllgor heriau golygyddol sylweddol, gan gynnwys darllediadau'r BBC ar y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol. Cymeradwyodd y Pwyllgor y canllawiau ar gyfer yr etholiadau lleol ym mis Mai a'r canllawiau ar gyfer Etholiad Cyffredinol y DU hefyd.

Adolygiadau Golygyddol

Parhaodd y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol i oruchwylio'r Adolygiadau Thematis, a gomisiynwyd gan Fwrdd y BBC, sy'n elfen hanfodol o Adolygiad Serota a'r Cynllun Didueddwydd. Ar ôl cyhoeddi'r Adolygiad Thematis cyntaf ar drethiant, gwariant cyhoeddus, benthyciadau gan y Llywodraeth a dyledion, ymgymrodd ei gyd-awduron, Michael Blastland ac Andrew Dilnot, raglen ymgysylltu helaeth â staff perthnasol a chafodd y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol sesiynau briffio llawn. Bu hefyd yn monitro'r broses o roi ymateb y Bwrdd Gweithredol ar waith yn agos ac annog camau i

rannu chwe phrif bwynt yr Adolygiad â'r staff cyn gwneud y gwaith cynllunio ar gyfer rhoi sylw i ddiwyddiadau cyllidol o bwys.

Yn ogystal, datblygodd y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol gylch gorchwyl yr ail Adolygiad Thematis ar fudo a gomisiynwyd gan y Bwrdd ym mis Ebrill 2023. Cafodd ei arwain ar y cyd gan Madeleine Sumption a Samir Shah. Yn dilyn penodiad Samir fel Cadeirydd y BBC ym mis Rhagfyr, cymerodd gam yn ôl o'r Adolygiad er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau ac ysgrifennodd Madeleine yr adroddiad yn annibynnol. Cafodd y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol ddiweddiadau rheolaidd ar gynnydd yr ail Adolygiad a chafwyd cymeradwyaeth gan y Bwrdd i'w gyhoeddi ar ddiwedd y flwyddyn adrodd. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 7 Mai 2024. Hefyd, cychwynnodd y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol waith ar gylch gorchwyl ac arweinyddiaeth y trydydd Adolygiad Thematis, ar Bortreadu a Chynrychiolaeth, cyn iddo gael ei gyhoeddi.

Mae'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol wedi cael ei hysbysu am gynnydd y broses yr Adolygiad Mewnol o Gynnwys, sy'n ymchwilio'n ddwfn i berfformiad rhaglenni unigol o ran cyflawni safonau golygyddol y BBC. Nod yr adolygiadau hyn yw hyrwyddo diwylliant o adolygu a gwella ar draws y BBC a chaff chwe maes cynnwys eu hadolygu'r flwyddyn hon. Mae'r broses yn cynnwys panel o uwch-arbenigwyr golygyddol, nad ydynt yn cynnwys rheolwyr llinell o'r maes, yn archwilio'r cynnwys dros gyfnod priodol, ymchwil bwrsasol i'r gynulleidfa yn ystod yr un cyfnod a gweithgareddau ymgysylltu agored ac uniongyrchol â'r timau. Mae rhai o'r themâu allweddol sy'n deillio o'r adolygiadau hyn yn cynnwys pwysigrwydd cynnal trafodaethau golygyddol amserol a chadarn, sut i wella'r amrywiaeth o leisiau a chyfranwyr yn ein hallbw'n a chynnal safonau golygyddol drwy gyfnod o newid a chyfyngiadau o ran adnoddau. Mae'r adolygwyr profiadol yn ceisio meddwl am awgrymiadau defnyddiol ac ymarferol a fydd yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r allbw'n a fydd yna'n cael eu cymeradwyo a'u rhoi ar waith.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi adolygu ymchwil i'r gynulleidfa er mwyn deall yn well beth yw barn pob cynulleidfa am y BBC o ran didueddwydd. Hefyd, caiff y cylch rheolaidd o adolygiadau golygyddol ei ategu gan ymchwil i'r gynulleidfa a gomisiynwyd yn arbennig sy'n galluogi i'n timau rhaglenni ddysgu o adborth cynulleidfa wedi'i thargedu ar eu cynnwys.

Hyfforddiant ar ddiueddwydd

Mae meithrin ymddiriedaeth cynulleidfa oedd yn flaenoriaeth ac mae 97.3% o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol ar ddiueddwydd. Mae BBC Academy wedi ychwanegu cynnwys newydd drwy gydol y flwyddyn i'r Hwb Dysgu Safonau Golygyddol, ardal lle ceir cynnwys dysgu sy'n anelu'n benodol at gyrraedd safonau golygyddol uchel. Fel rhan o'r cynllun Didueddwydd, rydym bellach yn asesu dealltwriaeth y staff o ddiueddwydd drwy'r arolwg staff rheolaidd ar gyfer y BBC cyfan a chlywodd y Pwyllgor hefyd

am gynllun peilot yn BBC Scotland i roi cymorth ymarferol ar ddiueddwydd i dimau, a gaiff nawr ei gyflwyno'n ehangach.

Cwynion Golygyddol

Mae'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol wedi parhau i ymgysylltu'n weithredol â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac Ofcom ar system 'BBC First' o ymdrin â chwynion. Mae gwybodaeth reolaidd a manwl am gwynion golygyddol yn eitem allweddol ar agenda'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol drwy gydol y flwyddyn ac, ym mis Tachwedd 2023, creodd y Pwyllgor adnodd cymorth ychwanegol yn y maes hwn lle mae un o'r cynghorwyr golygyddol allanol yn craffu ar y broses gwynion ar ran y Pwyllgor ac yn adrodd yn ôl ym mhob cyfarfod. Un amcan allweddol yw dysgu o gwynion a rhannu'r hyn a ddysgwyd yn gyflym ledled y BBC. Rydym hefyd yn parhau i chwilio am ffyrdd newydd o wneud y broses gwynion yn symlach ac yn fwy ymatebol i'r gynulleidfa. Mae'r wefan Cwynion a Chywiriadau wedi cael ei defnyddio lawer mwy fel ffordd o ymateb yn gyflym pan fyddwn yn cael rhywbeth yn anghywir a sicrhau bod hynny'n dryloyw i holl dalwyr ffi'r drwydded.

Cafodd y BBC 179,743 o gwynion ar gam 1. Ymdriniwyd â 92% o gwynion ar gam 1a o fewn 10 diwrnod gwaith yn erbyn targed o 93%.

Ni chyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol (DPA) ar gam 1a yn bennaf oherwydd cynnydd sylweddol yn nifer y cwynion a gafwyd ym mis Mawrth 2023 mewn perthynas â defnydd cyflwynydd o'r cyfryngau cymdeithasol a gafodd effaith ganlyniadol ar amseroedd ymateb ym mis Ebrill 2023, ac oherwydd graddfa a chymhlethdod y cwynion a gafwyd mewn perthynas â'r gwrthdaro yn y Dwyrain Canol a effeithiodd ar amseroedd ymateb ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2023. Mae amseroedd ymateb wedi adfer i 95% yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn (Ionawr - Mawrth 2024).

Ymdriniodd yr Uned Cwynion Gweithredol â 594 o gwynion ar gam 2 o broses gwynion y BBC yn 2023/24. Canfu'r Uned fod y BBC wedi torri safonau golygyddol ar 35 achlysur. Un o'r rhain oedd darllediad ar sianel BBC News a arweiniodd at ddwy gŵyn a atgyfeiriwyd at yr Uned Cwynion Gweithredol gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol o dan y Weithdrefn garlam ar gyfer cwynion golygyddol y cytunwyd arni ag Ofcom. Mae'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol yn cael manylion am bob cwyn, ac mae'n trafod achosion o dorri safonau ac unrhyw faterion cysylltiedig â'r Bwrdd Gweithredol. Cyflwynir y ffigurau cwynion hyn i Fwrdd y BBC hefyd. Daethpwyd â 78% o gwynion ar gam 2 i ben o fewn 20 diwrnod gwaith ar gyfer cwynion cam 2 safonol a 35 diwrnod gwaith ar gyfer cwynion cam 2 cymhleth yn erbyn targed o 80%. Gellir priodoli'r rheswm dros fethu â chyflawni'r DPAAu ar gam 2 bron yn gyfan gwbl i un achos cymhleth, y cafwyd 44 o gwynion a gadarnhawyd yn ei gylch ac yr aeth pob un ohonynt y tu hwnt i'r dyddiad targed ar gyfer ymateb.

Llywodraethu

Adroddiad y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol – parhad

Yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24, canfu Ofcom bod y BBC wedi torri'r Cod Darlledu ar un achlysur, mewn perthynas â chwyn a gyfeiriwyd yn uniongyrchol at Ofcom o dan ei gylch gwaith Tegwch ac nid drwy system BBC First. Mynegodd Ofcom farn ar un erthygl ar-lein hefyd, gan gytuno â chanfyddiad blaenorol gan yr Uned Cwynion Gweithredol nad oedd y pennawd ac un agwedd ar yr erthygl yn cyrraedd safonau cywirdeb y BBC.

Ynghyd â'r 35 o ganfyddiadau a gadarnhawyd/ a ddatryswyd gan yr Uned Cwynion Gweithredol yn 2023/24, nodwyd yr achosion difrifol canlynol o dorri'r safonau golygyddol gan y Bwrdd Gweithredol yn ystod y flwyddyn:

Gwnaethom adrodd bod cyfrif banc cyn-arweinydd UKIP, Nigel Farage, wedi cael ei gau gan Coutts oherwydd ei fod wedi mynd islaw'r trothwy ariannol gofynnol. Cafwyd y wybodaeth hon gan ffynhonnell uwch a oedd yn gyfarwydd â'r mater. Ar ôl y darllediadau gwreiddiol, cafodd Mr Farage adroddiad gan bwyllgor risg enw da'r banc a oedd yn cyfeirio at resymau eraill dros y penderfyniad.

O ganlyniad i'r dystiolaeth newydd hon, newidiwyd yr adroddiad gwreiddiol er mwyn adlewyrchu bod yr honiad wedi dod gan ffynhonnell a bod y stori wedi cael ei diweddarau. Cydnabu'r BBC fod y wybodaeth a gafodd ei chynnwys yn yr adroddiad gwreiddiol yn anghywir ac ymddiheurodd i Mr Farage. Cafodd y stori ei chywiro mewn darllediadau ar y teledu, y radio ac ar-lein hefyd er mwyn sicrhau bod trefn yr hyn a ddiwyddodd yn glir ac yn dryloyw.

Dylai pennawd yr erthygl ar-lein fod wedi priodoli'r stori i ffynhonnell. Cafodd gohebwyr eu hatgoffa i geisio cyngor polisi golygyddol, os oes angen, wrth ymdrin â ffynonellau dienw/unigol.

Gwnaeth BBC Arabic ddarlledu segment Trending TV a bostiwyd ar YouTube yn ymchwilio i'r lladdfa yn kibbutz Kfar Aza yn Israel a'r pennawd oedd " Hamas rejects accusations that its gunmen carried out atrocities in the Israeli 'Kfar Aza' village". Rhoddodd y sgript ormod o sylw i naratif Hamas ac ni wnaeth ddarparu ymateb swyddogol cyfatebol gan Israel. Roedd hyn yn torri canllawiau golygyddol y BBC ar ddiueddrwydd. Tynnwyd y clip oddi ar y cyfryngau cymdeithasol, ond roedd modd i'r rhai a oedd wedi recordio'r cysylltiad gwreiddiol gael gafael arno o hyd. Mae aelodau'r tîm dan sylw wedi cael cyfarwyddyd ynglŷn â'r canllawiau golygyddol ar ddiueddrwydd ac maent wedi cael hyfforddiant ar broses y BBC ar gyfer dileu cynnwys. Cymerwyd camau ychwanegol i sicrhau bod uwch-olygydd yn goruchwylio allbwn BBC Arabic ar YouTube.

Cynhyrchodd BBC North East and Cumbria stori ar-lein am ddyd a fu ar wyliau yn Ffrainc ac a aeth i weld meddyg oherwydd haint ar fawd ei droed. Roedd yn honni ei fod wedi cael ei frathu gan Fleiddgopyn Periwaidd a dywedodd ei fod hefyd wedi dodwy wyau ym mawd ei droed. Aeth y stori'n boblogaidd iawn ar-lein a chafodd ei chynnwys ar dudalen flaen BBC News ar gyfer y DU. Gwnaeth aelodau o'r cyhoedd ac arbenigwyr herio gwirionedd y stori hon yn syth. Roedd y llun a ddefnyddiwyd yn dangos pryf cop gwahanol ac nid yw'r Bleiddgopyn Periwaidd yn frodorol i Ffrainc ac nid yw'n dodwy wyau y tu mewn i organebau byw eraill. Cafodd yr erthygl ei diwygio er mwyn egluro mai honiadau a wnaed gan y claf oedd y rhain ac i gynnwys yr heriau i'r stori a gafwyd gan arbenigwyr.

Roedd yr erthygl ar-lein yn seiliedig ar gyfweiliad radio a gynhaliwyd gan dîm gwahanol, ond ni wnaed gwiriadau sylfaenol cyn cyflwyno'r stori ar ffurf cofnod ffeithiol parhaol ar-lein. Cymerwyd camau cyflym a chafodd y rhai a oedd yn gysylltiedig â'r stori eu hatgoffa am ganllawiau golygyddol y BBC ar gywirdeb.

Rhoddwyd gwybod am bob achos difrifol o dorri'r canllawiau golygyddol i'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol a'r Bwrdd, a rhoddwyd gwybod i Ofcom, lle y bo'n berthnasol, yn unol â'r protocol y cytunwyd arno ag Ofcom.

Fel Cadeirydd, hoffwn ddiolch i'm cyd-aelodau ar y Pwyllgor ac, yn benodol, ein Cynghorwyr Allanol, Caroline Daniel a Michael Prescott, am eu gwaith craffu manwl ar bob agwedd ar ein gwaith. Mae datblygiad deallusrwydd artiffisial a'r cyfleoedd y mae defnydd eang o'r cyfryngau cymdeithasol yn eu cynnig i ledaenu gwybodaeth ffug yn gwneud tasg y BBC o fod yn ffynhonnell ddibynadwy o newyddion a chynnwys ehangach diduedd hyd yn oed yn fwy heriol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod y rôl uwch sy'n cael ei chwarae gan aelodau o'r Bwrdd Gweithredol, yn cynnwys David Jordan, Peter Johnston, Rizwana Rahmani, Simon Coates a Helen White, ac yn ddiolchgar am hyn wrth iddo baratoi argymhellion yr Adolygiadau Thematig a Mewnol, a'u rhoi ar waith, ac mewn cyfarfodydd rheolaidd ag Ofcom, yn ogystal â diwygio'r Canllawiau Golygyddol.

Nicholas Serota

Cadeirydd y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol
10 Gorffennaf 2024

Adroddiadau Pwyllgorau'r Gwledydd

Mae'r pedwar Pwyllgor ar gyfer y Gwledydd yn cefnogi'r Bwrdd drwy adolygu a monitro allbwn a pherfformiad y BBC ar draws y DU. Yn yr adran hon ceir adroddiad gan y Cadeirydd ar waith pob Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

Cymru

Rwy'n falch iawn o fod wedi cael cais i gynrychioli BBC Cymru Wales fel Cadeirydd Dros Dro Pwyllgor Cymru wrth i ni aros i Michael Plaut gael ei benodi'n aelod newydd o Fwrdd y BBC dros Gymru yn dilyn ymddiswyddiad y Fonesig Elan Closs Stephens.

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur a llwyddiannus arall i BBC Cymru Wales, gan gynnwys dramâu megis *Steel Town Murders* a *Wolf ynghyd â Paranormal*, *The Crash Detectives* a *Dark Land* mewn cynnwys ffeithiol.

Y prosiect drama mawr nesaf i BBC Wales yw *Lost Boys and Fairies* sydd newydd lansio ar BBC One.

Ar BBC Sounds, bu cynulleidfaoedd yn gwrandao ar *Crossbow Killer a Death of a Codebreaker*. Ar y radio, lansiodd BBC Radio Cymru 2 wasanaeth llawn ag oriau estynedig a chafodd y rhaglen freccwast ar BBC Radio Wales ei hailwampio. Mae adeilad y Sgwâr Canolog yng Nghaerdydd bellach yn cynhyrchu allbwn ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau radio rhwydwaith y BBC gyda rhaglenni byw ar gyfer BBC Radio 1, BBC Radio 2 a BBC Radio 6 Music. Mae dros 70 o aelodau ychwanegol o staff bellach yn gweithio yng Nghymru o ganlyniad i fenter *Across the UK*.

Oddi ar yr awyr, daeth blwyddyn *Talk Disability* i ben ac mae wedi cyflawni amcanion, gan gynnwys lansio hyfforddeiaethau anabled, cyfleoedd gwaith cynllun *Extend* a phortreadau gwell. Ymwelodd tîm BBC Bitesize â 40 o ysgolion uwchradd yng Nghymru fel rhan o'r rhaglen *Addysg sy'n cysylltu* â chynnwys ar y BBC a'n partneriaid, S4C.

Ym maes Newyddion, rhoddwyd sylw cynhwysfawr i'r etholiad ar gyfer *Arweinydd Llafur Cymru*.

Yn ystod blwyddyn ei ganmlwyddiant, rhoddodd y BBC sylw manwl i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhenrhyn Llŷn a chafodd cysylltiad blynyddol, hanfodol arall ei adnewyddu gyda darllediadau o gystadleuaeth rygbi undeb y Chwe Gwlad.

Wynebodd Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC her ddifrifol o ganlyniad i gau *Neuadd Dewi Sant* yng Nghaerdydd dros dro. Fodd bynnag, ni chafodd y cerddorion eu digalonni, a gwnaethant ymateb ag egni o'r newydd ac ymrwymiad i fynd â'u cenhadaeth gerddorol i bob cwr o Gymru a thu hwnt. Mae cyngherddau wedi cynnwys y perfformiad cyntaf yn y DU o *Stravaganza* gan Syr Karl Jenkins a *Symffoni Rhif 13 Shostakovich* gyda'r prif arweinydd, Ryan Bancroft.

Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu Pwyllgor Cymru bedair gwaith. Mae ei aelodau sefydlog wedi cynnwys y Fonesig Elan Closs Stephens, Rhodri Talfan Davies, Rhuanedd Richards a Rhys Evans. Cyfarfu'r Pwyllgor yn y BBC yn y Sgwâr Canolog yng Nghaerdydd ac ym Mhrifysgol Aberystwyth. Gwnaethom hefyd groesawu aelodau o Bwyllgorau'r Gwledydd o Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon am gyfarfod ar y cyd yng Nghaerdydd. Y cyfarfod hwn oedd y cyntaf o gyfarfodydd blynyddol ar y cyd a gynlluniwyd i holl Bwyllgorau'r Gwledydd, sydd wedi cael eu hychwanegu at y calendr yn dilyn argymhelliad yn yr adolygiad allanol o effeithiolrwydd y Bwrdd y flwyddyn hon.

Hoffwn ddiolch yn arbennig i'r Fonesig Elan fel ein Cadeirydd sy'n ymadael. Byddwn yn colli ei doethineb, ei chymorth a'i hymrwymiad i Bwyllgor Cymru ac i Fwrdd y BBC, lle bu'n Gadeirydd Dros Dro.

Ynghyd â'r Pwyllgor, cyfarfu'r Fonesig Elan â chynulleidfaoedd a rhanddeiliaid yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth, yr Eisteddfod yn Llŷn ac Eifionydd, ac yng Nghaerdydd yn y BBC ac yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Sefydliad Materion Cymreig.

Edrychaf ymlaen at ein Pwyllgorau yn y dyfodol ac i glywed gan aelodau'r gynulleidfa ledled Cymru.

Ceir gwybodaeth fanylach am berfformiad y BBC yng Nghymru ar dudalen 34 ac ar dudalennau 154. I ddarlflen mwy am Bwyllgor BBC Cymru ewch i bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard/wales.

Michael Smyth

Cadeirydd Dros Dro, Pwyllgor Cymru
10 Gorffennaf 2024

Yr Alban

Fel Cadeirydd Pwyllgor yr Alban, mae ymrwymiad y BBC i gynhyrchu cynnwys sy'n portreadu ac yn cynrychioli'r Alban i gynulleidfaoedd gartref ac ar draws y Gwledydd yn parhau i greu argraff arnaf ac rwy'n falch iawn ohono.

Mae llwyddiannau ar y teledu a grëwyd yn yr Alban y flwyddyn hon yn cynnwys trydedd gyfres, a chyfres olaf, y ddrama, *Guilt*; rhaglenni ffeithiol arbenigol, gan gynnwys *Scam Interceptors*; a'r cynnwys i blant, *Saturday Mash Up*, ar CBBC.

Croesawais Gadeirydd MG ALBA a benodwyd yn ddiweddar i ymuno â thrafodaeth am ddyfodol darlledu Gaeleg ac adnewyddwyd yr ymrwymiad partneriaeth i greu cynnwys hawdd i wlyio i siaradwyr a dysgwyr Gaeleg.

Nododd y Pwyllgor adroddiad Cyfryngau'r Genedl a gyhoeddwyd gan Ofcom, ac effaith gadarnhaol *Radio 1's Big Weekend* yn Dundee ar gynulleidfaoedd ac ar yr economi.

Roeddwn yn falch o weld uned cynhyrchu sain fawr â sawl safle yn cael ei chreu. Bydd hyn yn cynyddu faint o gynnwys a gaiff ei greu ar gyfer Radio'r BBC, BBC Sounds a BBC World Service o'r Alban a Gogledd Iwerddon, gan ganolbwyntio ar y celfyddydau a diwylliant, drama a darlenniadau, jazz a cherddoriaeth glasurol.

Ym maes Newyddion, mae cynlluniau uchelgeisiol i greu podlediad gwledol am y newyddion a materion cyfoes, rhaglen *Reporting Scotland* estynedig, a newyddion wedi'u hailwampio ar sianel BBC Scotland a rhaglenni ychwanegol o *Debate Night*. Daw'r adnoddau ar gyfer y cynnwys newydd hwn o gyllid presennol ar gyfer *The Nine* ac mae hyn wrthi'n cael ei drafod â staff, undebau llafur a'r rheoleiddiwr, Ofcom, a bydd yn destun craffu yng nghyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.

Ynghyd â'r Pwyllgorau, cefais gyfarfod ag aelodau cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys gwneuthurwyr ffilmiau a chynrychiolwyr gwleidyddol mewn digwyddiadau yn Inverness, Stornaway, Glasgow, Dundee, Kirkwall, Dumbarton a Lerwick, ymhlith eraill.

Cyfarfu Pwyllgor yr Alban bedair gwaith yn ystod y flwyddyn. Cefais gwmni Richard Sharp, y Fonesig Elan Closs Stephens, Rhodri Talfan Davies, Steve Carson a Luke McCullough. Gwnaethom gyfarfod yn Inverness, Glasgow ac Aberdeen a gwnaethom gymryd rhan mewn cyfarfod ar y cyd ar gyfer holl aelodau Pwyllgorau'r Gwledydd a gynhaliwyd yng Nghaerdydd.

Ceir rhagor o wybodaeth am berfformiad y BBC yn yr Alban ar dudalen 35 ac ar dudalennau 158. I ddarlflen mwy am Bwyllgor BBC Scotland ewch i bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard/scotland.

Muriel Gray

Cadeirydd, Pwyllgor yr Alban
10 Gorffennaf 2024

Llywodraethu

Adroddiadau Pwyllgorau'r Gwledydd – parhad

Gogledd Iwerddon

Mae'n bleser gennyf gael fy mhenodi'n Gadeirydd Pwyllgor Gogledd Iwerddon a chynrychioli Gogledd Iwerddon ar Fwrdd y BBC.

Gwn o'm profiad fy hun, a sgysiau â rhanddeiliaid lleol, faint y mae cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon yn gwerthfawrogi'r BBC a'r cyfraniad y mae'n ei wneud i fywyd cymunedol a diwylliannol a'r economi greadigol. Mae'n galluogi rhaglenni gwych a sgysiau angenrheidiol, gan adlewyrchu amrywiaeth leol, arddangos doniau a chynnig pwyntiau cyswllt i bobl o gefndiroedd a lleoedd gwahanol. Mae'r holl bethau hyn o bwys a gellid dadlau eu bod yn bwysicach nag erioed o'r blaen.

Rwyf wedi bod â diddordeb yn ymateb BBC News NI i anghenion a chyfluoedd digidol a'r rôl y mae ystafell newyddion Foyle bellach yn ei chwarae fel rhan o'i waith. Mae hefyd wedi bod yn galonogol gweld *Blue Lights* a *Hope Street* yn dychwelyd i deledu rhwydwaith y BBC a'r cynnydd a wnaed o ran ei gwneud yn haws i gael gafael ar gynnwys a gaiff ei gynhyrchu'n lleol ar BBC iPlayer a BBC Sounds.

Mae cyd-gomisiynau â theledu rhwydwaith y BBC yn bwysig ac roedd *Once Upon a Time in Northern Ireland* yn gyflawniad nodedig yn 2023/24, gan ategu rhaglenni a fwriedir ar gyfer cynulleidfaoedd lleol yn bennaf. Cafodd llawer o'r gwaith hwn ei hwyluso gan y sector cynhyrchu annibynnol ac mae'n bosibl o ganlyniad i bartneriaeth hirsefydledig y BBC â Northern Ireland Screen – rhywbeth yr wyf yn falch y bydd yn parhau, gydag uchelgais newydd, am gyfnod pellach.

Mae ymchwil i gynulleidfaoedd ac adborth ganddynt yn llywio popeth y mae'r BBC yn ei wneud, ac mae'n darparu'r cyd-destun ar gyfer penderfyniadau strategol ynghylch allbwn y BBC a'r ffordd orau o gynyddu ei werth a'i effaith i'r eithaf mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym. Mae'r wybodaeth hon yn rhan hanfodol o waith y Pwyllgor a'r trafodaethau rydym yn eu cael am BBC Northern Ireland a'r wasanaethau y mae'n eu darparu.

Rwyf yn falch bod fy mhenodiad yn cyd-daro â chanmlwyddiant y BBC yng Ngogledd Iwerddon a gwaith i gwblhau'r prosiect adnewyddu mawr yn Broadcasting House, Belfast – gan gydnabod ei arwyddocâd fel canolfan ddarlledu o bwys a'i le hoffus ym mywydau cynulleidfaoedd lleol.

Cyfarfu Pwyllgor Gogledd Iwerddon bedair gwaith yn ystod y flwyddyn. Cefais gwmi Nicholas Serota, Rhodri Talfan Davies, Adam Smyth a Mark Adair yn Belfast a gwnaethom gymryd rhan mewn cyfarfod ar y cyd ar gyfer holl aelodau Pwyllgorau'r Gwledydd yng Nghaerdydd.

Yn ystod fy mlwyddyn gyntaf fel Cadeirydd, rwyf wedi cyfarfod â sefydliadau partner allweddol y BBC yng Ngogledd Iwerddon ac ag arweinwyr dinesig a chymunedol mewn digwyddiadau gwahanol yn Belfast, Ballymena ac mewn mannau eraill. Ymgysylltais â'r sector cynhyrchu annibynnol lleol hefyd ac â chydweithwyr yn Ofcom. Roedd yr holl bethau hyn yn ogystal â chyfarfodydd â staff y BBC am eu gwaith i gynulleidfaoedd lleol a rhwydwaith.

Ceir gwybodaeth fanylach am berfformiad y BBC yng Ngogledd Iwerddon ar dudalen 36 ac ar dudalennau 162. I ddarllen mwy am Bwyllgor BBC Northern Ireland, ewch i bbc.com/aboutthebbc/whoware/bbcboard/northernireland.

Michael Smyth

Cadeirydd, Pwyllgor Gogledd Iwerddon
10 Gorffennaf 2024

Lloegr

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur dros ben i'n timau lleol yn Lloegr wrth iddynt gydgrynhoi'r gwaith i gynyddu dyfnder ac ehangder straeon newyddion ar-lein. Roedd effaith y gwaith hwn wedi dod i'r amlwg erbyn diwedd y flwyddyn gyda chynnydd ym maint cynulleidfaoedd a oedd yn cyrchu newyddion lleol ar-lein. Fodd bynnag, mae'r diwygiadau hyn wedi arwain at newidiadau anochel yn yr amserlen i gynulleidfaoedd ar draws Radio Lleol gyda mwy o raglenni'n cael eu rhannu y tu allan i oriau brig ac ar benwythnosau. Mae elfen sylweddol o waith y Pwyllgor wedi ymwneud â gwerthuso'r ffordd y caiff cynlluniau eu cyflawni, a chraffu ar hyn, a byddwn yn parhau i fonitro ansawdd ac ehangder yr allbwn er mwyn sicrhau y caiff anghenion pob cynulleidfa eu diwallu.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi croesawu'r buddsoddiad sylweddol mewn stiwdios a galeriau er mwyn ysgogi prosesau adrodd straeon creadigol a gwella allbwn Radio Lleol wedi'i ddelweddu.

Mae'r Uned Comisiynu Sain yn Lloegr wedi cyflwyno teitlau ffeithiol newydd ar gyfer BBC Sounds, gan gynnwys *Seven*, *The SpyCops* ac *In Court*. Mae'r Uned Ymchwiliadau newydd yn Lloegr wedi cyflwyno ei stori gyntaf am Nitasenau, sef math newydd o gyffur anghyfreithlon sy'n cyrraedd y DU a gaiff ei greu yn Tsieina ac sy'n gysylltiedig â nifer o farwolaethau yma.

Mae didueddrwydd ac arferion gorau yn fater pwysig i Fwrdd y BBC ac i'r Pwyllgor. Yn dilyn cyhoeddi Adolygiad Serota, rwyf wedi bod yn awyddus i ddeall mwy am ymateb y cynllun gweithredu yn Lloegr a byddaf yn sicrhau bod hyn ar frig fy agenda.

Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod y flwyddyn. Cefais gwmi Nicholas Serota, Rhodri Talfan Davies, Jason Horton ac Adrian Mills. Gwnaethom gyfarfod yn Llundain, Dunstable a Bryste a gwnaethom gymryd rhan mewn cyfarfod ar y cyd ar gyfer holl aelodau Pwyllgorau'r Gwledydd a gynhaliwyd yng Nghaerdydd.

Ynghyd â'r Pwyllgorau, achubais ar y cyfle i gyfarfod ag aelodau cynulleidfaoedd, rhanddeiliaid allanol a staff y BBC a byddaf yn gwneud mwy o hyn dros y flwyddyn nesaf. Cynhaliwyd cyfarfod y Pwyllgor ym Mryste ar yr un diwrnod â thrafodaeth aml-gyfrwng cyn is-etholiad Kingswood. Cyfarfûm â rhanddeiliaid allweddol a llunwyr barn y ddinas ar ôl y drafodaeth hon.

Ceir gwybodaeth fanylach am berfformiad y BBC yn Lloegr ar dudalen 37 ac ar dudalen 165. I ddarllen mwy am Bwyllgor BBC England ewch i bbc.com/aboutthebbc/whoware/bbcboard/england.

Robbie Gibb

Cadeirydd, Pwyllgor Lloegr
10 Gorffennaf 2024

Adroddiad y Pwyllgor Masnachu Teg

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am waith y Pwyllgor Masnachu Teg yn 2023/24. Dechreuais y flwyddyn fel Cadeirydd dros dro'r Pwyllgor a chefais fy mhenodi'n Gadeirydd y Bwrdd ar 15 Medi 2023. Ar yr adeg honno, ymunodd Chris Jones â'r Pwyllgor – gan gydnabod y cysylltiad pwysig rhwng gwaith y Pwyllgor Masnachu Teg a phwyslais y Pwyllgor Archwilio a Risg ar gydymffurfio a sicrwydd. Bu Leigh Tavaziva, Prif Swyddog Gweithredu'r Grŵp, yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn hefyd.

Y flwyddyn hon, mae'r Pwyllgor wedi parhau i ymgymryd â'i rôl o oruchwylio cydymffurfiaeth y BBC â'r rheolau a osodwyd gan Ofcom ar fasnachu a gwahanu. Sefydlwyd y Pwyllgor Masnachu Teg gan y Bwrdd fel ffordd o oruchwylio'r rhwymedigaethau hyn. Drwy wneud hynny, mae hyn yn golygu ein bod yn monitro ac yn sicrhau'r trefniadau gwahanu rhwng gwasanaeth cyhoeddus ac is-gwmnïau masnachol y BBC, yn unol â'r fframweithiau Masnachu Teg sydd ar waith.

'Masnachu Teg' yw'r term rydym yn ei ddefnyddio i ddisgrifio'r prosesau a'r arferion, o fewn y BBC ac wrth ddelio â thrydydd partion, sy'n sicrhau bod ein gwasanaethau masnachol a'n gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i fod yn briodol ar wahân ac yn masnachu â'i gilydd ar sail marchnad. Mae hyn yn golygu na all y rhannau o'r BBC a'riennir gan ffrîr drwydded roi mantais gystadleuol i weithrediadau masnachol y BBC nac i unrhyw gwmni cynhyrchu annibynnol arall na thrydydd parti arall rydym yn ymwneud ag ef.

Ymhlith cyfrifoldebau craidd y Pwyllgor mae'r canlynol:

- ystyried adroddiadau ar y graddau y mae gweithgareddau'r BBC yn gyson â gofynion masnachu a gwahanu Ofcom ac ymgysylltu'n anffurfiol â'r rheoleiddwr yn flynyddol;
- parhau i adolygu cydymffurfiaeth y BBC â gofynion rheoleiddio masnachu a gwahanu Ofcom, drwy adroddiadau sicrwydd a risg ddwywaith y flwyddyn;
- comisiynu a derbyn sicrwydd annibynnol blynyddol ynghylch rheolaethau cydymffurfio;
- ystyried datganiad o wahanu gweithredol, adroddiadau blynyddol a Llawlyfr Masnachu Grŵp y BBC, a'u cymeradwyo i'w cyhoeddi;
- sicrhau bod methodolegau prisiau trosglwyddo'r BBC yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae'r rheolau ar fasnachu a gwahanu wedi bod ar waith ers 2017 a chawsant eu diweddarau ddiwethaf gan Ofcom ym mis Ebrill 2023. Maent yn rhan o fframwaith Ofcom ar gyfer gweithgareddau masnachol y BBC, sy'n rheoleiddio rhyngweithio'r BBC â'r farchnad drwy ei weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus a gweithgareddau ei is-gwmnïau masnachol.

Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC sicrhau'r canlynol:

- bod yr holl weithgareddau masnachol yn cael eu cyflawni gan is-gwmnïau masnachol;
- bod unrhyw is-gwmnïau ar wahân i wasanaeth cyhoeddus y BBC yn weithredol;
- ei fod yn darparu nwyddau a gwasanaethau i is-gwmnïau masnachol ar sail telerau masnachol hyd braich;
- bod is-gwmnïau yn gwneud enillion masnachol;
- bod y BBC yn sicrhau bod prosesau priodol ar waith o ran tryloywder, monitro ac adrodd ar weithgareddau'r is-gwmnïau.

Er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r rheolau hyn, mae'r Pwyllgor yn gorchwylio ac yn sicrhau prosesau a gweithdrefnau'r BBC er mwyn sicrhau bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth uchel o'r fframwaith. I wneud hyn, mae tîm Polisi a Rheoleiddio Grŵp y BBC yn rheoli rhaglen hyfforddi wedi'i thargedu ar gyfer staff sy'n debygol o ddod ar draws materion Masnachu Teg. Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd perfformiad cryf parhaus o ran cydymffurfiaeth â hyfforddiant ar Fasnachu Teg, a chynhaliwyd cyfraddau cydymffurfio ar lefel uchel – 97% ar gyfer hyfforddiant lefel Uwch.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Pwyllgor ei friffio ar faterion rheoleiddio a Masnachu Teg perthnasol, gan gynnwys: y cynnig i drosglwyddo staff Cynhyrchu Sain i BBC Studios; gwaith parhaus i adolygu a sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl Gytundebau Lefel Gwasanaeth angenrheidiol sydd ar waith; adolygiad allanol o fethodoleg ffi brand y BBC; a gwaith i ymdrin â phryderon a godwyd yn adolygiad Ofcom o BBC Studios ynglŷn â pherchnogaeth o eiddo deallusol a'r ffordd y caiff elw ei drin yn sgil hyn. Gwnaethom gyfarfod â swyddogion Ofcom hefyd i drafod meysydd o ddiddordeb yng nghwmpas y Pwyllgor, a nodwyd gennym nad oedd y BBC wedi cael unrhyw gwynion rheoleiddiol perthnasol yn ystod y flwyddyn.

Mynychwyd ein cyfarfodydd gan y Cyfarwyddwr Polisi a'r Rheolwr Rheoleiddio, yn ogystal â'r Pennaeth Cyfreithiol Masnachol, y Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd a chynghorwyr eraill fel y bo angen. Cynhaliwyd tri chyfarfod o'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn (mae tabl presenoldeb y Pwyllgor i'w weld ar dudalen 103).

Er mwyn cefnogi'r fframwaith, a rhoi sicrwydd ynglŷn â'r ffordd y mae'r BBC yn ymdrin â rheoleidd-dra a'r defnydd o arian cyhoeddus, mae'r Pwyllgor yn parhau i gomisiynu o'i wirfodd sicrwydd blynyddol gan roddwr sicrwydd yn unol ag ISAE 3000 (Diwygiedig). Mae adroddiad y rhoddwr sicrwydd ar Fasnachu Teg ar y dudalen nesaf.

Mae'r Cytundeb Fframwaith yn nodi pedwar maen prawf ar gyfer ymgymryd â gweithgareddau masnachol y BBC: mae'n cydfynd â'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus; effeithlonrwydd masnachol; nid yw'n peryglu enw da'r BBC na gwerth ei frand; ac nid yw'n ystumio'r farchnad. Ar ôl cael adroddiadau gan yr uwch-reolwr perthnasol, ac ar ôl ystyried y canfyddiadau o ran Sicrwydd Masnachu Teg, mae'r Pwyllgor Masnachu Teg yn fodlon bod pob gwasanaeth masnachol wedi bodloni'r meini prawf uchod yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.

Muriel Gray

Cadeirydd y Pwyllgor Masnachu Teg
10 Gorffennaf 2024

Llywodraethu

Adroddiad Sicrwydd Annibynnol ar Fasnachu Teg i'r BBC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

Barn am drefniadau Masnachu Teg

Yn ein rôl fel darparwr sicrwydd rhesymol Masnachu Teg y BBC, rydym wedi asesu'r system o reolaethau mewnol a sefydlwyd yn y BBC i gydymffurfio ag agweddau ar Fasnachu Teg gofynion Masnachu a Gwahanu Ofcom ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 (y Trefniadau Masnachu Teg).

Yn ein barn ni, mae'r BBC wedi sefydlu ac wedi cymhwyso system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol iddo gydymffurfio â gofynion y Trefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024.

Cyfrifoldebau Bwrdd y BBC

Mae Ofcom wedi rhoi dyletswydd ar y Bwrdd i sefydlu a gweithredu system o reolaethau mewnol sydd â'r nod o sicrhau cydymffurfiaeth â Threfniadau Masnachu Teg y BBC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024, gan gynnwys nodi ac asesu'r risgiau a allai beryglu Masnachu Teg a llunio ymatebion i risgiau o'r fath a'u rhoi ar waith.

Ein hannibyniaeth a rheoli ansawdd

Rydym wedi cydymffurfio â gofynion Cod Moeseg ICAEW o ran annibyniaeth a materion moesegol eraill – cod sy'n seiliedig ar egwyddorion sylfaenol uniondeb, gwrthrychedd, cymhwysedd proffesiynol a sylw dyladwy, cyfrinachedd ac ymddygiad proffesiynol.

Gwnaethom gymhwyso'r Safon Ryngwladol ar Reoli Ansawdd (y DU) 1 ("ISQM (UK) 1"), a bennwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol. Yn unol â hynny, gwnaethom gynnal system ansawdd gynhwysfawr gan gynnwys polisiau a gweithdrefnau a ddogfennwyd mewn perthynas â chydymffurfiaeth â gofynion moesegol, safonau proffesiynol a gofynion cyfreithiol a rheolaethol cymwys.

Ein cyfrifoldebau

Rydym yn gyfrifol am fynegi barn am reolaethau mewnol y BBC i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Trefniadau Masnachu Teg, yn seiliedig ar ein gwaith sicrwydd. Gwnaethom gynnal proses sicrwydd rhesymol yn unol â Safon Ryngwladol ar Ymrwymiadau Sicrwydd (ISAE) 3000 (Diwygiedig), Ymrwymiadau Sicrwydd ac eithrio Archwiliadau neu Adolygiadau o Wybodaeth Ariannol Hanesyddol.

Mae'n ofynnol i ni gynllunio a chyflawni ein gweithdrefnau er mwyn cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r BBC wedi sefydlu ac wedi cymhwyso system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol ei fod wedi cydymffurfio â gofynion y Trefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024.

Cynhaliwyd asesiad risg er mwyn nodi'r agweddau hynny ar gyfundrefn reoli Masnachu a Gwahanu'r BBC a oedd fwyaf tebygol o arwain at beidio â chydymffurfio â'r Trefniadau Masnachu Teg, gan ganolbwyntio ein profion manwl ar y meysydd hyn. Dewiswyd achosion unigol o ohebiaeth masnachu teg y BBC i'w hadolygu, a gwnaethom archwilio cofnodion ysgrifenedig a chyfweld â phartion perthnasol ar gyfer pob un. Fel rhan o'n gwaith, archwiliwyd y trefniadau ar gyfer prisiau trosglwyddo a gwahanu, defnyddio brand y BBC a thalu amdano, a chymhwyso gofyniad y Siarter Frenhinol nad yw gweithgareddau masnachol y BBC, o ganlyniad i'w cydberthynas â Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, gweithgareddau nad ydynt yn rhai gwasanaeth neu weithgareddau masnachu, yn ystumio'r farchnad nac yn rhoi mantais gystadleuol annheg.

Cyfyngiadau annatod

Mae pob system rheolaeth fewnol yn destun cyfyngiadau, ac yn unol â hynny efallai na fydd y rheolaethau mewnol a sefydlwyd gan y BBC yn atal nac yn canfod pob achos o beidio â chydymffurfio â'r Trefniadau Masnachu Teg. At hynny, oherwydd bod materion masnachu teg yn gofyn am farn a allai yn y pen draw gael ei phrofi mewn llys barn, gan yr awdurdod cystadleuaeth neu yn rhywle arall, mae bob amser risg o her hyd yn oed lle y dilynwyd y system o reolaethau mewnol a lle y gwnaed penderfyniadau gyda'r gofal mwyaf.

Defnyddio ein hadroddiad

Gwnaed yr adroddiad hwn i'r BBC yn unig yn unol â'n cyfarwyddiadau y cytunwyd arnynt â'r Pwyllgor Masnachu Teg ar ran y BBC. Cynhaliwyd ein gwaith er mwyn i ni allu hysbysu'r Pwyllgor Masnachu Teg am y materion hynny y mae'n ofynnol i ni ei hysbysu amdanynt mewn adroddiad sicrwydd annibynnol ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r BBC am ein gwaith, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

Deloitte LLP

Llundain, y DU
10 Gorffennaf 2024

Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd o ran yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

Mae'r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC baratoi adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon archwiledig.

Mae'r Bwrdd wedi derbyn ei gyfrifoldeb am baratoi adroddiad strategol, datganiadau o gydymffurfiaeth â chodau a rheoliadau cymwys (gan gynnwys adroddiad cydnabyddiaeth y Bwrdd) a'r datganiad o gyfrifon y bwriedir iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r BBC a'i is-gwmniau (y "Grŵp") a'r incwm a'r gwariant ar gyfer y cyfnod hwnnw. Mae'r Bwrdd wedi paratoi'r cyfrifon yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a fabwysiadwyd yn y DU. Ni chaiff y Bwrdd gymeradwyo'r datganiad o gyfrifon (neu'r "datganiadau ariannol") oni fydd yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o asedau, rhwymedigaethau a sefyllfa ariannol y Grŵp a'r gwarged neu'r diffyg yn y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Bwrdd wedi gwneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarvoudus;
- nodi a gawsant eu paratoi yn unol ag IFRS a fabwysiadwyd yn y DU;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, am ei fod o'r farn y bydd y BBC yn parhau i weithredu.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion y BBC a datgelu sefyllfa ariannol y Grŵp yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg a'i alluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol ac adroddiad cydnabyddiaeth y Bwrdd yn cydymffurfio â'r Siarter. Hefyd, mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol i gymryd y cyfryw gamau sy'n rhesymol agored iddo i ddiogelu asedau'r BBC ac atal a chanfod achosion o dwyll ac anghysondebau eraill.

Caiff cyfrifoldebau'r Bwrdd am sicrhau bod y BBC yn gwarchod arian cyhoeddus yn drylwyr, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra rheoli adnoddau'r BBC, eu nodi yn erthygl 16 o'r Siarter.

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am gynnal gwefan y BBC a sicrhau ei bod yn gywir. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n rheoli'r gwaith o baratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Mae aelodau'r Bwrdd a oedd mewn swydd ar ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, y caiff eu henwau a'u swyddogaethau eu rhestru yn adran Llywodraethu'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, yn cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth a'u cred:

- bod y datganiadau ariannol, a baratowyd yn unol ag IFRS a fabwysiadwyd yn y DU, yn rhoi darlun gwir a theg o asedau, rhwymedigaethau, sefyllfa ariannol a diffyg y Grŵp;
- bod yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys adolygiad teg o ddatblygiad a pherfformiad y busnes a sefyllfa'r Grŵp, ynghyd â disgrifiad o'r prif risgiau ac ansicrwydd a wynebir ganddo;
- bod yr Adroddiad Blynyddol, yn ei gyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar dalwyr ffi'r drwydded i asesu perfformiad, model busnes a strategaeth y Grŵp.

Datganiad datgelu gwybodaeth i archwilwyr

Mae aelodau'r Bwrdd a oedd mewn swydd ar adeg cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y BBC yn ymwybodol ohoni; ac mae pob aelod o'r Bwrdd wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd fel aelod o'r Bwrdd er mwyn dod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a phennu bod archwilwyr y BBC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Busnes gweithredol

Mae'r Bwrdd wedi ystyried rhagamcanion llif arian parod am gyfnod y tu hwnt i flwyddyn o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn, ac maent wedi adolygu'r rhagamcanion hyn, ynghyd â'r materion sensitif a'r ffactorau lliniarol yng nghyd-destun yr arian sydd ar gael.

Mae'r Bwrdd yn fodlon bod y BBC mewn sefyllfa dda i reoli'r risgiau a bod ganddo ddigon o adnoddau i barhau i weithredu am y 12 mis nesaf o leiaf. O ganlyniad, mabwysiadwyd sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Cafodd y datganiad hwn ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

Samir Shah

Cadeirydd

10 Gorffennaf 2024

PERFFORMIAD YN ERBYN YMRWYMIADAU CYHOEDDUS



Y diweddar Dave Myers a Si King yn ffilmio *The Hairy Bikers Go West*

t.131

Dyletswyddau
Cyffredinol

t.134

Gwasanaethau
Mynediad

t.135

Cydymffurfiaeth
reoleiddiol

t.136

Elfen o gystadleuaeth

t.136

Cyflenwad radio
rhwydwaith

t.137

Dosbarthu

t.138

Hyrwyddo
Gwasanaeth
Cyhoeddus y BBC

Mae'r adran hon yn amlinellu ein cynnydd tuag at wahanol ymrwymadau cyhoeddus. Daw'r ymrwymadau hyn o'r Siarter, y Cytundeb, ein rhwymedigaethau o ran y Drwydded ac ymrwymadau a wnaed gennym i gyflenwi gwasanaethau i'n cynulleidfaoedd.

Perfformiad yn erbyn ymrwymïadau cyhoeddus Dyletswyddau Cyffredinol

Mae'r Siarter yn nodi nifer o Ddyletswyddau Cyffredinol sy'n gymwys i'r BBC. Mae'r adran hon yn nodi perfformiad y BBC yn erbyn y Dyletswyddau hyn – nodwyd y mesurau adrodd yng Nghynllun Blynyddol y BBC ar gyfer 2023/24.

1. Gweithredu er budd y cyhoedd

Rhaid i'r BBC weithredu er budd y cyhoedd, gyda'r nod o wasanaethu ei gynulleidfaoedd nid dim ond fel defnyddwyr, ond hefyd fel aelodau o gymdeithas ehangach, gyda rhaglenni a gwasanaethau sy'n ceisio hysbysu, addysgu a diddanu cynulleidfaoedd a hefyd gyflawni dibenion cyhoeddus ehangach. O ganlyniad, rhaid i'r BBC sicrhau bod buddiannau (boed yn rhai uniongyrchol neu anuniongyrchol) penderfyniadau sy'n gysylltiedig â'r genhadaeth neu'r dibenion yn gorbwysu'r costau (boed yn rhai uniongyrchol neu anuniongyrchol); ac yn ystyried buddiannau a chostau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi Cynllun Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol	CYFLAWNWYD
Byddwn yn cyhoeddi nifer y cwynion a gafodd eu cadarnhau lle rydym wedi methu â chydymffurfio â rhwymedigaethau'r BBC o dan y Siarter a'r Cytundeb neu gyda Fframwaith Gweithredu Ofcom neu Drwydded World Service	CYFLAWNWYD – gweler Materion rheoleiddiol eraill
Byddwn yn cyhoeddi nifer y cwynion a gafodd eu cadarnhau ar faterion golygyddol y BBC a'r nifer cyffredinol o gwynion a wnaed	CYFLAWNWYD – gweler adroddiad y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol
Byddwn yn cyhoeddi data mesur perfformiad, yn cynnwys data ar gyflawni'r dibenion cyhoeddus	CYFLAWNWYD

2. Ymgysylltu â'r cyhoedd

Rhaid i'r BBC asesu safbwyntiau a buddiannau'r cyhoedd a chynulleidfaoedd, yn cynnwys talwyr ffi'r drwydded, ledled y Deyrnas Unedig. Rhaid i'r BBC wneud trefniadau er mwyn sicrhau bod safbwyntiau a buddiannau amrywiol y cyhoedd a chynulleidfaoedd, yn cynnwys talwyr ffi'r drwydded, ledled y Deyrnas Unedig, yn cael eu hystyried wrth iddo wneud ei benderfyniadau.

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi data blynyddol ar safbwyntiau cynulleidfaoedd ynghylch y BBC fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol	CYFLAWNWYD
Byddwn yn cynnal tua chwe digwyddiad wyneb yn wyneb gyda chynulleidfaoedd ac yn adrodd ar y canfyddiadau yn Adroddiad Blynyddol y BBC, a chaiff pedwar ohonynt eu cynnal gan Bwyllgorau Gwledydd y Bwrdd	CYFLAWNWYD – gweler Ymgysylltu â chynulleidfaoedd

3. Effaith ar y farchnad

Mae gan y BBC ran hanfodol i'w chwarae ym marchnad cyfryngau a darlledu'r DU. Yn ogystal â gwasanaethu cynulleidfaoedd yn uniongyrchol drwy ddarparu cynnwys a gwasanaethau, gall gyfrannu at y farchnad yn fwy eang, er enghraifft drwy hyrwyddo cystadleuaeth, cefnogi cadwyni cyflenwi ac annog arloesedd ym mhob rhan o'r sector. Rhaid i'r BBC ystyried yn benodol effeithiau ei weithgareddau ar gystadleuaeth yn y DU. Drwy gydymffurfio â'r ddyletswydd hon rhaid i'r BBC (a) ceisio osgoi effeithiau andwyol diangen ar gystadleuaeth a (b) hyrwyddo effaith gadarnhaol ar y farchnad.

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi ac yn ymgynghori ar unrhyw newidiadau sylweddol a gynllunnir	CYFLAWNWYD – gweler Materion rheoleiddiol eraill
Byddwn yn cyhoeddi'n flynyddol nifer y cwynion rheoleiddiol a gafodd eu cadarnhau a'r camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb iddynt	CYFLAWNWYD – gweler Materion rheoleiddiol eraill
Byddwn yn cyhoeddi nifer y camau gorfodi gan Ofcom mewn perthynas â chydymffurfio â Fframwaith Gweithredu Ofcom yn y maes hwn	CYFLAWNWYD – dim
Byddwn yn cyhoeddi canlyniadau unrhyw Brofion Budd y Cyhoedd	CYFLAWNWYD – gweler bbc.com/aboutthebbc/reports/consultation

4. Bod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol

Rhaid i'r BBC gynnal safonau uchel o fod yn agored a cheisio sicrhau'r tryloywder a'r atebolrwydd gorau posibl. Rhaid iddo gyhoeddi cofnodion y Bwrdd, penderfyniadau pwysig yn ymwneud â newidiadau i gylch gwaith/gwasanaethau, a chofnodion cyfarfodydd Pwyllgorau. Mae hefyd angen i'r Bwrdd ystyried manteision ymgynghori â phobl sydd â diddordeb.

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi Cynllun Blynyddol sy'n nodi blaenoriaethau strategol, cynlluniau creadigol a chyllideb y BBC ac unrhyw newidiadau sylweddol arfaethedig i wasanaethau	CYFLAWNWYD – gweler bbc.com/aboutthebbc
We will publish the following after the relevant event: • cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd: • penderfyniadau pwysig yn ymwneud â newidiadau i'r cylch gwaith creadigol, cynllun gwaith a newidiadau sylweddol i weithgareddau Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â gwasanaethau, a gweithgareddau masnachol • cofnodion cryno cyfarfodydd pwyllgorau'r Bwrdd	CYFLAWNWYD – gweler bbc.com/aboutthebbc
Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, sy'n cynnwys crynodeb manwl o berfformiad yn erbyn ein cwotâu rheoleiddiol; manylion ariannol llawn a chyfrifon; a gwybodaeth sydd ei hangen fel rhan o'n hadroddiad gwybodaeth am gydraddoldeb	CYFLAWNWYD
Byddwn yn parhau i gyhoeddi'r datgeliadau cyflog sy'n ofynnol o dan y Siarter, ynghyd â'n cyfundrefn wirfoddol o ddatgelu cyflogau chwarterol a threuliau ar gyfer uwch-reolwyr	CYFLAWNWYD – gweler yr Adroddiad cydnabyddiaeth

Perfformiad yn erbyn ymrwymiadau cyhoeddus

Dyletswyddau Cyffredinol – parhad

5. Partneriaeth

Bydd y BBC yn cydweithio ac yn gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig yn yr economi greadigol, er budd y cyhoedd. Dylai greu partneriaeth ag amrywiaeth eang o sefydliadau o bob maint, yn cynnwys rhai masnachol ac anfasnachol, o bob cwr o'r DU. Dylai partneriaethau fod yn deg ac yn fuddiol i bawb gan briodoli a chydabod partneriaid yn briodol.

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn casglu ac yn cyhoeddi data perfformiad ar allbwn a gweithgarwch partneriaethau allweddol, yn cynnwys ar yr amrywiaeth o bartneriaethau sydd gan y BBC, yr amrywiaeth o bartneriaid, ehangder daearyddol, ac effaith	CYFLAWNWYD – gweler Partneriaethau a mentrau cydweithredol

6. Amrywiaeth

Rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn adlewyrchu cymunedau amrywiol y Deyrnas Unedig gyfan drwy ei allbwn, y ffordd y caiff ei allbwn a'i wasanaethau eu darparu, ac yn nhrefniadaeth a rheolaeth y BBC. Mae hyn yn cynnwys cefnogi ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol y DU.

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi data manwl ar amrywiaeth ein holl staff, gan gynnwys cefndir economaidd-gymdeithasol, fel rhan o'n Hadroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb blynyddol.	CYFLAWNWYD – gweler yr adroddiad gwybodaeth am gydraddoldeb
Byddwn yn parhau i gyhoeddi gwybodaeth am y bwlch cyflog rhwng y rhywiâu, a dadansoddiad o'n bylchau cyflog ar gyfer grwpiau eraill	CYFLAWNWYD – gweler yr adroddiad ar y Bwlch Cyflog yn y BBC
Byddwn hefyd yn cyhoeddi data mesur perfformiad, a gasglwyd wrth gyflawni ein pedwerydd diben cyhoeddus	CYFLAWNWYD

7. Technoleg

Rhaid i'r BBC hyrwyddo arloesedd technolegol, a chynnal rôl arweiniol mewn gwaith ymchwil a datblygu. Er mwyn gwneud hyn, mae angen iddo geisio gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill a rhannu, cyn belled ag y bo'n rhesymol, ei wybodaeth a'i dechnolegau ymchwil a datblygu.

Mesur	Cyflawnwyd
